

Rheolau Gweithdrefnau'r Cyngor

CYFLWYNIAD

Rheolau trafodaethau a gweithdrefnau ar gyfer cynnal cyfarfodydd o'r Cyngor llawn yw'r rhain, gan nodi hefyd lle mae'r rheolau hyn yn berthnasol i gyfarfodydd pwyllgorau ac is-bwyllgorau.

	Rhif Tudalen
1. Rheolau Gweithdrefnau'r Cyngor	1
2. Rheolau Gweithdrefnau Mynediad at Wybodaeth	24
3. Rheolau Gweithdrefnau'r Gyllideb a Fframwaith Polisi	32
4. Rheolau Gweithdrefnau'r Weithrediaeth	37
5. Rheolau Gweithdrefnau Trosolwg a Chraffu	62
6. Rheolau Gweithdrefnau Ariannol – Rheoliadau Ariannol	71
7. Rheolau Gweithdrefnau Ariannol – Rheolau Sefydlog ar gyfer Contractau	102
8. Protocol ar gyfer Gwaredu Eiddo	122
9. Rheolau Gweithdrefnau Cyflogi Swyddogion	128
10. Rheolau Ymgynghori	157

CYNNWYS

Rheol	Rhif Tudalen
1. Cyfarfod blynyddol y Cyngor	4
2. Cyfarfodydd arferol	5
3. Cyfarfodydd arbennig	6
4. Penodi dirprwy aelodau i bwyllgorau ac is-bwyllgorau	6
5. Amser a lleoliad cyfarfodydd	7
6. Hysbysiadau cyfarfodydd a galwadau iddynt	7
7. Cadeirydd y cyfarfod	7
8. Cworwm	7
9. Hyd y cyfarfod	8
10. Cwestiynau gan aelodau	8
11. Cynigion gyda rhybudd	10
12. Cynigion heb rybudd	11
13. Rheolau trafodaeth	12
14. Penderfyniadau a chynigion blaenorol	15
15. Pleidleisio	16
16. Cofnodion	17
17. Cofnod presenoldeb	17
18. Eithrio'r cyhoedd	17
19. Ymddygiad yr aelodau	17
20. Tarfu gan y cyhoedd	18
21. Atal a diwygio Rheolau Gweithdrefnau'r Cyngor	18
22. Archwilio Tiroedd, Safleoedd ac ati	19
23. Materion a adroddir er gwybodaeth	19
24. Presenoldeb mewn Pwyllgorau	19

25. Cofnodi cyfarfodydd	20
26. Datgan buddiannau aelodau	20
27. Dirprwyaethau a deisebau	21
28. Cymhwyso'r rheolau gan bwyllgorau ac is-bwyllgorau	22
29. Materion brys	22
30. Rheolau Gweithdrefnau Cyflogi Swyddogion	22

NODYN:

- (a) ***Mae'r holl gyfeiriadau at y "swyddog priodol" yn y Rheolau hyn yn cyfeirio at Brif Weithredwr y Cyngor;***
- (b) ***Bydd cyfeiriadau at "yn ysgrifenedig" yn cynnwys negeseuon a anfonwyd trwy e-bost yn enw'r aelod, neu drwy neges ffacs a lofnodwyd gan yr aelod hwnnw.***

1. CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR

1.1 Amseru a busnes

Mewn blwyddyn lle ceir etholiad cyffredin o gynghorwyr, caiff y cyfarfod blynyddol ei gynnal cyn pen 21 diwrnod ar ôl ymadawiad y cynghorwyr sy'n ymadael. Mewn unrhyw flwyddyn arall, caiff y cyfarfod blynyddol ei gynnal ar unrhyw ddiwrnod a bennir gan y Cyngor yn ystod misoedd Mawrth, Ebrill neu Fai.

Bydd y cyfarfod blynyddol:

- (i) yn ethol person i lywyddu os na fydd cadeirydd y Cyngor yn bresennol;
- (ii) yn ethol y Maer;
- (iii) yn ethol y Dirprwy Faer;
- (iv) yn derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Maer a/neu'r pennaeth gwasanaeth cyflogedig;
- (v) yn ethol yr arweinydd; bydd yr arweinydd mewn swydd am gyfnod o bum mlynedd neu hyd nes y bydd yn peidio â bod yn aelod (p'un bynnag yw'r cyfnod lleiaf) neu y caiff ei ddiswyddo oherwydd pleidlais drwy fwyafrif gan y Cyngor yn dilyn cynnwys eitem busnes i ystyried y mater hwn ar Agenda'r Cyngor).
- (vi) yn cytuno ar nifer yr aelodau sydd i'w penodi i'r weithrediaeth ac yn cael gwybod gan yr arweinydd enwau'r cynghorwyr mae wedi eu dewis i fod yn aelodau o'r cabinet.
- (vii) yn penodi o leiaf un pwyllgor trosolwg a chraffu, Pwyllgor Safonau a phwyllgorau eraill o'r fath y mae'r Cyngor yn eu hystyried yn briodol i ymdrin â materion nad ydynt yn cael eu cadw yn ôl i'r Cyngor nac yn swyddogaethau gweithrediaeth (fel y nodir yn Rhan 3, Tabl 1 o'r Cyfansoddiad hwn);
- (viii) yn cytuno ar y rhan o'r cynllun dirprwyo y mae'r Cyfansoddiad yn pennu mai'r Cyngor sydd i gytuno arni (fel y nodir yn Rhan 3 Tabl 3 o'r Cyfansoddiad hwn);

1.2 Dethol Cynghorwyr ar Bwyllgorau a Chyrff Allanol

Yn y cyfarfod blynyddol, bydd cyfarfod y Cyngor:

- (i) yn penderfynu pa bwyllgorau i'w sefydlu ar gyfer y flwyddyn fwrdeistrefol;
- (ii) yn penderfynu maint a chylch gorchwyl y pwyllgorau hynny;
- (iii) yn penderfynu ar ddyraniad seddau i'r grwpiau gwleidyddol yn unol â'r rheolau cydbwysedd gwleidyddol;
- (iv) yn cael enwebiadau am gynghorwyr i wasanaethu ar bob pwyllgor a chorff allanol; ac
- (v) yn penodi aelodau i'r pwyllgorau a chyrff allanol hynny ac eithrio lle mae'r broses o benodi i'r cyrff hynny wedi cael ei dirprwyo gan y Cyngor neu y gellir ei harfer gan y weithrediaeth yn unig.

2. CYFARFODYDD ARFEROL

Cynhelir cyfarfodydd arferol y Cyngor yn unol â rhaglen a benderfynir yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor. Bydd cyfarfodydd arferol:

- (i) yn ethol person i lywyddu os nad yw'r cadeirydd a'r is-gadeirydd yn bresennol;
- (ii) yn cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf;
- (iii) yn cael unrhyw ddatganiadau o fuddiant oddi wrth aelodau;
- (iv) yn cael unrhyw gyhoeddiadau oddi wrth y cadeirydd neu'r arweinydd neu'r pennaeth gwasanaeth cyflogedig;
- (v) yn ymdrin ag unrhyw fusnes o gyfarfod diwethaf y Cyngor;
- (vi) yn cael argymhellion gan y weithrediaeth a phwyllgorau'r Cyngor ac yn cael cwestiynau ac atebion ar unrhyw un o'r adroddiadau hynny;
- (vii) yn cael adroddiadau ynghylch, a chwestiynau ac atebion am, fusnes trefniadau ar y cyd a sefydliadau allanol;
- (viii) yn ystyried cynigion; ac
- (ix) yn trafod unrhyw fusnes arall a nodwyd yn yr alwad i'r cyfarfod, gan gynnwys ystyried argymhellion y weithrediaeth mewn perthynas â chyllideb a fframwaith polisi'r Cyngor ac adroddiadau'r pwyllgorau trosolwg a chraffu i'w trafod.

3. CYFARFODYDD ARBENNIG

3.1 Galw Cyfarfodydd Arbennig.

Gall y rhai a restrir isod ofyn i'r swyddog priodol alw cyfarfodydd Cyngor yn ychwanegol at y cyfarfodydd arferol:

- i) y Cyngor, trwy benderfyniad;
- (ii) cadeirydd y Cyngor;
- (iii) y swyddog monitro; ac
- (iv) unrhyw bum aelod o'r Cyngor os ydynt wedi llofnodi cais a gyflwynwyd i gadeirydd y Cyngor a bod yntau wedi gwrthod galw cyfarfod neu wedi methu â galw cyfarfod cyn pen saith diwrnod ar ôl cyflwyno'r cais.

4. DIRPRWY AELODAU

4.1 Dyrannu

Mewn achos o salwch neu absenoldeb anochel, gall grŵp gwleidyddol enwebu aelod sy'n eilydd i'r pwyllgorau canlynol yn lle'r aelod nad yw'n gallu bod yn bresennol.

- (a) Apeliadau disgyblu/cwynion cyflogaeth;
- (b) Penodiadau (swyddi'n gysylltiedig â Phenaethiaid Gwasanaeth/ Prif Swyddogion);
- (c) Pensiynau/lawndal;
- (d) Adolygiad ail-raddio;
- (e) Hawliau Tramwy

NODER – ar gyfer yr apeliadau disgyblu/cwynion cyflogaeth:

- (i) rhaid i'r eilyddion gael eu henwi ymlaen llaw gan y grwpiau gwleidyddol;
- (ii) ni chaiff unrhyw aelod gymryd rhan yn y pwyllgor heb gael hyfforddiant yn gyntaf ar fformat a gymeradwywyd gan Bennaeth Rheoli Pobl.

Noder: Gwaherddir defnyddio Aelodau sy'n eilyddion ar y Pwyllgor Cynllunio.

4.2 Pwerau a dyletswyddau

Bydd gan yr aelodau sy'n eilyddion holl bwerau a dyletswyddau unrhyw aelod arferol o'r pwyllgor ond ni fyddant yn gallu arfer unrhyw bwerau neu ddyletswyddau arbennig y gall y person maent yn eilyddio drosto eu harfer.

4.3 Eilyddio

Gall aelodau sy'n eilyddion fynychu cyfarfodydd dim ond:

- (i) i gymryd lle'r aelod arferol y mae'n eilydd dynodedig ar ei gyfer;
- (ii) os yw'r aelod arferol yn absennol am y cyfarfod cyfan; a
- (iii) ar ôl i Ysgrifennydd dynodedig grŵp gwleidyddol roi gwybod i'r swyddog priodol, cyn y cyfarfod, am yr eilyddio a fwriedir.

5. AMSER A LLEOLIAD CYFARFODYDD

Caiff amser a lleoliad cyfarfodydd eu penderfynu gan y swyddog priodol ac fe'u hysbysir yn yr alwad i'r cyfarfod. Pan fydd y cyfarfod i'w gynnal yn unol â threfniadau'r Cyngor ar gyfer cyfarfodydd aml-leoliad, bydd yr alwad hefyd yn cynnwys manylion ynghylch sut i gael mynediad i'r cyfarfod o bell.

6. HYSBYSIADAU CYFARFODYDD A GALWADAU IDDYNT

6.1 Galw cyfarfod

Bydd y swyddog priodol yn hysbysu'r cyhoedd am amser a lleoliad unrhyw gyfarfod yn unol â'r Rheolau Mynediad at Wybodaeth. O leiaf tri diwrnod gwaith llawn cyn cyfarfod, oni fo'r cyfarfod yn cael ei alw yn unol â chyfraith ar rybudd byrrach, bydd y swyddog priodol yn anfon galwad a lofnodwyd ganddo drwy'r post at holl aelodau'r Cyngor, neu'n ei adael yn eu cyfeiriadau preswyl arferol. Bydd yr alwad yn nodi dyddiad, amser a lleoliad pob cyfarfod a, phan gynhelir cyfarfodydd yn unol â threfniadau'r Cyngor ar gyfer cyfarfodydd aml-leoliad, fanylion am sut i gael mynediad i'r cyfarfod o bell. Bydd yr alwad hefyd yn pennu'r busnes i'w drafod, ac yn cynnwys unrhyw adroddiadau sydd ar gael.

6.2 Canslo neu ohirio cyfarfod

Gall y swyddog priodol ganslo neu ohirio cyfarfod, ar ôl ymgynghori â chadeirydd y cyfarfod hwnnw, os yw'n ymddangos y dylid canslo neu ohirio'r cyfarfod er budd cyflawni busnes y Cyngor yn briodol.

7. CADEIRYDD Y CYFARFOD

Caiff y person sy'n llywyddu'r cyfarfod arfer unrhyw un o bwerau neu ddyletswyddau'r cadeirydd. Os yw'r rheolau hyn yn berthnasol i gyfarfodydd pwyllgorau ac is-bwyllgorau, mae'r cyfeiriadau at y cadeirydd hefyd yn cynnwys cadeirydd y pwyllgorau a'r is-bwyllgorau.

8. CWORWM

8.1 Ar wahân i gyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio, cworwm cyfarfod fydd chwarter nifer gyfan yr aelodau. Bydd oedi o hyd at 15 munud ar ddechrau cyfarfod os na fydd cworwm yn bresennol ar yr amser dechrau penodedig. Yn ystod unrhyw gyfarfod, os yw'r cadeirydd yn cyfrif nifer yr aelodau sy'n bresennol ac yn datgan nad oes cworwm yn bresennol, caiff y cyfarfod ei ohirio ar unwaith. Caiff y busnes sy'n weddill ei drafod

ar amser a dyddiad a bennir gan y cadeirydd. Os na fydd yn pennu dyddiad, caiff y busnes sy'n weddill ei drafod yn y cyfarfod arferol nesaf.

- 8.2 Ni cheir trafod unrhyw fusnes yn y Pwyllgor Cynllunio oni fydd o leiaf hanner cyfanswm nifer Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio wedi'i dalgrynnu i'r rhif cyfan agosaf yn bresennol.

8.3 Presenoldeb o bell

- 8.3.1 Ystyrir bod Aelodau'n bresennol mewn cyfarfod pan fyddant yn mynychu'r cyfarfod hwnnw drwy ddulliau o bell yn unol â threfniadau'r Cyngor ar gyfer cyfarfodydd aml-leoliad cyn belled â'u bod yn gallu siarad, clywed a chael eu clywed gan fynychwyr eraill y cyfarfod.
- 8.3.2 At ddibenion adran 8.4.1, mae presenoldeb "drwy ddulliau o bell" yn golygu bod yn bresennol mewn lleoliad ffisegol gwahanol i gyfranogwyr eraill a chymryd rhan drwy lwyfan cyfarfod ar-lein.

9. HYD Y CYFARFOD

- 9.1 Bydd unrhyw gyfarfod o'r Cyngor neu bwyllgor neu is-bwyllgor sydd wedi eistedd am gyfnod o dair awr yn cael ei ohirio, oni fydd mwyafrif yr Aelodau sy'n bresennol, drwy bleidlais heb drafodaeth, yn penderfynu parhau, AR YR AMOD na ellir ymestyn y cyfarfod am fwy nag un awr, ac na fydd unrhyw gyfarfod yn parhau heibio i 9.00 p.m.
- 9.2 Ni fydd y cyfyngiad hwn yn berthnasol mewn perthynas â chyfarfodydd y Pwyllgor Trwyddedu, y Pwyllgor Cynllunio, y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu a'r Pwyllgor Apeliadau.

10. CWESTIYNAU GAN AELODAU

- 10.1 Caiff aelod o'r Cyngor ofyn unrhyw gwestiwn i'r Arweinydd neu'r aelod Cabinet priodol ynghylch eitem mewn adroddiad pwyllgor pan fydd yr eitem honno'n cael ei hystyried gan y Cyngor.
- 10.2 Caiff aelod o'r Cyngor ofyn unrhyw gwestiwn i'r Arweinydd ynghylch unrhyw fater mae gan y Cyngor bwerau neu ddyletswyddau mewn perthynas ag ef, neu sy'n effeithio ar ardal y Cyngor neu unrhyw ran ohoni, neu drigolion yr ardal neu unrhyw ran ohoni, os rhoddwyd i'r Prif Weithredwr o leiaf bum diwrnod gwaith llawn o rybudd yn ysgrifenedig am y cwestiwn.
- 10.3 Caiff aelod o'r Cyngor ofyn unrhyw gwestiwn i aelod Cabinet ynghylch unrhyw fater o fewn eu portffolio os rhoddwyd i'r Prif Weithredwr o leiaf bum diwrnod gwaith llawn o rybudd yn ysgrifenedig am y cwestiwn.

- 10.4 Bydd uchafswm o dri chwestiwn yn cael eu hateb ar lafar (gan gyfrif fel 2 i'r Arweinydd os gofynnir cwestiwn a chwestiwn atodol iddo) ym mhob un o gyfarfodydd y Cyngor.
- 10.5 Gyda chaniatâd y Maer, caiff aelod o'r Cyngor ofyn unrhyw gwestiwn i'r Arweinydd neu aelod o'r Cabinet sy'n ymwneud â busnes brys os rhoddwyd i'r Prif Weithredwr rybudd yn ysgrifenedig am y cwestiwn heb fod yn hwyrach na 9.00am ar ddiwrnod y cyfarfod.
- 10.6 Mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro, gall y Prif Weithredwr wrthod cwestiwn:-
- (a) os nad yw'n bodloni'r meini prawf a nodir yn 10(2) neu 10(4).
 - (b) os yw'n ddifenwol, yn wacsaw neu'n dramgwyddus.
 - (c) os yw'n ailadrodd cwestiwn sydd wedi'i godi yn un o gyfarfodydd y Cyngor yn ystod y chwe mis diwethaf.
 - (d) os yw'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig.
 - (e) os yw'n ymwneud â mater sy'n destun achos cyfreithiol neu orfodi, neu apêl i lys/tribiwnlys/un o Weinidogion y Llywodraeth/Senedd Cymru, neu ymchwiliad cyfredol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, neu'n ymwneud â phenderfyniad a wnaed gan y Cyngor wrth arfer ei swyddogaethau rheoleiddiol lle mae hawliau unioni cyfreithiol mewn perthynas ag ef.
 - (f) os yw'n ymwneud ag amgylchiadau personol, neu ymddygiad swyddog neu Gynghorydd, neu amodau gwasanaeth cyflogeion unigol.
 - (g) os yw'n ceisio hyrwyddo plaid neu sefydliad gwleidyddol.
 - (h) os yw'n ddatganiad ac nid yn ymholiad dilys.
 - (i) os byddai angen treulio maint anghymesur o amser neu wario swm anghymesur o arian cyhoeddus neu wneud ymdrech anghymesur i baratoi'r ateb.
 - (j) os yw'n ymwneud â gwybodaeth sydd ar gael yn hawdd mewn adroddiad a gyflwynwyd yn flaenorol i'r Cyngor, y Cabinet neu'r Pwyllgor Craffu. Yn yr achos hwn, rhoddir gwybod i'r Aelod am ddyddiad yr adroddiad perthnasol.

Bydd penderfyniad y Prif Weithredwr ynghylch y mater uchod yn derfynol, a rhoddir y rhesymau am wrthod i'r Aelod perthnasol yn ysgrifenedig.

- 10.7 Caiff cwestiynau y rhoddwyd rybudd ohonynt o dan 10(2) a/neu 10(3) eu rhestru ar yr agenda yn y drefn y daethant i law'r Prif Weithredwr.

- 10.8 Dylid rhoi pob cwestiwn ger bron a'i ateb heb drafodaeth.
- 10.9 Caiff Aelod sy'n gofyn cwestiwn o dan 10(2) ofyn un cwestiwn atodol heb rybudd i'r Arweinydd. Rhaid i'r cwestiwn atodol ddeillio'n uniongyrchol o'r cwestiwn gwreiddiol neu'r ymateb.
- 10.10 Ni chaiff yr Arweinydd neu aelod o'r Cabinet dreulio mwy na thair munud yn rhoi ei ateb ar lafar.
- 10.11 Caiff ateb i gwestiwn a ofynnir yn un o gyfarfodydd y Cyngor fod ar ffurf:
- (a) ateb uniongyrchol ar lafar; neu
 - (b) lle mae'r wybodaeth a ddymunir wedi'i chynnwys mewn cyhoeddiad gan y Cyngor, cyfeiriad at y cyhoeddiad hwnnw.
- 10.12 Bydd unrhyw gwestiwn sy'n dod i law ar ôl cael yr uchafswm o dri, y cyfeirir ato ym mharagraff 10(4), yn cael ateb ysgrifenedig.
- 10.13 Caiff y cwestiynau a'r atebion i'r cwestiynau eu cynnwys yng nghofnodion y cyfarfod.

11. CYNIGION GYDA RHYBUDD

- 11.1 Ac eithrio cynigion y gellir eu gwneud heb rybudd, ceir rhybudd ysgrifenedig am bob cynnig, wedi'i lofnodi gan yr Aelod neu'r Aelodau sy'n rhoi'r rhybudd yn swyddfa'r Prif Weithredwr, a fydd yn ei ddyddio a'i rifo yn y drefn y daeth i law, a'i nodi mewn llyfr a fydd ar gael i'w archwilio gan bob Aelod o'r Cyngor.
- 11.2 Rhaid i'r Hysbysiad o Gynnig gynnwys y geiriad mae'r aelodau hynny yn dymuno i'r Cyngor ei gofnodi fel ei benderfyniad yn unig. Rhaid iddo beidio â chynnwys unrhyw sylw neu ddadl ynghylch rhinweddau'r mater. Gellir atodi gwybodaeth neu ffotograffau ategol i Hysbysiad o Gynnig a gaiff ei chynnwys / eu cynnwys ym mhapurau'r Agenda sy'n nodi'r Hysbysiad o Gynnig. Ar ôl ymgynghori â'r Cadeirydd, gall y Swyddog Priodol wrthod y Hysbysiad o Gynnig yn gyfan gwbl, neu wrthod rhan ohono, gan gynnwys beirniadaeth bersonol o aelod.
- 11.3 Ar ôl ei gyflwyno, caiff Hysbysiad o Gynnig ei gyfeirio'n awtomatig i'r pwyllgor trosolwg a chraffu priodol. Dim ond un Hysbysiad o Gynnig fydd yn cael ei ystyried gan bob Pwyllgor Craffu mewn unrhyw gyfarfod arferol. Dim ond Hysbysiadau o Gynnig sy'n cael cefnogaeth y pwyllgor trosolwg a chraffu fydd yn cael eu cyfeirio at y Cyngor neu'r Weithrediaeth, yn dibynnu ar ba un sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau mewn perthynas â thestun yr Hysbysiad o Gynnig. Mae gan lofnodwyr y Hysbysiad o Gynnig yr hawl i fynd i gyfarfod y Pwyllgor Craffu, i siarad ond nid i bleidleisio.

Ar yr amod bod Cadeirydd y Cyngor yn ei ystyried yn gyfleus ac yn gydnaws â'r broses o gyflawni busnes, caiff ganiatáu i'r cynnig gael ei ystyried yn ystod y cyfarfod nesaf o'r Cyngor sydd ar gael, heb iddo gael ei drafod yn gyntaf gan bwyllgor trosolwg a chraffu.

- 11.4 Pan gaiff y Hysbysiad o Gynnig ei ystyried, bydd gan lofnodwyr y cynnig yr hawl i ddiwygio'r Cynnig os na fydd y diwygiadau'n rhai arwyddocaol. Bydd penderfyniad y Cadeirydd ynghylch a yw diwygiad yn un arwyddocaol yn derfynol.
- 11.5 Bydd pob cynnig yn berthnasol i ryw fater y mae gan y Cyngor bwerau drosto neu ddyletswyddau amdano, neu sy'n effeithio ar y Fwrdeistref Sirol.
- 11.6 Dim ond un Hysbysiad o Gynnig fydd yn cael ei ystyried mewn cyfarfod y Cyngor neu gyfarfod y Weithrediaeth.

12. CYNIGION HEB RYBUDD

Gellir gwneud y cynigion canlynol heb rybudd:

- (a) i benodi cadeirydd y cyfarfod lle gwneir y cynnig;
- (b) mewn perthynas â chywirdeb y cofnodion;
- (c) i newid trefn y busnes ar yr agenda;
- (d) i gyfeirio rhywbeth at gorff neu unigolyn priodol;
- (e) i benodi pwyllgor neu aelod sy'n codi o eitem a nodir ar yr alwad i'r cyfarfod;
- (f) i gael adroddiadau neu fabwysiadu argymhellion pwyllgorau neu swyddogion ac unrhyw benderfyniadau sy'n codi ohonynt;
- (g) i dynnu cynnig yn ôl;
- (h) i ddiwygio cynnig;
- (i) i fynd ymlaen at y busnes nesaf;
- (j) i roi'r cwestiwn gerbron yn awr;
- (k) i ohirio trafodaeth;
- (l) i ohirio cyfarfod;
- (m) bod y cyfarfod yn parhau am fwy na thair awr;

- (n) i atal dros dro un o reolau penodol gweithdrefn y cyngor;
- (o) i eithrio'r cyhoedd a'r wasg yn unol â'r Rheolau Mynediad at Wybodaeth;
- (p) i beidio â chlywed rhagor gan aelod a enwir o dan y rheolau hyn neu i'w eithrio o'r cyfarfod o dan y rheolau hyn; ac
- (q) i roi cydsyniad y Cyngor os yw'n ofynnol i'w roi o dan y Cyfansoddiad hwn.

13. RHEOLAU TRAFODAETH

13.1 Dim areithiau hyd nes y caiff y cynnig ei eilio

Ni cheir gwneud unrhyw areithiau ar ôl i'r cynigydd roi cynnig gerbron ac esbonio ei ddiben, hyd nes y caiff y cynnig ei eilio.

13.2 Yr hawl i ofyn am gynnig yn ysgrifenedig

Oni roddwyd rhybudd o'r cynnig eisoes, gall y cadeirydd ofyn am iddo gael ei ysgrifennu a'i roi iddo cyn y caiff ei drafod.

13.3 Araith yr eiliwr

Wrth eilio cynnig neu ddiwygiad, gall aelod gadw ei araith yn ôl tan yn hwyrach yn y drafodaeth.

13.4 Cynnwys a hyd areithiau

- (a) Rhaid cyfeirio areithiau i'r cwestiwn sy'n cael ei drafod neu at esboniad personol neu bwynt o drefn. Ac eithrio Arweinydd y Cyngor, ni chaiff unrhyw araith bara mwy na phum munud heb gydsyniad y cadeirydd.
- (b) Caiff hyd areithiau mewn Pwyllgor Craffu ei bennu yn ôl disgrisiwn Cadeirydd y cyfarfod hwnnw.

13.5 Pryd y caiff aelod siarad eto

Ni chaiff aelod a siaradodd am gynnig siarad eto tra bo'n destun trafod, ac eithrio:

- (a) i siarad unwaith am ddiwygiad a gynigiwyd gan aelod arall;
- (b) i gynnig diwygiad pellach os yw'r cynnig wedi'i ddiwygio ers iddo siarad;
- (c) os oedd ei araith gyntaf ar ddiwygiad a gynigiwyd gan aelod arall, i siarad am y prif bwnc (p'un ai y derbyniwyd y diwygiad y siaradodd amdano neu beidio);
- (d) er mwyn arfer hawl i ateb;

- (e) ar bwynt o drefn;
- (f) er mwyn rhoi esboniad personol;
- (g) mewn Pwyllgor Craffu, gyda chaniatâd Cadeirydd y cyfarfod hwnnw.

13.6 Diwygiadau i gynigion

- (a) Rhaid i ddiwygiad i gynnig fod yn berthnasol i'r cynnig, a bydd naill ai:
 - (i) i gyfeirio'r mater at gorff neu unigolyn priodol i gael ei ystyried neu ei ail-ystyried;
 - (ii) i hepgor geiriau;
 - (iii) i hepgor geiriau, a chynnwys neu ychwanegu rhai eraill; neu
 - (iv) i gynnwys neu ychwanegu geiriau.

ar yr amod na fydd effaith (ii) i (iv) yn negyddu'r cynnig.
- (b) Dim ond un diwygiad y gellir ei gynnig a'i drafod ar unrhyw adeg. Ni ellir cynnig diwygiad pellach hyd nes y bydd y diwygiad sy'n cael ei drafod wedi'i benderfynu.
- (c) Os na chaiff diwygiad ei dderbyn, gellir cynnig diwygiadau eraill i'r cynnig gwreiddiol.
- (d) Os caiff diwygiad ei dderbyn, mae'r cynnig a ddiwygiwyd yn cymryd lle'r cynnig gwreiddiol. Hwn fydd y cynnig o sylwedd y bydd unrhyw ddiwygiadau pellach yn cael eu cynnig iddo.
- (e) Ar ôl derbyn diwygiad, bydd y cadeirydd yn darllen y cynnig diwygiedig yn uchel cyn derbyn unrhyw ddiwygiadau pellach, neu os nad oes dim, yn rhoi'r cynnig i bleidlais.
- (f) Gall aelod roi rhybudd am ddiwygiad pellach ar unrhyw adeg cyn y penderfynir ar y diwygiad sy'n cael ei drafod, a chaiff diwygiadau pellach o'r fath eu hystyried yn ôl y drefn y rhoddwyd rhybudd amdanynt.

13.7 Newid cynnig

- (a) Caiff aelod newid cynnig y rhoddodd rybudd amdano gyda chydysyniad y cyfarfod. Caiff cydsyniad y cyfarfod ei fynegi heb drafodaeth.
- (b) Caiff aelod newid cynnig a gynigiodd heb rybudd gyda chydysyniad y cyfarfod a'r eiliwr ill dau. Caiff cydsyniad y cyfarfod ei fynegi heb drafodaeth.
- (c) Dim ond newidiadau y gellid eu gwneud fel diwygiadau y gellir eu gwneud.

13.8 Tynnu cynnig yn ôl

Caiff aelod dynnu yn ôl gynnig a gynigiodd gyda chydysyniad y cyfarfod a'r eiliwr. Caiff cydsyniad y cyfarfod ei fynegi heb drafodaeth. Ni chaiff unrhyw aelod siarad am y cynnig wedi i'r cynigydd ofyn am ganiatâd i'w dynnu'n ôl oni bai y gwrthodwyd caniatâd.

13.9 Hawl i ateb

- (a) Mae gan gynigydd cynnig yr hawl i ateb ar ddiwedd y drafodaeth ar y cynnig, yn syth cyn rhoi'r cynnig i bleidlais.
- (b) Os caiff diwygiad ei gynnig, mae gan gynigydd y cynnig gwreiddiol yr hawl i ateb ar ddiwedd y drafodaeth ar y diwygiad, ond ni chaiff siarad amdano fel arall.
- (c) Nid oes gan gynigydd y diwygiad hawl i ateb i'r drafodaeth ar ei ddiwygiad.

13.10 Cynigion y gellir eu gwneud yn ystod trafodaeth

Pan fo cynnig yn cael ei drafod, ni ellir cynnig un arall ac eithrio'r cynigion gweithdrefnol canlynol:

- (a) i dynnu cynnig yn ôl;
- (b) i ddiwygio cynnig;
- (c) i symud ymlaen at y busnes nesaf;
- (d) i roi'r cwestiwn ger bron yn awr;
- (e) i ohirio trafodaeth;
- (f) i ohirio cyfarfod;
- (g) bod y cyfarfod yn parhau am fwy na thair awr;
- (h) i eithrio'r cyhoedd a'r wasg yn unol â'r Rheolau Mynediad at Wybodaeth; a
- (i) i beidio â chlywed rhagor gan aelod a enwir o dan Reol 19.3 neu ei wahardd o'r cyfarfod o dan Reol 19.4.

13.11 Cynigion cloi

- (a) Caiff aelod na siaradodd yn ystod y ddadl gynnig, heb sylw, y cynigion canlynol ar ddiwedd araith gan aelod arall:
 - (i) i symud/fynd ymlaen at y busnes nesaf;
 - (ii) i roi'r cwestiwn gerbron yn awr;
 - (iii) i ohirio trafodaeth; neu

(iv) i ohirio cyfarfod.

- (b) Os caiff cynnig i fynd ymlaen at y busnes nesaf ei eilio ac mae'r cadeirydd o'r farn y trafodwyd yr eitem yn ddigonol, bydd yn rhoi hawl i ateb i gynigydd y cynnig gwreiddiol ac yna'n rhoi'r cynnig gweithdrefnol i bleidlais.
- (c) Os caiff cynnig i roi'r cwestiwn gerbron ei eilio ac mae'r cadeirydd o'r farn y trafodwyd yr eitem yn ddigonol, bydd yn rhoi'r cynnig gweithdrefnol i bleidlais. Os cytunir arno, bydd yn rhoi hawl i ateb i gynigydd y cynnig gwreiddiol cyn rhoi ei gynnig i bleidlais.
- (d) Os caiff cynnig i ohirio'r drafodaeth neu i ohirio'r cyfarfod ei eilio ac mae'r cadeirydd o'r farn nad yw'r eitem wedi'i drafod yn ddigonol ac nid oes modd rhesymol ei drafod yn ddigonol ar yr achlysur hwnnw, bydd yn rhoi'r cynnig gweithdrefnol i bleidlais heb roi hawl i ateb i gynigydd y cynnig gwreiddiol.

13.12 Pwynt o drefn

Caiff aelod godi pwynt o drefn ar unrhyw adeg. Bydd y cadeirydd yn gwrandao arno'n syth. Gall pwynt o drefn gyfeirio dim ond at doriad honedig o'r Rheolau Gweithdrefnau Cyngor hyn neu'r gyfraith. Rhaid i'r aelod nodi'r rheol neu gyfraith a'r ffordd y tybia y cafodd ei thorri. Bydd dyfarniad y cadeirydd ar y mater yn derfynol.

13.13 Esboniad personol

Gall aelod gynnig esboniad personol ar unrhyw adeg. Gall esboniad personol gyfeirio dim ond at ryw ran berthnasol o araith flaenorol gan yr aelod yr ymddengys iddi gael ei chamddeall yn ystod y drafodaeth bresennol. Bydd dyfarniad y cadeirydd ar dderbynioldeb yr esboniad yn derfynol.

14. PENDERFYNIADAU A CHYNIGION BLAENOROL

14.1 Cynnig i ddiddymu penderfyniad blaenorol

Ni ellir gwneud cynnig neu ddiwygiad i ddiddymu penderfyniad a wnaed mewn cyfarfod o'r Cyngor yn ystod y chwe mis diwethaf heblaw:

- (a) drwy rybudd o gynnig a lofnodwyd gan o leiaf tri deg pump o aelodau
- (b) os nad oedd gwybodaeth newydd arwyddocaol a oedd yn berthnasol i'r mater ar gael pan y'i trafodwyd yn gyntaf a fyddai, pe buasai ar gael, wedi effeithio'n berthnasol ar y broses o ystyried y mater.

14.2 Cynnig tebyg i un a wrthodwyd yn flaenorol

Ni ellir gwneud cynnig neu ddiwygiad sy'n debyg i un a wrthodwyd mewn cyfarfod o'r Cyngor yn y chwe mis diwethaf oni bai fod y rhybudd o gynnig neu ddiwygiad wedi'i lofnodi gan o leiaf tri deg pump o aelodau. Pan fydd y cynnig neu ddiwygiad wedi cael sylw, ni all neb wneud cynnig neu ddiwygiad tebyg am chwe mis.

15. PLEIDLEISIO

15.1 Mwyafrif

Oni fydd y Cyfansoddiad hwn yn darparu'n wahanol, caiff unrhyw fater ei benderfynu gan fwyafrif syml o'r aelodau sy'n pleidleisio yn yr ystafell pan roddwyd y cwestiwn gerbron. Bydd pleidleisio yn cael ei wneud drwy'r feddalwedd a ddefnyddir gan y Cyngor ar adeg y bleidlais.

15.2 Pleidlais fwrw'r Cadeirydd

Os ceir nifer gyfartal o bleidleisiau o blaid ac yn erbyn, bydd gan y cadeirydd bleidlais fwrw. Ni chyfyngir ar y dull a ddefnyddir gan y cadeirydd i gymryd y bleidlais fwrw. Rhoddir y bleidlais fwrw ar lafar p'un ai a bleidleisir yn electronig neu drwy godi dwylo.

15.3 Codi dwylo

Os na ddefnyddir system bleidleisio electronig neu os yw wedi methu, bydd y Cadeirydd yn cymryd y bleidlais drwy godi dwylo ac yn cyhoeddi'r canlyniad, neu os na fydd anghytundeb drwy gadarnhad y cyfarfod.

Os na ddefnyddir system bleidleisio electronig neu os yw wedi methu ac mae pleidlais gofnodedig yn ofynnol, bydd darpariaethau Rheol 15.5 yn berthnasol.

15.4 Pleidlais gofnodedig (os na ddefnyddir system bleidleisio electronig, neu os yw wedi methu)

- (1) (a) Mewn unrhyw gyfarfod o'r Cyngor llawn, ar gais a wnaed gan unrhyw ddeg o'r aelodau cyn y bleidlais, caiff y bleidlais ar unrhyw gynnig ei chofnodi er mwyn dangos sut y pleidleisiodd pob aelod oedd yn bresennol ac a bleidleisiodd. Caiff enw unrhyw aelod oedd yn bresennol ac na phleidleisiodd ei gofnodi hefyd.
- (b) Mewn unrhyw gyfarfod o bwyllgor neu is-bwyllgor o'r Cyngor, yn syth cyn y bleidlais caiff aelod gynnig pleidlais gofnodedig. Os caiff y cynnig ei eilio, caiff ei benderfynu heb drafodaeth, ac os yw mwyafrif o'r aelodau'n ei dderbyn drwy godi dwylo, caiff y pleidleisio ar y cynnig hwnnw ei gofnodi er mwyn dangos sut y pleidleisiodd pob aelod oedd yn bresennol ac a bleidleisiodd. Caiff enw unrhyw aelod oedd yn bresennol ac na phleidleisiodd ei gofnodi hefyd.

15.5 Yr hawl i ofyn am gofnodi'r bleidlais unigol

Os yw unrhyw aelod yn gofyn am gofnodi ei bleidlais yn syth ar ôl y broses bleidleisio, caiff ei bleidlais ei chofnodi yn y cofnodion i ddangos a yw wedi pleidleisio o blaid y cynnig, yn erbyn neu wedi ymatal.

15.6 Pleidleisio ar benodiadau

Bydd pleidleisio ar benodiadau yn adlewyrchu canlyniadau dull sgorio ymgeiswyr a gyflawnir gan daflenni gwerthuso a ddefnyddir fel rhan o'r broses gyfweld.

16. COFNODION

16.1 Llofnodi'r cofnodion

Bydd y cadeirydd yn llofnodi cofnodion y trafodion yn y cyfarfod addas nesaf. Bydd cadeirydd y cyfarfod y mae ei gofnodion yn cael eu hystyried (os yw'n bresennol) yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol fel cofnod cywir. Caiff unrhyw aelod eilio'r cynnig hwnnw. Dim ond cywirdeb y cofnodion y gellir ei drafod.

16.2 Nid yw'n ofynnol llofnodi cofnodion cyfarfod blaenorol mewn cyfarfod arbennig

(Mae hon yn Rheol Sefydlog orfodol o dan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006. Mae geiriad y rheol sefydlog hon wedi'i bennu yn y rheoliadau).

Mewn perthynas ag unrhyw gyfarfod o'r Cyngor os yw'r cyfarfod nesaf o'r fath wedi'i alw o dan baragraff 3 (cyfarfodydd arbennig) o Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, rhaid trin y cyfarfod dilynol nesaf o'r Cyngor (a fydd yn gyfarfod a gafodd ei alw heblaw o dan y paragraff hwnnw) fel cyfarfod addas at ddibenion paragraff 41(1) a (2) (llofnodi cofnodion) o'r atodlen honno.

16.3 Ffurf y cofnodion

Bydd y cofnodion yn cynnwys yr holl gynigion a diwygiadau yn yr union ffurf a threfn y'u codwyd gan y cadeirydd. Dim ond y cynigion a'r diwygiadau a dderbyniwyd (ac eithrio os oes pleidlais gofnodedig) a gofnodir yn y Cofnodion.

17. COFNODION PRESENOLDEB

- (1) Rhaid i'r holl aelodau sy'n bresennol yn gorfforol yn y cyfarfod cyfan neu ran ohono lofnodi eu henwau ar y taflenni presenoldeb cyn diwedd pob cyfarfod er mwyn cynorthwyo â'r cofnod presenoldeb. Bydd presenoldeb pob Aelod sy'n mynychu cyfarfod drwy ddulliau o bell yn cael ei gofnodi.

18. EITHRIO'R CYHOEDD

Dim ond yn unol â Rheolau Mynediad at Wybodaeth yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn, neu Reol 20 (Tarfu gan y Cyhoedd) y gellir eithrio aelodau o'r cyhoedd a'r wasg.

19. YMDDYGIAD YR AELODAU

19.1 Sefyll i siarad

Pan fydd aelod yn siarad â'r Cyngor llawn rhaid iddo sefyll ar ei draed ac annerch y cyfarfod trwy'r Cadeirydd. Os bydd mwy nag un aelod yn sefyll ar ei draed, bydd y cadeirydd yn gofyn i un ohonynt siarad a rhaid i'r lleill eistedd. Rhaid i'r aelodau eraill aros ar eu heistedd pan fydd aelod yn siarad, oni fyddant yn dymuno codi pwynt o drefn neu bwynt o esboniad personol.

19.2 Y Cadeirydd ar ei draed

Pan fydd y Cadeirydd yn codi ar ei draed yn ystod trafodaeth, rhaid i unrhyw aelod sy'n siarad ddistewi ac eistedd. Rhaid i'r cyfarfod fod yn ddistaw.

19.3 Peidio â chlywed rhagor gan yr Aelod

Os, ym marn y Cadeirydd, mae aelod yn anwybyddu dyfarniad y cadeirydd yn barhaus trwy ymddwyn yn amhriodol neu'n sarhaus, neu'n rhwystro busnes yn fwriadol, gall y cadeirydd gynnig nad yw'r cyfarfod yn clywed rhagor gan yr aelod. Os caiff y cynnig ei eilio, pleidleisir ar y cynnig heb drafodaeth.

19.4 Aelod yn gadael y cyfarfod

Pan fydd aelod yn ymddwyn ym mha bynnag ffordd sydd, ym marn y Cadeirydd, yn atal y cyfarfod rhag cael ei gynnal yn gywir, gall y Cadeirydd ei wneud yn ofynnol i'r aelod hwnnw adael y cyfarfod.

19.5 Tarfu cyffredinol

Os ceir tarfu cyffredinol sy'n ei gwneud yn amhosibl cynnal busnes yn drefnus, gall y cadeirydd ohirio'r cyfarfod am gyhyd ag y bo'n angenrheidiol yn ei farn ef.

20. TARFU GAN Y CYHOEDD

20.1 Symud aelod o'r cyhoedd o'r cyfarfod

Os bydd aelod o'r cyhoedd yn torri ar draws y trafodion, bydd y Maer yn rhybuddio'r person dan sylw. Os bydd yn parhau i dorri ar draws, bydd y Maer yn gorchymyn ei symud o'r ystafell gyfarfod neu ei symud o'r llwyfan ar-lein y mae'n ei ddefnyddio i gael mynediad i'r cyfarfod o leoliad arall.

20.2 Clirio rhan o ystafell gyfarfod

Os ceir tarfu cyffredinol mewn unrhyw ran o'r ystafell gyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd, gall y cadeirydd alw am glirio'r rhan honno o'r ystafell. Os ceir aflonyddwch cyffredinol ar y llwyfan cyfarfod ar-lein, caiff y Maer alw am dewi, atal dros dro neu gau'r llwyfan cyfarfod ar-lein.

21. ATAL A DIWYGIO RHEOLAU GWEITHDREFNAU'R CYNGOR

21.1 Atal

Ac eithrio Rheolau 15.5 a 16, gellir atal holl Reolau Gweithdrefnau'r Cyngor fel a ganlyn:

- (a) drwy gynnig ar rybudd;
- (b) heb rybudd os yw o leiaf hanner o nifer lawn aelodau'r Cyngor yn bresennol.

Gellir atal y rheol am hyd y cyfarfod yn unig.

21.2 Diwygio

Caiff unrhyw gynnig i ychwanegu at, amrywio neu ddirymu'r Rheolau Gweithdrefnau'r Cyngor hyn, o'i gynnig a'i eilio, ei ohirio heb drafodaeth hyd nes y cyfarfod cyffredinol nesaf o'r Cyngor.

22. ARCHWILIO TIROEDD, SAFLEOEDD AC ATI

Oni chaiff ei awdurdodi yn benodol i wneud hynny gan y Cyngor neu bwyllgor, ni chaiff unrhyw aelod o'r Cyngor gyhoeddi unrhyw orchymyn mewn perthynas ag unrhyw waith a gyflawnir gan neu ar ran y Cyngor, neu hawlio, drwy ei aelodaeth o'r Cyngor, unrhyw hawl i archwilio neu fynd ar unrhyw diroedd neu i unrhyw safleoedd y mae gan y Cyngor y pŵer neu'r ddyletswydd i'w harchwilio neu i fynd iddynt.

23. MATERION A ADRODDIR ER GWYBODAETH

Ni fydd materion a adroddir i unrhyw gyfarfod ac y dywedir eu bod "Er Gwybodaeth" yn destun unrhyw benderfyniad neu drafodaeth, heblaw mewn argyfwng ac yn amodol ar ddisgresiwn y Cadeirydd.

24. PRESENOLDEB MEWN PWYLLGORAU

- (1) Os nad yw Arweinydd y Cyngor a Dirprwy Arweinyddion y Cyngor eisoes yn bresennol fel aelod o'r Pwyllgor, bydd ganddynt yr hawl i fynychu a siarad mewn cyfarfodydd o'r Pwyllgorau a'r Is-bwyllgorau nad ydynt yn aelodau ohonynt, ond ni fydd ganddynt y grym i bleidleisio ynddynt.
- (2) Caiff aelod sy'n dymuno cymryd rhan yn nhrefodion Pwyllgor sefydlog (heblaw Pwyllgor Craffu) nad yw'n aelod ohono gymryd rhan (ond nid pleidleisio) ar yr amod:

NAILL AI -

- (i) ei fod yn rhoi rhybudd i Gadeirydd y Pwyllgor heb fod yn llai na phedair awr ar hugain cyn y cynhelir y cyfarfod;

- (ii) bod y mater dan sylw yn cyfeirio'n uniongyrchol at eitem mewn perthynas â'r isadran a gynrychiolir ganddo ac nad yw'n fater neu'n gwestiwn o fuddiant cyffredin i holl aelodau'r Cyngor, a'i fod ar Agenda'r cyfarfod dan sylw;
- (iii) y bydd ei gyfraniad wedi'i gyfyngu i un anerchiad na fydd yn para mwy na phum munud;

NEU

Fod cynnig a gynigiwyd o ganlyniad i rybudd a roddwyd yn briodol sydd wedi'i gyfeirio gan y Cyngor i'r Pwyllgor, wedi ei gynnig ganddo ef/ganddi hi.

- (3) Caiff aelod sy'n dymuno cymryd rhan yn nhrafodion Pwyllgor Craffu nad yw'n aelod ohono gymryd rhan (ond nid pleidleisio) ar yr amod:
 - (i) bod yr aelod yn rhoi rhybudd i Gadeirydd y Pwyllgor, heb fod yn llai nag un diwrnod llawn cyn y cynhelir y cyfarfod, am yr eitem mae'n dymuno siarad amdano, a
 - (ii) bod Cadeirydd y Pwyllgor yn rhoi caniatâd i'r aelod fod yn bresennol.
- (4) Caiff aelod sy'n bresennol mewn cyfarfod yn unol â darpariaethau'r rheol sefydlog hon aros yn y cyfarfod tra bo'r eitem yn cael ei thrafod (p'un a yw'r eitem yn ymwneud â thrafod gwybodaeth esempt neu beidio) a chaiff siarad amdani, ond ni fydd ganddo'r hawl i bleidleisio.
- (5) Bydd gan lofnodwyr Rhybudd o Gynnig yr hawl i fynychu'r cyfarfod lle caiff y Rhybudd ei drafod a bydd hawl ganddynt i siarad am yr eitem honno, ond ni fydd ganddo'r hawl i bleidleisio.
- (6) Mewn perthynas â'r Pwyllgor Cynllunio, caiff aelod sy'n mynychu o dan reol (2) uchod fod yn bresennol ar un achlysur yn unig. Os yw'r ceisydd neu wrthwynebydd yn annerch y pwyllgor, bydd ganddo'r hawl i fod yn bresennol ar yr achlysur hwnnw yn unig.

25. COFNODI CYFARFODYDD

- (1) Caiff unrhyw un sydd â'r hawl i fod yn bresennol mewn cyfarfod o'r Cyngor, ei Bwyllgorau neu ei Is-bwyllgorau wneud nodiadau ysgrifenedig.
- (2) Caniateir ffilmio a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn ystod cyfarfodydd cyn belled nad oes unrhyw aflonyddu ar y cyfarfod.
- (3) Bydd cyfarfodydd arferol y Cyngor yn cael eu darlledu'n fyw yn electronig ar wefan y Cyngor fel y gall aelodau o'r cyhoedd nad ydynt yn bresennol yn y cyfarfod weld a chlywed y trafodion. Bydd copïau o'r cyfarfod ar gael ar ôl y cyfarfod.

26. DATGAN BUDDIANNAU AELODAU

Os yw unrhyw aelod o'r Cyngor wedi datgan buddiant personol a rhagfarnus, yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, bydd yr aelod hwnnw'n ymadael â'r cyfarfod a'r ystafell tra bo'r mater yn cael ei ystyried gan y Cyngor neu'r Pwyllgor oni bai:

(a) bod darpariaethau yn y Cod Ymddygiad yn caniatáu i'r aelod aros, neu

(b) bod goddefeb wedi'i rhoi gan y Pwyllgor Safonau.

27. DIRPRWYAETHAU A DEISEBAU

- (1) Gofynnir yn gyntaf i ddirprwyaethau sy'n dymuno dod gerbron y Cyngor gyflwyno rhybudd ysgrifenedig i'r Cyngor, o leiaf deg diwrnod llawn cyn y cyfarfod, yn datgan yr amcan ac enwau'r bobl a fydd yn y ddirprwyaeth. Bydd y Prif Weithredwr yn rhoi'r rhybudd gerbron y Cyngor a/neu'r Pwyllgor priodol o'r Cyngor neu'r pwyllgor craffu neu'r grŵp cynghori, gweithgor neu grŵp cyswllt priodol. Mewn perthynas â phenderfyniadau a wneir o fewn deg diwrnod i'r cyfarfod, bydd gan y Cadeirydd ddisgresiwn i hepgor y gofyniad am 10 diwrnod o rybudd.
- (2) O gael rhybudd o'r fath, bydd y Prif Weithredwr yn cyfathrebu â Chadeirydd y Cyngor, neu yn ei absenoldeb, Dirprwy Gadeirydd y Cyngor, neu yn ei absenoldeb, Cadeirydd y Pwyllgor priodol, neu yn ei absenoldeb, Is-gadeirydd y Pwyllgor priodol, y bydd ganddo'r pŵer i benderfynu a fydd y ddirprwyaeth yn dod gerbron y Cyngor neu'n dod gerbron y Pwyllgor.
- (3) Gall deisebau i'r Cyngor (bydd deiseb o fwy na deg o lofnodwyr yn berthnasol at ddibenion y Rheol hon):-
 - (a) gael eu cyflwyno mewn cyfarfod arferol o'r Cyngor i Gadeirydd y Cyngor gan yr aelod/aelodau ward lleol neu gan unrhyw aelod a awdurdodwyd gan yr aelod ward hwnnw.
 - (b) ar gais y Deisebwr Arweiniol, gael eu rhoi'n uniongyrchol i'r Prif Weithredwr yn ei swyddfa yn Nhŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed, CF82 7PG.
 - (c) gael eu eu postio at y Prif Weithredwr.
 - (d) gael eu cyflwyno trwy'r Cynllun E-ddeisebau sydd i'w weld yn Rhan 5 o'r Cyfansoddiad.
- (4) Caiff deisebau i Bwyllgor eu cyflwyno i Gadeirydd y Pwyllgor gan yr aelod/aelodau ward lleol neu gan unrhyw aelod a awdurdodwyd gan yr aelod ward hwnnw. Pan ddaw deiseb i law, saif wedi'i chyfeirio heb drafodaeth at y Cyfarwyddwr priodol i weithredu ac adrodd arni fel sy'n angenhredidiol oni fydd y Cadeirydd, yn ei ddisgresiwn, yn penderfynu ei thrafod yng nghyfarfod y Pwyllgor y'i cyflwynwyd iddo.
- (5) Wrth gyflwyno deiseb i'r Cyngor neu Bwyllgor, caiff aelod siarad i grynhoi cais y ddeiseb yn fyr yn unig. Ni chaiff sôn am rinweddau'r mater sy'n destun y ddeiseb.

Gweithdrefn ar gyfer ymdrin â deisebau

Yn dilyn cyflwyno'r ddeiseb drwy unrhyw fodd a nodir yn 28 (3), bydd y Swyddog Priodol yn ei chofnodi yn y gofrestr a gedwir at y diben hwn. Wedyn bydd y Cyfarwyddwr priodol yn sicrhau:-

- (a) y bydd ymgynghori priodol â'r cyhoedd, aelodau ward a'r aelod Cabinet priodol ynghylch unrhyw gam gweithredu arfaethedig;
- (b) *y rhoddir adborth priodol ac amserol i'r deisebwr arweiniol a'r aelod a gyflwynodd y ddeiseb ynghylch:-*
 - (i) *cynnydd wrth ymdrin â'r ddeiseb; ac*
 - (ii) *y penderfyniad a wnaed gan y Cyngor am y ddeiseb.*
- (6) Rhaid i bob dirprwyaeth ymwneud â darpariaeth gwasanaethau y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdani neu sy'n effeithio ar ardal yr awdurdod neu unrhyw ran ohoni neu unrhyw un o'i thrigolion neu'r holl drigolion. Gall y ddirprwyaeth fod o aelodau o'r cyhoedd neu sefydliadau cymunedol neu fasnach yn unig.
- (7) Dim ond dau aelod o'r ddirprwyaeth gaiff siarad ac ni chaiff eu hareithiau bara mwy na phum munud yr un.
- (8) Cadeirydd llywyddol unrhyw gyfarfod fydd â'r disgresiwn llwyr ynghylch a ganiateir i unrhyw aelod o'r cyhoedd siarad a gall atal y siaradwr os yw cynnwys yr anerchiad yn afreolus, ymosodol neu amherthnasol.

28. CYMHWYSO'R RHEOLAU GAN BWYLLGORAU AC IS-BWYLLGORAU

- (1) Mae holl Reolau Gweithdrefnau'r Cyngor yn berthnasol i gyfarfodydd o'r Cyngor llawn.
- (2) Rheolau 8.2 a 32 yn unig sy'n berthnasol i gyfarfodydd y weithrediaeth.
- (3) Rheolau 5–9, 12-20, 24-27, 29 a 32 yn unig sy'n berthnasol i gyfarfodydd o bwyllgorau ac is-bwyllgorau.

29. MATERION BRYS

- (1) Bydd gan y Prif Weithredwr (neu'r Cyfarwyddwr priodol, yn ei absenoldeb) y grym i arfer pwerau'r Cyngor mewn unrhyw fater sydd, ym marn y swyddog hwnnw, yn galw am sylw ar unwaith neu y mae cymaint o frys amdano fel nad oes digon o amser i alw cyfarfod.
- (2) Bydd y pwerau hyn yn ychwanegol at unrhyw bwerau penodol a ddirprwywyd gan y Cyngor neu Bwyllgor.

30. RHEOLAU GWEITHDREFNAU CYFLOGI SWYDDOGION

- (1) Bernir bod y Rheolau Gweithdrefn Cyflogaeth Swyddogion a nodir yn y Rhan hon o'r Cyfansoddiad wedi eu cynnwys yn rheolau gweithdrefnau'r Cyngor.

Rheolau Gweithdrefnau Mynediad at Wybodaeth

Cyfeiriadau:

Adrannau 100A – H ac atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

Adran 22, Deddf Llywodraeth Leol 2000

Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) 2001

Pennod 5, Deddf Llywodraeth Leol 2000 Rhan II: Canllawiau i Gyngorau Sir a

Chyngorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru ar Drefniadau Gweithrediaeth, Gorffennaf 2001

Noder: Mae'r swyddog priodol yn cyfeirio at y Prif Weithredwr.

1. CWMPAS

Mae'r rheolau hyn yn berthnasol i holl gyfarfodydd y Cyngor, y weithrediaeth, pwyllgorau trosolwg a chraffu, pwyllgorau ardal (os oes rhai), y Pwyllgor Safonau a phwyllgorau rheoleiddio.

2. HAWLIAU YCHWANEGOL I WYBODAETH

Nid yw'r rheolau hyn yn effeithio ar unrhyw hawliau mwy penodol i wybodaeth a geir yn rhywle arall yn y Cyfansoddiad hwn neu yn y gyfraith.

3. HAWLIAU I FOD YN BRESENNOL MEWN CYFARFODYDD

Caiff aelodau o'r cyhoedd fod yn bresennol yn yr holl gyfarfodydd yn ddarostyngedig i'r eithriadau yn y rheolau hyn yn unig.

4. HYSBYSIADAU O GYFARFODYDD

4.1.1 Oni bai bod cyfarfod yn cael ei alw ar fyr rybudd, bydd y Cyngor yn rhoi o leiaf 3 diwrnod clir o rybudd am unrhyw gyfarfod drwy bostio manylion y cyfarfod yn Nhŷ Penallta, Parc Busnes Tredomen, Ystrad Mynach CF82 7PG ac ar ei wefan.

4.1.2 Os yw'r cyfarfod neu ran o'r cyfarfod yn agored i'r cyhoedd ac yn cael ei gynnal yn gyfan gwbl drwy ddulliau o bell, rhaid i'r rhybudd gynnwys manylion am amser y cyfarfod, a sut i gael mynediad iddo.

4.1.3. Os yw'r cyfarfod neu ran o'r cyfarfod yn agored i'r cyhoedd ac yn cael ei gynnal yn rhannol drwy ddulliau o bell, rhaid i'r rhybudd gynnwys manylion am amser a lleoliad y cyfarfod, a sut i gael mynediad iddo.

4.1.4. Os nad yw'r cyfarfod yn agored i'r cyhoedd ac yn cael ei gynnal yn rhannol drwy ddulliau o bell neu nad yw'n cael ei gynnal drwy ddulliau o bell, rhaid i'r rhybudd gynnwys manylion am amser a lleoliad y cyfarfod a'r ffaith nad yw'n agored i'r cyhoedd.

- 4.1.5 Os nad yw'r cyfarfod yn agored i'r cyhoedd ac yn cael ei gynnal drwy ddulliau o bell yn unig, rhaid i'r rhybudd gynnwys manylion am amser y cyfarfod, y ffaith ei fod yn cael ei gynnal drwy ddulliau o bell yn unig a'r ffaith nad yw'n agored i'r cyhoedd.

5. MYNEDIAD I'R AGENDA AC ADRODDIADAU CYN Y CYFARFOD

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod copïau o'r agenda ac adroddiadau sy'n agored i'r cyhoedd ar gael i'w harchwilio yn y swyddfa ddynodedig o leiaf [tri] diwrnod llawn cyn y cyfarfod. Os caiff eitem ei hychwanegu at yr agenda'n hwyrach, bydd yr agenda ddiwygiedig (lle caiff adroddiadau eu paratoi ar ôl anfon yr alwad am gyfarfod, bydd y swyddog dynodedig yn sicrhau bod pob adroddiad o'r fath ar gael i'r cyhoedd cyn gynted ag y caiff ei gwblhau a'i anfon at y cynghorwyr) ar gael i'w harchwilio am y cyfnod yr oedd yr eitem wedi'i hychwanegu at yr agenda.

6. CYFLENWI COPÏAU

Bydd y Cyngor yn cyflenwi copïau o:

- (a) unrhyw agenda ac adroddiadau sy'n agored i'w harchwilio gan y cyhoedd;
- (b) unrhyw ddatganiadau neu fanylion pellach sy'n angenrheidiol i fynegi natur yr eitemau ar yr agenda; ac
- (c) os yw'r swyddog priodol o'i blaid, copïau o unrhyw ddogfennau eraill a gyflenwyd i gynghorwyr mewn cysylltiad ag eitem

i unrhyw berson wedi iddo dalu ffioedd postio ac unrhyw gostau eraill.

7. MYNEDIAD I GOFNODION AC ATI AR ÔL Y CYFARFOD

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod copïau o'r dogfennau canlynol ar gael am chwe blynedd ar ôl cyfarfod:

- (a) cofnodion y cyfarfod neu gofnod o benderfyniadau a wnaed gan y weithrediaeth, ac eithrio unrhyw ran o'r cofnodion o drafodion pan nad oedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd oherwydd bod gwybodaeth gyfrinachol neu esempt yn cael ei hystyried;
- (b) crynodeb o unrhyw drafodion heb fod yn agored i'r cyhoedd os na fyddai'r cofnodion sydd ar agor i'w harchwilio'n creu cofnod rhesymol deg a dealladwy;
- (c) agenda'r cyfarfod; ac
- (d) adroddiadau'n ymwneud ag eitemau pan oedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd.

8. PAPURAU CEFNDIR

8.1 Rhestr o bapurau cefndir

Bydd y swyddog priodol yn nodi ym mhob adroddiad restr o'r dogfennau (a elwir papurau cefndir) sy'n ymwneud â chynnwys yr adroddiad sydd, yn ei farn ef / ei barn hi:

- (a) yn datgelu unrhyw ffeithiau neu faterion y mae'r adroddiad neu ran bwysig o'r adroddiad wedi'i seilio arnynt; ac
- (b) y dibynnwyd arnynt i raddau sylweddol wrth baratoi'r adroddiad ond nad yw'n cynnwys gwaith cyhoeddedig neu rai sy'n datgelu gwybodaeth gyfrinachol neu esempt (fel y'i diffinnir yn Rheol 10).

8.2 Archwilio papurau cefndir gan y cyhoedd

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod un copi o bob un o'r dogfennau ar y rhestr o bapurau cefndir ar gael i'w archwilio gan y cyhoedd am bedair blynedd ar ôl dyddiad y cyfarfod.

9. CRYNODEB O HAWLIAU'R CYHOEDD

Mae crynodeb ysgrifenedig o hawliau'r cyhoedd i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd ac i archwilio a chopio dogfennau yn cael ei chadw yn swyddfeydd y Cyngor yn Nhŷ Penallta, Ystrad Mynach, ac yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor.

10. EITHRIO MYNEDIAD Y CYHOEDD I GYFARFODYDD

10.1 Cyfarfodydd preifat a chyhoeddus o'r weithrediaeth

Ni chaiff y weithrediaeth ond wneud penderfyniadau mewn perthynas â'i swyddogaethau a chynnal busnes ffurfiol mewn cyfarfod sydd wedi'i gyfansoddi'n briodol ac sy'n cydymffurfio ag Erthygl 13 a'r rheolau gweithdrefnau hyn. Nid yw hyn yn atal y weithrediaeth rhag cynnal trafodaethau anffurfiol yn breifat, â swyddogion yn bresennol neu hebddynt, ond ni ellir gwneud penderfyniadau yn y cyfarfodydd hyn.

10.2 Gwybodaeth gyfrinachol – gofyniad i eithrio'r cyhoedd

Rhaid eithrio'r cyhoedd o gyfarfodydd pryd bynnag y mae'n debygol, oherwydd natur y busnes sydd i'w drafod neu natur y trafodion, y caiff gwybodaeth gyfrinachol ei datgelu.

10.3 Gwybodaeth esempt – disgrisiwn i eithrio'r cyhoedd

Gellir eithrio'r cyhoedd o gyfarfodydd pryd bynnag y mae'n debygol, oherwydd natur y busnes sydd i'w drafod neu natur y trafodion, y caiff gwybodaeth gyfrinachol ei datgelu.

Os yw'r cyfarfod yn penderfynu ar hawliau neu rywmedigaethau sifil unrhyw berson, neu'n cael effaith andwyol ar ei eiddo, mae Erthygl 6 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998 yn sefydlu'r

rhagdybiaeth y caiff y cyfarfod ei gynnal yn gyhoeddus oni bai bod angen gwrandawriad preifat am un o'r rhesymau a nodir yn Erthygl 6.

10.4 Ystyr gwybodaeth gyfrinachol

Ystyr gwybodaeth gyfrinachol yw gwybodaeth a roddir i'r Cyngor gan adran o'r llywodraeth ar delerau sy'n gwahardd ei datgelu'n gyhoeddus neu wybodaeth na ellir ei datgelu'n gyhoeddus trwy Orchymyn Llys.

10.5 Ystyr gwybodaeth esempt

(Mae'r wybodaeth hon wedi'i chymryd o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972).

Ystyr gwybodaeth esempt yw gwybodaeth sy'n dod o dan y categorïau canlynol (yn ddarostyngedig i unrhyw amod):

GWYBODAETH ESEMT	CYMHWYSEDD
12. Gwybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn penodol.	Prawf lles y cyhoedd yn gymwys (gweler isod).
13. Gwybodaeth sy'n debygol o ddatgelu pwy yw'r unigolyn	Prawf lles y cyhoedd yn gymwys (gweler isod).
14. Gwybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (gan gynnwys yr awdurdod sy'n cadw'r wybodaeth honno).	Nid yw'r wybodaeth sy'n dod o dan baragraff 14 yn wybodaeth esempt yn rhinwedd y paragraff hwnnw os yw'n ofynnol i'w chofrestru o dan – Ddeddf Cwmnïau 1985; Deddf Cymdeithasau Cyfeillgar 1974; Deddf Cymdeithasau Cyfeillgar 1992; Deddfau Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus 1965 i 1978; Deddf Cymdeithasau Adeiladu 1986; neu Ddeddf Elusennau 1993. Prawf lles y cyhoedd yn gymwys (gweler isod)
15. Gwybodaeth sy'n ymwneud ag unrhyw ymgynghoriadau neu negodiadau, neu ymgynghoriadau neu negodiadau a ragwelir, mewn cysylltiad ag unrhyw fater yn ymwneud â pherthynas llafur sy'n codi rhwng yr awdurdod neu Weinidog y Goron a chyflogeion yr awdurdod, neu ddeiliaid swydd o dan yr awdurdod.	Prawf lles y cyhoedd yn gymwys (gweler isod)
16. Gwybodaeth y gellid cynnal hawl i ffrainc broffesiynol gyfreithiol mewn perthynas â hi mewn achos cyfreithiol.	
17. Gwybodaeth sy'n datgelu bod yr awdurdod yn bwriadu:	Prawf lles y cyhoedd yn gymwys (gweler isod)

(a) rhoi o dan unrhyw ddeddf rybudd y gosodir gofynion ar berson o dano neu yn ei rinwedd; neu (b) wneud gorchymyn neu gyfarwyddyd o dan unrhyw ddeddf.	
18. Gwybodaeth sy'n ymwneud ag unrhyw weithred a gyflawnwyd neu sydd i'w chyflawni mewn cysylltiad ag atal, ymchwilio i neu erlyn trosedd.	Prawf lles y cyhoedd yn gymwys (gweler isod)
<i>(Mewn perthynas â chyfarfod o bwyllgor safonau, neu is-bwyllgor pwyllgor safonau, a gaiff ei alw i ystyried mater a gyfeiriwyd o dan ddarpariaethau Adran 70(4) neu (5) neu 71(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000):</i> 18A. Gwybodaeth sy'n destun unrhyw rwymedigaethau cyfrinachedd. 18B. Gwybodaeth sy'n ymwneud mewn unrhyw ffordd â materion ynghylch diogelwch gwladol. 18C. Trafodaethau pwyllgor safonau neu is-bwyllgor pwyllgor safonau a sefydlwyd o dan ddarpariaethau Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 wrth gyrraedd unrhyw ganfyddiad ar fater a gyfeiriwyd ato."	Prawf lles y cyhoedd yn gymwys (gweler isod)
	Nid yw gwybodaeth yn wybodaeth esempt os yw'n ymwneud â datblygiad arfaethedig y gall yr awdurdod cynllunio lleol roi caniatâd cynllunio i'w hun ar ei gyfer yn unol â rheoliad 3 o Reoliadau Cyffredinol Cynllunio Gwlad a Thref 1992.

Prawf Lles y Cyhoedd:

Mae gwybodaeth sydd —

- (a) yn dod o dan unrhyw un o baragraffau 12 i 15, 17 a 18 uchod; a
- (b) heb ei hatal rhag bod yn esempt yn rhinwedd y 'cymwysterau' uchod, yn wybodaeth esempt os yw ac ar yr amod bod, o dan holl amgylchiadau'r achos, lles y cyhoedd mewn cynnal yr esemptiad yn fwy na lles y cyhoedd mewn datgelu'r wybodaeth.
- (c) Y man cychwyn yw bod lles cyffredinol i'r cyhoedd o ran ei rhyddhau a bod yn rhaid i'r awdurdod cyhoeddus benderfynu a fyddai, mewn unrhyw achos penodol, yn well er lles y cyhoedd naill ai i ddatgelu neu gadw'r wybodaeth yn ôl.

11. EITHRIO MYNEDIAD Y CYHOEDD I ADRODDIADAU

Os yw'n addas ym marn y swyddog priodol, caiff y Cyngor eithrio mynediad y cyhoedd i adroddiadau sydd yn ei farn ef neu ei barn hi yn ymwneud ag eitemau nad yw'r cyfarfod yn debygol o fod yn agored i'r cyhoedd ar eu cyfer, yn unol â Rheol 10. Caiff adroddiadau o'r fath eu marcio "Nid i'w gyhoeddi" ynghyd â chategori'r wybodaeth sy'n debygol o gael ei datgelu.

12. Y FLAENRAGLEN WAITH

12.1 Cyfnod y flaenraglen waith

Caiff y flaenraglen waith ei pharatoi gan y swyddog priodol ar gyfer cyfnod o bedwar mis. Caiff ei diweddaru'n chwarterol.

12.2 Cynnwys y flaenraglen waith

Bydd y flaenraglen waith yn cynnwys materion mae'r weithrediaeth, pwyllgorau trosolwg a chraffu a'r Cyngor llawn yn debygol o'u hystyried. Bydd yn cynnwys gwybodaeth am:

- (a) yr amserlen ar gyfer ystyried y gyllideb ac unrhyw gynlluniau sy'n rhan o'r fframwaith polisi ac yn gofyn am gymeradwyaeth gan y Cyngor, a pha gorff sydd i'w hystyried;
- (b) yr amserlen ar gyfer ystyried unrhyw gynlluniau sy'n gyfrifoldeb i'r weithrediaeth;
- (c) unrhyw faterion unigol y mae'r weithrediaeth yn bwriadu ymgynghori arnynt cyn gwneud penderfyniad, a'r amserlen ar gyfer ymgynghori a phenderfynu;
- (d) rhaglen waith y pwyllgorau trosolwg a chraffu, i'r graddau y mae'r pwyllgorau hynny yn gwybod amdani ac wedi ei phenderfynu.

Caiff y flaenraglen waith ei chyhoeddi o leiaf 14 diwrnod cyn dechrau'r cyfnod mae'n ymdrin ag ef. Unwaith y flwyddyn, bydd y swyddog priodol yn cyhoeddi rhybudd mewn o leiaf un papur newydd a ddosbarthir yn yr ardal, yn dweud y caiff blaenraglen waith ei chyhoeddi ac yn rhoi'r dyddiadau cyhoeddi ar gyfer y flwyddyn honno.

13. YMGYNGHORI AR GYNIGION I'W HYSTYRIED GAN Y WEITHREDIAETH

Dylid caniatáu o leiaf 4 wythnos yn amserlen y blaengynllun ar gyfer ymgynghori â phwyllgorau trosolwg a chraffu perthnasol ac aelodau ward lle mae mater i gael ei ystyried gan y weithrediaeth ac nad yw'n fater brys (fel y'i diffinnir isod) neu'n gyfrinachol neu wedi'i heithrio (fel y diffiniwyd ym mharagraff 10).

Gellir ystyried mater yn un brys os nad oedd y digwyddiadau y mae'n cyfeirio atynt wedi cael eu rhagwelwyd ar yr adeg y cynhyrchwyd y flaenraglen waith flaenorol ac mae angen penderfyniad o fewn (y cyfnod lleiaf o amser a ddarperir ar gyfer ymgynghori fel y nodwyd uchod).

Gellir trin penderfyniad fel un brys dim ond os yw'r penderfynwr (os yw'n unigolyn) neu gadeirydd y corff sy'n gwneud y penderfyniad yn cael cytundeb cadeirydd pwyllgor trosolwg a chraffu perthnasol na ellir gohirio'r penderfyniad yn rhesymol. Os nad oes cadeirydd pwyllgor trosolwg a chraffu perthnasol, neu os nad yw cadeirydd pob pwyllgor trosolwg a chraffu perthnasol yn gallu gweithredu, yna bydd cytundeb cadeirydd y Cyngor, neu'r is-gadeirydd yn ei absenoldeb, yn ddigonol. Caiff unrhyw benderfyniadau a wneir o dan y weithdrefn achosion brys hon eu cofnodi yn y cofnod penderfyniadau fel rhai a wnaed heb ymgynghori.

14. COFNODI PENDERFYNIADAU'R WEITHREDIAETH

14.1 Y cofnod penderfyniadau

Gwneir cofnod ysgrifenedig o bob penderfyniad gweithrediaeth a wneir gan y weithrediaeth a'i phwyllgorau (os oes rhai) a chydbwyllgorau a chyd-isbwyllgorau y mae eu haelodau i gyd yn aelodau o weithrediaeth awdurdod lleol.

Bydd y cofnod penderfyniadau hwn yn cynnwys datganiad, ar gyfer pob penderfyniad fel a ganlyn:

1. y penderfyniad a wnaethpwyd
2. y dyddiad y gwnaethpwyd y penderfyniad
3. y rhesymau am y penderfyniad hwnnw;
4. unrhyw fudd personol a ddatganwyd;
5. unrhyw oddefeb i siarad a roddwyd gan bwyllgor safonau'r awdurdod;
6. yr ymgynghoriad a gynhaliwyd cyn y penderfyniad ac, os na chafodd ymgynghoriad o'r fath ei gynnal, y rheswm pam.

14.2 Paratoi'r cofnod penderfyniadau

Bydd y swyddog priodol neu ei gynrychiolydd yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod o'r weithrediaeth, pwyllgor o'r weithrediaeth neu gydbwyllgor neu gyd-isbwyllgor lle mae ei holl aelodau'n aelodau o weithrediaeth awdurdod lleol, ac yn creu cofnod penderfyniadau cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl y cyfarfod.

15. HAWLIAU MYNEDIAD AELODAU O BWYLLGORAU CRAFFU

15.1 Hawliau mynediad

Bydd gan yr holl aelodau'r hawl i archwilio unrhyw ddogfen sydd ym meddiant neu o dan reolaeth y weithrediaeth neu ei phwyllgorau ac sy'n cynnwys deunydd sy'n ymwneud ag unrhyw fusnes a drafodwyd mewn cyfarfod o gorff gwneud penderfyniadau'r awdurdod hwnnw neu'r weithrediaeth honno, ar ôl i'r Weithrediaeth wneud penderfyniad.

15.2 Cyfyngiad ar hawliau

Ni fydd gan aelod hawl i unrhyw ran o ddogfen lle:

- (a) y byddai'n datgelu gwybodaeth esempt sy'n dod o dan baragraffau 12 i 18, 21, 23, 24 a 26 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, neu
- (b) y byddai'n datgelu cyngor cynorthwydd neu ymgynghorwr gwleidyddol.

15.3 Cyflenwi gwybodaeth

Caiff ceisiadau am wybodaeth yn unol â hawliau statudol a chyfraith gyffredin eu darparu i aelodau mewn modd amserol.

15.4 Natur hawliau

Mae'r hawliau aelod hyn yn ychwanegol at unrhyw hawl arall a all fod ganddo o dan y gyfraith gyffredin neu statud.

Rheolau Gweithdrefnau'r Gyllideb a Fframwaith Polisi

Cyfeiriadau:

*Penodau 3, 6 a 7, Deddf Llywodraeth Leol 2000 Rhan II: Canllawiau i Gyngorau Sir a Chyngorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru ar Drefniadau Gweithrediaeth, Gorffennaf 2001
Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2001
Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen)(Cymru) 2001*

Mae Canllawiau'r Cynulliad yn nodi y bydd y weithrediaeth yn gyfrifol am gynnig polisiâu a'r gyllideb i'r cyngor llawn, ac felly mae'r cyfansoddiad yn amodi na fydd y cyngor llawn yn mabwysiadu fframwaith polisi neu gyllideb heblaw ar sail cynigion gan y weithrediaeth.

1. Y fframwaith ar gyfer penderfyniadau gweithrediaeth

Y Cyngor fydd yn gyfrifol am fabwysiadu ei fframwaith polisi a'i gyllideb fel y nodir yn Erthygl 4 Rhan 2 o'r Cyfansoddiad. Caiff y fframwaith polisi a'r gyllideb a fabwysiadir gan y Cyngor eu seilio ar yr hyn a gynnigir gan y weithrediaeth. Pan fydd cyllideb neu fframwaith polisi wedi'i sefydlu, cyfrifoldeb y weithrediaeth fydd ei weithredu.

2. Y broses ar gyfer datblygu'r fframwaith

Mae'r broses ar gyfer datblygu'r fframwaith polisi a'r gyllideb fel a ganlyn:

- (a) Bydd y weithrediaeth yn cyhoeddi amserlen ar gyfer gwneud cynigion i'r Cyngor ar gyfer mabwysiadu unrhyw gynllun, strategaeth neu gyllideb sy'n rhan o'r gyllideb a'r fframwaith polisi, a'i threfniadau ar gyfer ymgynghori ar ôl cyhoeddi'r cynigion cychwynnol hynny. Hysbysir cadeiryddion y pwyllgorau trosolwg a chraffu hefyd. Ceir cyfnod ymgynghori digonol ym mhob achos.
- (b) Ar ddiwedd y cyfnod hwnnw, bydd y weithrediaeth yn llunio cynigion cadarn gan roi sylw i'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw. Os yw pwyllgor trosolwg a chraffu perthnasol yn dymuno ymateb i'r weithrediaeth yn ystod y broses ymgynghori honno, caiff wneud hynny. Gan fod y pwyllgorau trosolwg a chraffu'n gyfrifol am drefnu eu rhaglen waith eu hunain, caiff y pwyllgor trosolwg a chraffu ymchwilio neu adrodd yn fanwl gydag argymhellion polisi cyn diwedd y cyfnod ymgynghori. Bydd y weithrediaeth yn ystyried unrhyw ymatebion gan bwyllgor trosolwg a chraffu wrth lunio cynigion cadarn i'w cyflwyno i'r Cyngor, a bydd ei hadroddiad i'r Cyngor yn adlewyrchu sylwadau'r ymgynghoreion ac ymateb y weithrediaeth.
- (c) Pan fydd y weithrediaeth wedi cymeradwyo'r cynigion cadarn, bydd y swyddog priodol yn eu cyfeirio, ar y cyfle cynharaf, at y Cyngor am ei benderfyniad.
- (d) Wrth gyrraedd penderfyniad, gall y Cyngor fabwysiadu cynigion y weithrediaeth, eu diwygio, eu cyfeirio'n ôl i'r weithrediaeth i'w hystyried ymhellach, neu mewn egwyddor, rhoi ei gynigion ei hun yn eu lle.

- (e) Os yw'r Cyngor yn derbyn argymhelliad y weithrediaeth heb ei ddiwygio, gall wneud penderfyniad sy'n dod i rym yn syth. Fel arall, gall wneud penderfyniad mewn-egwyddor yn unig. Yn y naill achos neu'r llall, caiff y penderfyniad ei wneud ar sail mwyafrif syml o bleidleisiau a fwriwyd yn y cyfarfod.
- (f) Caiff y penderfyniad ei gyhoeddi yn unol ag Erthygl 4 a rhoddir copi i'r arweinydd.
- (g) Bydd penderfyniad mewn-egwyddor yn dod i rym yn awtomatig deg diwrnod gwaith ar ôl dyddiad penderfyniad y Cyngor, oni fydd yr arweinydd yn rhoi gwybod yn ysgrifenedig i'r swyddog priodol o fewn y cyfnod hwnnw ei fod yn gwrthwynebu i'r penderfyniad ddod i rym ac yn darparu rhesymau am hynny.
- (h) Yn yr achos hwnnw, bydd y swyddog priodol yn galw cyfarfod o'r Cyngor cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl. Bydd y Cyngor yn ail-ystyried ei benderfyniad a chyflwyniad ysgrifenedig yr arweinydd. Gall y Cyngor:
 - i) gymeradwyo argymhelliad y weithrediaeth drwy fwyafrif syml o bleidleisiau a fwriwyd yn y cyfarfod; neu
 - ii) gymeradwyo penderfyniad gwahanol nad yw'n unol ag argymhelliad y weithrediaeth drwy fwyafrif syml.
- (i) Caiff y penderfyniad ei wneud yn gyhoeddus wedyn yn unol ag Erthygl 4, a chaiff ei weithredu yn syth;
- (j) Wrth gymeradwyo'r gyllideb a'r fframwaith polisi, bydd y Cyngor hefyd yn nodi i ba raddau y gall arian gael ei drosglwyddo yn y gyllideb ac i ba raddau y gall y fframwaith polisi gael ei newid yn ystod y flwyddyn gan y weithrediaeth, yn unol â pharagraffau 5 a 6 o'r Rheolau hyn (trosglwyddiad arian ac addasiadau yn ystod y flwyddyn). Mae unrhyw newidiadau eraill i'r gyllideb a'r fframwaith polisi wedi'u neilltuo i'r Cyngor.

3. Penderfyniadau y tu allan i'r gyllideb neu'r fframwaith polisi

- (a) Ni chaiff y weithrediaeth, pwyllgor o'r weithrediaeth, aelod unigol o'r weithrediaeth (os y'i hawdurdodwyd) ac unrhyw swyddogion, pwyllgorau ardal neu gyd-drefniadau sy'n cyflawni swyddogaethau'r weithrediaeth ond gwneud penderfyniadau sy'n unol â'r gyllideb a'r fframwaith polisi. Os yw unrhyw un o'r cyrff neu unigolion hyn yn dymuno gwneud penderfyniad sy'n groes i'r fframwaith polisi, neu'n groes i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn neu heb fod yn gwbl unol â hi, ni chaiff y penderfyniad hwnnw ei wneud ond gan y Cyngor, yn amodol ar 4 isod.
- (b) Os yw'r weithrediaeth, pwyllgor o'r weithrediaeth, aelod unigol o'r weithrediaeth ac unrhyw swyddogion, pwyllgorau ardal neu gyd-drefniadau sy'n cyflawni swyddogaethau'r weithrediaeth eisiau gwneud penderfyniad o'r fath, byddant yn cael cyngor gan y swyddog monitro a'r prif swyddog ariannol o ran a fyddai'r penderfyniad maent eisiau ei wneud yn groes i'r fframwaith polisi, neu'n groes

i'r gyllideb neu heb fod yn gwbl unol â hi. Os yw'r naill swyddog neu'r llall yn cynghori na fyddai'r penderfyniad yn unol â'r gyllideb a/neu'r fframwaith polisi cyfredol, rhaid i'r corff neu'r person hwnnw gyfeirio'r penderfyniad at y Cyngor i benderfynu arno, oni fydd y penderfyniad yn un brys. Yn yr achos hwn, bydd y darpariaethau ym mharagraff 4 (penderfyniadau brys y tu allan i'r gyllideb a'r fframwaith polisi) yn berthnasol.

4. Penderfyniadau brys y tu allan i'r gyllideb neu'r fframwaith polisi

Mae'r weithdrefn hon yn cynnwys penderfyniadau sy'n groes i'r fframwaith polisi ac yn groes i'r gyllideb neu heb fod yn gwbl unol â hi.

- (a) Caiff y weithrediaeth, pwyllgor o'r weithrediaeth, aelod unigol o'r weithrediaeth neu swyddogion, pwyllgorau ardal neu gyd-drefniadau sy'n cyflawni swyddogaethau'r weithrediaeth wneud penderfyniad sy'n groes i fframwaith polisi'r Cyngor neu'n groes i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn neu heb fod yn gwbl unol â hi, os yw'r penderfyniad yn fater o frys. Fodd bynnag, ni ellir gwneud y penderfyniad ond:
- i) os nad yw'n ymarferol i alw cyfarfod â chworwm o'r Cyngor llawn; ac
 - ii) os yw cadeirydd pwyllgor trosolwg a chraffu perthnasol yn cytuno bod y penderfyniad yn fater o frys.

Rhaid nodi, ar y cofnod o'r penderfyniad, y rhesymau pam nad yw'n ymarferol i alw cyfarfod â chworwm o'r Cyngor llawn ynghyd â chydysyniad cadeirydd y pwyllgor trosolwg a chraffu perthnasol i wneud y penderfyniad fel mater o frys. Yn absenoldeb cadeirydd pwyllgor trosolwg a chraffu perthnasol, bydd cydsyniad cadeirydd y Cyngor, ac yn absenoldeb y ddau ohonynt, cydsyniad yr is-gadeirydd, yn ddigonol.

- (b) Yn dilyn y penderfyniad, bydd y penderfynwr yn darparu adroddiad llawn i'r cyfarfod nesaf sydd ar gael o'r Cyngor yn esbonio'r penderfyniad, y rhesymau am ei wneud a pham y cafodd y penderfyniad ei drin fel mater o frys.

5. Newidiadau yn ystod y flwyddyn i'r fframwaith polisi

Cyfrifoldeb y Cyngor yw cytuno ar y gyllideb a'r fframwaith polisi, a rhaid i benderfyniadau gan y weithrediaeth, pwyllgor o'r weithrediaeth, aelod unigol o'r weithrediaeth (os y'i hawdurdodwyd) neu swyddogion, pwyllgorau ardal neu gyd-drefniadau sy'n cyflawni swyddogaethau'r weithrediaeth fod yn unol â hwy. Ni chaiff y cyrff neu'r unigolion hynny wneud newidiadau i unrhyw bolisi a strategaeth sy'n rhan o'r fframwaith polisi heblaw am newidiadau:

- (a) a fydd yn arwain at gau neu roi terfyn ar wasanaeth neu ran o wasanaeth er mwyn bodloni cyfyngiad cyllidebol;
- (b) y mae eu hangen er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith, cyfarwyddyd gweinidogol neu ganllawiau'r llywodraeth neu er mwyn osgoi camweinyddu neu anghyfiawnder;

- (c) mewn perthynas â'r fframwaith polisi o ran polisi y cytunir arno fel arfer yn flynyddol gan y Cyngor yn dilyn ymgynghori, ond os nad oes sôn yn y ddogfen bolisi bresennol am y mater sydd o dan ystyriaeth.
- (d) sy'n ymwneud â pholisi mewn perthynas ag ysgolion, lle mae mwyafrif y cyrff llywodraethu ysgolion yn cytuno â'r newid arfaethedig.

6. Galw i mewn penderfyniadau y tu allan i'r gyllideb neu'r fframwaith polisi

- (a) Lle mae pwyllgor trosolwg a chraffu o'r farn bod penderfyniad gweithrediaeth yn groes i'r fframwaith polisi neu, pe cai ei wneud, y byddai'n groes i'r fframwaith polisi, neu'n groes i gyllideb y Cyngor neu heb fod yn gwbl unol â hi, bydd yn ceisio cyngor gan y swyddog monitro a/neu'r prif swyddog ariannol.
- (b) O ran swyddogaethau sy'n gyfrifoldeb i'r weithrediaeth, cyflwynir adroddiad y swyddog monitro a/neu'r prif swyddog ariannol i'r weithrediaeth gyda chopi i bob aelod o'r Cyngor. Ni waeth a gaiff y penderfyniad ei ddirprwyo neu beidio, rhaid i'r weithrediaeth gwrdd i benderfynu pa gamau i'w cymryd o ran adroddiad y swyddog monitro ac i baratoi adroddiad i'r Cyngor os yw'r swyddog monitro neu'r prif swyddog ariannol yn dod i'r casgliad bod y penderfyniad yn wyriad, ac i'r pwyllgor trosolwg a chraffu os yw'r swyddog monitro neu'r prif swyddog ariannol yn dod i'r casgliad nad oedd y penderfyniad yn wyriad.
- (c) Os nad yw'r penderfyniad wedi'i wneud eto, neu os yw wedi ei wneud ond heb ei weithredu eto, a chyngor y swyddog monitro a/neu'r prif swyddog ariannol yw bod y penderfyniad, neu y byddai'r penderfyniad, yn groes i'r fframwaith polisi neu'n groes i'r gyllideb neu heb fod yn gwbl unol â hi, gall y pwyllgor trosolwg a chraffu gyfeirio'r mater i'r Cyngor. Mewn achosion o'r fath, ni chymerir unrhyw gamau pellach o ran y penderfyniad ac o ran ei weithredu hyd nes y bydd y Cyngor wedi cyfarfod ac wedi ystyried y mater. Bydd y Cyngor yn cyfarfod cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl. Yn y cyfarfod, bydd yn cael adroddiad ar y penderfyniad neu'r cynigion ynghyd â chyngor y swyddog monitro a/neu'r prif swyddog ariannol. Gall y Cyngor naill ai:
 - i) cymeradwyo penderfyniad neu gynnig y penderfynwr gweithredol fel un sy'n dod o dan y gyllideb a'r fframwaith polisi presennol. Yn yr achos hwn, nid oes angen unrhyw weithredu pellach, heblaw cofnodi penderfyniad y Cyngor a'i ddosbarthu i'r holl gynghorwyr yn y ffordd arferol;

Neu

- ii) diwygio cyllideb neu bolisi perthnasol y Cyngor i gynnwys penderfyniad neu gynnig y corff neu unigolyn sy'n gyfrifol am y swyddogaeth gweithrediaeth honno a chytuno i'r penderfyniad i'w weithredu'n syth. Yn yr achos hwn, nid oes angen unrhyw weithredu pellach, heblaw cofnodi penderfyniad y Cyngor a'i ddosbarthu i'r holl gynghorwyr yn y ffordd arferol;

Neu

- iii) os yw'r Cyngor yn derbyn bod y penderfyniad neu gynnig yn groes i'r fframwaith polisi neu'n groes i'r gyllideb neu heb fod yn gwbl unol â hi, ac nad yw'n diwygio'r fframwaith presennol i'w gynnwys, ei gwneud yn ofynnol i'r weithrediaeth ail-ystyried y mater yn unol â chyngor naill ai'r swyddog monitro neu'r prif swyddog ariannol.

Rheolau Gweithdrefnau'r Weithrediaeth

1.1 Pwy gaiff wneud penderfyniadau gweithrediaeth?

Nodir y trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau'r weithrediaeth yn y trefniadau gweithredol a fabwysiadwyd gan y Cyngor. Os nad ydynt wedi'u nodi yno, caiff yr arweinydd benderfynu sut y cânt eu harfer. Yn y naill achos neu'r llall, mae'r gyfraith yn amodi y gall y trefniadau neu'r arweinydd ddarparu i swyddogaethau'r weithrediaeth gael eu cyflawni gan:

- i) y weithrediaeth gyfan;
- ii) pwyllgor o'r weithrediaeth;
- iii) aelod unigol o'r weithrediaeth (os y'i hawdurdodwyd);
- iv) swyddog;
- v) pwyllgor ardal;
- vi) cyd-drefniadau; neu
- vii) awdurdod lleol arall.

(Nid yw'r Cyngor wedi cynnwys (iii) na (v) uchod yn ei drefniadau.

1.2 Is-ddirprwyo swyddogaethau'r weithrediaeth

- (a) Lle mae'r weithrediaeth, pwyllgor o'r weithrediaeth neu aelod unigol o'r weithrediaeth yn gyfrifol am swyddogaeth y weithrediaeth, gallant ddirprwyo ymhellach i bwyllgor ardal, cyd-drefniadau neu swyddog.
- (b) Hyd yn oed lle mae swyddogaethau'r weithrediaeth wedi cael eu dirprwyo, nid yw'r ffaith honno'n atal y person neu gorff a ddirprwyodd y swyddogaethau rhag eu cyflawni.

1.3 Cynllun dirprwyo'r Cyngor a swyddogaethau'r weithrediaeth

Bydd cynllun dirprwyo'r Cyngor yn amodol ar ei fabwysiadu gan y Cyngor a dim ond y Cyngor caiff ei ddiwygio. Bydd yn cynnwys y manylion sy'n ofynnol o dan Erthygl 7 ac a nodir yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad hwn.

1.4 Gwrthdaro buddiannau

- (a) Os oes gan yr arweinydd achos o wrthdaro buddiannau, dylid ymdrin ag ef fel y nodir yng Nghod Ymddygiad y Cyngor i Aelodau yn Rhan 5 o'r Cyfansoddiad hwn.
- (b) Os oes gan bob aelod o'r weithrediaeth achos o wrthdaro buddiannau dylid ymdrin ag ef fel y nodir yng Nghod Ymddygiad y Cyngor i Aelodau yn Rhan 5 o'r Cyfansoddiad hwn.
- (c) Os yw'r gwaith o arfer swyddogaeth y weithrediaeth wedi cael ei ddirprwyo i bwyllgor o'r weithrediaeth, aelod unigol neu swyddog, a bod achos o wrthdaro buddiannau yn codi, yna caiff y swyddogaeth ei harfer yn y lle cyntaf gan y

person neu'r corff a ddirprwyodd y swyddogaeth, ac fel arall fel y nodir yng Nghod Ymddygiad y Cyngor i Aelodau yn Rhan 5 o'r Cyfansoddiad hwn.

1.5 Cyfarfodydd y weithrediaeth – ble a phryd?

Bydd y weithrediaeth yn cyfarfod yn rheolaidd ar amserau i'w cytuno gan yr arweinydd. Bydd y weithrediaeth yn cyfarfod ym mhrif swyddfeydd y Cyngor neu mewn lleoliad arall i'w gytuno gan yr arweinydd. Caiff dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod eu cyhoeddi ar restr, a byddant yn ymddangos ar yr Agenda gyhoeddedig ar gyfer pob cyfarfod. Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer cyfarfodydd aml-leoliad yn berthnasol i gyfarfodydd y weithrediaeth.

1.6 Cyfarfodydd cyhoeddus neu breifat o'r weithrediaeth?

Mae'r Rheolau Mynediad at Wybodaeth yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn yn nodi'r gofynion cyfreithiol o ran cyfarfodydd cyhoeddus a phreifat. Nid oes unrhyw ofyniad penodol mewn perthynas ag amlder neu leoliad.

1.7 Cworwm

Tri yw'r nifer o aelodau ar gyfer cworwm i gyfarfod y weithrediaeth, neu bwyllgor ohoni.

Presenoldeb o bell

- (a) Ystyrir bod aelodau'n bresennol mewn cyfarfod o'r Cabinet [neu bwyllgor o'r Cabinet pan fyddant yn mynychu'r cyfarfod hwnnw drwy ddulliau o bell yn unol â threfniadau'r Cyngor ar gyfer cyfarfodydd aml-leoliad cyn belled â'u bod yn gallu siarad â mynychwyr eraill yn y cyfarfod, a chael eu clywed ganddynt.
- (b) At ddibenion adran 1.7, ystyr presenoldeb "drwy ddulliau o bell" yw bod mewn lleoliad ffisegol gwahanol i gyfranogwyr eraill a chymryd rhan drwy lwyfan cyfarfod ar-lein.

1.8 Sut fydd y weithrediaeth yn gwneud penderfyniadau?

- (a) Caiff penderfyniadau'r weithrediaeth a ddirprwywyd i'r weithrediaeth gyfan eu gwneud mewn cyfarfod a alwyd yn unol â'r Rheolau Mynediad at Wybodaeth yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad.
- (b) Os yw penderfyniadau'r weithrediaeth wedi'u dirprwyo i bwyllgor ohoni, bydd y rheolau sy'n berthnasol i'r penderfyniadau a wnaed ganddo yr un peth â'r rhai sy'n berthnasol i'r penderfyniadau a wnaed gan y weithrediaeth gyfan.

2. SUT CAIFF CYFARFODYDD Y WEITHREDIAETH EU CYNNAL?

2.1 Pwy sy'n llywyddu?

Yr arweinydd sy'n llywyddu os yw'n bresennol. Bydd person a benodwyd gan y rhai sy'n bresennol yn llywyddu yn ei absenoldeb.

2.2 Pwy gaiff fod yn bresennol yn y cyfarfod?

- (a) Nodir y manylion hyn yn y Rheolau Mynediad at Wybodaeth yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn. I osgoi unrhyw amheuaeth, os nad yw cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd, caiff aelodau o'r Cyngor nad ydynt yn aelodau o'r Weithrediaeth aros yn y cyfarfod;
- (b) Gall cadeirydd y cyfarfod alw ar unrhyw un o gynghorwyr yr awdurdod i siarad yn y cyfarfod lle mae'r cadeirydd yn teimlo y gallai ei gyfraniad gynorthwyo â'r broses gwneud penderfyniadau.

2.3 Pa fusnes?

Cynhelir y busnes canlynol ym mhob un o gyfarfodydd y weithrediaeth:

- i) ystyried cofnodion y cyfarfod diwethaf;
- ii) unrhyw ddatganiadau o fuddiant;
- iii) materion a gyfeiriwyd i'r weithrediaeth (boed gan bwyllgor trosolwg a chraffu neu gan y Cyngor) i'w hail-ystyried ganddi yn unol â'r darpariaethau a geir yn y Rheolau Gweithdrefnau Trosolwg a Chraffu neu'r Rheolau Gweithdrefnau Cyllideb a Fframwaith Polisi fel y'u nodir yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn;
- iv) ystyried adroddiadau gan bwyllgorau trosolwg a chraffu; ac
- v) adroddiadau gan swyddogion yr awdurdod.

2.4 Ymgynghori

Rhaid i'r holl adroddiadau i'r weithrediaeth gan unrhyw aelod o weithrediaeth neu swyddog ar gynigion sy'n ymwneud â'r gyllideb a'r fframwaith polisi gynnwys manylion am natur a graddau'r ymgynghoriad ag aelodau, swyddogion, rhanddeiliaid a phwyllgorau trosolwg a chraffu perthnasol, a chanlyniad yr ymgynghoriad hwnnw. Bydd adroddiadau ynghylch materion eraill yn nodi manylion a chanlyniad yr ymgynghoriad fel sy'n briodol. Bydd lefel yr ymgynghori sy'n ofynnol yn briodol i natur y mater sydd o dan ystyriaeth.

Ar 1 Awst 2006, cymeradwyodd y Cyngor reolau sy'n ymwneud â'r broses ymgynghori, sy'n berthnasol mewn perthynas ag unrhyw adroddiad arfaethedig i'r aelodau, neu mewn perthynas ag unrhyw benderfyniad arfaethedig o dan bwerau dirprwyedig. Mae'r "rheolau ymgynghori" wedi'u nodi isod yn y rhan hon o'r Cyfansoddiad.

Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo fformat ar gyfer adroddiadau, a nodir yn Atodiad A er hwylustod (a ddiwygiwyd o ganlyniad i weithredu Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol o dan Adran 1 Deddf Cydraddoldeb 2010 a chyflwyniad cysylltiedig yr Asesiad Effaith Integredig).



ENW'R PWYLLGOR – DYDDIAD – ARIAL 15

NID AR GYFER CYHOEDDI O DAN BARAGRAFF RHAN 4, ATODLEN 12A DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972

Paragraff uchod i'w gynnwys os yw'r adroddiad i gael ei eithrio

GOSODIADAU'R TUDALEN 0.7 PEN, GWAELOD, CHWITH A DE

FFONT YR ADRODDIAD - ARIAL 11

PWNC: ARIAL 12

ADRODDIAD GAN: ARIAL 12

1. PWRPAS YR ADRODDIAD - PENAWDAU ARIAL 11

- 1.1 Dylai'r adran hon gynnwys datganiad byr ynglŷn â phwmpas yr adroddiad (e.e. argymhell i Aelodau eu bod yn penderfynu). Os yw hwn yn adroddiad ar gyfer pwyllgor craffu sydd i'w gyfeirio at y Cabinet i'w benderfynu, rhaid cynnwys brawddeg yn yr adran hon sy'n egluro bod yr adroddiad yn ceisio barn yr Aelodau cyn ei gyflwyno i'r Cabinet.

2. CRYNODEB

- 2.1 Rhaid i bob adroddiad cynnwys crynodeb byr o'r adroddiad. Gyda'r disgwyliad bydd yr aelod cabinet perthnasol yn cyflwyno'r adroddiad yn y cabinet neu'r cyngor, bydd yr aelod cabinet yn defnyddio'r adran hon i esbonio'r adroddiad.

3. ARGYMHELLION

- 3.1 Byddai'r adran hon yn nodi argymhellion y Cyfarwyddwr dan sylw.

4. RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION

- 4.1 Mae'r cofnodion yn nodi'r rhesymau dros wneud unrhyw benderfyniadau. Felly mae'n

hanfodol bod adroddiadau'n nodi "rhesymau" clir dros wneud y penderfyniad fel yr argymhellwyd.

5. YR ADRODDIAD

- 5.1 Bydd union natur y rhan hon o'r adroddiad yn amrywio o un mater i'r llall ac yn ôl y wybodaeth gefndirol y mae angen ei darparu. Dylai'r adran nodi pa opsiynau sydd ar gael i'r penderfynwr a pham y dewiswyd yr opsiwn a argymhellwyd i'w gymeradwyo.

5.2 Casgliad

Yn tynnu ynghyd unrhyw themâu sy'n rhedeg drwy'r adroddiad / yn crynhoi'r materion y cyfeirir atynt ym mhrif gorff yr adran adroddiadau a pha opsiwn a argymhellir i'w gymeradwyo.

6. TYBIAETHAU

- 6.1 Dylai'r adran hon nodi pa ragdybiaethau a wnaed wrth gynnig yr argymhellion yn yr adroddiad. Gallai'r rhagdybiaethau gynnwys, ymhlith pethau eraill, chwyddiant, costau, gwariant, poblogaeth, polisi, galw am wasanaeth ac ati. Os na wnaed unrhyw ragdybiaethau neu os tybiwyd nad oedd eu hangen, yna dylid nodi hyn.

7. CRYNODEB O'R ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG

- 7.1 Yn yr adran hon, copiŵch y crynodeb rydych wedi'i gynnwys yn Adran 12 o'r Asesiad Effaith Integredig (AEI) 'Rheswm(ymau) dros yr Argymhelliad'. Dylai'r crynodeb hwn ddod â'r pwyntiau allweddol a godwyd gan yr AEI i ben, gan gynnwys yr hyn y mae'n ei ddweud wrthyh, pa ddata/tystiolaeth a ddefnyddiwyd gennych, unrhyw effeithiau sylweddol a nodwyd a sut y cafodd unrhyw effeithiau negyddol (os o gwbl) eu lliniaru.

Os yw'ch adroddiad yn eitem Gwybodaeth yn Unig yna nid oes angen AEI wedi'i gwblhau ar hyn o bryd, ond rhaid drafftio AEI pan fydd y cynnig/prosiect yn cyrraedd y cam ffurfiannol ac yna ei ddiweddarw wrth i'r cynnig/prosiect ddatblygu. Rhaid cynnwys AEI wedi'i gwblhau mewn unrhyw adroddiadau terfynol wrth symud ymlaen am benderfyniad. Dylai'r AEI gael ei gynnwys fel dolen, bydd rhaid gwneud cais i'r Ddesg Gymorth TG er mwyn ei greu.

Dolen i'r Asesiad Effaith Integredig llawn

<http://sc-aptken1/kentico/departments/equalities-and-welsh-language/socio-economic-duty.aspx>

8. GOBLYGIADAU ARIANNOL

- 8.1 Rhaid cael adran sy'n amlinellu goblygiadau ariannol yr adroddiad/argymhellion a datganiad clir ynghylch sut y bydd y goblygiadau hyn (ar syth ac yn yr hirdymor) yn cael eu hariannu - rhaid ymgynghori â'r Pennaeth Cyllid Corfforaethol / Swyddog 151. Lle nad oes unrhyw oblygiadau ariannol gall yr adroddiad ddatgan nad oes dim goblygiadau ariannol. Os oes rhagdybiaethau'n cael eu gwneud am gyllid, yna mae angen eu nodi yma.

9. GOBLYGIADAU PERSONÉL

- 9.1 Rhaid cael adran sy'n amlinellu unrhyw oblygiadau personél yn yr adroddiad. Rhaid ymgynghori â Phennaeth Gwasanaethau Pobl. Os nad oes unrhyw oblygiadau gall yr adroddiad ddatgan nad oes dim.
- 9.2 Os yw testun yr adroddiad yn ymwneud ag ailstrwythuro Gwasanaeth, bydd angen Asesiad Cymraeg ar y swyddi gwag, ar ôl cynnal unrhyw ymarfer neilltuo. Gellir dod o hyd i ganllawiau ar gynnal Asesiad Cymraeg yn y Canllawiau ar Asesu Anghenion Cymraeg o fewn Swyddi. <http://sc-aptken1/KENTICO/Departments/HR/Policies-Procedures/Recruitment-Guidance-On-Assessing-The-Welsh-Needs.aspx>

10. YMGYNGHORIADAU

- 10.1 Os bydd unrhyw ymgynghorai yn mynegi barn sy'n wahanol i'r argymhellion, rhaid i'r awdur eu cynnwys yn yr adran hon ac fel rhan o brif gorff yr adroddiad nodi a yw'r awdur o'r farn eu bod wedi derbyn sylw boddhaol yn yr adroddiad, p'un a allant / dylid eu hymgorffori yn yr argymhelliad ac os nad ydynt wedi'u hymgorffori yn yr argymhelliad, yna pam.

11. PWERAU STATUDOL

- 11.1 Mae hyn er mwyn nodi'r pŵer(au) statudol galluogi ar gyfer y penderfyniad dan sylw. Dylai hefyd ddatgan a yw'r pŵer(au) yn gyfrifoldeb y Cyngor neu'r Cabinet llawn ac a yw wedi'i ddirprwyo i swyddogion. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y pwerau, cysylltwch â'r Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol.

12. BRYD (EITEMAU CABINET YN UNIG)

- 12.1 Bydd holl benderfyniadau'r Cabinet yn ddarostyngedig i weithdrefn "galw i mewn" lle gall y Pwyllgor Craffu perthnasol ofyn i ohirio gweithredu'r penderfyniad nes iddo ystyried y mater ac, os dyna yw penderfyniad y Pwyllgor Craffu, gallant ofyn i'r Cabinet i ailystyried ei benderfyniad. Yr unig eithriadau fydd eitemau lle nad yw'r cais galw i mewn yn unol â'r weithdrefn galw i mewn neu lle mae angen gweithredu'r penderfyniad ar frys. Os yw hyn yn wir, dylai'r adroddiad nodi bod hyn felly, ac egluro pam. Rhaid i Gadeirydd y Cyngor gytuno bod y penderfyniad a gynigir yn rhesymol ym mhob amgylchiad ac iddo gael ei drin fel mater o frys.

Awdur: enw, teitl a chyfeiriad e-bost

Ymgynghorwyr: Rhwch enwau a theitlau a chyfeiriad e-bost, un o dan y llall. Y rhai yr ymgynghorir â hwy fydd y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr perthnasol, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro, Pennaeth Gwasanaethau Pobl, Pennaeth Cyllid Corfforaethol / Swyddog Adran 151, Pennaethiaid Gwasanaeth perthnasol eraill, Aelod(au) y Cabinet, Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu perthnasol ac Aelodau Ward lleol. Dylai unrhyw sylwadau gan ymgynghoreion gael eu hymgorffori yn yr adroddiad gyda barn y swyddog a yw'r sylwadau'n cael eu derbyn ai peidio.

Papurau Cefndir:

Dylai'r adran hon nodi rhestr o'r papurau cefndir sydd ar gael i'w harchwilio sy'n datgelu unrhyw

ffeithiau neu faterion, ym marn awdur yr adroddiad, y mae'r adroddiad neu ran bwysig o'r adroddiad wedi'i seilio arnynt ac yn eu barn hwy wedi dibynnu arnynt i raddau sylweddol wrth baratoi'r adroddiad, ond nid ydynt yn cynnwys gweithiau cyhoeddedig. Dylid cynnwys rhif ffôn person i gysylltu ag ef os ydych am archwilio'r papurau hynny. Yn achos papurau cefndir eithriedig, mae dedfryd i'r perwyl bod "Papurau Cefndir wedi'u heithrio" yn ddigonol.

Atodiadau:

Atodiad 1	Teitl Atodiad 1 os y'i defnyddir
Atodiad 2	Teitl Atodiad 2 os y'i defnyddir
Atodiad 3	Teitl Atodiad 3 os y'i defnyddir

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – Asesiad Effaith Integredig

Bwriedir i'r asesiad effaith integredig hwn helpu'r Cyngor i wneud penderfyniadau effeithiol ar sail gwybodaeth, gan sicrhau cydymffurfiaeth ag amrywiaeth o ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys:

- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
- Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol – Adrannau 1 i 3 o Ddeddf Cydraddoldeb
- Ymgynghori Statudol yn erbyn Athrawiaeth Disgwyliad Dilys ac Egwyddorion Gunning
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

NODER: Dim ond os bydd cynigion yn rhai strategol eu natur neu wrth adolygu penderfyniadau strategol blaenorol y mae angen llenwi Adran 3 Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol. Gweler tudalen 6 o Ganllawiau Llywodraeth Cymru, Paratoi ar gyfer cychwyn y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

1. Manylion y Cynnig			
Swyddog Arweiniol	Pennaeth Gwasanaeth	Maes Gwasanaeth ac Adran	Dyddiad

Beth yw'r cynnig sy'n cael ei asesu? Rhowch fanylion cryno am y cynnig a dolen i unrhyw adroddiad neu ddogfennau perthnasol.

2. Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011

(Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi "sylw dyledus" i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth; hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng grwpiau gwahanol; a meithrin cydberthnasau da rhwng grwpiau gwahanol). Noder y gall fod gan unigolyn fwy nag un nodwedd warchodedig.

Nodweddion Gwarchodedig	A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y nodweddion gwarchodedig a sut?	Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?	Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?
Oedran (<i>pobl o bob oedran</i>)			
Anabledd (<i>pobl ag anableddau/ cyflyrau hirdymor</i>)			
Ailbennu Rhywedd (<i>unrhyw un y mae ei hunaniaeth neu ei r(h)ywedd yn wahanol i'r rhyw a bennwyd iddo/iddi ar adeg ei (g)eni</i>)			
Priodas neu Bartneriaeth Sifil (<i>pobl sy'n briod neu sydd mewn partneriaeth sifil</i>)			
Beichiogrwydd a Mamolaeth (<i>menywod sy'n feichiog a/neu sydd ar absenoldeb mamolaeth</i>)			
Hil (<i>pobl o gymunedau Duon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ac o wahanol gefndiroedd hiliol</i>)			

Crefydd neu Gred (<i>pobl â chrefyddau a chredoau gwahanol, gan gynnwys pobl heb unrhyw greddoau</i>)			
<u>Nodweddion Gwarchodedig</u>	A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y nodweddion gwarchodedig a sut?	Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?	Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?
Rhyw (<i>menywod a dynion, merched a bechgyn a'r rhai sy'n pennu eu rhywedd eu hunain</i>)			
Cyfeiriadedd Rhywiol (<i>lesbiaidd, hoyw, deurywiol, heterorywiol, arall</i>)			

3. Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol (Penderfyniadau Strategol yn Unig)

(Mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn rhoi cyfle i ni wneud pethau yn wahanol a sicrhau bod mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn wirioneddol wrth wraidd prosesau gwneud penderfyniadau allweddol. Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn golygu byw ar incwm isel o gymharu ag eraill yng Nghymru, heb fawr ddim cyfoeth cronedig, os o gwbl, sy'n arwain at fwy o amddifadedd materol, gan gyfyngu ar y gallu i gael nwyddau a gwasanaethau sylfaenol)

Ystyriwch y grwpiau ychwanegol hyn sy'n agored i niwed a'r effaith y gallai eich cynnig ei chael arnynt:

- Rhieni sengl a theuluoedd sy'n agored i niwed
- Pobl â lefel isel o lythrennedd/rhifedd
- Pensiynwyr
- Plant sy'n derbyn gofal
- Pobl ddigartref
- Gofalyddion
- Cymuned y Lluedd Arfog
- Myfyrwyr
- Aelwydydd ag un oedolyn
- Pobl sy'n camddefnyddio sylweddau
- Pobl sydd â phrofiad o'r system loches
- Pobl o bob oedran sy'n gadael lleoliad gofal
- Pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru (MALIC)
- Pobl sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol

<u>Anfantais economaidd-gymdeithasol</u>	A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y canlynol a sut?	Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?	Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?
--	--	---	--

Incwm Isel / Tlodi Incwm (<i>ni allwch fforddio gwneud taliadau rheolaidd megis biliau, bwyd, dillad, trafnidiaeth ac ati</i>)			
---	--	--	--

<u>Anfantaïs economaidd-gymdeithasol</u>	A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y canlynol a sut?	Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?	Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?
Fawr ddim Cyfoeth a/neu Ddim Cyfoeth (<i>digon o arian i dalu costau byw sylfaenol a biliau ond nid oes gennych unrhyw gynilion i ddelio â gwariannau annisgwyl nac unrhyw ddarpariaethau ar gyfer y dyfodol</i>)			
Amddifadedd Materol (<i>ni allwch gael nwyddau na gwasanaethau sylfaenol h.y. cynhyrchion ariannol megis yswiriant bywyd, atgyweirio nwyddau trydanol wedi torri neu brynu rhai newydd, cartref cynnes, hobiau ac ati</i>)			
Amddifadedd Ardal (<i>Ile rydych yn byw (ardaloedd gwledig), lle rydych yn gweithio (hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus). Effaith ar yr amgylchedd?</i>)			
Cefndir Economaidd-gymdeithasol (<i>dosbarth cymdeithasol h.y. addysg, cyflogaeth ac incwm rhieni</i>)			

<u>Anfantais economaidd-gymdeithasol</u>	A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y canlynol a sut?	Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?	Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?
Anfantais Economaidd-gymdeithasol (<i>Pa effaith gronol a gaiff y cynnig ar bobl neu grwpiau oherwydd eu nodwedd warchodedig/ nodweddion gwarchodedig neu'r ffaith eu bod yn agored i niwed neu am eu bod eisoes o dan anfantais</i>)			

4. Cynllun Corfforaethol – Amcanion Llesiant y Cyngor

(Sut y bydd eich cynnig yn cyflawni unrhyw rai/pob un o Amcanion Llesiant y Cyngor? Sydd, yn eu tro, yn helpu i gyflawni nodau llesiant cenedlaethol Cymru fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. A fydd yn cael unrhyw effeithiau (cadarnhaol, negyddol neu niwtral)? Os bydd yn cael effeithiau negyddol, sut mae'r rhain wedi'u lliniaru?) Amcanion Llesiant

Amcan 1 – Gwella cyfleoedd addysg i bawb	
Amcan 2 – Galluogi cyflogaeth	
Amcan 3 – Mynd i'r afael â chyflenwad, cyflwr a chynaliadwyedd cartrefi ledled y fwrdeistref sirol a darparu cyngor, cymorth neu gefnogaeth er mwyn helpu i wella iechyd a lles pobl	
Amcan 4 – Hyrwyddo system trafnidiaeth fodern, integredig a chynaliadwy sy'n cynyddu cyfleoedd, yn hybu ffyniant ac yn lleihau'r effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd gymaint ag sy'n bosibl	
Amcan 5 – Creu Bwrdeistref Sirol sy'n cefnogi Ffordd Iach o Fyw yn unol â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	
Amcan 6 – Cynorthwyo dinasyddion i aros yn annibynnol a gwella eu llesiant	

4a. Cysylltiadau â Pholisïau perthnasol eraill y Cyngor

(Sut y bydd eich cynnig yn cyflawni unrhyw bolisïau perthnasol eraill sydd gan y Cyngor?)

5. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Y Pum Ffordd o Weithio

(A elwir hefyd yn egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried sut y bydd unrhyw gynnig yn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio fel llinell sylfaen)

Ffyrrdd o Weithio	Sut rydych wedi defnyddio'r Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy wrth lunio'r cynnig?
Hirdymor 	Ystyriwch effaith hirdymor y cynnig ar allu cymunedau i sicrhau eu llesiant.
Atal 	Ystyriwch sut y bydd y cynnig yn atal problemau rhag digwydd neu waethygu
Integreiddio 	Ystyriwch sut y bydd eich cynnig yn effeithio ar wasanaethau eraill a ddarperir yn ein cymunedau (gallai'r rhain fod yn wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor neu'n wasanaethau a ddarperir gan sefydliadau neu grwpiau eraill)

Cydweithio 	Ystyriwch sut y byddwch yn gweithio gyda gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor neu wasanaethau a ddarperir gan sefydliadau neu grwpiau eraill yn ein cymunedau.
Cynnwys 	Ystyriwch sut y byddwch yn cynnwys pobl sydd â diddordeb yn y cynnig hwn ac yn sicrhau eu bod yn cynrychioli amrywiaeth ein cymunedau.

6.	
Nodau Llesiant	A yw'r cynnig yn sicrhau ein bod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at y Nod Llesiant a sut?
Cymru lewyrchus <i>Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas</i>	Mae defnydd effeithlon o adnoddau a phobl fedrus ac addysgedig yn cynhyrchu cyfoeth ac yn darparu swyddi.
Cymru gydnherth <i>Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnherthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (ar gyfer newid yn yr hinsawdd)</i>	Cynnal a gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau sy'n cynnal cydnherthedd ac a all addasu i newid (e.e. newid yn yr hinsawdd). A ydych wedi ystyried yr effaith amgylcheddol y bydd eich cynnig yn ei chael ac a ydych wedi cwblhau Asesiad Effaith Amgylcheddol neu Asesiad Amgylcheddol Strategol, os oes angen?

Cymru iachach <i>Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol</i>	Mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a deellir effeithiau ar iechyd
Cymru sy'n fwy cyfartal <i>Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir na'u hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol)</i>	Gall pobl gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir na'u hamgylchiadau. Mae hyn yn cynnwys y nodweddion gwarchodedig a restrir yn C2 uchod. Ystyriwch hefyd yr effeithiau cronol.

<u>Nodau Llesiant</u>	A yw'r cynnig yn sicrhau ein bod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at y Nod Llesiant a sut?
Cymru o gymunedau cydlynus <i>Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da</i>	Mae cymunedau yn atyniadol, yn hyfyw ac yn ddiogel ac mae ganddynt gysylltiadau da.
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu <i>Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden</i>	Caiff diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg eu hyrwyddo a'u gwarchod. Anogir pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang <i>Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang</i>	Ystyriwch yr effaith ar lesiant byd-eang wrth ystyried llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol lleol. A ydych wedi ystyried yr effaith amgylcheddol y bydd eich cynnig yn ei chael ac a ydych wedi cwblhau Asesiad Effaith Amgylcheddol neu Asesiad Amgylcheddol Strategol, os oes angen?

7. Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg

(Mae Mesur y Gymraeg 2011 a Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi 'sylw dyledus' i'r effaith gadarnhaol neu negyddol y gallai cynnig ei chael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg)

[Safonau Lluoio Polisi – Dogfen Gyngor Arferion Da](#)



Gofyniad	A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y canlynol a sut?	Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?	Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon? e.e. WESP, TAN20, CDLI, Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion
Cysylltiadau â Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru a Strategaeth Cymraeg Pum Mlynedd 2017-2022 a Phroffil Iaith CBSC			
Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg . <i>Safonau 88–93 yn benodol</i>	Ystyriwch hawliau siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymdrin â'r Cyngor ac i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith	Sicrhewch fod gohebiaeth a manylion ar y wefan yn ddwyieithog hyd yn oed os na fydd y cynnig yn effeithio ar y Gymraeg e.e. gwaith gosod wyneb newydd ar ffordd	
Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg e.e. statws, defnyddio gwasanaethau Cymraeg, defnyddio'r Gymraeg mewn bywyd pob dydd yn y gwaith/cymuned	Mynd ati i annog a hyrwyddo'r defnydd o'n gwasanaethau yn Gymraeg i weld cynnydd yn y galw dros amser		
Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg e.e. staff, trigolion ac ymwelwyr	Hawliau siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymdrin â'r Cyngor ac i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith		
Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg			

7a. Ar ôl ystyried yr effeithiau uchod, sut mae'r cynnig wedi cael ei ddatblygu er mwyn sicrhau ei fod yn cael effeithiau cadarnhaol, neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar (a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a b) o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Yr effaith ar y defnydd o'r Gymraeg, cynaliadwyedd cymunedau Cymraeg, nifer a/neu ganran y siaradwyr Cymraeg, rhuglder a hyder siaradwyr Cymraeg a dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg, trosglwyddo'r Gymraeg gartref/o'r naill genhedlaeth i'r llall, defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, cynyddu seilwaith cyfryngau digidol a/neu gyfryngau Cymraeg, hyrwyddo'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd a'i statws

8. Data a Gwybodaeth

(Pa ddata neu dystiolaeth arall a ddefnyddiwyd i lywio gwaith datblygu'r cynnig? Gall dystiolaeth gynnwys canlyniad ymgynghoriadau blaenorol, cronfeydd data presennol, prosiectau peilot, adolygiad o gwynion a chanmoliaeth cwsmeriaid a/neu adborth defnyddwyr gwasanaeth eraill, data cenedlaethol a rhanbarthol, cyhoeddiadau academiaidd ac adroddiadau ymgynghorwyr ac ati)

Data/tystiolaeth <i>(Rhowch ddolen i'r adroddiad os yw'n briodol)</i>	Canfyddiadau perthnasol allweddol	Sut mae'r data/tystiolaeth wedi llywio'r cynnig hwn?
Pa ddata/tystiolaeth a ddefnyddiwyd? Rhowch ddolenni i unrhyw adroddiadau os yw'n briodol e.e. Arolwg Cartrefi 2017	Beth oedd y canlyniadau allweddol? Beth a ddywedodd y data/tystiolaeth a ddefnyddiwyd wrthyhch?	Sut mae'r data/tystiolaeth a oedd ar gael wedi helpu i lywio'r cynnig? A wnaeth ategu'r cynnig a sut? Os na wnaeth y data/tystiolaeth ategu'r cynnig, pam felly?

A nodwyd unrhyw fylchau yn y dystiolaeth a'r data a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r cynnig hwn a sut y caiff y bylchau hyn eu llenwi? *Gellir cynnwys manylion gweithgarwch ymgynghori pellach yn Adran 9.*

A oes unrhyw fylchau yn y data presennol a sut y byddwch yn mynd ati i lenwi'r bylchau hyn?

9. Ymgynghori

(Mewn rhai achosion, mae gofyniad cyfreithiol i ymgynghori. Mewn achosion eraill, hyd yn oed os nad oes unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol, gall pobl ddisgwyl, yn ddilys ddigon, y cynhelir ymgynghoriad. Os penderfynwyd bod angen cynnal ymgynghoriad, mae'n rhaid dilyn [Egwyddorion Gunning](#). Ystyriwch y [Fframwaith Ymgynghori ac Ymgyssylltu](#). Noder ei bod yn bosibl y bydd angen diweddarau hyn wrth i'r cynnig ddatblygu ac er mwyn atgyfnerthu'r asesiad.

Disgrifiwch yn gryno unrhyw ymgynghoriadau diweddar neu arfaethedig gan roi sylw arbennig i ddangos tystiolaeth bod Egwyddorion Gunning wedi'u dilyn.

Â phwy yr ymgynghorwyd?

Pan ymgynghorwyd â nhw, a gynhaliwyd yr ymgynghoriad ar y cam ffurfiannol ac a roddwyd digon o amser i ymgynghoreion ystyried ac ymateb?

A roddwyd digon o wybodaeth i'r ymgynghoreion er mwyn iddynt wneud penderfyniad hyddysg ynghylch y cynnig?

Beth oedd y canlyniadau allweddol?

A ystyriwyd canfyddiadau'r ymgynghoriad?

10.

Sut y caiff y broses o roi'r cynnig ar waith, a'i effaith, eu monitro, gan gynnwys rhoi unrhyw ddiwygiadau ar waith?	Er enghraifft, pa ddulliau monitro a ddefnyddir? Pa mor aml?
Beth yw'r trefniadau ymarferol ar gyfer y gwaith monitro?	Er enghraifft, pwy fydd yn trefnu'r gwaith monitro? Pryd y bydd yn dechrau?
Sut y caiff canlyniadau'r gwaith monitro eu defnyddio i ddatblygu cynigion yn y dyfodol?	
Pryd y disgwylir i'r cynnig gael ei adolygu?	
Pwy sy'n gyfrifol am sicrhau y bydd hyn yn digwydd?	

11. Argymhelliad a Rheswm/Rhesymau

☐	Rhoi'r cynnig ar waith heb unrhyw ddiwygiadau
☐	Rhoi'r cynnig ar waith gan ystyried y camau lliniaru a nodwyd
☐	Gwrthod y cynnig oherwydd ei effaith anghymesur ar gydraddoldeb, tlodi ac anfantais economaidd-gymdeithasol

A ydych wedi cysylltu â'r swyddogion perthnasol er mwyn cael cyngor ac arweiniad?	Ydw ☐	Nac
ydw ☐		

12.

Dylech gynnwys yma gasgliad eich Asesiad Effaith Integredig. Beth mae'n ei ddweud wrthyh? Sut mae'r data/tystiolaeth a ddefnyddiwyd wedi'ch helpu i wneud y penderfyniad ar gyfer Adran 11 uchod? Dylech gyfeirio at unrhyw effeithiau sylweddol (cadarnhaol, negyddol neu niwtral). Os bydd unrhyw effeithiau negyddol wedi'u nodi, sut maent wedi cael eu lliniaru er mwyn lleihau'r effaith? A wnaethoch chi nodi unrhyw effaith gronnus y bydd eich cynnig yn ei chael? Caiff y crynodeb a roddir yma ei gopïo i'ch adroddiad yn y dyfodol er mwyn i benderfyniad gael ei wneud drwy broses y pwyllgorau ac, felly, mae'n rhaid i'r adran hon fod yn gryno ond rhaid iddi gynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol.

13. Rheoli Fersiynau

(Dylech ddefnyddio'r Asesiad Effaith Integredig yn ystod camau cynnar y broses o ddatblygu'r cynnig. Gellir atgyfnerthu'r Asesiad Effaith Integredig wrth i amser fynd heibio er mwyn helpu llywio'r cynnig. Bydd yr adran 'Rheoli Fersiynau' yn gweithredu fel trywydd archwilio er mwyn dangos tystiolaeth o'r ffordd y mae'r Asesiad Effaith Integredig wedi datblygu dros amser)

Rhif y Fersiwn	Awdur	Disgrifiad cryno o'r diwygiadau/diweddariad	Dyddiad diwygio

Awdur yr Asesiad Effaith Integredig

Enw:	
Teitl Swydd:	
Dyddiad:	

Cymeradwyaeth gan Bennaeth y Gwasanaeth

Enw:			
Teitl Swydd:			
Llofnod:		Dyddiad:	

2.5 Pwy all rhoi eitemau ar agenda'r weithrediaeth?

- (a) Yr arweinydd fydd yn penderfynu ar yr amserlen ar gyfer cyfarfodydd y weithrediaeth. Caiff roi ar agenda unrhyw gyfarfod o'r weithrediaeth unrhyw fater y dymuna, p'un a yw'r awdurdod wedi cael ei ddirprwyo i'r weithrediaeth, pwyllgor ohoni neu unrhyw aelod neu swyddog ynghylch y mater hwnnw neu beidio. Bydd y swyddog priodol yn cydymffurfio â gofynion yr arweinydd yn hyn o beth.
- (b) Bydd y swyddog priodol yn sicrhau y caiff eitem ei gosod ar agenda'r cyfarfod nesaf sydd ar gael o'r weithrediaeth os yw'r pwyllgor trosolwg a chraffu perthnasol neu'r Cyngor llawn wedi penderfynu y caiff eitem ei hystyried gan y weithrediaeth.
- (c) Caiff unrhyw aelod o'r Cyngor ofyn i'r arweinydd roi eitem ar agenda cyfarfod o'r weithrediaeth i'w hystyried, ac os yw'r arweinydd yn ei ddisgresiwn absoliwt yn cytuno, caiff yr eitem ei hystyried yn y cyfarfod nesaf sydd ar gael o'r weithrediaeth. Bydd rhybudd y cyfarfod yn rhoi enw'r Cyngorydd a ofynnodd am i'r eitem gael ei hystyried.
- (d) Swyddogion â chymeradwyaeth flaenorol gan Dîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor.
- (e) Caiff y swyddog monitro a/neu'r prif swyddog ariannol gynnwys eitem i'w hystyried ar agenda cyfarfod o'r weithrediaeth, a chaiff ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog priodol alw cyfarfod o'r fath yn rhinwedd ei ddyletswyddau statudol. O dan amgylchiadau eraill, os yw unrhyw ddau o'r pennaeth gwasanaeth cyflogedig, y prif swyddog ariannol a'r swyddog monitro o'r farn bod angen galw cyfarfod o'r weithrediaeth er mwyn ystyried mater y mae angen penderfyniad yn ei gylch, gallant gyd-gynnwys eitem ar agenda cyfarfod o'r weithrediaeth. Os na chynhelir cyfarfod o'r weithrediaeth yn ddigon buan i ymdrin â'r mater dan sylw, caiff yr unigolyn/unigolion sydd â hawl i gynnwys eitem ar yr agenda hefyd ei gwneud yn ofynnol galw cyfarfod lle caiff y mater ei ystyried.

Rheolau Gweithdrefnau Trosolwg a Chraffu

1. Beth fydd y nifer a'r trefniadau ar gyfer pwyllgorau trosolwg a chraffu?

Bydd y Cyngor wedi nodi'r pwyllgorau trosolwg a chraffu yn Erthygl 6, a bydd yn penodi iddynt fel yr ystyria'n briodol o dro i dro. Caiff y pwyllgorau hyn benodi is-bwyllgorau. Mae manylion Cylch Gorchwyl a phwerau dirprwyedig pob pwyllgor wedi'u nodi yn Erthygl 6.

Mae gan bob pwyllgor trosolwg a chraffu 18 o aelodau, ac mae pob un yn wleidyddol gytbwys. Bydd y Cyd-bwyllgor Craffu yn cynnwys pob un o'r 60 Aelod Anweithredol.

2. Pwy gaiff fod yn aelod o'r pwyllgorau trosolwg a chraffu?

Caiff pob cynghorydd, ac eithrio aelodau o'r weithrediaeth, fod yn aelod o bwyllgor trosolwg a chraffu. Fodd bynnag, ni chaiff unrhyw aelod graffu ar benderfyniad y mae ef/hi wedi ymwneud yn uniongyrchol ag ef.

3. Aelodau cyfetholedig

Bydd gan bob pwyllgor neu is-bwyllgor trosolwg a chraffu hawl i argymhell i'r Cyngor ei fod yn penodi nifer o bobl fel aelodau cyfetholedig heb bleidlais.

4. Cynrychiolwyr addysg

Bydd pob pwyllgor/is-bwyllgor trosolwg a chraffu perthnasol sy'n ymdrin â materion addysg yn cynnwys yn ei aelodaeth gynrychiolwyr pleidleisio credoau crefyddol a rhiant-lywodraethwyr, fel sy'n ofynnol gan y gyfraith a chanllawiau'r Cynulliad Cenedlaethol.

Os yw'r pwyllgor/is-bwyllgor trosolwg a chraffu yn ymdrin â materion heblaw'r swyddogaeth addysg, ni fydd y cynrychiolwyr hyn yn pleidleisio ar y materion eraill hynny, ac ni chânt fod yn bresennol ond fel aelodau cyfetholedig heb bleidlais o'r pwyllgor i drafod y materion eraill hynny, os gwahoddwyd hwy i wneud hynny.

5. Cyfarfodydd y pwyllgorau trosolwg a chraffu

Bydd pwyllgorau trosolwg a chraffu'n cyfarfod yn rheolaidd a chânt eu cynllunio ymlaen llaw. Hefyd, caiff cyfarfodydd arbennig eu galw o dro i dro fel bo'n briodol. Gall cyfarfod o'r pwyllgor trosolwg a chraffu gael ei alw gan gadeirydd y pwyllgor trosolwg a chraffu perthnasol, neu gan y swyddog priodol os yw'n ei ystyried yn angenrheidiol neu'n briodol.

6. Cworwm

Bydd y cworwm ar gyfer pwyllgor trosolwg a chraffu fel y nodir ar gyfer pwyllgorau yn Rheolau Gweithdrefnau'r Cyngor yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn.

7. Pwy sy'n cadeirio cyfarfodydd y pwyllgorau trosolwg a chraffu?

- 7.1 Caiff y pwyllgorau/is-bwyllgorau trosolwg a chraffu eu cadeirio gan gynghorydd.
- 7.2 Caiff y trefniadau a nodir yn adrannau 66 i 75 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 eu dilyn ar gyfer penodi unigolion i gadeirio pwyllgorau trosolwg a chraffu.

8. Rhaglen waith

Bydd y pwyllgorau/is-bwyllgorau trosolwg a chraffu yn gyfrifol am lunio eu rhaglen waith eu hunain ac wrth wneud hynny, byddant yn ystyried dymuniadau aelodau ar y pwyllgor hwnnw nad ydynt yn aelodau o'r grŵp gwleidyddol mwyaf ar y Cyngor.

9. Eitemau ar yr agenda

- (a) Bydd gan unrhyw aelod o bwyllgor neu is-bwyllgor trosolwg a chraffu yr hawl i roi rhybudd i'r swyddog priodol ei fod yn dymuno i eitem sy'n berthnasol i swyddogaethau'r pwyllgor neu is-bwyllgor (gan gynnwys penderfyniadau pwerau dirprwyedig sy'n destun craffu) gael ei chynnwys ar yr agenda ar gyfer cyfarfod o'r pwyllgor neu is-bwyllgor, a chael ei thrafod yno. O gael cais o'r fath, bydd y swyddog priodol yn sicrhau y caiff yr eitem ei chynnwys ar yr agenda nesaf sydd ar gael. Bydd yr agenda'n cynnwys eitem "cofnodi unrhyw geisiadau gan aelodau pwyllgor i gynnwys eitem ar yr agenda nesaf sydd ar gael".

Mae'r paragraff uchod yn un o ofynion Deddf Llywodraeth Leol 2000.

- (b) Caiff unrhyw ddeg aelod o'r Cyngor nad ydynt yn aelodau o'r pwyllgor trosolwg a chraffu roi rhybudd ysgrifenedig i'r swyddog priodol eu bod yn dymuno i eitem gael ei chynnwys ar agenda pwyllgor trosolwg a chraffu a enwir. Os bydd y swyddog priodol yn cael rhybudd o'r fath, bydd yn cynnwys yr eitem ar agenda gyntaf y pwyllgor trosolwg a chraffu perthnasol sydd ar gael, i'w hystyried gan y pwyllgor.
- (c) Caiff unrhyw gynghorydd nad yw'n aelod o grŵp gwleidyddol ofyn i'r cadeirydd gynnwys eitem ar agenda'r cyfarfod nesaf.
- (d) Bydd y pwyllgorau trosolwg a chraffu hefyd yn ymateb, cyn gynted ag y mae eu eu rhaglen waith yn caniatáu, i geisiadau gan y Cyngor, ac os yw'n ystyried yn briodol, y weithrediaeth i adolygu meysydd penodol o weithgarwch y Cyngor. Lle bônt yn gwneud hynny, bydd y pwyllgor trosolwg a chraffu yn adrodd ei ganfyddiadau ac unrhyw argymhellion yn ôl i'r Cyngor a/neu'r weithrediaeth.

10. Adolygu a datblygu polisi

- (a) Mae rôl y pwyllgorau trosolwg a chraffu mewn perthynas â datblygu cyllideb a fframwaith polisi'r Cyngor wedi'i nodi'n fanwl yn Rheolau Gweithdrefnau'r Gyllideb a Fframwaith Polisi.
- (b) Mewn perthynas â datblygu ymagwedd y Cyngor at faterion eraill nad ydynt yn rhan o'i gyllideb a fframwaith polisi, caiff pwyllgorau neu is-bwyllgorau trosolwg a chraffu wneud cynigion i'r weithrediaeth ar gyfer datblygiadau i'r graddau y maent yn ymwneud â materion o fewn eu cylch gorchwyl.
- (c) Caiff pwyllgorau trosolwg a chraffu gynnal ymchwiliadau ac ymchwilio i'r opsiynau sydd ar gael o ran cyfeiriad datblygu polisi yn y dyfodol, a gallant benodi cynghorwyr ac aseswyr i'w cynorthwyo yn y broses hon. Gallant ymweld â safleoedd, cynnal arolygon cyhoeddus, cynnal cyfarfodydd cyhoeddus, comisiynu ymchwil a gwneud unrhyw beth arall maent yn ystyried yn rhesymol ei fod yn angenrheidiol i lywio eu trafodaethau. Gallant ofyn i dystion fod yn bresennol i'w hannerch ar unrhyw fater o dan ystyriaeth a thalu ffi resymol a threuliau i unrhyw gynghorwyr, aseswyr a thystion am wneud hynny. Gall y Cyngor eu hawdurdodi i gadw cyllideb i dalu am y gweithgareddau hyn.

11. Adroddiadau gan bwyllgor trosolwg a chraffu

- (a) Pan fydd y pwyllgor trosolwg a chraffu wedi llunio argymhellion ar gynigion ar gyfer datblygu, bydd yn paratoi adroddiad ffurfiol a'i gyflwyno i'r swyddog priodol i'w ystyried gan y weithrediaeth (os yw'r cynigion yn gyson â'r fframwaith cyllidebol a pholisi presennol), neu i'r Cyngor fel sy'n briodol (e.e. pe bai'r argymhelliad yn galw am wyriad o neu newid i'r gyllideb a fframwaith polisi cytunedig).
- (b) Os na fydd pwyllgor trosolwg a chraffu'n gallu cytuno ar un adroddiad terfynol i'r Cyngor neu'r weithrediaeth fel sy'n briodol, caiff hyd at un adroddiad lleiafrifol ei baratoi a'i gyflwyno i'w ystyried gan y Cyngor neu'r weithrediaeth ynghyd â'r adroddiad mwyafrifol.

12. Gwneud yn siŵr y caiff yr adroddiadau trosolwg a chraffu eu hystyried gan y weithrediaeth

Pan fydd pwyllgor trosolwg a chraffu wedi cwblhau ei drafodaethau ar unrhyw fater, bydd yn anfon copi o'i adroddiad terfynol at y swyddog priodol a fydd yn ei ddosbarthu naill ai i'r weithrediaeth neu'r Cyngor, neu'r ddau, i'w ystyried, yn ôl a fyddai gan gynnwys yr adroddiad oblygiadau i gyllideb a fframwaith polisi'r Cyngor. Os yw'r swyddog priodol yn cyfeirio'r mater i'r Cyngor, bydd hefyd yn rhoi copi i'r arweinydd gyda rhybudd bod y mater i'w gyfeirio i'r Cyngor. Bydd gan y weithrediaeth bedair wythnos i ymateb i'r adroddiad trosolwg a chraffu, ac ni fydd y Cyngor yn ei ystyried yn ystod y cyfnod hwnnw. Pan fydd y Cyngor yn cwrdd i ystyried unrhyw gyfeiriad gan bwyllgor trosolwg a chraffu ar fater a fyddai'n effeithio ar y gyllideb a'r fframwaith polisi, bydd hefyd yn ystyried ymateb y weithrediaeth i'r cynigion trosolwg a chraffu.

13. Hawliau aelodau pwyllgorau trosolwg a chraffu i weld dogfennau

- (a) Yn ogystal â'u hawliau fel cynghorwyr, mae gan aelodau pwyllgorau trosolwg a chraffu hawl ychwanegol i weld dogfennau a rhybuddion o gyfarfodydd fel y'u nodir yn y Rheolau Gweithdrefnau Mynediad at Wybodaeth yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn.
- (b) Nid yw unrhyw beth yn y paragraff hwn yn atal cyswllt mwy manwl rhwng y weithrediaeth a'r pwyllgor trosolwg a chraffu fel sy'n briodol gan ddibynnu ar y mater penodol o dan ystyriaeth.

14. Aelodau a swyddogion yn cyflwyno gwybodaeth ar lafar

- (a) Caiff unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor trosolwg a chraffu adolygu a chraffu ar benderfyniadau a wnaed neu gamau a gymerwyd mewn perthynas â chyflawni unrhyw un o swyddogaethau'r Cyngor. Yn ogystal ag adolygu dogfennau, wrth gyflawni'r rôl craffu, caiff ofyn am i'r pennaeth gwasanaeth cyflogedig a/neu unrhyw uwch swyddog ymddangos ger ei fron er mwyn esbonio mewn perthynas â materion o fewn ei gylch gwaith:

- i) unrhyw benderfyniad penodol neu gyfres o benderfyniadau; a/neu
- ii) i ba raddau mae'r camau a gymerwyd yn gweithredu polisi'r Cyngor; a/neu
- iii) ei berfformiad

ac mae'n ddyletswydd ar yr unigolyn hwnnw i fod yn bresennol os oes angen. Bydd yr aelod/aelodau Cabinet priodol yn bresennol yng nghyfarfodydd y pwyllgor yn awtomatig, dim ond i ymateb i gwestiynau ac nid cychwyn trafodaeth.

- (b) Os oes angen i unrhyw aelod neu swyddog fod yn bresennol mewn pwyllgor trosolwg a chraffu o dan y ddarpariaeth hon, bydd cadeirydd y pwyllgor hwnnw yn rhoi gwybod i'r swyddog priodol. Bydd y swyddog priodol yn rhoi gwybod yn ysgrifenedig i'r aelod neu swyddog, gan roi o leiaf pum diwrnod gwaith o rybudd o'r cyfarfod y mae angen iddo fod yn bresennol ynddo. Bydd y rhybudd yn datgan natur yr eitem y mae angen iddo gyflwyno gwybodaeth amdani ar lafar, ac a oes angen cyflwyno unrhyw bapurau i'r pwyllgor. Os yw'r wybodaeth a gyflwynir i'r pwyllgor yn galw am gynnwys adroddiad, bydd yr aelod neu swyddog dan sylw yn cael digon o rybudd i ganiatáu iddo baratoi'r dogfennau.
- (c) O dan amgylchiadau eithriadol, lle nad yw'r aelod neu swyddog yn gallu bod yn bresennol ar y dyddiad gofynnol, neu os na ellir paratoi gwybodaeth neu ddogfennau'n rhesymol erbyn y dyddiad hwnnw, bydd y pwyllgor trosolwg a chraffu'n trefnu iddo fod yn bresennol ar ddyddiad arall, mewn ymgynghoriad â'r aelod neu swyddog.

15. Presenoldeb pobl eraill

Caiff pwyllgor trosolwg a chraffu wahodd pobl heblaw'r rhai a restrir ym mharagraff 14 uchod i'w annerch, trafod materion o bwys lleol a/neu ateb cwestiynau. Er enghraifft, efallai y bydd yn dymuno clywed gan breswylwyr, rhanddeiliaid ac aelodau a swyddogion mewn rhannau eraill o'r sector cyhoeddus, a bydd yn eu gwahodd i fod yn bresennol.

16. Y broses galw-i-mewn

16.1 Rheolau

(a) Cyffredinol

Pan fydd y weithrediaeth, aelod unigol o'r weithrediaeth (os y'i hawdurdodwyd) neu bwyllgor o'r weithrediaeth neu swyddog â phwerau dirprwyedig yn gwneud penderfyniad, caiff rhybudd penderfyniad ei gyhoeddi, gan gynnwys os yw'n bosibl yn electronig, a bydd ar gael ym mhrif swyddfa'r Cyngor y diwrnod ar ôl iddo gael ei wneud. Bydd y person sy'n gyfrifol am gyhoeddi'r rhybudd penderfyniad yn anfon copïau o'r cofnodion o'r holl benderfyniadau o'r fath at gadeiryddion yr holl bwyllgorau trosolwg a chraffu yn ôl yr un amserlen.

- (b) Bydd dyddiad cyhoeddi'r rhybudd penderfyniad i'w weld arno. Daw'r penderfyniad i rym, ac yna gellir ei weithredu, ar ddiwedd cyfnod y broses galw-i-mewn y cyfeirir ato ym mharagraff 16.1(g), oni bai y ceir cais i'w alw i mewn i'w adolygu fel y caniateir gan y paragraff hwn.

(c) Pwy all alw penderfyniad i mewn?

Gellir galw i mewn penderfyniad a wnaed ond na chafodd ei weithredu. Gall y partïon canlynol alw penderfyniad i mewn:-

- (i) Cadeirydd y pwyllgor craffu priodol **neu**

(ii) Unrhyw bedwar aelod (o fwy nag un grŵp gwleidyddol) y mae'n rhaid iddynt fod yn aelodau o'r pwyllgor craffu a fydd yn craffu ar y penderfyniad. Caiff arweinydd unrhyw grŵp gwleidyddol heblaw arweinydd y Cyngor fod yn un o'r pedwar aelod (ni waeth a yw'r person hwnnw'n aelod o'r pwyllgor craffu a fydd yn craffu ar y penderfyniad neu beidio) a gellir ystyried aelodau cyfetholedig o'r pwyllgor craffu'n grŵp gwleidyddol at ddibenion y broses galw-i-mewn.

[NODER: Mae gan y Pwyllgor Craffu Corfforaethol ac Adfywio (neu ei gadeirydd) y pŵer i ddod â mater, a all ddod o dan gylch gorchwyl pwyllgor craffu arall, i mewn i'w ystyried ganddo ei hun]

(d) Sail y broses galw-i-mewn

Gellir galw penderfyniad i mewn ar y sail:-

- (i) ei fod yn gwrthdaro â fframwaith polisi'r Cyngor; neu
- (ii) ei fod yn gwrthdaro â chyllideb gymeradwy'r Cyngor; neu
- (iii) ei fod wedi'i wneud heb roi ystyriaeth i ffaith neu wybodaeth berthnasol neu heb ymgynghoriad priodol a fyddai, ym marn yr aelodau sy'n gwneud y cais, yn arwain at y Weithrediaeth yn gwneud penderfyniad gwahanol.

(e) Yr hyn y gellir ei alw i mewn

- (i) Penderfyniadau a wnaed yn ffurfiol gan y Cabinet;
- (ii) Penderfyniadau a wnaed gan swyddog â phwerau dirprwyedig sy'n ymddangos ar y rhybuddion "penderfyniadau" ar y fewnwyd a nodir fel rhai sy'n "destun y broses galw-i-mewn". (Yn fras, y rhain yw'r penderfyniadau dirprwyedig a wneir gan y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth).

(f) Y weithdrefn galw-i-mewn

- (i) Yn ysgrifenedig. Rhaid i'r cais am alw penderfyniad i mewn nodi manylion y penderfyniad a sail y cais am ei alw i mewn, a chael ei lofnodi gan bedwar aelod priodol. Rhaid cyflwyno'r rhybudd i'r Swyddog Monitro cyn dyddiad cau'r broses galw-i-mewn, neu
- (ii) Drwy neges e-bost. Rhaid i'r neges sy'n gwneud cais am alw penderfyniad i mewn nodi manylion y penderfyniad a sail y cais am ei alw i mewn ac enwau'r aelodau sy'n cefnogi'r cais. Rhaid ei anfon at y Swyddog Monitro **ac** at y swyddog sy'n ymdrin â'r mater, cyn dyddiad cau'r broses galw-i-mewn.

(g) Cyfyngiadau ar y broses galw-i-mewn

- (i) Dyddiad cau.
Ar gyfer penderfyniadau gan y Cabinet, hwn yw diwedd y trydydd diwrnod gwaith ar ôl y diwrnod pan wnaethpwyd y penderfyniad gan y Cabinet.
Ar gyfer penderfyniadau gan swyddogion, hwn yw diwedd y trydydd diwrnod gwaith ar ôl y diwrnod pan gyhoeddwyd y penderfyniad ar y fewnwyd.
- (ii) Os yw'r penderfyniad yn un brys – gweler 16.2 isod – ni ellir ei alw i mewn.
- (iii) Ni ellir galw swyddogaethau'r Cyngor i mewn.
- (iv) Ni ellir galw i mewn swyddogaethau'r weithrediaeth yn y categorïau canlynol:-
 - erlyniadau, rhybuddion, achosion gorfodi a chyfreithiol
 - achosion unigol o adennill dyled
 - penderfyniadau ar achosion budd-dal tai a threth gyngor unigol
 - penderfyniadau ar achosion hawlio iawndal unigol
 - penderfyniadau ar achosion amddiffyn plant ac oedolion bregus unigol

- materion rheoli o ddydd i ddydd, materion cyflogaeth, disgyblu staff ac ail-raddio
 - pob contract gwerth llai na £25,000, contractau gwerth rhwng £25,000 a therfyn yr UE lle cafwyd ymgynghori â'r Pennaeth Caffael
 - materion yn ymwneud â'r Swyddog Canlyniadau, y Swyddog Cofrestru Etholiadol neu'r Cofrestrydd
 - achosion o osod eiddo masnachol a rhoi grantiau i fusnesau unigol yn unol â pholisïau'r Cyngor
 - gwerthu neu osod tir o dan reolau sefydlog neu'r protocol cymeradwy
 - gweithredoedd brys
- (v) Lle gall y swyddog dan sylw ddangos, drwy gyfeirio at waith papur, na chynhaliwyd y broses o wneud penderfyniad yn gywir, ni chaniateir y broses galw-i-mewn:-
- Os yw'r broses galw-i-mewn yn nodi "ymgynghoriad annigonol", os yw'r swyddog yn gallu dangos y bu ymgynghori â'r aelod Cabinet priodol, aelod/aelodau lleol, swyddogion priodol neu â'r pwyllgor craffu, os yw'r mater wedi'i gynnwys yn y cynlluniau gwella gwasanaethau, cynllun gwaith y Cabinet neu gynllun blynyddol Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella.
 - Os yw'r broses galw-i-mewn yn nodi "heb gymryd rhywbeth i ystyriaeth", os, trwy gyfeirio at y gwaith papur sy'n cofnodi'r penderfyniad, gall y swyddog brofi y cafodd y mater ei ystyried, ni chaiff y broses galw-i-mewn ei chaniatáu.

(h) **Dilysrwydd y cais**

Caiff dilysrwydd y cais ei benderfynu gan y Swyddog Monitro, mewn ymgynghoriad â chadeirydd y pwyllgor craffu (neu yn absenoldeb y cadeirydd neu ei anallu i weithredu, â'r is-gadeirydd). Mae hyn wedi'i gyfyngu i benderfynu ar gydymffurfiaeth â gweithdrefnau (gan gynnwys camddefnyddio'r broses) ond nid yw'n benderfyniad ar rinweddau'r broses galw-i-mewn, gan fod hyn yn fater i'r pwyllgor craffu.

(i) **Yr hyn sy'n digwydd i gais dilys**

Eir â'r mater i gyfarfod nesaf y pwyllgor craffu oni bai fod y cadeirydd (neu, yn ei absenoldeb neu ei anallu i weithredu, yr is-gadeirydd) yn nodi bod y mater yn un brys ac os ydyw, caiff cyfarfod ei alw cyn pen deg diwrnod gwaith.

(j) **Ar ôl ystyried cais am alw penderfyniad i mewn**

Os yw'r pwyllgor trosolwg a chraffu, ar ôl ystyried y penderfyniad, yn dal i bryderu amdano, gall ei gyfeirio'n ôl i'r Cabinet i'w ail-ystyried, gan nodi'n ysgrifenedig beth yw natur ei bryderon, a/neu gyfeirio'r mater i'r Cyngor llawn.

Bydd penderfyniadau gan swyddog â phwerau dirprwyedig a gyfeiriwyd i'w hail-ystyried yn mynd i'r Cabinet am benderfyniad, ac nid yn ôl i'r swyddog.

Os, yn dilyn gwrthwynebiad i'r penderfyniad, nad yw'r pwyllgor trosolwg a chraffu'n cyfeirio'r mater yn ôl i'r person neu gorff a wnaeth y penderfyniad neu i'r Cyngor, bydd y penderfyniad yn dod i rym ar ddyddiad y cyfarfod trosolwg a chraffu.

(k) **Ar ôl ail-ystyried**

Pan fydd mater wedi'i gyfeirio gan y pwyllgor trosolwg a chraffu i'w ail-ystyried ac mae'r Cabinet wedi ystyried y pwyntiau a godwyd gan y pwyllgor craffu, ni chaniateir i'r penderfyniad hwnnw gael ei alw i mewn ymhellach.

16.2 Y broses galw-i-mewn – materion brys

(a) **Cyffredinol**

Ni fydd y weithdrefn galw-i-mewn uchod yn berthnasol os yw'r penderfyniad a wneir gan y weithrediaeth yn un brys. Bydd penderfyniad yn un brys os byddai unrhyw oedi sy'n debygol o gael ei achosi gan y broses galw-i-mewn yn niweidio buddiannau'r Cyngor neu'r cyhoedd yn ddifrifol. Bydd y cofnod o'r penderfyniad, a'r rhybudd y'i cyhoeddwyd drwyddo, yn datgan a yw'r penderfyniad yn un brys ym marn yr unigolyn neu gorff sy'n gwneud y penderfyniad, ac felly nad yw'n ddarostyngedig i'r broses galw i mewn.

(b) **Ardystio materion brys – penderfyniadau gan y Cabinet**

Rhaid i'r Maer gytuno bod y penderfyniad a gynigir yn un rhesymol o dan yr holl amgylchiadau ac hefyd y dylid ei drin fel mater o frys. Yn absenoldeb y Maer neu ei anallu i weithredu, bydd angen cydsyniad y Dirprwy Faer. Yn absenoldeb y ddau neu eu hanallu i weithredu, bydd angen cydsyniad y pennaeth gwasanaeth cyflogedig neu gydsyniad ei enwebai. Rhaid hysbysu'r cyfarfod nesaf sydd ar gael o'r Cyngor am benderfyniadau a wneir fel mater o frys, ynghyd â'r rhesymau am eu trin fel rhai brys.

(c) **Ardystio materion brys – penderfyniadau gan swyddogion**

Rhaid i'r partïon gytuno bod y penderfyniad a gynigir yn un rhesymol o dan yr holl amgylchiadau ac y dylid ei drin fel mater o frys, a dylid cofnodi'r rhesymau am wneud hynny. Caiff mater o frys ei ardystio fel a ganlyn:

- (i) penderfyniad gan Bennaeth Gwasanaeth – unrhyw Gyfarwyddwr
- (ii) penderfyniad gan Gyfarwyddwr – y Prif Weithredwr
- (iii) penderfyniad gan y Prif Weithredwr – y Prif Weithredwr

17. Chwip y blaid

Mae Canllawiau'r Cynulliad yn ystyried chwipio'n anghydnaws â phrosesau trosolwg a chraffu. Fodd bynnag, mae'r paragraffau canlynol yn darparu dull diogelu os yw chwipio'n digwydd.

Wrth ystyried unrhyw fater y mae aelod o bwyllgor trosolwg a chraffu'n destun chwip bleidiol mewn perthynas ag ef, rhaid i'r aelod ddatgan bodolaeth y chwip a'i natur cyn i'r pwyllgor gychwyn ei drafodaethau ar y mater. Caiff y datganiad a manylion y trefniadau chwipio eu cofnodi yng nghofnodion y cyfarfod.

Ystyr “chwip” yw unrhyw gyfarwyddyd a roddir gan neu ar ran grŵp gwleidyddol i unrhyw gynghorydd sy’n aelod o’r grŵp hwnnw o ran y ffordd y bydd y cynghorydd hwnnw’n siarad neu’n pleidleisio ar unrhyw fater sydd gerbron y Cyngor neu unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor, neu weithredu neu fygwth gweithredu unrhyw gosb gan y grŵp mewn perthynas â’r cynghorydd hwnnw os yw’n siarad neu bleidleisio mewn unrhyw ffordd benodol.

18. Y weithdrefn mewn cyfarfodydd o bwyllgorau trosolwg a chraffu

- (a) Bydd pwyllgorau ac is-bwyllgorau trosolwg a chraffu’n ystyried y busnes canlynol:
 - i) cofnodion y cyfarfod diwethaf;
 - ii) datganiadau o fuddiant (gan gynnwys datganiadau chwipio);
 - iii) ystyriaeth o unrhyw fater a gyfeiriwyd i’r pwyllgor am benderfyniad mewn perthynas â galw penderfyniad i mewn;
 - iv) ymatebion y weithrediaeth i adroddiadau’r pwyllgor trosolwg a chraffu; ac
 - v) y busnes arall a nodwyd ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod.
- (b) Bydd rheolau’r weithdrefn mewn pwyllgor trosolwg a chraffu yr un peth â Rheolau Gweithdrefnau’r Cyngor heblaw y caiff Cadeirydd y cyfarfod ganiatáu i’r rheolau trafodaeth gael eu llacio er mwyn caniatáu cyfraniad llawn gan y rhai sy’n bresennol yn y cyfarfod boed fel aelodau o’r pwyllgor neu yn rhinwedd unrhyw rôl arall sy’n caniatáu iddynt gyfrannu at waith y cyfarfod.
- (c) Os yw’r pwyllgor trosolwg a chraffu’n cynnal ymchwiliadau (e.e. gyda golwg ar ddatblygu polisi), caiff y pwyllgor hefyd ofyn i bobl fod yn bresennol i roi tystiolaeth mewn cyfarfodydd pwyllgor sydd i’w cynnal yn unol â’r egwyddorion canlynol:
 - i) caiff yr ymchwiliad ei gynnal yn deg a chaiff holl aelodau’r pwyllgor y cyfle i ofyn cwestiynau i’r rhai sy’n bresennol, ac i gyfrannu a siarad;
 - ii) caiff y rhai sy’n cynorthwyo’r pwyllgor drwy roi tystiolaeth eu trin â pharch a chwarteisi; a
 - iii) caiff yr ymchwiliad ei gynnal mewn ffordd sy’n gwneud yr ymchwiliad neu ddadansoddiad mor effeithlon ag sy’n bosibl.
- (d) Yn dilyn unrhyw ymchwiliad neu adolygiad, bydd y pwyllgor/is-bwyllgor yn paratoi adroddiad i’w gyflwyno i’r weithrediaeth a/neu’r Cyngor fel sy’n briodol, ac yn cyhoeddi’r adroddiad a’i ganfyddiadau.

19. Materion o fewn cylch gwaith mwy nag un pwyllgor trosolwg a chraffu

Os yw mater i’w ystyried gan bwyllgor trosolwg a chraffu hefyd yn dod o dan gylch gwaith un pwyllgor trosolwg a chraffu arall neu ragor, bydd y penderfyniad ynghylch pa bwyllgor trosolwg a chraffu fydd yn ei ystyried yn cael ei wneud gan y Pwyllgor Craffu Corfforaethol ac Adfywio, neu, yn ôl ei ddisgresiwn, yn cael ei ystyried ganddo ef.

Rheolau Gweithdrefnau Ariannol

Rheoliadau Ariannol

MYNEGAI

ADRAN	DISGRIFIAD	RHIF TUDALEN
1.	Cyfrifoldebau ac Awdurdodiadau Cyffredinol	73
2.	Gweithredu'r Rheoliadau Ariannol	75
3.	Cynllunio Ariannol – Tymor byr	76
4.	Cynllunio Ariannol – Tymor canolig/ Tymor hir	77
5.	Pwerau Gwario Cyfalaf a Refeniw	77
6.	Rheolaeth Gyllidebol	78
7.	Cyfrifyddiaeth	81
8.	Cronfeydd Answyddogol	82
9.	Blaengyfrifon/Cyfrifon Imprest	82
10.	Archwilio	83
11.	Trefniadau Bancio a Sieciau	84
12.	Eiddo/Ystadau	85
13.	Incwm	86
14.	Yswiriant	87
15.	Rhestrau Eiddo	88
16.	Buddsoddiadau, Benthg Arian a Chronfeydd Ymddiriedolaeth	88
17.	Archebion am Waith, Nwyddau a Gwasanaethau	89
18.	Talu Cyfrifon	90
19.	Gwahanu Dyletswyddau	92
20.	Cyflogau a Phensiynau	92
21.	Ymgynghorwyr	93
22.	Cytundebau Lefel Gwasanaeth	94
23.	Diogelwch	94
24.	Stociau a Stora	96
25.	Cerbydau a Pheiriannau	96
26.	Diogelu Eiddo Preifat	97
27.	Lwfans Teithio, Cynhaliaeth a Cholled Ariannol	97
28.	Contractau Heblaw Prynu Deunyddiau	98
29.	Nwyddau Papur Ariannol	99
30.	Peidio â Chydymffurfio â Rheoliadau Ariannol	99

NODER:

mewn unrhyw enghraifft lle defnyddiwyd y rhyw gwrywaidd yn y Rheoliadau hyn e.e. “ef, ei” (gwrywaidd), yntau, gellir rhoi'r rhyw benywaidd yn ei le â phwys cyfartal e.e. “hi, ei” (benywaidd), hithau.

TUDALEN WAG

RHEOLIADAU ARIANNOL

1. CYFRIFOLDEBAU AC AWDURDODIADAU CYFFREDINOL

1.01 Prif Swyddog Cyllid / Pennaeth Cyllid Corfforaethol

1.01.1 Y Pennaeth Cyllid Corfforaethol yw'r swyddog a benodwyd gan y Cyngor o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 i weinyddu materion ariannol y Cyngor ac yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 ac ef yw'r swyddog sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol, yn ddarostyngedig i unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan y Cyngor, am benderfynu ar y system rheoli cyfrifon a diwyg y cyfrifon cyhoeddedig. Mae gan y Swyddog a benodir o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 gyfrifoldeb cyffredinol am ddarparu cyngor ariannol ar yr holl faterion cyllidebol a chyfrifyddu sy'n effeithio ar faterion ariannol corfforaethol y Cyngor. Yng ngweddill y ddogfen hon, cyfeirir at y person hwn fel y "Pennaeth Cyllid Corfforaethol".

1.01.2 O dan ddarpariaethau Adran 114 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Chyllid 1988, y Pennaeth Cyllid Corfforaethol yw'r swyddog sy'n bersonol gyfrifol am roi gwybod i'r Archwilydd Allanol ac i bob aelod o'r Awdurdod (neu'r Cyd-bwyllgor y cynrychiolir yr Awdurdod arno) am unrhyw enghraifft lle mae'r Awdurdod:

- (a) wedi gwneud neu ar fin gwneud penderfyniad lle mae neu lle byddai'r awdurdod yn mynd i wariant sy'n anghyfreithlon
- (b) wedi cymryd neu ar fin cymryd camau a fyddai, o'u cwblhau, yn anghyfreithlon ac yn debygol o achosi colled neu ddiffyg ar ran yr Awdurdod, neu
- (c) ar fin cofnodi eitem ar gyfrif lle mae'r cofnod yn anghyfreithlon.

Hefyd bydd angen adroddiad os yw'n ymddangos bod gwariant yr Awdurdod mewn blwyddyn ariannol yn debygol o fod yn fwy na'r adnoddau sydd ar gael i dalu am y gwariant. Gwaherddir unrhyw wariant (neu wariant pellach) hyd nes y bydd yr Awdurdod wedi ystyried unrhyw adroddiad o'r fath.

1.01.3 Bydd gan y Pennaeth Cyllid Corfforaethol, ac yntau'n swyddog a benodwyd yn statudol i weinyddu materion ariannol y Cyngor, yr hawl i fod yn bresennol neu i gael ei gynrychioli ym mhob cyfarfod o'r Cyngor a'i Bwyllgorau a'i Is-bwyllgorau ac mewn gweithgorau o'r fath y mae'r Pennaeth Cyllid Corfforaethol yn eu hystyried yn angenrheidiol.

1.01.4 Bydd y Pennaeth Cyllid Corfforaethol neu ei gynrychiolydd awdurdodedig yn cael gweld yr holl ddogfennau neu gofnodion ariannol (neu ddogfennau a chofnodion ategol) a gynhelir gan neu ar ran y Cyngor.

1.01.5 Bydd diwyg a dull cadw unrhyw gofnodion a allai effeithio ar y systemau cyllid corfforaethol wedi'u cytuno mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid Corfforaethol.

1.01.6 Y Pennaeth Cyllid Corfforaethol fydd yn gyfrifol am weinyddu'r holl faterion sy'n ymwneud â threfniadau incwm a gwariant y Cyngor fel y'u nodir yn y cyfansoddiad hwn sydd wedi'i gymeradwyo ar hyn o bryd.

1.02 Y Prif Weithredwr

1.02.1 Mae'r Prif Weithredwr wedi ei ddynodi'n "Bennaeth Gwasanaeth Cyflogedig" o dan Adran 4 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ac mae ganddo'r cyfrifoldeb am adrodd i'r Cyngor, lle'r ystyrir yn briodol, oddi mewn i delerau'r Ddeddf ar faterion yn ymwneud â'r Cyngor yn cydgysylltu'r gwaith o gyflawni ei wahanol swyddogaethau a'i adnoddau staffio'n gyffredinol.

1.03 Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu a'r Swyddog Monitro

1.03.1 Mae gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu swyddogaethau dynodedig o dan y Rheoliadau hyn fel cynghorwr cyfreithiol i'r awdurdod. Mae "Swyddog Monitro" dynodedig y Cyngor yn gweithredu o dan Adran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 sy'n ei gwneud yn ofynnol rhoi gwybod i'r Cyngor am unrhyw faterion sy'n ymwneud ag unrhyw achos o fynd yn groes i unrhyw ddeddfiad neu reol gyfreithiol neu god ymarfer neu unrhyw gamweinyddiad neu anghyfiawnder.

1.04 Pennaeth Gwasanaeth

1.04.1 At ddiben y Rheoliadau Ariannol hyn, mae "Pennaeth Gwasanaeth" yn cyfeirio at unrhyw swyddog sydd â llinell adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr, unrhyw Gyfarwyddwr neu at unrhyw Bennaeth ysgol lle y dirprwywyd pwerau neu gyllideb i ysgol y pennaeth hwnnw.

1.04.2 Bydd pob Pennaeth Gwasanaeth yn gyfrifol i'r Pennaeth Cyllid Corfforaethol am weithredu'r prosesau a gweithdrefnau ariannol o ddydd i ddydd yn ei faes gwasanaeth a chywirdeb a phrydlondeb unrhyw wybodaeth neu ddata sy'n effeithio ar y maes hwnnw neu faes gwasanaeth arall sydd i'w gofnodi yn system cyfrifyddu'r Cyngor a ddefnyddir yn y pen draw i baratoi'r gyllideb gorfforaethol a'r cyfrifon cyhoeddedig. Lle caiff systemau ariannol corfforaethol ac adrannol eu gweithredu gyda'i gilydd, rhaid rhoi blaenoriaeth bob amser i gynnal y systemau ariannol corfforaethol am mai'r rhain sy'n cynrychioli cyfrifoldebau'r Pennaeth Gwasanaeth mewn termau ariannol fel y'u cymeradwywyd gan y Cyngor.

1.04.3 Bydd pob Pennaeth Gwasanaeth yn ymgynghori â'r Pennaeth Cyllid Corfforaethol mewn perthynas ag unrhyw fater yn ei faes sylw sy'n debygol o effeithio ar gyllid y Cyngor cyn yr eir i unrhyw ymrwymiad arfaethedig neu ymrwymiad arall, neu cyn y rhoddir gwybod amdano i'r Cabinet.

1.04.4 Bydd pob Pennaeth Gwasanaeth yn gyfrifol am sicrhau y bydd unrhyw ymrwymiad i wario arian neu gasglu incwm yn golygu y caiff amcanion y Cyngor eu cyflawni yn y ffordd fwyaf economaidd, effeithiol ac effeithlon posibl gan gydymffurfio ag unrhyw gyfyngiadau a osodir gan y polisïau cyfredol.

1.04.5 Bydd pob Pennaeth Gwasanaeth yn darparu'n holl wybodaeth angenrheidiol er mwyn i'r Pennaeth Cyllid Corfforaethol gyflawni ei rôl yn effeithiol, yn arbennig o ran cyfrifo am asedau a threthiant y Cyngor.

1.05 Y Cabinet ('Gweithrediaeth' y Cyngor o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000)

1.05.1 Mae'r Cabinet yn gyfrifol, ymysg materion eraill fel y nodir yn y Cyfansoddiad, am wneud argymhellion ar gyllid, cynllun cyffredinol, blaenoriaethau, polisiâu ac amcanion y Cyngor ac i fod yn gyfrifol am weithredu cyllideb a strategaeth ariannol y Cyngor a phenderfynu sut i ddyrannu'r arian sydd ar gael i'r Cyngor. Bydd y Pennaeth Cyllid Corfforaethol, fel cyngorwr ariannol y Cyngor, yn adrodd i'r Cabinet ynghylch y lefel o adnoddau y bwriedir ei defnyddio ym mhob blwyddyn ariannol.

1.05.2 Bydd y Cabinet yn gwneud argymhellion i'r Cyngor ar y gwaith o baratoi Amcangyfrifon Cyfalaf a Refeniw y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol.

1.05.3 Bydd y Pwyllgor Archwilio'n gwneud argymhellion i'r Cyngor ynghylch adroddiad yr Archwydd Allanol ar archwilio cyfrifon y Cyngor.

1.05.4 Bydd y Cabinet hefyd yn gyfrifol, o dan bwerau dirprwyedig, am yr agweddau ar weinyddu ariannol, gan gynnwys monitro incwm a gwariant, fel y'u nodir yn y Cyfansoddiad cyfredol.

1.06 Pwyllgorau eraill

1.06.1 Bydd y Pennaeth Cyllid Corfforaethol yn sicrhau y caiff holl Bwyllgorau'r Cyngor a'r Cabinet eu hysbysu'n rheolaidd am oblygiadau ariannol eu gweithgareddau. Bydd pob Gwasanaeth, trwy ei Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth, yn gyfrifol am gydymffurfio â'r Rheoliadau Ariannol ym mhob un maes dan ei reolaeth.

1.07 Lefel Cyfrifoldeb

1.07.1 Trwy'r Rheoliadau Ariannol hyn i gyd, y swyddogion dynodedig y cyfeirir atynt yw'r lefel isaf o gyfrifoldeb sy'n ofynnol. Gall swyddogion uwch gymryd eu lle ym mhob achos.

2. GWEITHREDU'R RHEOLIADAU ARIANNOL

2.01 Mae gan y Pennaeth Cyllid Corfforaethol bwerau i ychwanegu at y Rheoliadau Ariannol hyn drwy gyfarwyddiadau cyfrifyddu penodol os oes angen, er mwyn esbonio unrhyw faterion a nodir yn y Rheoliadau hyn, ymhelaethu arnynt neu eu nodi'n fanwl. Bydd atodiadau o'r fath yn cydnabod yr angen i gydymffurfio â'r safonau proffesiynol cyfredol fel y'u nodir yn y datganiadau proffesiynol a gyhoeddir gan y cyrff cyfrifyddu gwahanol, a'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth yn benodol, ac sydd, ym marn y Pennaeth Cyllid Corfforaethol, yn ymwneud yn uniongyrchol â'r gwaith o reoli materion ariannol y Cyngor mewn ffordd gadarn.

2.02 Bydd y Rheoliadau Ariannol hyn a'r rhai a roddir i ysgolion yn berthnasol i weithgareddau o dan faes sylw Sefydliadau Llafur Uniongyrchol/Sefydliadau

Gwasanaeth Uniongyrchol ac ysgolion dim ond i'r graddau y bônt yn gyson â'r darpariaethau statudol a fydd yn cael blaenoriaeth bob amser.

- 2.03 Rhaid i Gyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth sicrhau bod eu staff yn cydymffurfio â'r holl brotocolau a chyfarwyddiadau cyfrifyddu a roddir o dro i dro gan y Pennaeth Cyllid Corfforaethol.
- 2.04 Gall aelodau o'r staff sy'n methu â chydymffurfio â'r Rheoliadau Ariannol a'r protocolau a chyfarwyddiadau cyfrifyddu wynebu camau disgyblu.
- 2.05 Bydd y Penaethiaid Gwasanaeth yn gyfrifol am atebolrwydd staff, a diogelwch, gwarchodaeth a rheolaeth yr holl adnoddau eraill gan gynnwys peiriannau, cerbydau, offer (gan gynnwys cyfrifiaduron ac asedau TG eraill), adeiladau, deunyddiau, arian parod a storau sy'n perthyn i'w hadrannau unigol yn unol â'r gweithdrefnau manwl a gytunwyd â'r Pennaeth Cyllid Corfforaethol.
- 2.06 Caiff y Pennaeth Cyllid Corfforaethol ei hysbysu am holl gylchlythyron, gorchmynion, sancsiynau, rheoliadau ac ati'r Llywodraeth neu gorff perthnasol arall sy'n effeithio ar gyllid.

3. CYNLLUNIO ARIANNOL – Y GYLLIDEB FLYNYDDOL

3.01 Refeniw

- 3.01.1 Bydd y Pennaeth Cyllid Corfforaethol yn rhoi gwybod i'r Cabinet am y Setliad Grant Cymorth Refeniw tebygol ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Ar sail hwn, bydd y Cabinet yn penderfynu ar strategaeth gyllidebol dros dro.
- 3.01.2 Bydd y Pennaeth Cyllid Corfforaethol yn coladu'r amcangyfrifon refeniw a fydd wedyn yn rhan o adroddiad i'r Cabinet, ynghyd â chynigion ynghylch pennu'r gyllideb a phenderfynu ar ariannu. Bydd y Cabinet wedyn yn crybwyll yr amcangyfrifon hyn naill wedi neu heb eu diwygio, i'r Cyngor eu cymeradwyo.
- 3.01.3 Cyn gynted ag y bo'n ymarferol, dylid hysbysu'r Pwyllgorau Craffu priodol am y cyllidebau refeniw manwl.

3.02 Cyfalaf

- 3.02.1 Diffinnir "Gwariant Cyfalaf" gan God Ymarfer Cyfrifyddu Awdurdodau Lleol Prydain fel "gwariant ar gaffael ased diriaethol neu wariant sy'n ychwanegu'n sylweddol at werth ased presennol, os yw'r ased yn cynhyrchu budd i'r Awdurdod a'r gwasanaeth a ddarperir ganddo am fwy nag un flwyddyn."
- 3.02.2 Bydd rhaglen gyfalaf y flwyddyn gyllidebol yn adlewyrchu blwyddyn gyntaf y rhaglen gyfalaf dymor canolig (gweler paragraff 4). Caiff y rhaglen hon ei hadrodd i'r Cabinet a fydd yn gwneud argymhellion i'r Cyngor. Caiff y rhaglen gyfalaf ei chytuno cyn dechrau'r flwyddyn ariannol.

3.02.3 Bydd angen i bob Pennaeth Gwasanaeth sicrhau y caiff holl ganlyniadau referniw y rhaglen gyfalaf eu nodi a'u cynnwys yn eu rhagamcanion cyllideb referniw.

3.02.4 Ar ôl i'r Cyngor gymeradwyo rhaglen o wariant cyfalaf, bydd y swyddogion dan sylw yn cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau y caiff y rhaglen gyfalaf ei chyflawni gan gynnwys:

- (a) cymryd camau i'w gwneud yn bosibl i dir mae ei angen at ddibenion y rhaglen gael ei gaffael mewn da bryd; a
- (b) dechrau'r camau ar gyfer paratoi dyluniad manwl.

3.03 Dosbarthu

3.03.1 Darperir copi o'r rhaglen gyfalaf arfaethedig a'r amcangyfrifon referniw i bob aelod o'r Cyngor, ynghyd â datganiad gan y Pennaeth Cyllid Corfforaethol am yr effaith a gânt ar gyllid y Cyngor a'r prae-septau i'w codi. Darperir yr amcangyfrifon a'r datganiad gyda'r alwad i fod yn bresennol yn y cyfarfod o'r Cyngor lle caiff y materion hyn eu hystyried.

4. CYNLLUNIO ARIANNOL – TYMOR CANOLIG

4.01 Er mwyn hwyluso'r broses gynllunio ariannol/cyllidebu flynyddol ac i roi ffocws strategol, bydd y Pennaeth Cyllid Corfforaethol yn paratoi a chynnal cynllun ariannol treigl tymor canolig (3 - 5 mlynedd). Adroddir i'r Cyngor am y cynllun a chaiff ei gymeradwyo ganddo fel rhan o'r broses osod cyllideb flynyddol.

4.02 Caiff elfen referniw y cynllun tymor canolig ei pharatoi gan y Pennaeth Cyllid Corfforaethol mewn ymgynghoriad ag Aelodau'r Cabinet, Cyfarwyddwyr a'r uwch swyddogion priodol. Bydd y cynllun yn cydnabod yr amcanion a'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynllun Gwella Corfforaethol a'r farn a fynegwyd yn ystod unrhyw gyfnod ymgynghori.

4.03 Caiff elfen gyfalaf y cynllun tymor canolig ei pharatoi gan y Pennaeth Cyllid Corfforaethol mewn ymgynghoriad â'r Grŵp Strategaeth Gyfalaf. Er mwyn i'r Grŵp Strategaeth Gyfalaf werthuso cynigion sy'n cystadlu, bydd angen i bob Cyfarwyddwr gyflwyno gwybodaeth briodol i'r Grŵp yn unol ag amserlen gytunedig.

5. PWERAU GWARIO CYFALAF A REFERNIW

5.01 Mae'r ddarpariaeth yn yr amcangyfrifon yn awdurdod i gyflawni gwariant. Ceir eithriadau fodd bynnag h.y. os yw'r math o wariant referniw yn newydd, neu os yw'r broses gaffael yn golygu ymrwymiad ariannol mwy o faint a pharhaus. Yn yr achosion hyn, dylid cael cymeradwyaeth y Cabinet lle gellir canfod adnoddau ychwanegol.

5.02 Ni fydd cynnwys unrhyw eitem yn yr amcangyfrifon a gymeradwywyd yn rhoi awdurdod i gyflawni unrhyw wariant cyfalaf (ac eithrio ar waith dylunio a chaffael tir) hyd nes:-

- (a) mae pob cymeradwyaeth statudol angenrheidiol wedi'i sicrhau

- (b) cymerwyd camau i gael dyfynbrisiau neu dendrau yn unol â'r Gorchmynion Sefydlog ar gyfer Contractau.

5.03 Os yw'n ymddangos y caiff mwy ei wario na swm unrhyw bennawd amcangyfrif o wariant cymeradwy neu na chaiff swm unrhyw bennawd incwm ei gyrraedd, bydd yn ddyletswydd i'r Pennaeth Gwasanaeth dan sylw, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid Corfforaethol, hysbysu'r Cabinet ar unwaith, oni ellir ariannu'r gwahaniaeth trwy drosglwyddo arian (gweler paragraff 6.03).

6. RHEOLAETH GYLLIDEBOL

6.01 Refeniw

6.01.1 Bydd y Pennaeth Cyllid Corfforaethol yn rhoi datganiadau o wariant ac incwm refeniw i'r holl Gyfadranau fel y gellir eu cymharu â'r darpariaethau cyllidebol a gymeradwywyd. Byddai hynny'n digwydd o leiaf 3 gwaith y flwyddyn fel arfer a byddent yn cynnwys rhagolygon gwariant ac incwm. Bydd unrhyw amrywiadau i'r gyllideb sy'n arwyddocaol ym marn y Pennaeth Cyllid Corfforaethol yn cael eu hysbysu i'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn y lle cyntaf.

6.01.2 Bydd y Pennaeth Cyllid Corfforaethol yn sicrhau y caiff adroddiad i'r Pwyllgorau Craffu perthnasol ei baratoi tair gwaith y flwyddyn, yn cymharu rhagolygon gwariant ac incwm refeniw â'r gyllideb gymeradwy ar gyfer pob maes gwasanaeth.

6.01.3 Yn ogystal â'r gofynion adrodd rheolaidd a nodir yn 6.01.2, rhoddir gwybod am amrywiadau cyllidebol arwyddocaol na ellir eu hariannu o faes gwasanaeth y Gyfadran a/neu gronfeydd wrth gefn y maes gwasanaeth cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl ar ffurf adroddiadau eithrio a baratoir gan y Cyfarwyddwr priodol. Bydd y Cabinet a'r Pwyllgor Craffu priodol yn ystyried yr adroddiadau eithrio, ac yn gwneud cynigion i'r Cyngor os oes angen.

6.01.5 Os bydd achosion lle canfuwyd gwariant ychwanegol anochel na ellir ei dalu o'r cyllidebau refeniw (ac felly bod rhaid ei dalu o'r Balansau Cyffredinol), rhaid i'r Cabinet argymhell gweithred o'r fath i'r Cyngor i'w chymeradwyo.

6.02 Cyfalaf

6.02.1 Bydd y Pennaeth Cyllid Corfforaethol yn sicrhau y caiff adroddiad i'r Pwyllgor Craffu perthnasol ei baratoi dwywaith y flwyddyn yn dangos y gwariant a gyflawnwyd hyd hynny yn erbyn y gyllideb gyfalaf a gymeradwywyd ac yn rhoi esboniadau priodol ar gyfer unrhyw amrywiadau mawr mewn perthynas â'r rhaglen gyfalaf.

6.02.2 Os bydd achosion lle canfuwyd gwariant ychwanegol anochel na ellir ei dalu o'r cyllidebau cyfalaf (ac felly bod rhaid ei dalu o'r Balansau Cyffredinol), rhaid i'r Cabinet argymhell gweithred o'r fath i'r Cyngor i'w chymeradwyo.

6.03 Trosglwyddiadau

At ddibenion y rheoliadau hyn, caiff trosglwyddiad ei ddiffinio fel symud arian rhwng prif weithgareddau'r Cyngor. Nid yw'n drosglwyddiad rhwng gwahanol elfennau costau rhedeg gwasanaethau.

Cydnabyddir y gall fod angen eglurhad o'r hyn a olygir wrth brif weithgaredd, a bydd hyn yn fater i'r Pennaeth Cyllid Corfforaethol.

6.03.1 Refeniw

6.03.1.1 Caiff Cyfarwyddwr, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid Corfforaethol, ddefnyddio tanwariant o dan un pennawd gweithgaredd cyllidebol i leihau gorwariant o dan un arall (fel y manylwyd ym mharagraff 6.03.1.2), yn ystod blwyddyn ariannol. Ni fyddai angen trosglwyddiad ar gyfer y gweithgaredd hwn fel arfer, ond rhaid hysbysu'r Pwyllgor Craffu perthnasol amdano.

6.03.1.2 Os oes angen trosglwyddiad, caiff ei gymeradwyo'n ysgrifenedig yn unol â'r tabl canlynol:-

Swm	Wedi'i gymeradwyo gan
llai na £20,000	Pennaeth Gwasanaeth
£20,000 - £50,000	Cyfarwyddwr Gwasanaeth
£50,000 - £100,000	Pennaeth Cyllid Corfforaethol a Chyfarwyddwr Gwasanaeth
mwy na £100,000	Cabinet

Rhaid cynnwys yr holl drosglwyddiadau yn yr adroddiadau monitro cyllideb ar gyfer y Pwyllgor Craffu nesaf sydd ar gael.

Gellir defnyddio arian a gariwyd ymlaen ar gyfer meysydd gwasanaeth i wneud iawn am orwariannau yn y flwyddyn ariannol, o'i gytuno â'r Pennaeth Cyllid Corfforaethol. Dylid hysbysu'r Pwyllgorau Craffu am unrhyw ddefnydd o'r cronfeydd gwasanaeth am y rheswm hwn, fel rhan o'r broses monitro cyllideb.

Gellir defnyddio cronfeydd a gariwyd ymlaen ar gyfer gwariant un tro h.y. cyfalaf. Mae angen ei gymeradwyo yn unol â'r broses drosglwyddiadau a nodir ym mharagraff 6.03.1.2 uchod.

6.03.2 Cyfalaf

6.03.2.1 Ar wahân i raglenni gwaith bach neu arbennig, a cherbydau, ni chaiff gwariant cyfalaf ei drosglwyddo heb gydsyniad:

- (a) llai na £50,000, Pennaeth Cyllid Corfforaethol a Chyfarwyddwr Gwasanaeth;
- (b) mwy na £50,000, y Cabinet.

6.03.2.2 Caiff Cyfarwyddwr gynnig amrywiad i Flwyddyn 1 o'i raglen drwy gynnwys cynllun nad yw'n rhan o'r rhaglen gyfalaf gymeradwy, neu drwy ddwyn ymlaen cynllun o flwyddyn ddiweddarach yn y rhaglen, ond dim ond os gellir cadw costau'r cynllun

newydd y tu mewn i'w amcangyfrifon cyfalaf, er enghraifft, trwy ail-amserlennu gwariant ar ei gynlluniau presennol i flynyddoedd diweddarach, neu drwy ddileu prosiect.

- 6.03.2.3 Ac eithrio mewn achosion brys fel yn 6.04, ni ellir cyflawni gwariant ar unrhyw eitem nas cynhwyswyd yn yr amcangyfrifon blynyddol neu sy'n costio mwy na'r swm a nodwyd o dan unrhyw bennawd penodol oni fydd y broses drosglwyddo ar gael neu ei fod yn destun amcangyfrif ategol a gyflwynwyd i'r Cabinet neu'r Cyngor wedyn, ac a gymeradwywyd.
- 6.03.2.4 Bydd pob Cyfarwyddwr yn hysbysu'r Pennaeth Cyllid Corfforaethol cyn gynted ag y canfyddir tanwariannau nad ydynt yn cael eu hail-ddyrannu o dan y weithdrefn cymeradwyo trosglwyddiadau ym mharagraff 6.03.2.1. Wedyn gellir cynnwys y tanwariannau hyn mewn cynlluniau gwariant cyfalaf i'r dyfodol, i'w cymeradwyo gan yr Aelodau.

6.04 Amcangyfrifon Ategol ac Achosion Brys

- 6.04.1 Mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid Corfforaethol, bydd cynlluniau gwariant a ganfuwyd gan Gyfarwyddwr na ellir eu talu o'r gyllideb neu gronfeydd wrth gefn y gwasanaethau, yn cael eu hysbysu i'r Cabinet gyda chais am gefnogaeth i ddefnyddio balansau'r Gronfa Gyffredinol. Rhaid i'r holl amcangyfrifon ategol a ariennir fel hyn gael eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn.
- 6.04.2 Ni fydd dim yn y Rheoliadau Ariannol hyn yn atal cyflawni gwariant sy'n hanfodol i ddiwallu unrhyw anghenion brys a grëwyd gan argyfwng sydyn yn yr ystyr a roddir yn Adran 138 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 y gellir ei awdurdodi gan y Pennaeth Cyllid Corfforaethol yn amodol ar hysbysu'r Cabinet am y gwariant cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl.
- 6.04.3 Mewn argyfyngau lle nad oes cyllideb ganfyddedig, bydd unrhyw Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth yn hysbysu'r canlynol am unrhyw gamau a gymerwyd i gyflawni gwariant a'r ffordd y caiff ei ariannu cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl y digwyddiad:-
- (a) llai na £50,000, i'r Pennaeth Cyllid Corfforaethol;
 - (b) mwy na £50,000, i'r Cabinet.

6.05 Lesio

- 6.05.1 Bydd y Pennaeth Cyllid Corfforaethol yn sicrhau bod y Cyngor yn cadw cofrestr lesio mewn perthynas â gwariant a ariennir felly, a bydd Cyfarwyddwyr dan rwymedigaeth i ddarparu'r wybodaeth mae ei hangen i gadw cofrestr o'r fath (gan gynnwys rhybudd prydlon o waredu asedau yn amodol ar gyntundeb les).
- 6.05.2 Bydd pob Pennaeth Gwasanaeth yn cael cymeradwyaeth gan y Pennaeth Cyllid Corfforaethol bob amser cyn i'r Cyngor ymrwymo i unrhyw drefniadau lesio a chyn i unrhyw ddarpariaethau gael eu gwneud yn amcangyfrifon y Cyngor i gynnwys cost flynyddol lesio. Rhaid i'r Pennaeth Cyllid Corfforaethol gael copi o unrhyw delerau

arfaethedig unrhyw les a rhaid iddo gymeradwyo unrhyw gytundeb lesio cyn y caiff ei lofnodi.

- 6.05.3 Caiff pob cytundeb lesio ei gyflwyno i'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu i'w archwilio a'i gymeradwyo cyn i'r Cyngor wneud unrhyw ymrwymiad cadarn.
- 6.05.4 Bydd y Pennaeth Cyllid Corfforaethol yn gyfrifol am gael dyfynbrisiau neu dendrau gan Dai Cyllid sy'n darparu trefniadau lesio er mwyn caffael Adeiladau, Peiriannau, Cerbydau ac Offer. Bydd Cyfarwyddwyr dan rwymedigaeth i hysbysu'r Pennaeth Cyllid Corfforaethol am eu cynlluniau gwario mewn perthynas â lesau, gan roi amser digonol i gael tendrau ar sail maint y busnes a ddisgwylir.
- 6.05.5 Mae trefniadau gwerthu/lesio'n ôl, cytundebau rhentu a threfniadau prynu eraill a ohiriwyd hefyd yn dod o dan reolaethau'r adran hon.

7. CYFRIFYDDIAETH

- 7.01 Bydd trafodion incwm a gwariant y Cyngor ar gyfer cyfalaf a refeniw yn ystyried y gweithdrefnau cyfrifyddu presennol a argymhellir, a rhaid i'r Cyfarwyddwyr a'r Pennaethiaid Gwasanaeth sicrhau bod eu staff yn cydymffurfio â'r holl brotocolau cyfrifyddu a gyhoeddir o dro i dro gan y Pennaeth Cyllid Corfforaethol.
- 7.02 Bydd y Pennaeth Cyllid Corfforaethol, wrth gyflawni'r cyfrifoldeb a osodwyd arno gan y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio sy'n ymwneud â chynnal a chau cyfrifon y Cyngor, yn gyfrifol am weithredu gweithdrefnau o'r fath. Rhoddir y wybodaeth mae ei hangen i'r Pennaeth Cyllid Corfforaethol mewn ffordd gywir ac amserol, fel na fydd oedi i'r gwaith o baratoi cyllidebau a chau cyfrifon.
- 7.03 Bydd y Pennaeth Cyllid Corfforaethol yn gyfrifol am holl gofnodion cyfrifyddu'r Cyngor, a bydd y Cyfarwyddwyr neu swyddog awdurdodedig yn ymgynghori â'r Pennaeth Cyllid Corfforaethol cyn cyflwyno unrhyw lyfrau, ffurflenni, systemau cyfrifiaduron neu weithdrefn mewn perthynas ag arian parod, storau neu gyfrifon eraill y Cyngor. Bydd yn ddyletswydd ar y Pennaeth Cyllid Corfforaethol i sicrhau y caiff systemau unffurf eu mabwysiadu ledled y Cyngor, cymaint ag y bo'n ymarferol.
- 7.04 Cyfrifoldeb y Cyfarwyddwr sy'n cynnal unrhyw gofnod, cyfrif neu system ategol sy'n cynnal cyfrifylfr ariannol y Cyngor neu sy'n rhan ohono, fydd cysoni ffigurau o'r fath gan fodloni'r Pennaeth Cyllid Corfforaethol. Bydd y Pennaeth Cyllid Corfforaethol yn trefnu i gau cyfrifon y Cyngor ar sail y ffigurau a geir yn y system cyfrifylfr ariannol.
- 7.05 Bydd pob dyraniad o wariant ac incwm yn unol â chynllun a gymeradwywyd gan y Pennaeth Cyllid Corfforaethol. Yn unol â'r gofynion statudol a'r codau ymarfer perthnasol ar gyfer paratoi cyfrifon y Cyngor, caiff yr holl godau ariannol eu cyhoeddi gan y Rheolwr Cyllid (Gwasanaethau Corfforaethol) a bydd pob swyddog yn cadw at ddiffiniadau safonol y codau hyn wrth ddyrannu cyllidebau, gwariant ac incwm. Caiff gwariant ei gyflawni (neu incwm ei dderbyn) dim ond yn erbyn codau ariannol y mae cyllideb a gymeradwywyd yn gywir ar eu cyfer.

- 7.06 Bydd y Rheolwr Cyllid (Gwasanaethau Corfforaethol) yn gyfrifol am weithredu'r holl gofnodion dyddlyfr i gyfrifon y Cyngor. Bydd y swyddog sy'n awdurdodi'r cais dyddlyfr yn parhau'n gyfrifol am gywirdeb y dyddlyfrau hynny.
- 7.07 Os oes gan y Cyfarwyddwr gyfrifoldeb cyllidebol, bydd mynediad ar gael i'r maes priodol yn nyddlyfr ariannol y Cyngor.
- 7.08 Bydd y Pennaeth Cyllid Corfforaethol yn gyfrifol am y dulliau sydd i'w defnyddio ar gyfer ariannu'r holl wariant cyfalaf a referiw a gall negodi gweithdrefnau priodol er mwyn cyflawni'r nodau hyn.
- 7.09 Os yw unrhyw adroddiad yn cynnwys goblygiadau ariannol, bydd y Pennaeth Cyllid Corfforaethol neu ei gynrychiolydd yn ymgynghorai i'r adroddiad bob amser. Dylai'r cynrychiolydd ariannol fod ar lefel cyfrifydd grŵp o leiaf.
- 7.10 Os ceir unrhyw gynnig am arian allanol/grant, ymgynghorir â'r Pennaeth Cyllid Corfforaethol neu ei gynrychiolydd ar bob cynnig cyn ei gyflwyno.
- 7.11 Rhaid rhoi gwybod i'r Pennaeth Cyllid Corfforaethol am unrhyw arian allanol/grant sy'n ddyledus i'r Awdurdod ac unrhyw incwm anghylchol arall sy'n ddyledus ac sy'n werth mwy na £50,000.

8. CRONFEYDD ANSWYDDOGOL

- 8.01 Ystyr "cronfa answyddogol" yw unrhyw gronfa y mae cyflogai o'r Cyngor yn ymwneud â'r gwaith o'i rheoli yn swyddogol ac a all effeithio ar unrhyw berson neu eiddo y mae'r Cyngor â chyfrifoldeb amdano, er ei bod yn bosibl nad yw'r Cyngor wedi gwneud unrhyw gyfraniadau i gronfeydd o'r fath.
- 8.02 Bydd y Cyfarwyddwr dan sylw yn gyfrifol am reoli'n ariannol ac archwilio cronfeydd answyddogol â balans o fwy na £5,000 neu drosiant o fwy na £10,000 a bydd yn ymgynghori â'r Rheolwr Archwilio Mewnol cyn llunio rheoliadau a fydd yn berthnasol i gronfeydd o'r fath. Yn y paragraff hwn, nid yw "cronfeydd answyddogol" yn cynnwys cronfeydd preifat ysgolion.
- 8.03 Er gwaethaf dyletswyddau unrhyw Gyfarwyddwr ym mharagraff 8.02, bydd gan y Rheolwr Archwilio Mewnol yr hawl i archwilio unrhyw gronfa answyddogol ar unrhyw bryd.
- 8.04 Mater i Bennaeth a chorff llywodraethu pob ysgol unigol yw'r rheoli ariannol a'r cyfrifoldeb am gronfeydd preifat yr ysgol. Cyfeirir at y gofynion archwilio o ran cronfeydd preifat ysgolion yn y 'Cynllun Ariannu Ysgolion'.

9. BLAENGYFRIFON / CYFRIFON IMPREST

- 9.01 Os yw'n briodol, bydd y Pennaeth Cyllid Corfforaethol, ar gais rhesymol unrhyw Bennaeth Gwasanaeth, yn trefnu blaengyfrifon ar gyfer cyflogeion y Cyngor y bydd arnynt eu hangen at ddibenion talu mân arian a threuliau eraill. Caiff cyfrifon o'r fath

eu cadw ar sail imprest yn unol â'r nodiadau cyfarwyddyd a roddwyd i ddeiliaid imprest gan y Pennaeth Cyllid Corfforaethol.

- 9.02 Os yw'n briodol, bydd y Pennaeth Cyllid Corfforaethol yn agor cyfrif gyda banc y Cyngor i'w ddefnyddio gan y deiliad imprest, na fydd yn gorgodi arian o'r cyfrif. Bydd yn gyfarwyddyd sefydlog i fanc y Cyngor y rhoddir gwybod yn syth i'r Pennaeth Cyllid Corfforaethol am unrhyw swm a orgodwyd o gyfrif banc deiliad imprest. Os yw cyflogai'n cadw llyfr sieciau ar gyfer unrhyw gyfrif, rhaid iddo sicrhau y caiff pob siec a ganslwyd ei chadw ynghyd â bonion y llyfr sieciau gwreiddiol.
- 9.03 Ni ellir talu unrhyw incwm a gafwyd ar ran y Cyngor i flaengyfrif, yn hytrach rhaid ei fancio neu ei dalu i'r Cyngor fel y pennir mewn manau eraill yn y Rheoliadau Ariannol hyn. Ni ddylid ychwaith newid sieciau personol neu sieciau trydydd parti am arian parod ar flaengyfrifon/ cyfrifon imprest.
- 9.04 Ac eithrio fel y cytunir fel arall rhwng y Pennaeth Cyllid Corfforaethol a'r Pennaeth Gwasanaeth dan sylw, caiff y taliadau o'r cyfrifon eu cyfyngu i fân daliadau ac ni fyddant yn cynnwys symiau sy'n ddyledus i unrhyw grefftwr y mae gan y Cyngor gyfrif cyfredol ag ef, treuliau teithio gwerth mwy na £5, nac unrhyw gyfrif am nwyddau gwerth mwy na £50.
- 9.05 Ar gais, bydd swyddog sy'n gyfrifol am flaengyfrif yn rhoi i'r Pennaeth Cyllid Corfforaethol dystysgrif yn nodi cyflwr y blaengyfrif imprest.
- 9.06 Pryd bynnag y bydd cyflogai sy'n ddeiliad imprest yn gadael cyflogaeth y Cyngor, neu'n colli'r hawl i gadw blaengyfrif imprest, bydd y person hwnnw'n ad-dalu i'r Cyngor y gweddill nas gwariwyd ac yn cyflwyno cyfrif a thalebau ar gyfer y swm a wariwyd, neu'n trosglwyddo arian, cofnodion a thalebau sy'n berthnasol i'r cyfrif, i'r deiliad imprest newydd, os cytunwyd gan y Pennaeth Cyllid Corfforaethol.
- 9.07 Caiff pob trosglwyddiad arian swyddogol o un cyflogai i'r llall ei gofnodi'n swyddogol a bydd yn cynnwys llofnod y derbynnydd, a fydd yn gwirio'r swm dan sylw.

10. ARCHWILIO

- 10.01 Sefydlwyd y Gwasanaethau Archwilio Mewnol gan y Cyngor fel swyddogaeth arfarnu annibynnol ar gyfer adolygu'r system rheolaeth fewnol fel gwasanaeth i'r Awdurdod. Y Gwasanaethau Archwilio Mewnol sy'n gyfrifol am archwilio, gwerthuso ac adrodd yn wrthrychol ar ddigonolrwydd rheolaeth fewnol, er mwyn llywio'r broses llywodraethu blynyddol ac Asesiad Risg ffurfiol y Cyngor, fel cyfraniad at y broses o ddefnyddio adnoddau'n gywir, yn economaidd, yn effeithiol ac yn effeithlon e.e. diogelu asedau, gwerth am arian. Mae'n cynnwys asesiad o addasrwydd a dibynadwyedd gwybodaeth rheoli ariannol a chysylltiedig.
- 10.02 Mae'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio yn ei gwneud yn ofynnol bod "corff perthnasol yn cynnal system ddigonol ac effeithiol o archwilio ei gofnodion cyfrifyddu a'i systemau rheolaeth yn fewnol..". Mae'r cyfrifoldeb hwn wedi ei ddirprwyo gan y Cyngor i'r Pennaeth Cyllid Corfforaethol sy'n arfer rheolaeth gyffredinol ar y Gwasanaethau Archwilio Mewnol.

10.03 Yn sgil y gofyniad statudol uchod, bydd gan y Pennaeth Cyllid Corfforaethol neu ei gynrychiolydd awdurdodedig yr awdurdod i:

- (a) gael mynediad i holl safleoedd a thir y Cyngor
- (b) cael gweld yr holl gofnodion, dogfennau a gohebiaeth ynghylch unrhyw un o drafodion y Cyngor
- (c) gofyn am a chael esboniadau o'r fath y mae eu hangen ynghylch unrhyw fater sy'n cael ei archwilio
- (d) ei gwneud yn ofynnol cyflwyno unrhyw arian parod, storau neu eiddo arall y Cyngor sydd o dan reolaeth unigolyn
- (e) cynghori ar reolaethau sydd i'w cynnwys mewn systemau newydd neu ddiwygiedig cyn eu rhoi ar waith (heb ddiddymu cyfrifoldeb y Cyfarwyddwr priodol am ddatblygu a gosod newidiadau o'r fath).

10.04 Pryd bynnag y cyfyd unrhyw fater sy'n cynnwys, neu y tybir ei fod yn cynnwys, unrhyw afreolaidd-dra o ran naill ai asedau'r Cyngor neu swyddogaethau'r Awdurdod, p'un a fu colled wirioneddol neu beidio, bydd y Pennaeth Gwasanaeth dan sylw yn hysbysu'r Cyfarwyddwr perthnasol a'r Pennaeth Cyllid Corfforaethol yn syth.

10.05 Bydd y Pennaeth Cyllid Corfforaethol yn sicrhau y gwneir ymholiadau i unrhyw afreolaidd-dra a rhaid iddo fod yn fodlon y cymerwyd camau priodol mewnol gan yr Awdurdod i ymchwilio i unrhyw afreolaidd-dra o'r fath a'i gywiro. Er mai'r Cyfarwyddwr dan sylw sy'n gyfrifol am yr ymholiadau hyn yn y lle cyntaf, gall y Pennaeth Cyllid Corfforaethol ei wneud yn ofynnol i'r Rheolwr Archwilio Mewnol reoli ac adrodd am unrhyw fater y mae angen ymchwilio iddo.

10.06 Bydd y Rheolwr Archwilio Mewnol yn cydweithredu â'r archwilydd allanol, a benodir yn statudol, i gyfnewid gwybodaeth berthnasol er mwyn gwneud y defnydd mwyaf posibl o'r adnoddau archwilio. Yn ogystal ag unrhyw hawliau statudol, bydd gan yr archwilydd allanol yr un hawliau mynediad â'r rhai a nodir i'r Pennaeth Cyllid Corfforaethol ym mharagraff 10.03 uchod.

10.07 Ni fydd y trefniadau a nodir yn y Rheoliadau Ariannol hyn yn rhyddhau unrhyw Gyfarwyddwr o'i gyfrifoldeb i ddiogelu asedau'r Cyngor ac i reoli swyddogaethau ei faes gwasanaeth yn gywir.

10.08 Bydd y Pennaeth Cyllid Corfforaethol yn rhoi gwybod yn flynyddol i'r Pwyllgor Archwilio am natur a maint y gwaith archwilio mewnol a gwblhawyd ac a gynigiwyd.

11. TREFNIADAU BANCIO A SIECIAU

11.01 Bydd holl drefniadau bancio'r Cyngor yn gyfrifoldeb i'r Pennaeth Cyllid Corfforaethol, sydd â'r pŵer i ddirprwyo swyddogaethau penodol ar gyfer gweithredu cyfrifon banc y Cyngor o ddydd i ddydd.

- 11.02 Bydd y Pennaeth Cyllid Corfforaethol yn gyfrifol am benderfynu ar nifer y cyfrifon a chronfeydd banc y mae eu hangen i weinyddu'r system drethiant lleol sy'n bodoli ar unrhyw adeg, ynghyd â gweithredu cyfrifon a chronfeydd o'r fath. Bydd y Pennaeth Cyllid Corfforaethol hefyd yn cytuno ar y terfynau gorddrafft, na ellir mynd heibio iddynt.
- 11.03 Y Pennaeth TGCh a Gwasanaethau Cwsmeriaid fydd yn gyfrifol am archebu a chadw stociau o sieciau, a bydd yn sicrhau y gwneir trefniadau priodol er mwyn gofalu amdanynt yn ddiogel.
- 11.04 Bydd sieciau a godir ar unrhyw un o gyfrifon banc y Cyngor yn dangos adlun o lofnod y Pennaeth Cyllid Corfforaethol neu lofnod swyddog/cyflogai arall yr hysbyswyd banc y Cyngor ei fod yn swyddog awdurdodedig gan y Pennaeth Cyllid Corfforaethol. Rhaid i sieciau gwerth mwy na £50,000 gael eu llofnodi gan y Pennaeth Cyllid Corfforaethol neu ei gynrychiolydd enwebedig. NODER darpariaethau paragraff 18.08 o ran cyfrifyddu TAW priodol.
- 11.05 Bydd y Pennaeth Cyllid Corfforaethol yn trefnu y caiff proses cysoni banc ei chynnal ac y caiff datganiad cysoni banc ei gyflwyno a ddylai, ar ysbeidiau sydd i'w pennu gan y Pennaeth Cyllid Corfforaethol, ddangos sefyllfa gyfredol cyfrif banc y Cyngor a statws y trafodion/sieciau unigol ynddo.
- 11.06 Ni ellir agor cyfrif neu gyfleuster banc yn enw'r Cyngor oni chaiff ei gymeradwyo ymlaen llaw gan y Pennaeth Cyllid Corfforaethol. Rhaid i'r holl fandadau banc gael eu llofnodi gan y Pennaeth Cyllid Corfforaethol neu'r Rheolwr Cyllid (Gwasanaethau Corfforaethol).

12. EIDDO/YSTADAU

- 12.01 Bydd y Dirprwy Brif Weithredwr yn cadw tirllyfr o'r holl dir ac eiddo dan berchnogaeth y Cyngor, gan gofnodi'r diben dros ei gadw, lleoliad, maint a chyfeirnod cynllun, manylion prynu, manylion y natur buddiant a rhenti sy'n daladwy a manylion y tenantiaethau a roddwyd, ac eithrio tenantiaethau tai cyngor, garejys a adeiladwyd gan y Cyngor a lleiniau garejys ar dir tai'r Cyngor. Cedwir cofnod o'r holl warediadau hefyd.
- 12.02 Bydd y Dirprwy Brif Weithredwr yn trefnu i gadw tirllyfr o holl anheddau'r Cyngor, garejys a adeiladwyd gan y Cyngor a lleiniau garejys ar dir tai'r Cyngor, gan gynnwys manylion y tenantiaethau cyfredol.
- 12.03 Rhaid i Gyfarwyddwr sy'n bwriadu cyflawni gwaith a fydd o bosibl yn cynyddu neu'n gostwng yn sylweddol gwerth unrhyw ased sy'n perthyn i'r Cyngor, neu a lesiwyd ganddo, ymgynghori â'r Pennaeth Perfformiad a Gwasanaethau Eiddo a derbyn cyngor ganddo cyn yr ymrwymir i unrhyw wariant gan y Cyngor.
- 12.04 Cyn y bydd y Cyngor yn caffael unrhyw eiddo, bydd y Gyfarwyddwr priodol yn ymgynghori â'r Pennaeth Perfformiad a Gwasanaethau Eiddo ac yn cael ei gynghori

ganddo, ac yn rhoi gwybod i'r Cabinet am gost y caffael a chostau cynnal a chadw yn y dyfodol.

- 12.05 Bydd pob Cyfarwyddwr Gwasanaeth yn gyfrifol am redeg adeiladau gweithredol o ddydd i ddydd, ond bydd gan y Pennaeth Perfformiad a Gwasanaethau Eiddo gyfrifoldeb cyffredinol am reoli ystadau'r Cyngor yn strategol, a chyfrifoldeb penodol am reoli'r swyddfeydd corfforaethol, yn unol â'r Protocol Rheoli Eiddo, a throsglwyddo tir ac adeiladau anweithredol.
- 12.06 Bydd y Dirprwy Brif Weithredwr yn sicrhau y caiff yr holl drafodion eiddo eu cyflawni naill ai'n unol â'r Protocol Gwaredu Eiddo, neu ar y farchnad agored ac am y gwerth ar y farchnad agored, fel bo'n briodol, oni fydd y Cabinet yn cymeradwyo fel arall, ac, os yw'n briodol, y ceir cymeradwyaeth gan Llywodraeth Cymru.
- 12.07 Bydd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu yn gofalu am yr holl weithredoedd eiddo o dan drefniadau diogel.

13. INCWM

- 13.01 Mae angen i'r trefniadau ar gyfer casglu'r holl arian sy'n ddyledus i'r Cyngor gael eu cymeradwyo gan y Pennaeth Cyllid Corfforaethol.
- 13.02 Bydd y Cyfarwyddwyr yn sicrhau y caiff y Pennaeth Cyllid Corfforaethol fanylion o'r fath mewn cysylltiad â'r gwaith a wnaed, y nwyddau a gyflenwyd neu'r gwasanaethau a ddarparwyd a'r holl symiau dyledus ag y gall fod eu hangen i gofnodi'r holl symiau hyn yn gywir, a bydd y Cyfarwyddwyr yn sicrhau y caiff y cyfrifon eu rhoi'n brydlon er mwyn adennill incwm perthnasol.
- 13.03 Bydd holl swyddogion y Cyngor sy'n casglu incwm yn cael derbynebaw swyddogol, neu yn gallu eu cael, ar ffurf a bennwyd gan y Pennaeth Cyllid Corfforaethol. Caiff yr holl incwm ei gofnodi dim ond ar dderbynebaw neu systemau derbynebu o'r fath a chaiff ei roi yn y cyfrif ar y dyddiad y daw i law.
- 13.04 Bydd y Pennaeth Cyllid Corfforaethol yn cymryd camau o'r fath a ystyrir yn angenrheidiol i adennill yr holl ôl-ddyledion incwm. Bydd unrhyw gyflogai sy'n gyfrifol am filio incwm credyd yn rhoi gwybod i'r Pennaeth Cyllid Corfforaethol yn rheolaidd am yr holl faterion sy'n effeithio ar y cyfrifon a godir ac o dro i dro bydd yn adolygu'r holl gyfrifon nas talwyd ac yn cymryd yr holl gamau priodol cyn y caiff unrhyw symiau anghasgladwy eu dileu ac y rhoddir gwybod i'r aelodau amdanynt er gwybodaeth.
- 13.05 Bydd y Pennaeth Cyllid Corfforaethol yn gyfrifol am gynnal cynllun ar gyfer dileu incwm anghasgladwy yn amodol, os yw'n briodol, ar gytundeb y Cabinet o ran y cynllun a weithredir ar unrhyw adeg a hefyd o ran unrhyw symiau sylweddol a ddilëir.
- 13.06 Hysbysir y Pennaeth Cyllid Corfforaethol ar unwaith am yr holl arian sy'n ddyledus i'r Cyngor ac am y contractau, lesau a chytundebau a threfniadau eraill yr aed iddynt sy'n golygu y bydd y Cyngor yn cael arian, a bydd ganddo'r hawl i archwilio a chopio unrhyw ddogfennau neu dystiolaeth arall yn y cyswllt hwn.

- 13.07 Caiff yr holl ffioedd a chostau eu hadolygu'n flynyddol gan bob Cyfarwyddwr. Cytunir ar gynnydd yn unol â chwyddiant fel rhan o broses y Cyngor i osod cyllideb. Bydd angen cymeradwyaeth gan y Cabinet ar gyfer cynnydd sy'n fwy na'r hyn a gytunwyd fel rhan o broses y Cyngor i osod cyllideb. Caiff costau statudol eu hadrodd os a phryd caiff y Cyngor wybod am unrhyw gynnydd.
- 13.08 Caiff yr holl arian a dderbynnir gan gyflogai ar ran y Cyngor ei dalu heb oedi i gyfrif banc y Cyngor o dan y trefniadau a gymeradwywyd gan y Pennaeth Cyllid Corfforaethol. Ni ellir didynnu unrhyw swm o'r arian hwn.
- 13.09 Mae unrhyw arian sy'n brin neu arian a ordalwyd yn gyfrifoldeb i bob swyddog casglu unigol, y disgwylir iddo ddatgan pob achos o'r fath yn ddyddiol. Ni chaiff symiau bach o arian "sy'n brin", fel y'u pennwyd gan y Pennaeth Gwasanaeth priodol, eu talu i mewn, ond rhaid talu'r holl ordaliadau i mewn yn ddyddiol. Gall unrhyw swyddog casglu sy'n tan-fancio a gor-fancio'n barhaus gael ei ddisgyblu yn y pen draw am beidio â chyfrifo'n gywir am y casgliadau. Gall camau o'r fath gynnwys adennill symiau sylweddol o arian sy'n brin.
- 13.10 Tynnir swm cyfan pob cronfa barod o'r casgliadau cyn paratoi i'w bancio. Rhaid i bob cyflogai sy'n trin arian parod roi unrhyw gronfa barod yn syth i unrhyw un o swyddogion awdurdodedig y Cyngor.
- 13.11 Ni ellir newid sieciau personol o'r arian a gedwir ar ran y Cyngor ond o dan drefniant a gymeradwywyd gan y Pennaeth Cyllid Corfforaethol.
- 13.12 Rhoddir tystiolaeth o bob achos o drosglwyddo arian swyddogol o'r naill gyflogai i'r llall yng nghofnodion y Maes Gwasanaeth dan sylw drwy lofnod y cyflogai sy'n derbyn yr arian.

14. YSWIRIANT

- 14.01 Bydd y Pennaeth Cyllid Corfforaethol yn trefnu'r holl yswiriant ac yn negodi'r holl hawliadau mewn ymgynghoriad â swyddogion eraill os oes angen.
- 14.02 Bydd y Cyfarwyddwyr yn rhoi gwybod i'r Pennaeth Cyllid Corfforaethol yn syth am yr holl risgiau, eiddo neu gerbydau newydd y mae angen eu hyswrio ac am unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar yr yswiriannau presennol.
- 14.03 Bydd pob Cyfarwyddwr yn rhoi gwybod i'r Pennaeth Cyllid Corfforaethol yn ysgrifenedig yn syth am unrhyw golled, atebolrwydd neu ddifrod sy'n deillio o weithred droseddol, neu lle mae'n ofynnol o dan delerau unrhyw bolisi yswiriant o eiddo'r Cyngor, rhoddir gwybod i'r Awdurdod Heddlu, ar ôl ymgynghori â'r Cyfarwyddwyr priodol. Ceir amcangyfrifir o gost y gwaith adfer.
- 14.04 Caiff holl gyflogeion priodol y Cyngor eu cynnwys ar yswiriant gwarantu ffyddlondeb addas.
- 14.05 Yn flynyddol, neu'n amlach fel y'i hystyir yn angenrheidiol, bydd y Pennaeth Cyllid Corfforaethol yn adolygu'r holl yswiriannau, gan ymgynghori fel bo'n briodol. Bydd y

Pennaeth Cyllid Corfforaethol yn rhoi cyngor am reoli risg i'r holl Benaethiaid Gwasanaeth.

- 14.06 Bydd pob Cyfarwyddwr yn ymgynghori â'r Pennaeth Cyllid Corfforaethol a Phennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu'r Cyngor ynghylch telerau unrhyw indemniad y gofynnir i'r Cyngor ei roi.
- 14.07 Ni ddylid addef atebolrwydd o dan unrhyw amgylchiadau o gwbl, heblaw lle cafwyd cymeradwyaeth hysbys gan gwmni yswiriant y Cyngor.

15. RHESTRAU EIDDO

- 15.01 Caiff rhestrau eiddo o'r holl offer dan berchnogaeth y Cyngor eu cadw gan bob Cyfadran a fydd yn cofnodi disgrifiad digonol o ddodrefn, ffitiadau ac offer, yr holl beiriannau a'u lleoliadau priodol. Caiff ffurf a maint unrhyw restr eiddo eu pennu gan y Cyfarwyddwr cyfrifol, mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Archwilio Mewnol.
- 15.02 Os yw'n ymarferol, caiff holl offer y Cyngor eu marcio, eu rhifo a'u labelu'n amlwg, a hefyd eu marcio'n ochelgar â chod post y Cyngor gan ddefnyddio system marcio ragnodedig.
- 15.03 Bydd pob Cyfarwyddwr yn gyfrifol am gynnal gwiriad blynyddol o'r holl eitemau ar y rhestr eiddo, am gymryd camau mewn perthynas â gorniferoedd a diffygion, ac felly eu nodi ar y rhestr eiddo.
- 15.04 Rhoddir tystiolaeth o bob achos o drosglwyddo eitemau sydd ar y rhestr eiddo o un sefydliad i'r llall yng nghofnodion y sefydliad dan sylw drwy lofnod y cyflogai sy'n eu derbyn.
- 15.05 Ni chaiff eiddo'r Cyngor ei symud ymaith o sefydliadau'r Cyngor heblaw yn unol â threfn arferol busnes y Cyngor, na'i ddefnyddio ar gyfer unrhyw beth heblaw dibenion y Cyngor ac eithrio yn unol â chyfarwyddiadau ysgrifenedig penodol a roddwyd gan y Cyfarwyddwr neu ei gynrychiolydd awdurdodedig.
- 15.06 Bydd gan y Pennaeth Cyllid Corfforaethol yr hawl i gael gan unrhyw Gyfarwyddwr wybodaeth o'r fath y mae ei hangen mewn perthynas â storau ar gyfer y cofnodion cyfrifyddu, costio ac ariannol. Bydd yr holl ddeunyddiau, storau neu offer dros ben yn cael eu gwaredu am y pris gorau posibl gan y Pennaeth Gwasanaeth sy'n gyfrifol am y stôr Cyngor perthnasol. Bydd y Pennaeth Gwasanaeth yn ymgynghori â'r Pennaeth Caffael ac yn cael cyngor ganddo.

16. BUDDSODDIADAU, BENTHYG ARIAN A CHRONFEYDD YMDDIRIEDOLAETH

- 16.01 Caiff yr holl warannau, eiddo'r Awdurdod neu eiddo yn ei enw a gweithredoedd eiddo'r holl eiddo dan ei berchnogaeth, eu gwarchod yn ddiogel gan Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu'r Cyngor.
- 16.02 Caiff yr holl fenthyciadau eu gwneud yn enw'r Cyngor.

- 16.03 Y Pennaeth Cyllid Corfforaethol fydd cofrestrydd stociau, bondiau a morgeisi'r Cyngor a bydd yn cadw cofnodion o'r holl fenthyciadau arian a wneir gan y Cyngor.
- 16.04 Bydd yr holl gronfeydd ymddiriedolaeth yn enw'r Cyngor a bydd gweithredoedd y cronfeydd wedi'u cytuno â'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu.
- 16.05 Bydd yr holl gyflogeion sy'n gweithredu fel ymddiriedolwyr yn rhinwedd eu swyddi swyddogol yn adneuo'r holl warannau ac ati sy'n gysylltiedig â'r Ymddiriedolaeth i Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu'r Cyngor, oni fydd y gweithredoedd yn darparu fel arall.
- 16.06 Bydd y Pennaeth Cyllid Corfforaethol yn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r codau ymarfer priodol.
- 16.07 Bydd y Pennaeth Cyllid Corfforaethol yn buddsoddi arian dros ben o dan reolaeth y Cyngor yn y ffordd sydd â'r risg lleiaf ac yn ei fuddsoddi yn enw'r Cyngor.
- 16.08 Rhaid i'r strategaeth fuddsoddi blynyddol gael ei pharatoi gan y Pennaeth Cyllid Corfforaethol a'i chyflwyno i'r Cyngor i'w chymeradwyo.
- 16.09 Rhaid ystyried sefydliadau addas i fuddsoddi ynddynt yn unol â strategaeth fuddsoddi blynyddol y Cyngor.
- 16.10 Rhan o'r broses rheoli risg fydd cyfyngu ar werth buddsoddiad mewn unrhyw sefydliad unigol fel y rhagnodir yn Natganiad Polisi Rheoli Trysorlys y Cyngor a'r Arferion Rheoli Trysorlys cysylltiedig.
- 16.11 Bydd y Pennaeth Cyllid Corfforaethol yn sicrhau y cedwir cofnodion o'r holl fuddsoddiadau ariannol a wnaed yn enw'r Cyngor.
- 16.12 Bydd y Pennaeth Cyllid Corfforaethol yn gyfrifol yn flynyddol am gasglu'r dangosyddion sy'n ofynnol gan y Cod Materion Ariannol ar Gyfrifyddu Cyfalaf ac adrodd amdanynt i'r Cyngor i'w cymeradwyo ac wedyn i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol ac Adfywio i'w monitro yn ystod y flwyddyn.

17. ARCHEBION AM WAITH, NWYDDAU A GWASANAETHAU

- 17.01 Ni chaiff archebion i gyflenwi nwyddau neu wasanaethau eu cyhoeddi ond gan y Pennaeth Gwasanaeth neu ei gynrychiolydd enwebedig. Ni chaiff nwyddau neu wasanaethau a archebir felly eu defnyddio ond at ddibenion cymeradwy'r Cyngor. Caiff yr archeb ei chreu gan system e-gaffael y Cyngor (neu ar fformat arall a ragnodwyd gan y Pennaeth Cyllid Corfforaethol). Caiff yr holl archebion swyddogol eu cyhoeddi cyn y darperir y nwyddau neu wasanaethau. Os oes angen archebu ar lafar mewn argyfwng, rhaid cadarnhau'r archeb, heb fod yn hwyrach na'r diwrnod gwaith nesaf, drwy archeb electronig (a gaiff ei marcio er mwyn nodi y cafodd yr archeb ei gwneud yn flaenorol ar lafar).

- 17.02 Dylai'r Pennaeth Gwasanaeth sy'n cyflwyno archeb ar gyfer cyflenwi neu werthu nwyddau neu wasanaethau, neu unrhyw archeb lle yr ymrwymir i gyflenwi nwyddau neu wasanaethau yn y dyfodol, ddilyn y Gorchmynion Sefydlog ar gyfer Contractau.
- 17.03 Rhaid cyhoeddi archebion dim ond ar gyfer nwyddau neu wasanaethau y darparwyd ar eu cyfer yn yr amcangyfrifon cyfredol a gymeradwywyd.
- 17.04 Bydd y cyflogai sy'n cwblhau archeb swyddogol yn sicrhau ei fod yn nodi digon o fanylion i sicrhau na fydd unrhyw gamsyniad neu gamddealltwriaeth o ran y disgrifiadau, maint, ansawdd, amserlen, pris a gytunwyd (dyfynbrisiau neu dendrau os yw'n briodol) telerau ac amodau'r contract a gofynion danfon y nwyddau neu ddarparu'r gwasanaethau sydd i'w cyflenwi. Bydd pob anfoneb a ddaw i law yn cael ei chysoni â'r archeb swyddogol, a bydd yr archeb swyddogol yn darparu trywydd archwilio i'r taliadau a wneir yn ei herbyn.
- 17.05 Os gofynnir amdano, bydd copi o bob archeb ar gael i'r Pennaeth Cyllid Corfforaethol a'r Rheolwr Archwilio Mewnol. Bydd yr archeb yn dangos cost amcangyfrifedig y nwyddau, y pennawd cyllideb a'r cod gwariant.
- 17.06 Os yw amgylchiadau'n golygu na ellir defnyddio archebion swyddogol, dylid sefydlu cofnodion talu cyfnodol i sicrhau y caiff pob taliad ei gofnodi'n ddigon manwl i osgoi dyblygu taliadau.

18. TALU CYFRIFON

- 18.01 Caiff yr holl anfonebau am nwyddau a gwasanaethau eu harchwilio yn yr Adran dan sylw a chaiff gwiriadau eu gwneud cyn awdurdodi'r anfoneb i'w thalu. Cymerir camau i sicrhau:
- (a) y derbyniwyd y nwyddau neu cafodd y gwaith ei wneud yn unol â thelerau'r archeb swyddogol;
 - (b) y cydymffurfiwyd â'r Gorchmynion Sefydlog ar gyfer Contractau a'r Rheoliadau Ariannol;
 - (c) bod y prisiau'n unol â'r tendrau neu ddyfynbrisiau neu'n rhesymol fel arall;
 - (d) bod y cyfrif yn gywir yn rhifyddol, a'r disgowntiau masnach, lwfansau eraill, credydau a threth yn gywir;
 - (e) nad yw'r Cyngor wedi talu'r cyfrif o'r blaen, yn llawn neu yn rhannol;
 - (f) bod cofnodion priodol wedi'u nodi ar restrau eiddo, cofnodion storau neu lyfrau stoc fel sy'n ofynnol;
 - (g) y cyflawnwyd y gwariant o dan y pennawd amcangyfrifon a ddangoswyd, ac roedd yn angenrheidiol at y diben;
 - (h) y caiff y gwariant ei godi ar y flwyddyn gyfrif gywir;

- (i) bod yr anfoneb yn un dilys a godwyd yn erbyn y Cyngor yn ddigon manwl i fodloni'r holl ofynion cyfreithiol, yn benodol gofynion TAW Cyllid a Thollau ei Mawrhydi a Chynllun didynnu treth y Diwydiant Adeiladu;
- (j) nad yr un swyddog sy'n ardystio'r anfoneb a'r archeb;
- (k) bod taliad y cyfrif yn gywir ym mhob ffordd.

- 18.02 Bydd y Pennaeth Gwasanaeth neu'r swyddog enwebedig yn ardystio bod pob anfoneb yn gywir ar ôl ei rhoi yn system talu'r Cyngor. Bydd y Pennaeth Cyllid Corfforaethol yn sicrhau na chaiff taliadau eu gwneud ond yn erbyn anfonebau a awdurdodwyd yn gywir neu dalebau talu.
- 18.03 Bydd y Pennaeth Cyllid Corfforaethol yn cymeradwyo trefniadau ar gyfer diddymu anfonebau a dalwyd a'u hygyrchedd ac archifo dilynol er mwyn cydymffurfio â'r holl reoliadau a gofynion statudol cyfredol.
- 18.04 Caiff unrhyw gywiriad i gyfrif ei wneud mewn inc a'i lofnodi â llythrennau blaen y person sy'n ei wneud, gan nodi'n gryno'r rhesymau am ei wneud os nad ydynt yn amlwg. Ni ddylid newid symiau TAW. Dylai unrhyw gywiriad sy'n ymwneud â TAW arwain at dderbyn anfoneb ddiwygiedig/nodyn credyd.
- 18.05 Bydd pob Cyfarwyddwr, yn unol â'r amserlen cyfrifon terfynol a baratoir yn flynyddol gan y Pennaeth Cyllid Corfforaethol, yn hysbysu'r Pennaeth Cyllid Corfforaethol am yr holl wariant refeniw a chyfalaf nas talwyd mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol flaenorol.
- 18.06 Bydd yn gyfrifoldeb i bob Cyfarwyddwr neu swyddog enwebedig hysbysu'r Pennaeth Cyllid Corfforaethol am bob swyddog a enwebwyd i ardystio anfonebau a dogfennau swyddogol eraill ar unrhyw adeg. Drwy wneud enwebiadau o'r fath, bydd pob Cyfarwyddwr yn cydymffurfio â'r gofynion o ran rhannu dyletswyddau fel y'u nodir mewn mannau eraill yn y Rheoliadau Ariannol hyn.
- 18.07 Caiff yr holl daliadau heblaw arian mân eu gwneud drwy siec, trosglwyddiad banc neu offeryn arall a godir ar gyfrifon banc y Cyngor gan y Pennaeth Cyllid Corfforaethol (neu swyddog enwebedig arall) o dan yr awdurdod a roddir gan y Cyngor yn y Rheoliadau Ariannol hyn.
- 18.08 Caiff yr holl sieciau gwerth mwy na £50,000 eu cydlofnodi gan swyddog arall a awdurdodwyd gan y Pennaeth Cyllid Corfforaethol. Ar gyfer yr holl daliadau gwerth £100,000 neu fwy, rhaid darparu dogfennau anfonebu i'r Pennaeth Cyllid Corfforaethol er mwyn sicrhau y cyfrifyddir yn gywir am y TAW.
- 18.09 Ar gyfer yr holl daliadau TAW yn unig, rhaid darparu dogfennau anfonebu i'r Pennaeth Cyllid Corfforaethol ar gyfer eu talu.

19. GWAHANU DYLETSSWYDDAU

- 19.01 Yn holl drafodion ariannol y Cyngor a'r rhai cysylltiedig, caiff y dyletswyddau eu gwahanu er mwyn sicrhau y bydd mwy nag un person yn ymwneud â'r gwaith o gofnodi a phrosesu pob trafodyn.
- 19.02 Bydd y dyletswyddau darparu gwybodaeth am y symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor neu sy'n ddyledus ganddo, ac am gyfrifo, gwirio a chofnodi'r symiau hyn, yn cael eu gwahanu mor llwyr ag sy'n bosibl o'r ddyletswydd o'u casglu neu eu talu.
- 19.03 Ni fydd cyflogeion yr ymddiriedir ynddynt i archwilio a gwirio cyfrifon trafodion arian parod yn cyflawni unrhyw rai o'r swyddogaethau hyn.
- 19.04 Dylai'r ddyletswydd i ardystio unrhyw anfoneb gael ei gwahanu o'r ddyletswydd i ardystio archeb swyddogol am nwyddau a gwasanaethau.

20. CYFLOGAU A PHENSIYNAU

- 20.01 Mae'r Dirprwy Brif Weithredwr, trwy'r Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol, yn gyfrifol am gynghori'r Cyngor ar ddefnyddio adnoddau'r gweithlu yn effeithlon (gan gynnwys hyfforddiant a datblygu) ac am weithredu a rheoli'r gweithdrefnau ar gyfer penodi, disgyblaeth, cwynion cyflogaeth, cyflogau ac amodau cyffredinol gwasanaeth fel y'u cymhwysir yn genedlaethol, yn daleithiol ac yn lleol.
- 20.02 Caiff penodiadau'r holl gyflogeion eu gwneud yn unol â pholisïau'r Cyngor a'r sefydliadau, graddau a chyfraddau tâl cymeradwy, fel y'u cytunwyd gyda'r Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol.
- 20.03 Caiff yr holl gyflogau, pensiynau, iawndal ac enillion eraill eu talu i holl gyflogeion a chyn-gyflogeion y Cyngor gan y Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol neu o dan drefniadau cymeradwy a rheoledig.
- 20.04 Yn unol â pholisi datganedig y Cyngor, caiff y Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol ei hysbysu cyn gynted ag sy'n bosibl am yr holl faterion sy'n effeithio ar dalu enillion o'r fath, ac yn benodol:
- (a) penodiadau, ymddiswyddiadau, diswyddiadau, gwaharddiadau, secondiadau a throsglwyddiadau;
 - (b) absenoldeb o'r gwaith oherwydd salwch neu reswm arall, heblaw absenoldeb a gymeradwywyd;
 - (c) newidiadau i gydabyddiaeth ariannol, heblaw cynyddrannau a dyfarniadau tâl arferol a chytundebau ynghylch cymhwyso'n gyffredinol;
 - (c) Y Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol sy'n gyfrifol am drosglwyddo'r wybodaeth honno i'r Pennaeth Cyllid Corfforaethol er mwyn cadw cofnodion at ddibenion treth incwm, yswiriant gwladol a'r tebyg.

- 20.05 Bydd yr holl gofnodion amser neu ddogfennau tâl eraill ar ffurf a ragnodwyd gan y Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid Corfforaethol. Caiff enwau'r swyddogion a awdurdodwyd i lofnodi cofnodion o'r fath eu hanfon at y Pennaeth Cyllid Corfforaethol gyda llofnodion enghreifftiol, a rhoddir gwybod i'r Pennaeth Cyllid Corfforaethol am unrhyw newidiadau i'r enwau a'r llofnodion yn ôl yr angen.
- 20.06 Bydd y Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol yn gyfrifol am weithrediad cyffredinol system gytunedig y Cyngor ar gyfer reoli presenoldeb a chyflwyno adroddiadau presenoldeb priodol i bob Pennaeth Gwasanaeth. Bydd trefniadau'n bodoli ym mhob Adran i sicrhau yr ymdrinnir yn briodol ag unrhyw wyriadau o'r system gymeradwy ac y cedwir at bolisiâu cymeradwy'r Cyngor ar gyfer presenoldeb staff yn eu gweithle.

21. YMGYNGHORWYR

- 21.01 Lle caiff ymgynghorwyr, gan gynnwys penseiri, peirianwyr, syrfëwyr meintiau, cyfreithwyr, bargyfreithwyr (heb fod yn swyddogion y Cyngor) neu weithwyr asiantaeth eu cymryd ymlaen i gyflawni gwasanaethau proffesiynol i'r Cyngor, bydd y Cyfarwyddwr perthnasol, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu neu'r Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol, yn gyfrifol am sicrhau y caiff cytundeb ffurfiol neu lythyr manwl o gyflogaeth ei anfon at yr ymgynghorydd, gan nodi'r telerau ar gyfer ei gymryd ymlaen. Rhaid rhoi gwybod i'r Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol am unrhyw achos o'r fath gymryd ymlaen. Rhaid i unrhyw benodiadau a wneir fod yn unol â'r Gorchmynion Sefydlog ar gyfer Contractau.
- 21.02 Bydd y cytundeb ffurfiol neu'r llythyr cyflogaeth yn rhestru, ymysg pethau eraill:
- (i) union gwmpas ac amserlen y comisiwn (bydd y Cyfarwyddwr perthnasol a'r Aelod/Aelodau Cabinet perthnasol hefyd yn penderfynu ar statws cyflogaeth yr unigolion dan sylw ac yn ei nodi, gan roi ystyriaeth i ganllawiau a gyhoeddir o dro i dro gan y Pennaeth Cyllid Corfforaethol);
 - (ii) maint y cyfrifoldebau;
 - (iii) yr oruchwyliaeth a'r cyswllt mae eu hangen;
 - (iv) unrhyw derfynau a rheolaethau o ran cost;
 - (v) penodiadau a chydweithio gydag unrhyw ymgynghorwyr eraill a swyddogion y Cyngor;
 - (vi) yswiriant;
 - (vii) sail y gydnabyddiaeth ariannol/cyfeiriad at ffioedd graddfa penodol os yw'n briodol;
 - (viii) y sail ar gyfer ad-dalu treuliau;
 - (ix) dull ac amllder taliadau.

21.03 Bydd yn un o amodau cymryd ymlaen gwasanaethau proffesiynol unrhyw ymgynghorydd:

- (i) y cydymffurfir â Chyfansoddiad y Cyngor, Gorchmynion Sefydlog ar gyfer Contractau a'r Rheoliadau Ariannol fel sy'n berthnasol i gyflogai o'r Cyngor;
- (ii) y caiff yr holl gofnodion a dogfennau mewn perthynas â'r gwasanaethau neu'r gwaith a gyflawnir i'r Cyngor eu dychwelyd i'r Cyngor naill ai yn ystod y gwasanaethau/gwaith neu ar ôl eu cwblhau;
- (iii) na chaiff gwybodaeth gyfrinachol neu sensitif a gafwyd yn ystod cyfnod cyflogaeth ymgynghorydd ei datgelu am gyfnod i'w gytuno gyda'r Pennaeth Gwasanaeth priodol.

21.04 Caiff adroddiad ei baratoi'n flynyddol i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol ac Adfywio yn nodi manylion yr holl wariant sy'n ymwneud â'r Adran hon.

22. CYTUNDEBAU LEFEL GWASANAETH

22.01 Os yw Cytundebau Lefel Gwasanaeth yn weithredol, bydd yn gyfrifoldeb i bob Pennaeth Gwasanaeth:

- (a) gadw'r manylion y mae eu hangen i gefnogi unrhyw ailgodiadau a wneir;
- (b) gweithredu'r Adran ar sail adennill y costau'n llawn ym mhob blwyddyn ariannol;
- (c) cytuno, yn unol ag unrhyw system a weithredir ar y pryd, ar yr ailgodiadau sy'n dod i law'r Adran;
- (d) cydymffurfio â gofynion y Pennaeth Cyllid Corfforaethol ynghylch rhaglennu a gofynion eraill gweithredu unrhyw system ar gyfer dyraniadau ailgodiadau.

23. DIOGELWCH

23.01 Bydd yr holl adeiladau, stociau, storau, dodrefn, offer ac asedau eraill sydd o dan reolaeth Cyfarwyddwr wedi'u diogelu'n briodol bob amser. Ymgynghorir â'r Prif Swyddog Eiddo, y Rheolwr Yswiriant a Risg a'r Rheolwr Archwilio Mewnol mewn unrhyw achos lle credir bod y trefniadau diogelwch yn ddiffygiol neu lle yr ystyrir y gall fod angen trefniadau diogelwch arbennig.

23.02 Caiff mwyafsymiau daliadau arian parod eu cytuno â'r Pennaeth Cyllid Corfforaethol ac ni fyddir yn mynd y tu hwnt iddynt heb ei ganiatâd penodol. Hysbysir y Pennaeth Cyllid Corfforaethol am unrhyw newidiadau, a bydd yn trefnu unrhyw newidiadau mae eu hangen i yswiriant y Cyngor.

23.03 Rhaid i allweddi sêffs a chynwysyddion tebyg gael eu cario gan y bobl sy'n gyfrifol amdanynt neu gael eu cadw mewn lle diogel bob amser. Rhaid hysbysu'r Rheolwr Yswiriant a Risg yn syth os aiff unrhyw un o'r allweddi hyn ar goll. Bydd y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol yn cadw cofrestr o'r allweddi, gan gynnwys yr holl rai sbâr.

- 23.04 Rhaid i allweddï eiddo gael eu cario gan y bobl sy'n gyfrifol neu gael eu cadw mewn lle diogel bob amser. Y cyfadrannau gwasanaeth fydd yn gyfrifol am asesu risg a hyfforddi deiliaid allweddï ac, mewn cyswllt â'r Prif Swyddog Eiddo, yn sicrhau diogelwch ffisegol yr eiddo os aiff yr allweddï hyn ar goll. Bydd swyddogion enwebedig yn cadw'r gronfa ddata gorfforaethol o ddeiliaid allweddï, a bydd y Prif Swyddog Eiddo'n gyfrifol am weinyddu'r system hon.
- 23.05 Caiff Sêl Gyffredin y Cyngor ei chadw'n ddiogel o dan warchodaeth y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu.
- 23.06 Y Pennaeth TGCh a Gwasanaethau Cwsmeriaid yw'r rheolwr sy'n gyfrifol yn nhermau'r Ddeddf Diogelu Data am gynnal diogelwch a phreifatrwydd priodol y wybodaeth a gedwir yn y system gyfrifiaduron. Y Pennaeth TGCh a Gwasanaethau Cwsmeriaid fydd yn gyfrifol am gydymffurfio ag unrhyw ofynion cyfreithiol eraill sydd mewn grym. Mae angen i bob Cyfarwyddwr hysbysu'r Pennaeth TGCh a Gwasanaethu Cwsmeriaid am unrhyw newidiadau i weithdrefnau, data a dibenion a all gael effaith ar rôl a chyfrifoldeb y Pennaeth TGCh a Gwasanaethau Cwsmeriaid cyn cyflawni'r newidiadau hynny. Mae'n gyfrifoldeb i bob Cyfarwyddwr sicrhau mai dim ond data a gofrestrwyd gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth a gedwir.
- 23.07 Bydd y Cyfarwyddwyr yn sicrhau na chaiff mynediad i'r holl systemau TG a'r gallu i gyflawni trafodion ar y systemau hynny ei roi ond i'r staff y mae eu gwaith yn ymwneud â systemau o'r fath yn uniongyrchol. Bydd angen awdurdod ysgrifenedig personol gan bob Pennaeth Gwasanaeth er mwyn sicrhau y bydd mynediad unrhyw unigolyn i unrhyw system wedi'i gyfyngu i'r hyn y mae ei angen er mwyn iddo gyflawni ei gyfrifoldebau a'i ddyletswyddau'n effeithiol. Cyn gynted ag y bydd unrhyw newid i bersonél neu ddyletswyddau a fydd yn golygu y bydd angen newid cyfrineiriau neu ystod mynediad unrhyw unigolyn, bydd pob Pennaeth Gwasanaeth yn sicrhau y cymerir camau priodol yn syth. Y Pennaethiaid Gwasanaeth fydd yn gyfrifol hefyd am asesu unrhyw gamddefnydd posibl yn eu meysydd gwasanaethau a rhaid i'r Cyfarwyddwr priodol hysbysu'r Pennaeth TGCh a Gwasanaethau Cwsmeriaid yn unol â hynny.
- 23.08 Mae holl gyflogeion y Cyngor y rhoddir cyfrineiriau diogelwch neu godau mynediad iddynt, neu sy'n eu gwybod, yn gyfrifol yn unigol am sicrhau nad yw unrhyw berson arall yn gallu cyrchu codau o'r fath neu gyfrineiriau nac yn gallu defnyddio gwybodaeth o'r fath heb awdurdod. Bydd y rheoliad hwn yn cydnabod sefyllfa unigryw'r swyddog diogelwch fel y'i henwebwyd gan y Pennaeth TGCh a Gwasanaethau Cwsmeriaid.
- 23.09 Y Pennaethiaid Gwasanaeth fydd yn gyfrifol am sicrhau y caiff cofnodion eu cadw am gyfnod priodol ac ar fformat ac mewn trefn sy'n galluogi cydymffurfiaeth ag unrhyw ofynion statudol sydd mewn grym ar y pryd (trethiant, Mynediad at Wybodaeth ac ati). Rhaid i'r cyfnodau cadw gwybodaeth hefyd fod yn ddigon hir fel na fyddant yn niweidio gweithrediad effeithiol y Cyngor neu ei archwylwyr.
- 23.10 Bydd pob cyfarwyddwr yn gyfrifol am sicrhau y bodlonir gofynion Deddf Llywodraeth Lleol (Mynediad at Wybodaeth) 1985 o ran cyfrinachedd gwybodaeth benodol. Rhaid i gyfarwyddwyr hefyd sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o sensitifrwydd posibl rhai categorïau o wybodaeth ariannol o natur bersonol a chontractiol, ac nad yw

gwybodaeth o'r fath yn cael ei throsglwyddo naill ai'n fwriadol neu yn ddiofal i unrhyw berson arall heblaw'r rhai yn y sefydliad y mae angen iddynt ei gwybod.

24. STOCIAU A STORAU

- 24.01 Bydd pob Cyfarwyddwr yn sicrhau bod cyfrifoldeb clir am y gofal a'r warchodaeth o'r stociau a storau adrannol, yn ogystal ag am gysoni holl symudiadau a balansau'r fath stociau a storau yng nghyfrifon terfynol y Cyngor.
- 24.02 Ni fydd mwy o stociau na'r rhai y mae eu hangen yn unol â gweithdrefnau storau cadarn.
- 24.03 Bydd pob Cyfarwyddwr yn trefnu archwiliadau prawf cyfnodol o stociau gan unigolion heblaw'r ceidwaid storau, a byddant yn sicrhau y caiff yr holl stociau eu gwirio o leiaf unwaith bob blwyddyn. Rhoddir gwybod i'r Rheolwr Archwilio Mewnol am unrhyw wargedau neu ddiffygion a ddatgelir gan archwiliadau prawf o'r fath a bydd y Rheolwr, ar ôl ymgynghori â'r Pennaeth Cyllid Corfforaethol, yn penderfynu pa gamau i'w cymryd.
- 24.04 Bydd hawl gan y Pennaeth Cyllid Corfforaethol i gael gan unrhyw Gyfarwyddwr wybodaeth o'r fath y mae ei hangen mewn perthynas â storau ar gyfer y cofnodion cyfrifyddu, costio ac ariannol. Bydd yr holl ddeunyddiau, storau neu offer dros ben yn cael eu gwaredu am y pris gorau posibl gan y Pennaeth Gwasanaeth sy'n gyfrifol am y stôr Cyngor perthnasol. Bydd y Pennaeth Gwasanaeth yn ymgynghori â'r Pennaeth Caffael ac yn cael cyngor ganddo.

25. CERBYDAU A PHEIRIANNAU

- 25.01 Bydd pob Cyfarwyddwr yn sicrhau y cedwir cofrestri/cofnodion ar gyfer yr holl gerbydau a pheiriannau a reolir gan y Gyfadran.
- 25.02 Bydd cofrestri/cofnodion o'r fath yn cynnwys manylion::-
- (i) defnydd;
 - (ii) milltired;
 - (iii) y tanwydd a roddwyd;
 - (iv) gwybodaeth berthnasol arall y mae ei hangen i gynnal rheolaeth briodol ac i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gyfredol.
- 25.03 Ni cheir defnyddio unrhyw gerbyd neu beiriant ond yn unol â busnes arferol y Cyngor.

26. DIOGELU EIDDO PREIFAT

26.01 Bydd pob Cyfarwyddwr yn sicrhau y caiff mesurau diogelwch priodol eu rhoi ar waith lle cymerir meddiant o eitemau gwerthfawr megis gemwaith, oriorau a mân-bethau eraill o natur debyg a dogfennau gweithredoedd eiddo sy'n perthyn i drydydd parti a bydd yn sicrhau y caiff rhestr eitemedig o'r eiddo ei chynnal a'i chadw mewn man diogel.

27. LWFANS TEITHIO, CYNHALIAETH A CHOLLED ARIANNOL

27.01 Caiff yr holl hawliadau am dalu lwfansau ceir, lwfansau cynhaliaeth, teithio a mân dreuliau eu cyflwyno i'r Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol ar ffurf neu drwy system a gymeradwywyd ganddo, wedi'u hardystio a'u diwallu ar ddiwrnod penodol o bob mis. Caiff enwau'r swyddogion a awdurdodwyd i gymeradwyo cofnodion o'r fath eu hanfon at y Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol gan bob Pennaeth Gwasanaeth gyda llofnodion enghreifftiol (os yw'n berthnasol), a hysbysir y Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol am unrhyw newidiadau i'r enwau a'r llofnodion (os yw'n berthnasol) fel y codant.

27.02 Y Pennaethiaid Gwasanaeth fydd yn gyfrifol am sicrhau bod gan yr holl ddefnyddwyr cerbydau awdurdodedig (gan gynnwys gyrrwyr cerbydau'r Cyngor) yswiriant digonol at ddibenion busnes a'r drwydded yrru ddilys gyfredol briodol.

27.03 Caiff yr holl hawliadau am dalu mân dreuliau megis lwfansau symud, llety a tharfu a threuliau hyfforddiant ar ôl dechrau yn y swydd eu cyflwyno i'r Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol yn y modd a ragnodwyd. Ni chaiff treuliau eu hawlio ond am wariant neu bresenoldebau a gyflawnwyd mewn gwirionedd. Rhoddir cymorth unwaith yn unig ar gyfer pob cam o hyfforddiant. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i'w gwneud yn ofynnol i'r llyfrau a deunyddiau hyfforddi yr ad-dalwyd gwariant amdanynt gael eu dychwelyd i'r Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol er defnydd cyffredinol y Cyngor.

27.04 Bydd taliadau i Aelodau, gan gynnwys aelodau cyfetholedig y Cyngor neu ei Bwyllgorau sydd â hawl i lwfansau teithio neu rai eraill, yn cael eu gwneud gan y Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol o dderbyn y ffurflen ragnodedig wedi'i llenwi'n briodol. Bydd y gweithdrefnau ar gyfer talu'r hawliadau yn unol â chynllun y Cyngor a gymeradwywyd ar y pryd a rhaid cyflwyno'r holl hawliadau ar gyfer blwyddyn ariannol o fewn mis i 31 Mawrth.

27.05 Ystyrir y bydd ardystio hawliadau am dreuliau gan neu ar ran y Pennaeth Gwasanaeth yn golygu bod y swyddog sy'n ardystio yn fodlon bod y teithiau wedi'u hawdurdodi, bod y gwariant wedi'i gyflawni'n briodol ac o angenrheidrwydd, a bod y lwfansau sefydlog sy'n daladwy gan y Cyngor yn briodol ddyledus.

27.06 Ni fydd hawliadau swyddogion a gyflwynir mwy na chwe mis ar ôl mynd i gostau yn cael eu talu ond â chymeradwyaeth hysbys y Pennaeth Gwasanaeth priodol.

28. CONTRACTAU HEBLAW PRYNU DEUNYDDIAU

- 28.01 Os yw contractau'n darparu ar gyfer gwneud taliadau interim ar sail tystysgrifau prisio, cynhelir cofrestr contractau cynllun yn dangos sefyllfa cyfrif pob contract rhwng y Cyngor a'r contractwr ynghyd â'r ffioedd proffesiynol cysylltiedig ac unrhyw daliadau eraill. Cedwir y gofrestr yn ganolog gan y Pennaeth Caffael.
- 28.02 Ni chaiff taliadau i gontractwyr ar gyfrif ar gyfer contractau eu gwneud ond ar dystysgrif a gyhoeddir gan y Pennaeth Gwasanaeth priodol (neu Ymgynghorydd Technegol a gymeradwywyd gan y Pennaeth Gwasanaethol priodol). Rhaid i'r Pennaeth Gwasanaeth sicrhau bod pob tystysgrif wedi'i hategu'n briodol gan fanylion digonol i'w gwneud yn bosibl i'r taliad gael ei gysoni â'r dogfennau contract. Rhaid i'r Pennaeth Gwasanaeth hefyd sicrhau bod trefniadau priodol wedi cael eu gwneud ar gyfer ymdrin â Threth ar Werth ac unrhyw ddidyniad sy'n angenrheidiol o dan Gynllun y Diwydiant Adeiladu (CIS).
- 28.03 Os yw Ymgynghorydd Technegol yn gyfrifol am yr ardystio, bydd y Pennaeth Gwasanaeth priodol yn ymgymryd â rôl monitro yn y prosiect er mwyn sicrhau y caiff pob tystysgrif ei hategu gan gopi o'r prisiad ac i wirio nad yw'n cynnwys unrhyw nodweddion anarferol, megis amrywiadau mawr, nad yw'r Cyngor yn gwybod amdanynt.
- 28.04 Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r contract ym mhob achos, caiff pob amrywiad ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan y Pennaeth Gwasanaeth neu Ymgynghorydd Technegol perthnasol.
- 28.05 Caiff unrhyw ychwanegiad neu amrywiad o'r fath sy'n ymwneud â chontractau gwerth £100,000 neu fwy ac a fydd yn cynyddu cyfanswm cost y cynllun mwy na 10% eu hysbysu i'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth perthnasol gan y Pennaeth Gwasanaeth cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl.
- 28.06 Yn ddarostyngedig i delerau'r contract, ni chaiff y dystysgrif taliad terfynol ei chyhoeddi hyd nes y bydd y Pennaeth Gwasanaeth priodol wedi cyflwyno i'r Rheolwr Archwilio Mewnol ddatganiad manwl o'r cyfrif, a'r holl ddogfennau perthnasol, os oes eu hangen at ddibenion archwilio. Bydd y Rheolwr Archwilio Mewnol, i'r graddau a ystyrir yn angenrheidiol, yn archwilio'r holl gyfrifon terfynol ar gyfer contractau. Bydd hawl gan y Rheolwr Archwilio Mewnol hefyd i archwilio contractau yn ystod unrhyw gam interim ac ymweld â'r safle i'r perwyl hwnnw ar ôl rhoi gwybod i'r swyddog goruchwyllo sy'n gyfrifol. Bydd hawl gan y Rheolwr Archwilio Mewnol i wneud yr holl ymholiadau o'r fath a chael gwybodaeth ac esboniadau o'r fath y gall fod eu hangen er mwyn bod yn fodlon ynghylch cywirdeb y cyfrifon. Ni fydd y Rheolwr Archwilio Mewnol yn achosi oedi afresymol i'r gwaith o archwilio'r cyfrifon terfynol.
- 28.07 Gwneir darpariaeth, os yw'n bosibl, mewn contractau ar gyfer gwaith ac yn y cytundebau o'r fath a grybwyllir yn y rheoliadau uchod y bydd y contractwr yn cadw'r holl gyfrifon, talebau a dogfennau sy'n ymwneud â'r contract, i'w darparu fel sy'n ofynnol gan y Cyngor, hyd nes bod y cyfrifon wedi cael eu harchwilio.
- 28.08 Os na fydd y cyfrif terfynol wedi'i gytuno cyn pen deuddeg mis ar ôl cwblhau'r gwaith (gan gynnwys cyfnodau o waith cynnal a chadw estynedig), yna bydd y swyddog

cyfrifol yn rhoi gwybod i'r Tîm Rheoli Corfforaethol am yr eitemau sy'n weddill. Bydd unrhyw adroddiad o dan y rheoliad hwn yn cynnwys cymhariaeth o'r gost derfynol neu'r gost derfynol debygol â swm gwreiddiol y contract, ynghyd â rhesymau am unrhyw wahaniaethau.

28.09 Bydd yn ddyletswydd i Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu'r Cyngor ym mhob achos:

- (a) gadw o dan warchodaeth ddiogel holl ddogfennau'r contract, gan gynnwys cynlluniau, manylebau, rhestrau meintiau, bondiau ac ati;
- (b) ei gwneud yn ofynnol bod gan y contractwr yr holl yswiriant angenrheidiol yn ei le cyn dechrau'r contract a'i fod yn ei gynnal hyd ddiwedd y gwaith contract.

28.10 Gwahoddir tendrau am gcontractau cysylltiedig â gwaith adeiladu gan contractwyr a gymeradwywyd yn unol â'r polisi cyfredol. Lle defnyddir unrhyw fath arall o dendro, er enghraifft, tendro agored, rhaid i'r contractwr llwyddiannus gydymffurfio â'r polisi hwnnw cyn y caiff y contract ei ddyfarnu. Bydd yn gyfrifoldeb i'r swyddog goruchwyllo sicrhau y caiff diogelwch addas ei ddarparu ar gyfer perfformiad dyladwy'r contract. Caiff hyn ei wneud mewn ymgynghoriad â Phennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu'r Cyngor a bydd yn rhaid iddo fodloni neu ragori ar y gofynion sylfaenol fel y'u nodir yn y Cod Ymarfer Caffael cyfredol.

28.11 Y Pennaeth Gwasanaeth sy'n gyfrifol am unrhyw un o gcontractau'r Cyngor neu am ei oruchwyllo fydd yn gyfrifol am ystyried unrhyw hawliadau nad ydynt o fewn telerau presennol y contract. Caiff y Pennaeth Gwasanaeth gyfeirio unrhyw faterion fel bo angen at Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu'r Cyngor, yn enwedig lle gellir gosod cynsail, er mwyn ystyried atebolrwydd cyfreithiol yr Awdurdod cyn cytuno ar unrhyw setliad.

28.12 Os ceir oedi i gwblhau contract, bydd yn ddyletswydd ar y Pennaeth Gwasanaeth sy'n goruchwyllo'r contract naill ai i gyhoeddi'r dystysgrif estyniad amser briodol neu i gymryd camau o ran iawndal penodedig.

29. NWYDDAU PAPUR ARIANNOL

29.01 Caiff yr holl ffurflenni derbynebaw, llyfrau, tocynnau, llyfrau archebu a dogfennau eraill sy'n cynrychioli arian neu werth am arian, eu harchebu, eu rheoli a'u cyhoeddi, a bod o dan warchodaeth y Prif Swyddog Incymau i'r graddau y bernir yn angenrheidiol, a bydd hwnnw'n cyflenwi gofynion unrhyw Adran. Cedwir cofrestr o'r holl dderbynebaw a'r dogfennau o'r fath a ddosbarthir, a chaiff pob dosbarthiad ei gydnabod trwy lofnod y swyddog a'i derbyniodd. Caiff y meintiau eu llywodraethu gan yr anghenion penodedig. Caiff yr holl ddogfennau a gwblhawyd eu cadw'n ddiogel gan y maes gwasanaeth yn unol â pholisi cadw dogfennau'r Cyngor.

30. PEIDIO Â CHYDYMFFURFIO Â RHEOLIADAU ARIANNOL

30.01 Caiff unrhyw achos o beidio â chydymffurfio â'r Rheoliadau Ariannol hyn ei ystyried yn fater a allai fod yn ddifrifol a dylid rhoi gwybod amdano i'r Cyfarwyddwr priodol a'r

Pennaeth Cyllid Corfforaethol. Os yw mater o'r fath yn ymwneud â thwyll neu ddwyn, rhaid rhoi gwybod i'r Pennaeth Cyllid Corfforaethol a fydd yn penderfynu a yw'r amgylchiadau'n gwarantu cyfeirio'r mater i'r Heddlu neu beidio. Mewn sefyllfa frys, mae'n ddyletswydd ar unrhyw swyddog i roi gwybod i'r Heddlu am fater lle mae amser yn hanfodol. Rhaid i bob mater a hysbysir fel hyn gael ei gadarnhau'n ysgrifenedig, fel arfer drwy law'r Pennaeth Cyllid Corfforaethol oni chaiff ei wneud o dan y ddarpariaeth "brys", pan ddylai'r Pennaeth Gwasanaeth ei ysgrifennu, gyda chopi er gwybodaeth i'r Pennaeth Cyllid Corfforaethol (a fydd felly'n ymwybodol o unrhyw ymchwiliad).

- 30.02 Bydd y Pennaeth Cyllid Corfforaethol yn adrodd yr holl faterion sy'n ymwneud â thwyll a dwyn asedau'r Cyngor ac unrhyw faterion eraill a ystyrir yn briodol i'r Prif Weithredwr ac Archwilydd Allanol y Cyngor. Dylid cyfeirio'r holl faterion arwyddocaol yn gyfrinachol i'r Pwyllgor Archwilio cyn gynted ag sy'n bosibl.
- 30.03 Bydd y Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol yn cynnal cynllun cymeradwy ar gyfer gweithredu materion disgyblu o fewn yr Awdurdod a fydd yn cydnabod y gall fod angen gweithdrefnau er mwyn sicrhau y caiff y gweithdrefnau ariannol priodol eu dilyn, neu i ymdrin ag achosion lle na chânt eu dilyn, fel y nodir yn y Rheoliadau Ariannol hyn. Bydd y cynllun hwn yn cynnwys Cod Ymddygiad yn nodi'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn gan gyflogaion y cynigir rhoddion neu letygarwch iddynt, a bydd hefyd yn rheoleiddio ymddygiad y cyflogaion hynny sy'n cael cydnabyddiaeth ariannol y tu allan i'w cyflogaeth gan y Cyngor.
- 30.04 Os caiff pwerau dirprwyedig eu defnyddio i hepgor darpariaethau'r Rheoliadau Ariannol yna bydd y swyddog sy'n arfer y pŵer dirprwyedig yn rhoi gwybod am hynny i'r Pennaeth Cyllid Corfforaethol.

TUDALEN WAG

RHEOLAU SEFYDLOG AR GYFER CONTRACTAU

MYNEGAI

Tudalen

1	Cyflwyniad	104
2	Ffur Contractau a'u Hardystio	104
3	Cydymffurfio	105
4	Contractau Esempt	106
5	Darparwyr Mewnol	107
6	Swyddogion Awdurdodedig a Dirprwyedig	107
7	Ymgynghoriadau Rhagarweiniol â'r Farchnad	107
8	Rhannu Contractau'n Lotiau	108
9	Cytundebau Fframwaith	108
10	Cydwasaethau	109
11	Trefniadau Cydweithredu	109
12	Amcangyfrif Gwerth y Contract	109
13	Caffael Gwerth Isel (Dyfynbrisiau) – Llai na £10,000	109
14	Caffael Gwerth Canolradd (Tendrau) – Rhwng £10,000 a £75,000	109
15	Caffael Gwerth Canolig (Tendrau) – Rhwng £75,000 a £164,176 (am Nwyddau a Gwasanaethau) neu lai na £4,104,394 (am Waith)	109
16	Contractau Gwerth Uchel am Nwyddau a Gwasanaethau (Tendrau) – Dros £164,176	110
17	Gwasanaethau Atodlen 3 (Trefn Cyffyrddiad Ysgafn) rhwng £164,176 a £589,148	110
18	Contractau Gwerth Uchel am Waith (Tendrau) – Dros £4,104,394	110
19	Dyfynbrisiau neu Dendrau Hwyr – Nifer lai o ddyfynbrisiau neu dendrau	110
20	Gwerthuso Tendrau	110
21	Camgymeriadau mewn Tendrau/Dyfynbrisiau	111
22	Tendrau Anarferol o Isel	111
23	Negodi ar ôl Tendr	111
24	Hysbysiad Dyfarnu Contract	111
25	Telerau ac Amodau Contract	112
26	Diogelwch a Pherfformiad	113
27	Iawndaliadau Penodedig ac Iawndaliadau Eraill	113
28	Terfynu Contract	113
29	Is-gontractio	113
30	Ymgynghorwyr	114
31	Cadw a Rheoli Cofnodion a Dogfennau	114
32	Hepgor Rheolau Sefydlog ar gyfer Contractau	114
Atod A	Atodiad A: Caffael Gwerth Isel (Dyfynbrisiau) o dan £10,000	115
Atod B	Atodiad B: Caffael Gwerth Canolradd (Tendrau) rhwng £10,000 a £75,000	116
Atod C	Atodiad C: Caffael Gwerth Canolig (Tendrau) – Rhwng £75,000 a £164,176 (am Nwyddau a Gwasanaethau) neu lai na £4,104,394 (am Waith)	117
Atod D	Atodiad D: Contractau Gwerth Uchel am Nwyddau a Gwasanaethau (Tendrau) – dros £164,176	118
Atod E	Atodiad E: Gwasanaeth Atodlen 3 Lefel Uchel (Trefn Cyffyrddiad Ysgafn) rhwng £164,176 a £589,148	119
Atod F	Atodiad F: Contractau Gwerth Uchel am Waith (Tendrau) – dros £4,104,394	120

1. Cyflwyniad

Caiff y Rheolau Sefydlog ar gyfer Contractau hyn eu gwneud o dan Adrannau 135 (1) a 135(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Byddant yn berthnasol i holl feysydd gweithgarwch y Cyngor, gan gynnwys unrhyw fath o is-gontractio, ar wahân i gontractau ar gyfer caffael a gwerthu buddiannau mewn tir, a'r Contractau Esempt a ddisgrifir yn adran 4 isod. Rhaid i'r cyllid ar gyfer yr holl gontractau fod yn unol â'r cyllidebau a gymeradwywyd a chydymffurfio â'r Rheoliadau Ariannol.

Caffael yw un o feysydd pwysicaf gwaith contractio'r Cyngor. Caffael yw'r broses a ddefnyddir gan y Cyngor i reoli'r ffordd mae'n cael ei holl Nwyddau, Gwasanaethau (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ymgynghorwyr/ gwasanaethau ymgynghoriaeth o unrhyw fath) a Gwaith o bob math. Mae'n cynnwys adnabod angen, ystyried opsiynau, y broses gaffael ei hun a'r gwaith dilynol i reoli ac adolygu'r contractau. Dylid darllen y 'Rheolau Sefydlog' hyn ochr yn ochr â Chod Ymarfer Caffael y Cyngor.

Mae proses gaffael y Cyngor yn cael ei rheoli gan ddeddfwriaeth fanwl y Deyrnas Unedig ac Ewrop, fel y mae meysydd eraill gwaith contractio'r Cyngor. Mae'n ofynnol o dan y gyfraith i **holl** brosesau caffael a chontractio'r Cyngor gael eu cynnal yn dryloyw ac yn deg ac mewn ffordd anwahaniaethol a chymesur. Os bydd gofyniad statudol neu ofyniad cyfreithiol arall yn mynd y tu hwnt i'r gofynion a geir yn y Rheolau Sefydlog ar gyfer Contractau hyn, bydd y ddeddfwriaeth yn cael blaenoriaeth dros unrhyw ddarpariaeth yn y Rheolau Sefydlog hyn.

Bydd yr holl gyfeiriadau at dendrau a dyfynbrisiau cystadleuol yn y Rheolau Sefydlog hyn yr un mor berthnasol (ynghyd â newidiadau o'r fath sy'n briodol) i amgylchiadau lle mae'r contract yn ymwneud â'r Cyngor yn derbyn incwm neu'n gwaredu unrhyw ased neu ymgymeriad, ag y maent i bryniannau sydd i'w gwneud gan y Cyngor, oni ddywedir yn benodol fel arall. Fodd bynnag, caiff y broses o waredu unrhyw fuddiant mewn tir ac adeiladau ei llywodraethu gan brotocol ar wahân a geir yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

Dylid cyfeirio unrhyw amheuaeth neu ansicrwydd o ran y ffordd y dylid dehongli'r Rheolau Sefydlog hyn ac unrhyw anghysondeb rhwng y Rheolau Sefydlog hyn ac unrhyw un o ddogfennau eraill y Cyngor at y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol. Bydd ei benderfyniad yn derfynol.

2. Ffurf Contractau a'u Hardystio

2.1 Bydd holl Gontractau'r Cyngor yn ysgrifenedig ar ffurf ac ar delerau a gymeradwywyd gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, a byddant yn nodi:-

- a) y gwaith, deunyddiau, gwasanaethau neu bethau i'w dodrefnu, cael, gwneud neu waredu.
- b) y pris i'w dalu (neu, fel bo'n briodol, y symiau i'w derbyn), gyda datganiad o ostyngiadau neu ddiidyniadau eraill, ac os nad yw'n hysbys, y pris

amcangyfrifedig ymrwymedig, neu'r sail a ddefnyddir i gyfrifo swm terfynol y contract.

- c) yr amser neu'r amserau y mae'n rhaid cyflawni'r contract oddi mewn iddynt, ynghyd â dyddiad terfynu'r contract.

- 2.2 Mae'r siartiau llif yn yr Atodiadau'n nodi'r llwybrau rhagnodedig ar gyfer yr holl gaffaeliadau yn chwe band gwerth contractau (A, B, C, D, E a F - gweler adrannau 13 i 18 isod). Mae'r siartiau llif hyn yn dangos prif reolau ac elfennau'r prosesau perthnasol yn unig, gan gynnwys nifer y tendrau neu ddyfynbrisiau a wahoddir. Ceir canllawiau manwl am y prosesau yn y Cod Ymarfer Caffael, y dylid ei ddilyn ym mhob achos.
- 2.3 Mae'r siartiau llif yn yr Atodiadau'n enwi'r sawl sydd wedi'i ddirprwyo i lofnodi contract ar ran y Cyngor ym mhob band. Ni chaiff neb â llai o gyfrifoldeb na'r llofnodwyr lofnodi contract. Caiff swyddogion uwch lofnodi contract ym mhob achos.
- 2.4 Gall contractau ym mandiau C, D, E a F (yn ogystal â'r contractau hynny a bennir gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol) fod dan sêl ac wedi eu tystio gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol neu'r Prif Weithredwr neu swyddog arall o'r fath a ddirprwywyd yn ysgrifenedig gan y naill neu'r llall.

3. Cydymffurfio

- 3.1 Caiff pob contract y bydd y Cyngor yn ymrwymo iddo ei wneud yn unol neu mewn cysylltiad â swyddogaethau'r Cyngor a bydd yn cydymffurfio â:
 - (a) Yr holl ddarpariaethau statudol perthnasol;
 - (b) Cyfarwydddebau Caffael perthnasol yr UE (Cytuniad yr UE, egwyddorion cyffredinol cyfraith gymunedol a Chyfarwydddeb Contractau Cyhoeddus yr Undeb Ewropeaidd (2014/24/EU) a weithredir gan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 neu Reoliadau diwygio, amrywio neu newydd eraill o'r fath sydd mewn grym o dro i dro ("Rheoliadau").
 - (c) Cyfansoddiad y Cyngor, gan gynnwys y Rheolau Sefydlog ar gyfer Contractau hyn, Rheoliadau Ariannol a Chynllun Dirprwyo'r Cyngor.
- 3.2 Mae'n ofynnol i'r holl Swyddogion ac Aelodau sy'n ymwneud â'r gwaith o gaffael, dyfarnu a rheoli contractau'r Cyngor fod â'r safonau uchaf o ran uniondeb. Gallai unrhyw achos difrifol o beidio â chydymffurfio arwain at ddefnyddio gweithdrefnau disgyblu'r Cyngor.
- 3.3 Atgoffir Swyddogion ac Aelodau am eu cyfrifoldebau mewn perthynas â rhoddion a lletygarwch a dylent sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau a nodir yng Nghod Ymddygiad yr Aelodau a'r Cod Ymddygiad Swyddogion yn y drefn honno ac unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd yn hynny o beth.
- 3.4 Bydd swyddogion yn cymryd camau priodol i atal, canfod ac unioni'n effeithiol unrhyw achosion o Wrthdaro Buddiannau sy'n codi wrth weithredu'r gweithdrefnau caffael er

mwyn osgoi unrhyw achos o wyrddroi cystadleuaeth ac i sicrhau y caiff yr holl Contractwyr eu trin yn gyfartal fel y nodir yn y Rheoliadau.

- 3.5 Rhaid i'r holl contractau gynnwys darpariaeth sy'n caniatáu i'r Cyngor derfynu heb iawndal os digwydd y bu achos gwirioneddol o dwyll neu lygru, neu ymgais at dwyll neu lygru, mewn cysylltiad â chaffael, parhau, adnewyddu neu gyflawni'r contract. I gynnwys seiliau eithrio priodol fel y'u nodir yn y Rheoliadau.
- 3.6 Rhaid i'r Cyfarwyddwr priodol roi gwybod i'r Swyddog Adran 151 am unrhyw fethiant i gydymffurfio ag unrhyw ddarpariaethau yn y Rheolau Sefydlog ar gyfer Contractau hyn, y Rheoliadau Ariannol neu ofynion cyfreithiol y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd.

4. Contractau esempt

- 4.1 Mae'r contractau canlynol wedi'u heithrio rhag gofynion y Rheolau Sefydlog hyn:
- (a) Contractau cyflogaeth (nid yw'r eithriad hwn yn cynnwys recriwtio staff asiantaeth neu drefniadau secondio allanol).
 - (b) Contractau ynghylch gwaredu neu gaffael budd mewn tir ac eiddo **yn unig**, y ceir protocol ar wahân ar eu cyfer yng Nghyfansoddiad y Cyngor.
 - (c) Mewn argyfwng gwirioneddol sy'n bygwth iechyd cyhoeddus, anaf i berson neu ddifrod difrifol ac uniongyrchol i eiddo gall y Swyddog Awdurdodedig gymryd unrhyw gamau angenrheidiol i liniaru'r bygythiad. Mae'r pŵer hwn wedi'i gyfyngu i liniaru'r bygythiad ac nid yw'n ymestyn i unrhyw waith y tu hwnt i'r hyn sy'n wirioneddol hanfodol.
 - (d) O dan amgylchiadau lle bo mater, na fernir ei fod yn argyfwng, ond er hynny yr ystyrir ei fod yn fater o frys, yn codi, rhaid i'r Pennaeth Gwasanaeth priodol roi ei gymeradwyaeth yn ysgrifenedig ymlaen llaw. Fodd bynnag, os yw'r gwariant amcangyfrifedig yn fwy na £20,000, rhaid ceisio cymeradwyaeth gan 2 o'r Swyddogion canlynol:
 - Swyddog Adran 151, y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol neu'r Pennaeth Caffael yn ddarostyngedig i drothwy uchaf cyn cychwyn y broses gaffael o £100,000 am nwyddau, gwaith a gwasanaethau.

Os bu'n angenrheidiol caffael o dan 4.1 (c) neu (d) rhaid i bob achos o'r fath gael ei hysbysu i'r cyfarfod nesaf sydd ar gael o'r Tîm Rheoli Corfforaethol.

- (e) penodi Cwnsler.
- (f) bydd dyfarnu contractau ar gyfer lleoliadau unigol 'brys' yn parhau yn ôl disgresiwn y Cyfarwyddwyr Corfforaethol â chyfrifoldeb am Addysg a Dysgu Gydol Oes a Gwasanaethau Cymdeithasol yn unol â'r Rheoliadau.

- (g) os yw'r Swyddog sy'n cymeradwyo (neu'r Swyddog Dirprwyedig) yn ystyried na ellir cyflawni ychwanegiadau, gwaith cynnal a chadw neu atgyweiriadau ond gan y contractwr neu gyflenwr gwreiddiol.

Os bu'n rhaid caffael o dan 4.1 (e), (f) neu (g) dylid dilyn darpariaethau paragraffau 19.2, 19.3 a 19.4.

- (h) os yw ariannwr allanol yn pennu gofynion penodol h.y. rhaid dilyn telerau ac amodau'r cyllid.

5. Darparwyr Mewnol

- 5.1 Cyn cychwyn y gweithgarwch caffael ac yn ddarostyngedig i 4(h) uchod, bydd y Pennaeth Gwasanaeth neu'r Swyddog Awdurdodedig yn canfod a yw darparwr gwasanaeth mewnol yn gallu cyflawni'r gwaith neu wasanaeth. Os yw'r darparwr mewnol yn cadarnhau'n ysgrifenedig nad oes ganddo'r capasiti i gyflawni'r gwaith, gall y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol fynd ymlaen i gaffael yn unol â'r Rheolau Sefydlog hyn. At ddibenion y cymal hwn rhaid i ddarparwr mewnol allu dangos na fyddai angen i fwy na dau ddeg pump y cant o elfen lafur gwerth y gwaith ar gyfer y contract arfaethedig gael ei his-contractio i'r sector preifat.
- 5.2 Os yw'r darparwr mewnol yn gallu cyflawni'r gwaith ac mae ganddo'r capasiti i'w wneud, dylid dyrannu'r gwaith yn awtomatig yn amodol ar gymeradwyaeth y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol ac yn unol ag unrhyw delerau ac amodau cyllid a rhaid cofnodi penderfyniadau o'r fath yn ysgrifenedig. Os, mewn achos o'r fath, nad yw'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol yn dymuno defnyddio'r darparwr mewnol, rhaid iddo geisio cymeradwyaeth gan Dîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor cyn ymrwymo i'r broses gaffael.
- 5.3 Rhaid i'r holl gontractau gwerth mwy na £10,000 a ddyrannir yn uniongyrchol i ddarparwyr mewnol gael eu cofnodi ar y Gofrestr Contractau Corfforaethol.

6. Swyddogion Awdurdodedig a Dirprwyedig

- 6.1 Swyddog Awdurdodedig – mae'r teitl hwn yn cyfeirio at y Swyddogion hynny a enwir yn y Gofrestr Ganolog a gedwir gan y Pennaeth Caffael. Mae'r Swyddogion hyn wedi'u Hawdurdodi i arwain proses gaffael benodol ar ran y Cyngor ond nid oes ganddynt unrhyw bwerau Dirprwyedig.
- 6.2 Swyddog Dirprwyedig – mae'r teitl hwn yn cyfeirio at y Swyddogion hynny y mae pwerau wedi'u Dirprwyo'n ysgrifenedig iddynt gan naill ai: y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr, Pennaeth Gwasanaeth neu'r Pennaeth Caffael a gallant felly gyflawni gweithredoedd lle mae ganddynt ganiatâd penodol yn unol â'r prosesau a gweithdrefnau fel y'u nodir yn y Rheolau Sefydlog ar gyfer Contractau hyn.

7. Ymgynghoriadau Rhagarweiniol â'r Farchnad

- 7.1 Cyn cychwyn Caffael gall y Cyngor gynnal ymgynghoriadau â'r farchnad gyda'r bwriad o baratoi'r broses gaffael a rhoi gwybod i Gontractwyr am gynlluniau ac anghenion

caffael y Cyngor, gan gynnwys ceisio neu dderbyn cyngor gan arbenigwyr neu Gontractwyr annibynnol.

- 7.2 Cyn ymgynghori â'r farchnad, rhaid ceisio cyngor a chyfarwyddyd gan y Pennaeth Caffael er mwyn sicrhau nad yw ymgynghori rhagarweiniol o'r fath yn achosi gwyrddroi'r gystadleuaeth ac nad yw'n arwain at dorri egwyddorion o ran peidio â gwahaniaethu, tryloywder a chymesuredd.

8. Rhannu Contractau'n Lotiau

- 8.1 Caiff y Cyngor, os yw'n ei ystyried yn briodol, benderfynu dyfarnu contract ar ffurf lotiau ar wahân a chaiff bennu maint a phwnc lotiau o'r fath yn unol â'r Rheoliadau.
- 8.2 Os yw'r Cyngor wedi penderfynu peidio â rhannu contract yn lotiau bydd yn nodi'r prif resymau yn y dogfennau caffael neu fel y darperir yn y Rheoliadau.

9. Cytundebau Fframwaith

- 9.1 Cyn cychwyn y gweithgarwch caffael, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Caffael (neu'r Swyddog Caffael Dirprwyedig), rhaid i'r Swyddog Awdurdodedig ganfod a oes Cytundeb Fframwaith cymeradwy ar waith y dylid ei ddefnyddio. Cedwir manylion yr holl Gytundebau Fframwaith ar Gofrestr Contractau Corfforaethol y Cyngor. Mae manylion defnyddio Cytundebau Fframwaith i'w cael yn y Cod Ymarfer Caffael.
- 9.2 Gall y Cytundeb Fframwaith gynnwys gofyniad yn ei delerau i gynnal ymarfer mini gystadleuaeth rhwng y Contractwyr sy'n bartion i'r Cytundeb Fframwaith. Caiff y rhain eu tendro yn unol â'r Cytundeb Fframwaith penodol a'r Rheolau Sefydlog ar gyfer Contractau hyn. Mae manylion gweithdrefnau ar gael yn y Cod Ymarfer Caffael.
- 9.3 Os yw'r Cyngor yn gallu trefnu yn ôl y galw o dan Gytundebau Fframwaith cyfredol a gafodd eu caffael gan asiantaethau'r Llywodraeth ganolog, consortia prynu neu awdurdodau lleol neu gyrff cyhoeddus eraill, caiff y Cyngor elwa o ddefnyddio'r contractau hynny heb gynnal ymarfer caffael ar wahân. Os yw Cytundebau Fframwaith o'r fath yn cynnwys nifer o Gontractwyr gwahanol sy'n gallu darparu categori penodol o nwyddau neu wasanaethau, rhaid i ymarfer mini gystadleuaeth rhwng y Contractwyr hynny sy'n bartion i'r Cytundeb Fframwaith gael ei gynnal yn unol â'r Cytundeb Fframwaith penodol.
- 9.4 Fodd bynnag, os defnyddir Cytundebau Fframwaith o'r fath cânt eu defnyddio yn unol â thelerau'r cytundebau hynny ac mae'n bosibl na fydd y rheiny'n briodol bob amser ar gyfer y caffael penodol dan sylw. Dylid ceisio cyngor gan y Pennaeth Caffael (neu'r Swyddog Caffael Dirprwyedig) cyn cychwyn caffael o dan unrhyw Gytundeb Fframwaith.
- 9.5 Caiff y gwaith o sefydlu Cytundebau Fframwaith ei lywodraethu gan ddeddfwriaeth fanwl yr UE a'r Deyrnas Unedig. Cyn sefydlu unrhyw Gytundeb Fframwaith, rhaid ymgynghori â'r Cod Ymarfer Caffael a holi'r Pennaeth Caffael (neu'r Swyddog Caffael dirprwyedig) ynghylch unrhyw ansicrwydd neu gwestiynau. Rhaid i unrhyw Gytundeb Fframwaith a sefydlwyd gan adran gleient gael ei hysbysu i'r Pennaeth Caffael gan y Pennaeth Gwasanaeth neu'r Swyddog Awdurdodedig er mwyn i'r adran Gaffael

gynnwys y Cytundeb Fframwaith ar y Gofrestr Contractau Corfforaethol i'w ddefnyddio gan adrannau eraill lle'n bo'n berthnasol.

10. Cydwasanaethau

- 10.1 Cyn i'r Cyngor ymrwymo i drefniant cydwasanaeth gyda chorff cyhoeddus arall rhaid ceisio cymeradwyaeth gan y Tîm Rheoli Corfforaethol.

11. Trefniadau Cydweithredu

- 11.1 Pan ellir diwallu angen trwy drefniant sy'n bodoli eisoes a sefydlwyd gan Sefydliad Sector Cyhoeddus arall ac mae'r sefydliad hwnnw'n cydymffurfio â gofynion y Rheoliadau, bydd y trefniant yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Sefydlog ar gyfer Contractau hyn. Mae hyn yn cynnwys prynu trwy drefniadau a wnaed er enghraifft ond heb fod yn gyfyngedig i'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, Gwasanaethau Caffael y Goron a Chonsortium Prynu Cymru.
- 11.2 Cyn ymrwymo'r Cyngor i gontract fel y nodir yn 11.1, rhaid i'r Swyddog Awdurdodedig geisio cyngor ysgrifenedig gan y Pennaeth Caffael.

12. Amcangyfrif Gwerth y Contract

- 12.1 Er cysondeb, dylid cyfrifo gwerthoedd pob Contract yn gwbl unol â'r Rheoliadau. At ddibenion y Rheolau Sefydlog hyn, gwerth unrhyw gontract fydd y gwerth neu ystyriaeth ar gyfer y contract cyfan dros gyfnod y contract (sef tair neu bedair blynedd fel arfer). Bydd y Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o'i bŵer prynu trwy gyfuno pryniannau lle bynnag y bo modd. Yn benodol, ni cheir rhannu (gwahanu) contractau ar gyfer cyflenwadau, gwasanaethau neu waith mewn ymgais i osgoi cymhwysedd y Rheolau Sefydlog ar gyfer Contractau hyn na'r Rheoliadau.
- 12.2 Caiff y gwerthusiad o gost ei gynnal ar y sail bod y Cyngor yn chwilio am y pecyn mwyaf economaidd i'r contract. Ni chaniateir lleihau contractau'n fwriadol er mwyn osgoi unrhyw ddarpariaethau yn y Rheolau Sefydlog ar gyfer Contractau na'r Rheoliadau.
- 12.3 Mae manylion llawn ynghylch asesu gwerth yr holl gontractau i'w gweld yn y Cod Ymarfer Caffael.

13 Caffael Gwerth Isel (Dyfnbrisiau) – llai na £10,000 (Band A)

- 13.1 Gweler Atodiad A

14. Caffael Gwerth Canolradd (Tendrau) – rhwng £10,000 a £75,000 (Band B)

- 14.1 Gweler Atodiad B

15. Caffael Gwerth Canolig (Tendrau) - rhwng £75,000 a £164,176 (am Nwyddau a Gwasanaethau) neu lai na £4,104,394 (am Waith) (Band C)

- 15.1 Gweler Atodiad C

16. Contractau Gwerth Uchel am Nwyddau a Gwasanaethau (Tendrau) – Dros £164,176 (Band D)

16.1 Gweler Atodiad D

17. Gwasanaethau Atodlen 3 (Trefn Cyffyrddiad Ysgafn) rhwng £164,176 a £589,148 (Band E)

17.1 Gweler Atodiad E

18. Contractau Gwerth Uchel am Waith (Tendrau) – Dros £4,104,394 (Band F)

18.1 Gweler Atodiad F

19. Dyfynbrisiau neu Dendrau Hwyr – Nifer lai o Dendrau

19.1 Ni fydd unrhyw dendr, dyfynbris neu holiadur cyn-gymhwyso a ddaw i law ar ôl y dyddiad a'r amser cau a nodwyd yn cael ei ystyried yn ffurfiol ond caiff ei agor yn unswydd er mwyn ei ddychwelyd at y person a gyflwynodd y ddogfen, oni fydd y darpariaethau canlynol yn berthnasol. Y Pennaeth Caffael fydd yn arfer yr unig ddisgresiwn o ran yr uchod (hyd yn oed ar gyfer dyfynbrisiau nas dychwelwyd iddo) a fydd yn cofnodi'n ysgrifenedig y rhesymau am ganiatáu i gyflwyniad hwyr gael ei ystyried. Rhaid i unrhyw resymau gynnwys cadarnhad nad yw cynnwys y dyfynbris neu dendr hwyr wedi cael ei ystyried a bod y dyfynbrisiau neu dendrau eraill wedi cael eu cadw'n ddiogel dan sêl yn y cyfamser fel y cânt i gyd eu hagor ar yr un pryd ac na fydd unrhyw berson sy'n cyflwyno dyfynbris neu dendr o dan anfantais o'r herwydd.

19.2 Ar gyfer proses gaffael werth rhwng £10,000 a llai na £75,000 lle hoffai Swyddog Awdurdodedig wahodd llai na phedwar i gynnig tendr, rhaid iddo geisio cymeradwyaeth gan y Pennaeth Caffael.

19.3 Ar gyfer proses gaffael werth mwy na £75,000 lle hoffai Swyddog Awdurdodedig wahodd llai na phump i gynnig tendr, rhaid iddo geisio cymeradwyaeth gan y Cyfarwyddwr priodol ar ôl ymgynghori â'r Pennaeth Caffael.

19.4 Ar gyfer yr holl brosesau caffael gwerth mwy na throthwyau yr UE lle hoffai Swyddog Awdurdodedig wahodd llai na phump i gynnig tendr, rhaid iddo geisio cymeradwyaeth gan y Tîm Rheoli Corfforaethol ar ôl ymgynghori â'r Pennaeth Caffael.

19.5 Os, ar ôl gwahodd y nifer ofynnol o ddyfynbrisiau neu dendrau fel y nodir yn y rheolau sefydlog hyn, mae llai na hanner yr ymatebion wedi'u prisio, rhaid rhoi ystyriaeth (a rhaid cofnodi hynny'n ysgrifenedig) i ail-redeg y broses gaffael. Os yw'r contract ar gyfer swm gwerth llai na £75,000, gall y Pennaeth Gwasanaeth wneud y penderfyniad. Os yw'r contract ar gyfer swm gwerth mwy na £75,000, gwneir y penderfyniad gan y Cyfarwyddwr priodol ar ôl ymgynghori â'r Pennaeth Caffael.

20. Gwerthuso Tendrau

20.1 Os sefydlwyd meini prawf dyfarnu heblaw'r pris isaf (neu, mewn achos o waredu ased, y pris uchaf) caiff y meini prawf gwerthuso eu rhagbennu a'u cymeradwyo gan y Pennaeth Caffael (neu'r Swyddog Caffael Dirprwyedig) a'u rhestru yn y dogfennau

Gwahoddiad i Dendro yn nhrefn eu pwysigrwydd. Rhaid nodi'n glir unrhyw ddull sgorio neu bwysoli penodol sy'n berthnasol i unrhyw feini prawf. Hefyd, caiff y meini prawf eu dilyn yn gaeth (ac ni fyddant yn newid) bob amser drwy gydol y weithdrefn dyfarnu contract. Caiff tendrau eu gwerthuso dim ond yn unol â'r meini prawf gwerthuso a nodir yn y Gwahoddiad i Dendro.

21. Camgymeriadau mewn Tendrau/Dyfynbrisiau a Thendrau/Dyfynbrisiau nad ydynt yn cydymffurfio

- 21.1 Rhaid i dendrau/dyfynbrisiau nad ydynt yn cydymffurfio â gofynion y Cyngor fel y'u nodir yn y gwahoddiad i dendro/rhoi dyfynbris neu sy'n cynnwys mân gamgymeriadau gael eu trin yn unol â'r egwyddorion arweiniol a nodir yn y Rheoliadau a chan gydymffurfio â chyngor a gafwyd oddi wrth y Pennaeth Caffael (neu'r Swyddog Caffael Dirprwyedig). Enghraifft fyddai (ond heb fod yn gyfyngedig i hynny) bod y contractwr wedi gwneud camsyniad gwirioneddol o ran ei brisio a/neu fathemateg a ddaeth i sylw'r Cyngor cyn dyfarnu'r contract. Mewn achos o'r fath, efallai caiff y contractwr y cyfle i gywiro'r camsyniad hwnnw. Ni chaniateir unrhyw gywiriad oni chaiff ei ystyried yn gymesur ac nad yw'n gwyrddio'r gystadleuaeth yn unol â'r Rheoliadau. Ni chaniateir unrhyw addasiad, diwygiad neu gymhwyster arall. Rhaid nodi'r holl gywiriadau neu esboniadau yn ysgrifenedig.
- 21.2 Rhaid i ddogfennau tendr/dyfynbris nodi sut yr ymdrinnir â chamgymeriadau yn y tendr/dyfynbris.

22. Tendrau Anarferol o Isel

- 22.1 Lle, o ganlyniad i ganfod bod y pris neu'r costau cyfan a nodwyd yn y tendr yn codi amheuan sylweddol na fydd y Contractwr yn gallu cwblhau'r contract yn unol â thelerau'r contract, bydd y Cyngor yn gofyn i'r sawl sy'n cyflwyno tendr esbonio'r pris neu gostau a gynigir. Rhaid cyflawni hyn yn unol â'r Rheoliadau ac mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Caffael.

23. Negodi ar ôl Tendr

- 23.1 Lle cyflawnir proses gaffael yn unol â'r Rheoliadau, ni chaniateir negodi ar ôl tendr. Caiff y Pennaeth Gwasanaeth ofyn am eglurhad gan y sawl sy'n tendro os yw'n briodol, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Caffael. Ni chaniateir negodi ar bris ac eithrio lle darperir ar ei gyfer yn y Rheoliadau.
- 23.2 Os nad oes angen i'r prosesau caffael gydymffurfio â'r Rheoliadau'n gaeth, caiff y Pennaeth Caffael awdurdodi negodiadau os ystyrir eu bod er budd pennaf y Cyngor yn unol ag egwyddorion arweiniol y Rheoliadau.
- 23.3 Bob amser yn ystod y broses gaffael, bydd y Cyngor yn sicrhau y caiff y rhai sy'n cyflwyno tendr eu trin yn gyfartal ac mewn ffordd anwahaniaethol, dryloyw a chymesur.

24. Hysbysiad Dyfarnu Contract

- 24.1 Lle cafodd contract ei dendro yn unol â'r Rheoliadau, bydd y Cyngor yn cyhoeddi hysbysiad dyfarnu contract yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd heb

fod yn fwy na 30 diwrnod ar ôl dyddiad dyfarnu'r contract neu ofynion neu gyfyngiadau amser eraill o'r fath a nodir yn y Rheoliadau. Mae hwn yn gyfrifoldeb i'r Swyddog Awdurdodedig ac fe'i cyflawnir mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Caffael (neu'r Swyddog Caffael Dirprwyedig).

25. Telerau ac Amodau Contract

- 25.1 Bydd y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol yn ymdrechu i'r eithaf i sicrhau yr ymrwymir i gontractau ar sail y set briodol o delerau ac amodau'r Cyngor, a gaiff ei chynnwys gyda phob archeb brynu neu wahoddiad i dendro. Os nad yw hyn yn bosibl, rhaid i amrywiadau i delerau ac amodau perthnasol y Cyngor a/neu'r telerau ac amodau a gyflwynwyd gan gontractwr gael eu cymeradwyo'n ffurfiol yn ysgrifenedig gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol. Fodd bynnag, ni fydd unrhyw ddiwygiad i delerau ac amodau'r Cyngor neu'r telerau ac amodau a gyflwynwyd gan Gontractwr yn mynd yn groes i'r gofynion a nodir yn y Rheoliadau ac yn arbennig ond heb fod yn gyfyngedig i Reoliad 73.
- 25.2 Gall pob Contract â'r ddarpariaeth i ymestyn gael ei ymestyn cyn dyddiad dod i ben y contract os yw'n unol â'i delerau ac amodau gwreiddiol (y mae'n rhaid iddynt ganiatáu'n benodol ar gyfer ymestyn) a lle gwelir ei fod yn rhoi'r Gwerth Gorau am Arian. Rhaid ceisio cymeradwyaeth ar gyfer ymestyniad o'r fath oddi wrth y Pennaeth Caffael neu yn unol â ffurf y contract.
- 25.3 Os na fydd y telerau'n darparu'n benodol ar gyfer ymestyn y contract a chyn i hwnnw ddod i ben, os teimlir ei fod er budd y Cyngor i ymestyn y contract, gellir ei ymestyn dim ond i'r graddau a ganiateir gan y Rheoliadau. Er enghraifft, os yw'r Rheoliadau'n berthnasol i'r nwyddau, gwaith neu wasanaethau yn y contract ac os yw gwerth yr estyniad arfaethedig yn fwy na'r trothwy perthnasol, mae hwn yn debyg o gael ei ystyried yn gontract newydd a dylid ei gaffael yn gystadleuol, oni bai fod un o'r eithriadau cul yn y Rheoliadau'n berthnasol. Mewn achosion lle nad yw'r Rheoliadau'n berthnasol, rhaid i unrhyw estyniad gael ei negodi'n unol ag egwyddorion arweiniol y Rheoliadau. Ym mhob achos, rhaid i'r estyniad ddilyn y rheolau a nodir yn y Cod Ymarfer Caffael a chael ei gymeradwyo gan y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol, a rhaid rhoi gwybod i'r Pennaeth Caffael amdano cyn y bydd yr estyniad yn dod yn gyfrwymol ar y Cyngor yn gyfreithiol.
- 25.4 Rhaid cyflawni pob amrywiad i'r Contract o fewn cwmpas y Contract gwreiddiol. Ni chaniateir amrywiadau i'r Contract sy'n effeithio'n berthnasol ar y Contract gwreiddiol neu'n newid ei gwmpas.
- 25.5 Rhaid cyflwyno'r holl amrywiadau arwyddocaol i'r Contract yn ysgrifenedig a rhaid iddynt gael eu llofnodi gan y Cyngor a'r Contractwr ill dau. Y Pennaeth Gwasanaeth priodol fydd yn penderfynu a fernir bod amrywiad yn arwyddocaol neu beidio (mae arwyddocaol yn golygu p'un bynnag yw'r mwyaf, £10,000 neu 10% o werth y contract). Rhaid i'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol asesu gwerth pob amrywiad a rhaid ceisio'r holl gymeradwyaethau angenrheidiol cyn cyflawni'r amrywiad. Rhaid i unrhyw amrywiad a all fod mor arwyddocaol nes y gallai effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau gael ei hysbysu i'r Cyfarwyddwr priodol i'w gymeradwyo.

26. Diogelwch a Pherfformiad

- 26.1 Bydd unrhyw Swyddog Awdurdodedig, cyn derbyn neu argymell derbyn dyfynbris neu dendr, yn ystyried a yw'n briodol o dan yr holl amgylchiadau i ofyn am a sicrhau diogelwch digonol am gyflawniad priodol unrhyw gontract. Lle defnyddir gweithdrefn cymeradwy'r Cyngor ar gyfer tendro dethol, rhaid dilyn gofynion sylfaenol y cynllun hwnnw.

27. Iawndaliadau Penodedig ac Iawndaliadau eraill

- 27.1 Os yw'n briodol, bydd contractau ar gyfer cyflawni gwaith yn darparu ar gyfer talu iawndal penodedig gan y contractwr rhag ofn na chaiff telerau'r contract eu cyflawni'n briodol, ac eithrio os yw'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol yn cymeradwyo math arall o gam unioni.
- 27.2 Bydd pob contract ar gyfer cyflenwi nwyddau neu ddeunyddiau erbyn dyddiad neu gyfres o ddyddiadau penodol sy'n dod o dan Fand C neu Fand D yn cynnwys cymal er mwyn sicrhau, os bydd y contractwr yn methu â chyflenwi'r nwyddau neu ddeunyddiau, neu unrhyw ran ohonynt o fewn yr amser a bennir yn y Contract, y bydd y Cyngor, heb ymrwymiad i unrhyw gam unioni arall am dor-contract, yn rhydd i derfynu'r contract naill ai'n gyfan gwbl, neu i'r graddau a fethwyd ac i brynu nwyddau neu ddeunyddiau eraill, fel y bo'n briodol, o'r un disgrifiad neu un tebyg er mwyn gwneud yn iawn am (a) diffyg o'r fath, neu (b) os terfynir y contract cyfan, y nwyddau neu ddeunyddiau nas cyflenwyd. Bydd y cymal hefyd yn sicrhau y bydd y gwahaniaeth rhwng cost prynu nwyddau neu ddeunyddiau eraill o'r fath a'r swm a fyddai wedi bod yn daladwy i'r contractwr am y nwyddau neu ddeunyddiau, fel y bo'n briodol, y cymerwyd eu lle gan bryniad o'r fath petaent wedi cael eu cyflenwi yn unol â'r Contract, yn gallu cael ei adennill oddi wrth y contractwr ac eithrio os yw'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol yn cymeradwyo math arall o gam unioni.
- 27.3 Mae'r darpariaethau uchod heb ymrwymiad i'r rhwymedigaeth i sicrhau bod ffurf a thelerau ac amodau'r holl gontractau fel y'u cymeradwywyd gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol.

28. Terfynu Contract

- 28.1 Ar gyfer unrhyw gontract gwerth mwy na £75,000, rhaid i broses terfynu cynnar gael ei chymeradwyo gan y Pennaeth Caffael a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol. Gall contractau gwerth llai o faint gael eu terfynu'n gynnar trwy gytundeb cyn y dyddiad dod i ben neu'n unol â'r darpariaethau terfynu a nodir yn y contract, ar ôl ymgynghori â'r Pennaeth Caffael.

29. Is-gontractio

- 29.1 Rhaid i unrhyw fath o is-gontractio gwaith y Cyngor gydymffurfio'n llawn â'r Rheolau Sefydlog hyn ar gyfer Contractau a'r Rheoliadau.

- 29.2 Os yw'r Cyngor wedi penderfynu y caiff math penodol o gynnyrch neu ddarpariaeth gwasanaeth ei bennu'n ofyniad hanfodol o gontract, rhaid i'r Pennaeth Gwasanaeth gymeradwyo hyn ar ôl ymgynghori â'r Pennaeth Caffael.

30. Ymgynghorwyr

- 30.1 Bydd y broses o gomisiynu/cymryd ymlaen Ymgynghorwyr i weithio tu mewn i'r Cyngor neu i weithio ar ran y Cyngor fel rhan o brosiect ehangach yn ddarostyngedig i'r Rheolau Sefydlog ar gyfer Contractau hyn ac Adran 21 o Reoliadau Ariannol y Cyngor.
- 30.2 Os yw'r Cyngor yn defnyddio ymgynghorwyr i weithredu ar ei ran mewn perthynas ag unrhyw broses gaffael, bydd y Pennaeth Gwasanaeth yn sicrhau bod yr ymgynghorwyr yn cyflawni unrhyw broses gaffael yn unol â'r Rheolau Sefydlog ar gyfer Contractau hyn. Ni fydd unrhyw ymgynghorydd yn penderfynu ar ddyfarnu Contract nac i bwy y dylid dyfarnu Contract. Bydd y Pennaeth Gwasanaeth yn sicrhau bod perfformiad yr ymgynghorydd mewn perthynas â chaffael yn unol â'r Rheolau Sefydlog ar gyfer Contractau hyn a'r Rheoliadau.
- 30.3 Os yw'r Cyngor yn defnyddio ymgynghorwyr i weithredu ar ei ran mewn perthynas ag unrhyw broses gaffael, rhaid i'r ymgynghorydd ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau posibl a all godi i'r Pennaeth Gwasanaeth cyn cychwyn y broses gaffael.
- 30.4 Os yw'r Pennaeth Gwasanaeth yn ystyried bod gwrthdaro buddiannau o'r fath yn arwyddocaol, ni chaniateir i'r ymgynghorydd gymryd rhan yn y broses gaffael.

31. Cadw a Rheoli Cofnodion a Dogfennau


- 31.1 Caiff Cofrestr Contractau Corfforaethol o'r holl gontractau gwerth mwy na £10,000 ei gweinyddu gan yr Uned Caffael Corfforaethol a rhaid i'r Swyddog Awdurdodedig gynnwys yr holl gontractau perthnasol arni.
- 31.2 Ar gyfer pob Contract unigol gwerth mwy na £10,000, cynhelir ffeil contractau ynghyd â'r dogfennau priodol fel y nodir yn y Cod Ymarfer Caffael.

32. Hepgor Rheolau Sefydlog ar gyfer Contractau

- 32.1 Caiff y broses o hepgor unrhyw un o'r Rheolau Sefydlog ar gyfer Contract hyn ei chymeradwyo o dan amgylchiadau eithriadol yn unig a dim ond ar ôl cyflwyno adroddiad ysgrifenedig i Swyddog Adran 151, ar ôl ymgynghori â, a chael cymeradwyaeth ysgrifenedig gan, y Pennaeth Caffael a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol â chyfrifoldeb am Gaffael.
- 32.2 Wrth ymgynghori â'r Pennaeth Caffael a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol â chyfrifoldeb am Gaffael, awdur yr adroddiad sy'n gwneud cais i hepgor Rheolau Sefydlog sy'n gyfrifol ac yn atebol am wneud yn siŵr bod cynnwys yr adroddiad yn ffeithiol gywir. Dylai awdur yr adroddiad sicrhau y cedwir yr holl ddogfennau ategol mewn ffeil sy'n hawdd ei gyrraedd at ddibenion archwilio. Os ceir bod awdur yr adroddiad wedi cyflwyno neu adael allan wybodaeth anghywir gan wybod hynny neu'n esgeulus er mwyn cael cymeradwyaeth i hepgor y Rheolau Sefydlog hyn, gall fod yn destun gweithdrefnau disgyblu'r Cyngor.


Atodiad A: Caffael Gwerth Isel (Dyfynbrisiau) o dan £10,000

Dylai'r broses o amcangyfrif gwerth y contract gymryd darpariaethau paragraff 12 i ystyriaeth bob amser.




Atodiad B: Caffael Gwerth Canolradd (Tendrau) rhwng £10,000 a £75,000

Dylai'r broses o amcangyfrif gwerth y contract gymryd darpariaethau paragraff 12 i ystyriaeth bob amser.




Atodiad C: Caffael Gwerth Canolig (Tendrau) – Rhwng £75,000 a £164,176 (am Nwyddau a Gwasanaethau) neu lai na £4,104,394 (am Waith)

Dylai'r broses o amcangyfrif gwerth y contract gymryd darpariaethau paragraff 12 i ystyriaeth bob amser.




Atodiad D: Contractau Gwerth Uchel am Nwyddau a Gwasanaethau (Tendrau) – Mwy na £164,176 a mwy na £589,148 am Wasanaethau Atodlen 3 (Trefn Cyffyrddiad Ysgafn)

Dylai'r broses o amcangyfrif gwerth y contract gymryd darpariaethau paragraff 12 i ystyriaeth bob amser.




Atodiad E: Gwasanaethau Atodlen 3 (Trefn Cyffyrddiad Ysgafn) gwerth rhwng £164,176 a £589,148

Dylai'r broses o amcangyfrif gwerth y contract gymryd darpariaethau paragraff 12 i ystyriaeth bob amser.



Atodiad F: Contractau Gwerth Uchel am Waith (Tendrau) – Dros £4,104,394
Dylai'r broses o amcangyfrif gwerth y contract gymryd darpariaethau paragraff 12 i ystyriaeth bob amser.



TUDALEN WAG

PROTOCOL AR GYFER GWAREDU EIDDO

1. PROTOCOL

- 1.1 Rhaid darllen y protocol hwn ar y cyd â'r Rheolau Sefydlog ar gyfer Contractau.

2. CYFLWYNIAD

- 2.1 Dylai awdurdodau lleol weithredu mewn modd tryloyw a chyson wrth waredu eiddo. Mae gweithdrefnau'n angenrheidiol i amddiffyn swyddogion ac aelodau rhag cyhuddiadau o annhegwch neu amhriodoldeb. Mae angen nodi'r gweithdrefnau hyn yn glir a'u cymeradwyo gan y Cyngorwyr.
- 2.2 Mae'r protocol hwn yn nodi'r egwyddorion arfer gorau a awgrymir o ran gwaredu eiddo, gan roi ystyriaeth i Nodyn Cyfarwyddyd y Comisiwn dros Weinyddu Lleol, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 1995.

3. CYNNWYS YR AELODAU

- 3.1 Mae'r Cyngorwyr yn chwarae rhan bwysig yn y broses o gymeradwyo gweithdrefnau, ac os yw'n briodol, gwneud y penderfyniad terfynol o ran gwaredu eiddo ar delerau a negodwyd neu beidio. Fodd bynnag, ceir cyngor clir gan yr Ombwdsmon Llywodraeth Leol ei bod hi'n fwy tebygol y caiff cyhuddiadau o annhegwch neu amhriodoldeb eu gwneud lle mae'r Cyngorwyr yn ymwneud yn uniongyrchol yn y broses o negodi telerau, ac y dylid gadael negodiadau o'r fath i swyddogion proffesiynol y Cyngor neu gynghorwyr annibynnol. Ni ddylai aelodau wneud unrhyw benderfyniadau am warediadau heb gael cyngor proffesiynol priodol.
- 3.2 Fel arfer, ni ddylai gwarediadau ddigwydd ond ar ôl gwahodd cynigion cystadleuol. Ni ddylai eithriadau i'r egwyddor hon mewn perthynas ag eiddo a allai fod o ddiddordeb i fwy nag un prynwr posibl ddigwydd ond gyda chymeradwyaeth flaenorol gan aelodau etholedig, yn dilyn adroddiad ysgrifenedig gan swyddogion. Dylai'r adroddiad gynnwys ystyriaeth lawn o effaith y weithred ar fuddion partïon eraill ac ar lefel y dderbyniad cyfalaf.
- 3.3 Gydag unrhyw gynnig i waredu eiddo am lai na'r telerau gorau y gellid eu sicrhau'n rhesymol, mae'n bosibl y bydd angen cydsyniad Llywodraeth Cymru a dylid ei gymeradwyo hefyd gan yr aelodau.

4. GWEITHDREFNAU YMGYNGHORI

- 4.1 Gellir adnabod eiddo dros ben mewn tair ffordd:-
- (i) Mae cyfadran gwasanaeth yn datgan fod yr eiddo dros ben ac nad oes ei angen arni. Gall y gyfadran gwasanaeth argymhell ffordd o ddefnyddio'r eiddo yn y dyfodol ond ni chaiff wneud penderfyniad o ran y ffordd hon.

- (ii) Tir neu adeiladau dros ben a adnabuwyd trwy'r broses adolygu eiddo.
- (iii) Cais i brynu a gafwyd oddi wrth drydydd parti.

4.2 Mae'r gweithdrefnau ymgynghori mewnol a fabwysiadwyd gan yr Is-adran Eiddo'n cynnwys y canlynol:

Yr Is-adran Cynllunio ar y defnydd tir arfaethedig.

Os na chaiff ei ddatgan yn eiddo dros ben o dan baragraff 4.1(i) uchod, y gyfadrannau sy'n ei ddal.

Yr holl gyfadrannau gwasanaeth, pan fo'n briodol gwneud hynny, i ganfod a oes angen mewnol am yr eiddo. (Noder: ni chynhelir ymgynghoriadau ar gyfer darnau bach o dir fel tir gardd).

Cyllid Corfforaethol, rhag ofn bod unrhyw rwymedigaethau ariannol yn ddyledus i'r Cyngor ar ran ceisydd sy'n drydydd parti.

Swyddog Cyswllt y Cyngor Cymuned (os yw'n briodol).

Unrhyw gyfadrannau gwasanaeth y gallai'r cais effeithio arni, neu a hoffai wneud sylw ar y defnydd arfaethedig o'r tir mewn perthynas â'i chylch gwaith proffesiynol (e.e. Gwasanaethau Amgylcheddol).

Os yw'n eiddo dros ben, ac na chafwyd unrhyw wrthwynebiadau neu ddatganiadau o ddiddordeb mewnol eraill, aelodau'r ward.

4.3 Os nad oes unrhyw wrthwynebiad i'r gwerthiant, bydd yr eiddo'n cael ei werthu. Os yw aelodau lleol yn gwrthwynebu, os oes angen penderfynu ar faterion o egwyddor, neu os ceir gwrthwynebiadau i hysbyseb Man Agored Cyhoeddus (gweler paragraff 7.2), rhoddir adroddiad gerbron y Cabinet.

5. MARCHNATA EIDDO

5.1 Gwnaeth y Prif Arolygydd Archwilio nifer o argymhellion cyffredinol yn Nodyn Cyfarwyddyd 1995. Mae gweithdrefnau'r Cyngor yn cydymffurfio â'r argymhellion hyn ar y cyfan. Prif egwyddorion y weithdrefn yw:-

- (i) Mae angen gwahodd cynigion cystadleuol i waredu eiddo fel arfer (ond nid bob tro).
- (ii) Ni chaiff y telerau eu gwneud yn derfynol heb fod prisiad cyfredol ar gael.
- (iii) Mae eiddo a waredir trwy arwerthiant yn destun pris cadw heb fod yn llai na'i brisiad cyfredol ar y farchnad agored.

- (iv) Lle caiff eiddo ei waredu i ddatblygwr o dan gytundeb adeiladu a'i lesio neu ei werthu wedyn, gwahoddir cynigion gan ddatblygwyr trwy hysbyseb gyhoeddus a chânt eu hystyried gan aelodau.

5.2 Gwneir mwyafrif llethol y gwerthiannau trwy gytuniad preifat. Manteision y dull hwn yw ei fod yn caniatáu dull hyblyg; anaml y bydd pwysau amser ar y gwerthwr neu'r prynwr, ac ar y cyfan, mae'r cyhoedd yn ei ddeall ac yn ei dderbyn. Y prif anfantasion yw na fydd y gweithrediadau bob amser yn gallu goresgyn amheuaeth o fargeinio annheg a bod y cynigion a wneir yn amodol ar gontract sydd, hyd nes y caiff y contractau eu cyfnewid, yn gallu arwain at gynigion uwch yn hwyr neu gynnig is gan y cynigydd a wnaeth y cynnig uchaf yn wreiddiol. Mewn proses dendro ffurfiol, nid yw'r cynnig yn amodol ar gontract, ac unwaith y caiff ei dderbyn, mae contract yn bodoli.

5.3 Gellir cyflawni proses dendro anffurfiol fel rhan o werthiant cytuniad preifat. Mae hon yn broses lle gwahoddir cynigion ond efallai heb ddyddiad cau penodol, yn wahanol i broses dendro ffurfiol (lle caiff tendrau eu cyflwyno mewn amlen wedi'i selio, i'w hagor ar yr un pryd). Gellir agor y cynigion a ddaeth i law yn ystod y broses hon wrth iddynt gyrraedd. Gellir gwahodd y cynigwyr i gynyddu eu cynigion, efallai ar ôl iddynt gael gwybod bod cynnig uwch wedi dod i law. Gall y weithdrefn hon olygu y caiff y Cyngor bris uwch na phetai'r broses wedi'i chyfyngu i broses dendro anffurfiol unigol. Ar ddiwedd y broses, gofynnir i'r holl bartïon ail-gyflwyno cynnig terfynol yn unol â'r weithdrefn ganlynol:-

- i. Amlen wedi'i chyfeirio a'i marcio â'r geiriau "Nid i'w hagor cyn (dyddiad ac amser)". Bydd pob parti'n cael cyfeiriad neu fanylion yr eiddo.
- ii. Gofynnir i bob parti nodi enw a chyfeiriad y cyfreithiwr a fydd yn gweithredu ar ei ran.
- iii. Dylai pob parti gynnwys cadarnhad gan y banc, cymdeithas adeiladu neu sefydliad ariannol arall o'r arian mae'n fodlon ei ddarparu os caiff y cynnig gorau hwnnw ei dderbyn, ynghyd â thystiolaeth bod gweddill y pris, os yw'n berthnasol, ar gael o adnoddau eraill.
- iv. Dylai'r cynnig nodi'r cyfnod ar gyfer cyfnewid contractau ar ôl cael y gweithredoedd eiddo oddi wrth y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol.
- v. Dylid cyflwyno'r cynnig yn amodol ar gontract yn unig. Rhaid nodi unrhyw amodau eraill sy'n sail i'r contract.
- vi. Ni chaiff unrhyw gynigion a anfonwyd trwy ffacs eu hystyried a gallent annilysu unrhyw gynnig yn yr amlen wedi'i selio oherwydd tor-cyfrinachedd posibl.
- vii. Dim ond cynigion o natur ddigyfnewid a gaiff eu hystyried. Bydd y Cyngor yn cadw'r hawl i beidio â derbyn y cynnig uchaf neu unrhyw gynnig a gyflwynwyd.

Caiff y cynigion hyn eu hagor ar yr un pryd, gyda dau swyddog yn bresennol.

5.4 Bydd angen i'r Prif Swyddog Eiddo, ym mhob achos, ystyried manteision ac anfantasion pob dull gwerthu posibl a phenderfynu p'un yw'r mwyaf priodol a mwyaf

tebygol o sicrhau'r pris gwerthu uchaf i'r Awdurdod. Mae angen cymeradwyaeth y Cabinet i waredu eiddo trwy unrhyw ddull heblaw tendr ffurfiol lle mae disgwyl i enillion amcangyfrifedig y gwerthiant fod yn fwy na £150,000.

6. YMDRIN Â CHYNIGION HWYR NEU GYNIGION IS

- 6.1 Ceir anhawster penodol os yw'r Cyngor yn cael cynnig uwch ar ôl iddo dderbyn cynnig "yn amodol ar gontract". Gellir lleihau problemau gyda chynigion hwyr trwy gyfnewid contractau'n gynnar, defnyddio Cytundebau Cyfyngu ac esbonio'n ysgrifenedig i'r sawl a gynigiodd y swm uchaf yn wreiddiol fod rhwymedigaeth ar y Cyngor i ystyried cynnig uwch os daw i law cyn y caiff y contractau eu cyfnewid. Fel arall, gellir anfon ffurflen gontract gyda'r dogfennau tendro. Mae'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol yn cynghori y dylai'r Cyngor, yn y sefyllfa hon, wahodd un cylch arall o gynigion gan yr holl gynigwyr blaenorol. Pe cyfyngid ar y broses gynigion yn ystod y cam hwn, gellid ystyried bod y Cyngor yn annheg ac fel corff cyhoeddus, gallai fod yn destun adolygiad barnwrol.
- 6.2 Gallai'r Cyngor hefyd ddod ar draws sefyllfa lle mae'r cynigydd llwyddiannus yn ceisio lleihau ei gynnig, yn arbennig os yw'n credu y bydd y Cyngor yn barod i dderbyn unrhyw gynnig sy'n uwch na'r cynnig uchaf nesaf oherwydd ei rwymedigaeth gyffredinol i sicrhau'r pris gorau. Gellid osgoi hyn trwy gyfnewid contractau'n gynnar a/neu ofyn bod y cynigion terfynol ar ffurf cynnig nad yw'n amodol ar gontract, ond bydd hynny'n debyg o fod yn annerbyniol i'r rhan fwyaf o'r darpar brynwyr mewn gwerthiant cytuniad preifat. Os yw cynigydd llwyddiannus yn ceisio lleihau ei gynnig, dylid gwahodd yr holl gynigwyr blaenorol i gyflwyno cynigion newydd, neu roi'r eiddo ar y farchnad eto. Os yw amgylchiadau gwarediad penodol yn golygu yr ystyrir nad yw'r weithdrefn hon er budd pennaf yr awdurdod, caiff y Prif Swyddog Eiddo, gyda chymeradwyaeth Cyfarwyddwr yr Amgylchedd, dderbyn cynnig is, ar yr amod mai hwnnw yw'r cynnig uchaf o hyd.

7. MATERION CYSYLLTIEDIG

- 7.1 Gall amgylchiadau godi lle bydd Cyngor yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen â gwarediad, neu'n penderfynu ar gamau gweithredu eraill. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, mae'n briodol ystyried ad-dalu costau i ddarpar brynwyr sydd, yn ddiwyll, wedi cyflawni gwariant ofer wrth fwrw ymlaen â negodiadau gyda'r Cyngor.
- 7.2 Ni all tir y gellid ei ystyried yn fan agored cyhoeddus gael ei waredu gan Gyngor oni bai fod y bwriad wedi ei hysbysebu'n gyntaf am bythefnos mewn papur newydd a ddosbarthir yn yr ardal lle mae'r tir, a bod unrhyw wrthwynebiadau wedi cael eu hystyried. Mae Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn diffinio man agored cyhoeddus fel unrhyw dir sy'n ardd gyhoeddus, neu a ddefnyddir at ddibenion hamdden cyhoeddus, neu dir sy'n gladdfa nas defnyddir. Ni ddylid ymrwymo mewn egwyddor i waredu tir o'r fath hyd nes bod gwrthwynebiadau wedi cael eu hystyried yn unol â gofynion Adran 123 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Caiff y gwrthwynebiadau eu hadrodd i'r Cabinet cyn y gwneir penderfyniad terfynol ar waredu.
- 7.3 Argymhellir i gynghorau roi sylw i reolau "Crichel Down" wrth waredu tir dros ben. Mae'r rheolau'n berthnasol i bob eiddo a gaffaelwyd yn orfodol, neu o dan fygythiad o

orfodaeth, ac yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod caffael ei gynnig yn ôl, os yw dros ben, am ei werth ar y farchnad agored os nad yw ei gymeriad wedi newid yn berthnasol ers ei gaffael. Hefyd o dan ddeddfwriaeth gyfredol, os nad yw'r eiddo yn cael ei ddychwelyd i'w berchennog blaenorol neu'r olynnydd yn y teitl, mae'n ofynnol talu i'r perchennog blaenorol unrhyw godiad mewn gwerth os yw gwerth y tir wedi'i wella gan unrhyw ganiatâd cynllunio a roddwyd cyn pen deng mlynedd ar ôl unrhyw gaffaeliad a gwblhawyd ar neu ar ôl 25 Medi 1991.

8. Y WEITHDREFN WAREDU

8.1 Caiff y prif egwyddorion a nodir yn y Protocol hwn eu crynhoi yn y weithdrefn ganlynol:

- (i) Cyn gwaredu unrhyw eiddo, caiff ymgynghoriad mewnol priodol ei gynnal, ac ystyrir cynnig yr eiddo'n ôl i'r perchnogion blaenorol, a thaliadau iawndal.
- (ii) Ymgynghorir ag aelodau ward cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol ar werthu'r eiddo. Os yw aelodau ward yn gwrthwynebu argymhelliad gan swyddog i werthu neu gadw'r eiddo, y Cabinet fydd yn penderfynu ar y mater.
- (iii) Caiff eiddo ei werthu ar y farchnad agored fel arfer, ond mae achosion lle nad yw hyn yn bosibl. Yn yr achosion hynny lle mae'n amlwg nad oes modd gwerthu eiddo, yn realistig, ond i un parti yn unig, gall y Prif Swyddog Eiddo, mewn ymgynghoriad â Chyfarwyddwr yr Amgylchedd a'r aelod Cabinet priodol, benderfynu peidio â gwahodd cynigion cystadleuol.
- (iv) Yn yr achosion hynny lle mae'n bosibl marchnata eiddo ond barn y Prif Swyddog Eiddo yw efallai na fyddai'r camau hyn er budd pennaf i'r Awdurdod yn ariannol neu o ran gwasanaethau, rhaid cael cymeradwyaeth y Cabinet cyn cychwyn negodi uniongyrchol gyda pharti unigol, a chymerir barn aelodau'r ward i ystyriaeth.
- (v) Os gwaredir eiddo i ddatblygwr o dan gytundeb adeiladu i'w lesio neu werthu wedyn, caiff cynigion eu gwahodd gan y datblygwyr trwy hysbyseb gyhoeddus a'u hystyried gan y Cabinet, a'u hadrodd i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol ac Adfywio.
- (vi) Rhaid i'r holl warediadau sicrhau'r pris gorau posibl. Rhaid i unrhyw warediad am bris llai na hwn gael ei gymeradwyo gan y Cabinet ac, os yw'n briodol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- (vii) Ni chytunir ar delerau gwaredu heb sicrhau prisiad cyfredol o'r eiddo.
- (viii) Os caiff eiddo ei werthu trwy gytuniad preifat, gwahoddir cynigion dan sêl gan yr holl bartïon â diddordeb ar ddiwedd y broses farchnata. Caiff y cynigion hyn eu hagor ar yr un pryd gyda dau swyddog yn bresennol.
- (ix) Os daw cynnig uwch i law ar ôl derbyn cynnig blaenorol ond cyn cyfnewid y contractau, rhoddir gwybod i'r cynigydd a wnaeth y cynnig uchaf yn wreiddiol am y cynnig uwch, a gofynnir i'r holl gynigwyr blaenorol ail-gyflwyno cynigion

(ar ffurf a fydd, ar ôl cael ei derbyn gan yr Awdurdod, yn creu contract cyfrwymol yn syth) erbyn dyddiad penodedig.

- (x) Os yw cynigydd llwyddiannus yn ceisio lleihau ei gynnig, fel arfer gwahoddir yr holl gynigwyr blaenorol i gyflwyno cynigion newydd neu caiff yr eiddo ei roi ar y farchnad eto. Fodd bynnag, os yw'r Prif Swyddog Eiddo o'r farn bod derbyn y cynnig is er budd ariannol pennaf yr awdurdod, gall ef/hi, gyda chymeradwyaeth Cyfarwyddwr yr Amgylchedd, ac mewn ymgynghoriad â'r aelod Cabinet priodol, dderbyn y cynnig ar yr amod mai hwnnw yw'r cynnig uchaf o hyd.
- (xi) Gall holl delerau gwerthiant a gymeradwywyd gan y Prif Swyddog Eiddo o dan ei bwerau dirprwyedig fod yn destun proses graffu.
- (xii) Yn yr achosion lle mae'r Cyngor yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen â phroses waredu ar ôl i gyfarwyddiadau cyfreithiol gael eu cyhoeddi, rhoddir ystyriaeth i ad-dalu costau ofer i'r darpar brynwyr.
- (xiii) Rhaid i unrhyw wrthwynebiadau i hysbysebion mannau agored cyhoeddus gael eu hysbysu i'r Cabinet a'u hystyried yn llawn cyn gwneud penderfyniad terfynol am y broses waredu.

Rheolau Gweithdrefnau Cyflogi Swyddogion

Cyfeiriadau:

Pennod 2, Deddf Llywodraeth Leol 2000 Rhan II: Canllawiau i Gyngorau Sir a Chyngorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru ar Drefniadau Gweithrediaeth, Gorffennaf 2001, Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog)(Cymru)(Diwygio) 2014.

Dehongliad

At ddibenion y rheolau hyn ac Adran (I) paragraff 6, o ran 3 o'r Cyfansoddiad:

"Prif Swyddog"

Mae gan hwn yr un ystyr ag yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006 sef y Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig, y Swyddog Monitro, prif swyddog statudol y mae sôn amdano ym mharagraff (a), (c) neu (d) o adran 2(6) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (Deddf 1989) sydd at ddibenion y Cyngor yn cynnwys y Cyfarwyddwr Addysg, y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Prif Swyddog Cyllid (Swyddog Adran 151), swyddog anstatudol o fewn ystyr adran 2(7) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, sydd at ddibenion y Cyngor yn cynnwys y Dirprwy Brif Weithredwr a'r holl Gyfarwyddwyr eraill, ac mae unrhyw gyfeiriad at benodiad neu benodiad honedig prif swyddog yn cynnwys cyfeiriad at gymryd ymlaen neu gymryd ymlaen honedig swyddog o'r fath o dan contract cyflogaeth.

"Dirprwy Brif Swyddogion"

Mae gan y rhain yr un ystyr ag a nodir yn adran 2(8) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 sydd at ddibenion y Cyngor yn cynnwys Penaethiaid Gwasanaeth

"Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig"

Ystyr hwn yw'r swyddog a ddynodwyd o dan Adran 4(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (dynodiadau ac adroddiadau'r Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig).

"Prif Swyddog Cyllid"

Ystyr hwn yw'r swyddog â chyfrifoldeb at ddibenion Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (gweinyddu ariannol) am weinyddu materion ariannol yr Awdurdod Lleol.

"Swyddog Monitro"

Ystyr hwn yw'r swyddog a ddynodwyd o dan Adran 5(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (dynodi ac adroddiadau'r Swyddog Monitro)

"Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd"	Ystyr hwn yw'r swyddog a ddynodwyd o dan adran 8 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011
"Cynorthwywyr i Grwpiau Gwleidyddol"	Mae gan y rhain yr un ystyr ag unigolyn a benodir yn rhinwedd Adran 9 o Ddeddf 1989
"Cyflogeion mewn Ysgolion"	Mae gan y rhain yr un ystyr ag unigolion y mae rheoliadau a wnaed o dan Adrannau 35(4) a (5) o Ddeddf Addysg 2002 yn berthnasol iddynt (darpariaeth ynghylch penodi, disgyblu, atal dros dro a diswyddo athrawon a staff eraill ysgolion a gyflogir gan yr Awdurdod Addysg Lleol)
"cydnabyddiaeth ariannol"	Mae gan hwn yr un ystyr ag Adran 43(3) o Ddeddf Lleoliaeth 2011 sef: a. Cyflog y Prif Swyddog neu, yn achos prif swyddog a gymerir ymlaen gan yr awdurdod o dan gontract am wasanaethau, y taliadau a wneir gan yr awdurdod i'r Prif Swyddog am y gwasanaethau hynny; b. Unrhyw fonysau sy'n daladwy gan yr awdurdod i'r Prif Swyddog; c. Unrhyw gostau, ffioedd neu lwfansau sy'n daladwy gan yr awdurdod i'r Prif Swyddog; d. Unrhyw fuddion mewn nwyddau y mae gan y prif swyddog hawl iddynt o ganlyniad i swydd neu gyflogaeth y prif swyddog; e. Unrhyw godiad yn neu ychwanegiad i hawliau pensiwn y prif swyddog os yw'r codiad neu ychwanegiad o ganlyniad i benderfyniad gan yr awdurdod; ac f. Unrhyw symiau sy'n daladwy gan yr awdurdod i'r Prif Swyddog pan fydd y Prif Swyddog yn peidio â dal swydd gyda neu fod yn gyflogedig gan yr awdurdod, heblaw am symiau a all fod yn daladwy yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad.

1. Recriwtio a phenodi

(a) Datganiadau

- (i) Bydd y Cyngor yn llunio datganiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw ymgeisydd am swydd fel swyddog ddatgan yn ysgrifenedig a yw'n rhiant, rhiant cu, partner, plentyn, llysblentyn, plentyn mabwysiedig, ŵyr neu wyres, brawd, chwaer, ewythr, modryb, nai neu nith i gynghorydd neu swyddog presennol y Cyngor, neu bartner un ohonynt.

- (ii) Ni fydd ymgeisydd sy'n perthyn felly i gynghorydd neu i swyddog yn cael ei benodi heb awdurdod y prif swyddog perthnasol neu swyddog a enwebwyd ganddo/ganddi.
- (b) Ceisio cymorth ar gyfer penodiad
 - (i) Bydd y Cyngor yn anghymwysu unrhyw ymgeisydd sy'n ceisio cymorth unrhyw gynghorydd, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ar gyfer unrhyw benodiad gyda'r Cyngor. Caiff cynnwys y paragraff hwn ei gynnwys mewn unrhyw wybodaeth recriwtio.
 - (ii) Ni fydd unrhyw gynghorydd yn ceisio cymorth i unrhyw un ar gyfer unrhyw benodiad gan y Cyngor.

2. Recriwtio Prif Swyddogion (gan gynnwys y Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig)

2.1 Rhaid i'r Cyngor gymryd y camau a nodir ym mharagraff 2.2 isod lle

- (a) mae'n bwriadu penodi Prif Swyddog ac mae'r gydnabyddiaeth ariannol mae'n bwriadu ei thalu i'r prif swyddog yn £100,000 neu ragor y flwyddyn.

2.2 Mae'r camau fel a ganlyn:

- (a) llunio datganiad sy'n manylu:
 - (i) dyletswyddau'r swyddog dan sylw; ac
 - (ii) unrhyw gymwysterau neu briodoleddau y dylid chwilio amdanynt yn yr unigolyn a gaiff ei benodi;
- (b) gwneud trefniadau i'r swydd gael ei hysbysebu'n gyhoeddus mewn ffordd sy'n debygol o'i dwyn i sylw'r rhai sy'n gymwys i ymgeisio amdani; a
- (c) gwneud trefniadau i gopi o'r datganiad y sonnir amdano ym mharagraff 2.2 (a) uchod gael ei anfon at unrhyw un ar gais.

2.3 Os yw paragraff 2.1 yn berthnasol, nid yw'n ofynnol i'r Cyngor gymryd y cam a nodir ym mharagraff 2.2 (b) os yw'n bwriadu penodi'r Prif Swyddog am gyfnod heb fod yn fwy na 12 mis.

2.4 Os yw swydd wedi cael ei hysbysebu fel y darperir ym mharagraff 2.2 (b) uchod, rhaid i'r Cyngor:-

- (a) cyfweld â'r holl ymgeiswyr cymwysedig am y swydd, neu
- (b) ddethol rhestr fer o'r fath ymgeiswyr cymwysedig a chyfweld â'r rhai ar y rhestr fer.

- 2.5 **Os nad oes unrhyw berson cymwysedig wedi ymgeisio, neu os yw'r Cyngor yn penderfynu ail-hysbysebu'r swydd, gall y Cyngor wneud trefniadau pellach i'w hysbysebu yn unol â pharagraff 2.2 (b) uchod.**

3. Penodi'r Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig

Y Cyngor llawn fydd yn penodi'r Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig ar ôl i bwyllgor o'r Cyngor argymhell rhestr fer ar gyfer penodiad o'r fath. Rhaid i'r pwyllgor hwnnw gynnwys o leiaf un aelod o'r weithrediaeth ond ni ddylai mwyafrif ei aelodau fod yn aelodau o'r weithrediaeth.

4. Penodi Prif Swyddogion, Dirprwy Brif Swyddogion a'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

Bydd pwyllgor o'r Cyngor yn penodi'r holl Brif Swyddogion (heblaw'r Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig), Dirprwy Brif Swyddogion a'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd. Rhaid i'r pwyllgor hwnnw gynnwys o leiaf un aelod o'r weithrediaeth ond ni ddylai mwyafrif ei aelodau fod yn aelodau o'r weithrediaeth.

5. Cydnabyddiaeth Ariannol y Prif Swyddogion

Rhaid i'r Cyngor bennu lefel y gydnabyddiaeth ariannol a delir i Brif Swyddog ac unrhyw newid i'r lefel honno.

6. Penodiadau eraill

- (a) **Swyddogion heblaw'r rhai o dan (4) uchod.** Mae penodi'r swyddogion hyn (heblaw cynorthwyyr i grwpiau gwleidyddol) yn gyfrifoldeb i'r Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig neu rywun a enwebwyd ganddo. Ni chaiff y cynghorwyr eu penodi. Mae'r broses hon wedi'i chynnwys yng ngweithdrefnau Recriwtio a Dethol cymeradwy'r Cyngor.
- (b) **Cynorthwyyr i grwpiau gwleidyddol.** Caiff cynorthwyydd i grŵp gwleidyddol ei benodi yn unol â dymuniadau'r grŵp gwleidyddol hwnnw.
- (c) **Cyflogeion mewn ysgolion.** Caiff cyflogeion mewn ysgolion eu penodi gan yr ysgol, yn unol â'i gweithdrefnau ei hun.

7. Camau disgyblu – y Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig, y Prif Swyddog Cyllid, (Swyddog Adran 151), Swyddog Monitro a'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

- (a) Caiff camau disgyblu mewn perthynas ag unrhyw un o swyddogion statudol y Cyngor a enwir uchod neu unrhyw swyddog arall y cyfeirir ato ym mharagraff

7(b) isod eu cymryd yn unol â'r Weithdrefn Ddisgyblu ar gyfer Swyddogion Statudol a nodir yn Atodiad A i'r Rheolau hyn.

- (b) Swyddog y bwriedir cymryd camau disgyblu mewn perthynas ag ef lle
 - (i) roedd y swyddog yn swyddog y cyfeirir ato ym mharagraff 7(a) uchod, ond ar adeg y camau disgyblu arfaethedig nid oedd yn swyddog mwyach; a
 - (ii) digwyddodd yr achos o gamymddwyn honedig, neu yn ôl y digwydd y rheswm am fwriadu diswyddo'r swyddog, yn ystod y cyfnod pan oedd yn swyddog y cyfeirir ato ym mharagraff 7(a) uchod.

8. Camau disgyblu – Prif Swyddogion eraill a Dirprwy Brif Swyddogion (ac eithrio'r swyddogion a restrir ym mharagraff 7 uchod).

- (a) Caiff camau disgyblu mewn perthynas ag unrhyw un o Brif Swyddogion eraill y Cyngor, ei Ddirprwy Brif Swyddogion neu unrhyw swyddog arall y cyfeirir ato ym mharagraff 8(b) isod eu cymryd yn unol â'r Gweithdrefnau Disgyblu ar gyfer Prif Swyddogion eraill a nodir yn Atodiad B i'r Rheolau hyn.
- (b) Swyddog y bwriedir cymryd camau disgyblu mewn perthynas ag ef
 - (i) a oedd yn swyddog y cyfeirir ato ym mharagraff 8(a) uchod, ond ar adeg y camau disgyblu arfaethedig nad oedd yn swyddog mwyach; a
 - (ii) lle digwyddodd yr achos o gamymddwyn honedig, neu yn ôl y digwydd y rheswm am fwriadu diswyddo'r swyddog, yn ystod y cyfnod pan oedd yn swyddog y cyfeirir ato ym mharagraff 8(a) uchod.

9. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu y cyfeirir ato yn y Gweithdrefnau wedi'i nodi yn Atodiad C i'r rheolau hyn.

10. Camau disgyblu

(a) Swyddogion heblaw'r rhai y cyfeirir atynt ym mharagraffau 7 a 8 uchod.

Caiff y camau disgyblu mewn perthynas â'r swyddogion hyn eu cymryd yn unol â Gweithdrefn Ddisgyblu Arferol y Cyngor.

(b) Cynorthwyyr i Grwpiau Gwleidyddol

Caiff camau disgyblu mewn perthynas â chynorthwyydd i grŵp gwleidyddol eu cymryd yn unol â gweithdrefnau'r grŵp gwleidyddol hwnnw.

(c) Cyflogeion mewn Ysgolion

Caiff camau disgyblu mewn perthynas â chyflogai mewn ysgol eu cymryd gan yr ysgol yn unol â'i gweithdrefnau hithau, ac nid gan y Cyngor.

ATODIAD A

Y WEITHDREFN DDISGYBLU AR GYFER SWYDDOGION STATUDOL

Wedi'i chymeradwyo gan y Cyngor 21.3.13

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

Y WEITHDREFN DDISGYBLU AR GYFER SWYDDOGION STATUDOL

1. Cwmpas y Weithdrefn

- 1.1(a) Mae'r Weithdrefn hon yn berthnasol i'r Swyddogion canlynol o'r Cyngor, sef y Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig, y Swyddog Monitro, Prif Swyddog Cyllid (Swyddog Adran 151), y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a swyddog y bwriedir cymryd camau disgyblu mewn perthynas ag ef lle roedd y swyddog yn swyddog y cyfeirir ato yn y paragraff hwn, ond ar adeg y camau disgyblu arfaethedig nid oedd yn swyddog mwyach a lle digwyddodd yr achos o gamymddwyn honedig, neu yn ôl y digwydd y rheswm am fwriadu diswyddo'r swyddog, yn ystod y cyfnod pan oedd yn swyddog y cyfeirir ato yn y paragraff hwn.
- 1.1(b) Yn y weithdrefn hon, cyfeirir at y swyddogion y cyfeirir atynt yn 1.1(a) uchod fel "Swyddogion Statudol".
- 1.2 Cafodd y weithdrefn hon ei mabwysiadu gan y Cyngor at ddibenion ymdrin â materion disgyblu, gallu a rhai eraill tebyg mewn perthynas â Swyddogion Statudol y Cyngor. Er mwyn osgoi amheuaeth, mae'r Weithdrefn hon hefyd yn berthnasol i achos lle mae ymddiriedaeth a hyder rhwng y Swyddog Statudol a'r Awdurdod wedi methu.
- 1.3 Yn aml, gall materion ymddygiad llai difrifol gael eu datrys yn anffurfiol. Caiff camau ffurfiol eu cymryd o dan y weithdrefn hon os na ddatryswyd y mater, neu os nad yw trafodaeth anffurfiol yn briodol (er enghraifft, oherwydd difrifoldeb yr honiad).
- 1.4 Amcan y Weithdrefn hon yw:-
- (i) annog cyflogeion i gyflawni a chynnal safonau ymddygiad derbyniol;
 - (ii) cynnig dull teg a chyson o ymdrin â methiant honedig i gynnal safonau ymddygiad derbyniol;
 - (iii) lleihau'r nifer o anghydfodau ynghylch materion disgyblu; a
 - (iv) lleihau'r angen am gamau disgyblu a diswyddiadau.
- 1.5 Heblaw lle cytunwyd ar drefniadau gwahanol ymlaen llaw rhwng y Cyngor a'r Prif Weithredwr neu'r Swyddog Statudol, dylid dilyn y camau a nodir yn y Weithdrefn hon. Mae'r partïon yn cydnabod y gall fod angen gwyro o'r Weithdrefn o dro i dro, yn ôl amgylchiadau penodol unrhyw achos. O dan amgylchiadau o'r fath, mae'r ddau barti'n cytuno i roi ystyriaeth deg i gynigion rhesymol i addasu'r Weithdrefn yn unol â hynny.
- 1.6 Nid yw'r Weithdrefn hon yn rhan o gontract cyflogaeth Swyddog Statudol a gellir ei diwygio ar unrhyw adeg, yn amodol ar ei chydymffurfiaeth gyffredinol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) (Diwygio) 2014.

- 1.7 Caiff unrhyw fater disgyblu ei drin yn sensitif ac â pharch dyledus at breifatrwydd unrhyw unigolion sydd dan sylw. Rhaid i'r holl unigolion dan sylw drin yn gyfrinachol unrhyw wybodaeth a gyflwynir iddynt mewn cysylltiad ag ymchwiliad neu fater disgyblu.

2. Rolau a Chyfrifoldebau

- 2.1 Lle yr ymddengys bod mater wedi codi a allai, o'i brofi, arwain at gymryd camau disgyblu yn erbyn Swyddog Statudol, caiff y mater ei gyfeirio at Bwyllgor Ymchwilio a Disgyblu ("Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu") i'w ystyried.
- 2.2 Bydd y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu yn gyfrifol am gynnal yr ymchwiliad rhagarweiniol, y cyfeirir ato ymhellach ym mharagraff 5 isod.
- 2.3 Dylai'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu:-
- (i) gynnwys heb fod yn llai na thri aelod etholedig;
 - (ii) peidio â chynnwys unrhyw aelod sydd â chysylltiad personol uniongyrchol â'r gŵyn;
 - (iii) bod yn wleidyddol gytbwys;
 - (iv) cynnwys aelod o'r Weithrediaeth.
- 2.4 Bydd y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu yn penodi cadeirydd i oruchwylio swyddogaeth y Pwyllgor ("Cadeirydd").
- 2.5 Bydd y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu yn cynnal ymchwiliad rhagarweiniol i'r honiadau ynghylch ymddygiad neu allu, neu'r materion eraill yr ymchwilir iddynt, er mwyn penderfynu a yw'n ymddangos bod yna achos i'w ateb y mae angen ei ystyried ymhellach gan Unigolyn Annibynnol Dynodedig. Efallai y bydd y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu yn penderfynu penodi Prif Swyddog o'r Cyngor neu unigolyn annibynnol i gynnal yr ymchwiliad rhagarweiniol ar ei ran. Yn y weithdrefn hon, cyfeirir at y sawl sy'n ymgymryd â'r rôl honno fel yr "Ymchwilydd Annibynnol Rhagarweiniol".
- 2.6 Caiff y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu ei gynghori gan gynghorwr addas drwy gydol y broses, a all fod wedi'i gyflogi gan y Cyngor neu'n annibynnol ohono ("y Cynghorwr Annibynnol"). Fel arfer, bydd aelod o dîm Adnoddau Dynol y Cyngor yn dod gydag ef, heblaw mewn achosion lle gallai achos o wrthdaro buddiannau godi. Yn yr achos hwn, bydd y Cadeirydd yn penodi enwebai, a all fod yn gynghorwr allanol.
- 2.7 Heblaw os yw'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu'n fodlon, yn dilyn ymchwiliad rhagarweiniol, nad oes angen cymryd camau pellach i ddatrys y mater neu y gellir ei ddatrys yn anffurfiol, rhaid cyfeirio'r mater at Unigolyn Annibynnol Dynodedig, a fydd yn gyfrifol am benderfynu ar y mater yn unol â pharagraff 5 isod.

3. Amserlen

- 3.1 Nid yw'r weithdrefn yn cynnwys amserlenni rhagnodol fel arfer gan y cydnabyddir y gallai fod yn anymarferol eu cyflawni o dan amgylchiadau achos penodol. Os yw terfynau amser yn berthnasol, maent wedi'u cynnwys yn yr adran briodol o'r Polisi hwn. Fodd bynnag, mae'n ymhlwg y caiff holl gamau'r Weithdrefn eu gweithredu'n fuan gan yr holl bartïon er mwyn osgoi oedi diangen a niwed i fuddiannau'r holl bartïon.

4. Atal dros dro

- 4.1 Ni ystyrir atal dros dro yn gam disgyblu o dan y Weithdrefn hon, ond yn weithred niwtral y gellir ei chyflawni lle, ym marn y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu, y credir y gallai presenoldeb parhaus y Swyddog Statudol yn y gwaith danseilio'r ymchwiliad neu amharu fel arall ar y broses o arfer swyddogaethau'r Cyngor yn effeithlon.
- 4.2 Gallai fod angen atal dros dro hefyd pe bai'r honiad, o'i brofi, yn gyfystyr â chamymddwyn difrifol.
- 4.3 Mewn achosion arferol, y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu fydd â'r pŵer i atal Swyddog Statudol dros dro. Fodd bynnag, mewn achosion sydd, ym marn resymol Arweinydd y Cyngor (neu yn ei absenoldeb, y Dirprwy) yn achosion brys, bydd gan Arweinydd y Cyngor (neu yn ei absenoldeb, ei Ddirprwy) y pŵer i atal Swyddog Statudol dros dro.
- 4.4 Heblaw mewn achosion brys, cyn atal unigolyn dros dro mewn unrhyw achos, bydd y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu yn rhoi gwybod yn ysgrifenedig i'r Swyddog Statudol am y rheswm am yr ataliad dros dro arfaethedig a bydd y Swyddog Statudol yn cael cyfle i gyflwyno sylwadau cyn y gwneir penderfyniad.
- 4.5 Mewn achosion brys, rhoddir gwybod yn ysgrifenedig i'r Swyddog Statudol am resymau o'r fath cyn pen 2 ddiwrnod gwaith a bydd yn cyflwyno sylwadau i'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu, a gaiff eu hystyried cyn pen 5 diwrnod gwaith.
- 4.6 Dylai'r angen i barhau i atal y Swyddog Statudol dros dro gael ei adolygu'n rheolaidd, ac os yw'n bosibl, dylid osgoi ei atal am gyfnodau hir. Dylid rhoi ystyriaeth benodol bellach i'r posibilrwydd o weithredu trefniadau gweithio amgen a allai osgoi'r angen i atal y Swyddog Statudol dros dro, gan osgoi unrhyw berygl i'r ymchwiliad neu i'r broses o arfer swyddogaethau'r Cyngor yn effeithlon.
- 4.7 Telir tâl llawn am absenoldeb o ddyletswyddau yn ystod unrhyw gyfnod o atal dros dro.
- 4.8 Ni chaiff unrhyw ataliad dros dro barhau am fwy na 2 fis o'r dyddiad cychwyn, oni bai fod Unigolyn Annibynnol Dynodedig wedi defnyddio ei bŵer i gyfarwyddo parhad o'r ataliad dros dro ar ôl i'r cyfnod hwnnw ddod i ben.

5. Yr Ymchwiliad Rhagarweiniol

- 5.1 Cadeirydd y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu fydd yn gyfrifol am roi gwybod i'r Swyddog Statudol, yn ysgrifenedig, am yr honiadau neu'r materion eraill sy'n destun ymchwiliad. Dyddiad yr hysbysiad hwn fydd y "Dyddiad Cychwyn" at ddibenion y Weithdrefn hon.
- 5.2 Cadeirydd y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu fydd yn gyfrifol am benderfynu ar y trefniadau ar gyfer cynnal ymchwiliad rhagarweiniol, fel y nodir ym mharagraff 2.2. uchod.
- 5.3 Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu, lle penderfynwyd penodi rhywun arall i gynnal yr ymchwiliad rhagarweiniol ar ei ran, yn penderfynu ar y telerau ar gyfer penodi'r Ymchwilydd Annibynnol Rhagarweiniol, yn cytuno ar unrhyw gydnabyddiaeth ariannol sy'n daladwy i'r Ymchwilydd Annibynnol Rhagarweiniol (os yw'n briodol), ac yn darparu cyfleusterau a'r holl wybodaeth sydd ar gael ynghylch yr honiadau neu'r materion eraill sy'n destun ymchwiliad fel sy'n angenrheidiol i alluogi'r Ymchwilydd Annibynnol Rhagarweiniol i gyflawni ei rôl.
- 5.4 Bydd hawl gan y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu neu'r Ymchwilydd Annibynnol Rhagarweiniol i gyfweled â thystion ac i gyflawni ymholiadau o'r fath a ystyriant yn angenrheidiol. Gall hyn gynnwys archwilio systemau e-bost, rhyngwrdd a systemau TG eraill y Cyngor, gan gynnwys cyfrifon y Swyddog Statudol. Bydd y Swyddog Statudol yn cydweithredu'n llawn â'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu neu'r Ymchwilydd Annibynnol Rhagarweiniol a bydd ar gael ar gyfer cyfweiliadau a chyfarfodydd o'r fath ac yn darparu unrhyw ddogfennau neu wybodaeth berthnasol ag y mae'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu neu'r Ymchwilydd Annibynnol Rhagarweiniol yn eu hystyried yn angenrheidiol.
- 5.5 Rhoddir i'r Swyddog Statudol gyfleusterau rhesymol a mynediad i safleoedd a systemau'r Cyngor yn ogystal â ffeiliau/dyddiadur personol ac ati, i ganiatáu iddo baratoi ei ymatebion ar delerau o'r fath a gytunwyd gan y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu neu'r Ymchwilydd Annibynnol Rhagarweiniol.
- 5.6 Bydd y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu neu'r Ymchwilydd Annibynnol Rhagarweiniol yn paratoi adroddiad byr ar ôl ei ymchwiliad a gaiff ei gyflwyno i Gadeirydd y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu i'w ystyried ("Adroddiad yr Ymchwiliad Rhagarweiniol") a disgwylir y gwneir hyn cyn pen 7 diwrnod gwaith ar ôl y Dyddiad Cychwyn. Darperir copi o Adroddiad yr Ymchwiliad Rhagarweiniol i'r Swyddog Statudol cyn pen 7 diwrnod gwaith ar ôl i Gadeirydd y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu ei gael.
- 5.7 Bydd y Swyddog Statudol, os yw'n dymuno, yn gofyn am ragor o wybodaeth a dogfennau mewn perthynas ag Adroddiad yr Ymchwiliad Rhagarweiniol, cyn pen pum diwrnod gwaith ar ôl i'r Swyddog Statudol gael Adroddiad yr Ymchwiliad Rhagarweiniol.
- 5.8 Pan fydd y cyfnod ar gyfer gofyn am ragor o wybodaeth wedi dod i ben ac unrhyw gais am wybodaeth a dogfennau wedi'i wneud o dan 5.7, bydd Cadeirydd y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu yn galw cyfarfod o'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu.

5.9 Cyn penderfynu a yw'r honiadau neu faterion eraill yn gwarantu cyfeirio'r achos i'r Unigolyn Annibynnol Dynodedig i'w ystyried ymhellach, bydd Cadeirydd y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu'n hysbysu'r Swyddog Statudol yn ysgrifenedig:-

- ei bod yn ofynnol iddo fod yn bresennol mewn cyfarfod gyda'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu;
- y gall gyflwyno sylwadau ar lafar i'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu yn y cyfarfod hwnnw; a
- gall gyflwyno sylwadau a/neu dystiolaeth ysgrifenedig, gan gynnwys tystiolaeth ysgrifenedig gan dystion, y mae'n dymuno i'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu eu hystyried yn ystod y cam hwn. Rhaid cyflwyno unrhyw sylwadau, datganiadau tyst neu dystiolaeth ategol ysgrifenedig o'r fath i Gadeirydd y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu o leiaf tri diwrnod gwaith cyn y cyfarfod. Bydd y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu yn ystyried yn ofalus yr honiadau neu faterion eraill, Adroddiad yr Ymchwilydd Rhagarweiniol, tystiolaeth ategol ac unrhyw sylwadau a gyflwynwyd gan y Swyddog Statudol cyn cymryd unrhyw gamau pellach.

5.10 Bydd y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu yn penderfynu cyn pen 1 mis ar ôl cyfeirio'r honiad iddo, naill ai:-

- (i) nad oes angen unrhyw gamau ffurfiol pellach o dan y Weithdrefn hon (yn yr achos hwn bydd yn ystyried pa gamau eraill, os o gwbl, y dylid eu cymryd, er enghraifft gofyn am hyfforddiant) a byddai fel arfer yn dod ag unrhyw ataliad dros dro i ben yn syth; neu
- (ii) bod achos i'w ateb sy'n gofyn am ymchwilio pellach ac y dylid cyfeirio'r mater at Unigolyn Annibynnol Dynodedig. Yn yr achos hwn, bydd paragraffau canlynol y Weithdrefn hon yn berthnasol.

5.11 Bydd y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu yn rhoi gwybod i'r Swyddog Statudol am y penderfyniad, yn ysgrifenedig, cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

6. Rôl yr Unigolyn Annibynnol Dynodedig

6.1 Rhaid cytuno pwy yw'r Unigolyn Annibynnol Dynodedig cyn pen un mis ar ôl y penderfyniad i benodi Unigolyn Annibynnol Dynodedig. Os na fydd Cadeirydd y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu a'r Swyddog Statudol (neu ei gynrychiolydd) wedi cytuno ar Unigolyn Annibynnol Dynodedig o fewn yr amserlen honno, bydd y Cyngor yn penodi'r unigolyn a enwebwyd gan Weinidogion Cymru.

6.2 Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu yn penderfynu ar delerau penodiad yr Unigolyn Annibynnol Dynodedig, yn cytuno ar gydnabyddiaeth ariannol yr Unigolyn Annibynnol Dynodedig, yn caffael y cyfleusterau angenrheidiol, gan gynnwys mynediad at ffynonellau gwybodaeth a phobl y nodwyd eu bod yn berthnasol i'r achos, ac yn darparu'r holl wybodaeth sydd ar gael ynghylch yr honiadau neu faterion eraill sy'n destun ymchwiliad ag y bo'n angenrheidiol i'w alluogi i gyflawni ei rôl.

- 6.3 Dylai'r Unigolyn Annibynnol Dynodedig weithredu ar sail cyfuniad o ymchwiliad annibynnol gan ddefnyddio ei bwerau i gyrraedd gwybodaeth, a gwrandawriad ffurfiol, lle caiff yr honiadau a'r dystiolaeth ategol (gan gynnwys tystiolaeth a ddarparwyd gan dystion) eu cyflwyno gan gynrychiolydd y Cyngor, a gall y Swyddog Statudol neu ei gynrychiolydd gyflwyno ei achos yntau.
- 6.4 Ar ôl cael ei benodi, bydd yr Unigolyn Annibynnol Dynodedig yn ystyried a yw'n briodol terfynu neu barhau ag unrhyw drefniadau atal dros dro, cyn pen 2 fis ar ôl cychwyn unrhyw ataliad dros dro.
- 6.5 Rhaid i'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu, ar ôl ymgynghori â'r Unigolyn Annibynnol Dynodedig, geisio cytuno ar amserlen er mwyn i'r Unigolyn Annibynnol Dynodedig gynnal yr ymchwiliad. Os na chytunir ar amserlen, rhaid i'r Unigolyn Annibynnol Dynodedig bennu amserlen y mae'n ei hystyried yn briodol.
- 6.6 Cyfrifoldeb yr Unigolyn Annibynnol Dynodedig fydd cyflawni ymchwiliad pellach i'r honiadau neu faterion eraill sy'n destun ymchwiliad ac i gyflwyno adroddiad ("Adroddiad yr Ymchwiliad") i'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu:-
- (i) yn nodi ei farn ynghylch a yw'r dystiolaeth a gafodd yn cefnogi (ac os yw, i ba raddau) unrhyw honiad o gamymddwyn, neu anallu neu'n cefnogi angen am weithredu o dan y Weithdrefn hon am ryw reswm sylweddol arall; a
 - (ii) yn argymhell pa gam neu gamau disgyblu, os o gwbl, sy'n ymddangos yn briodol i'r Cyngor, trwy ei Bwyllgor Ymchwilio a Disgyblu, eu cymryd yn erbyn y Swyddog Statudol, o ystyried holl amgylchiadau'r achos.

7. Cael Adroddiad yr Unigolyn Annibynnol Dynodedig

- 7.1 Cyn pen tri diwrnod gwaith ar ôl cael Adroddiad yr Unigolyn Annibynnol Dynodedig, bydd Cadeirydd y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu, neu ei enwebai, yn anfon copi at y Swyddog Statudol.

8. Y Weithdrefn cyn Gwrandawriad Disgyblu

- 8.1 Os yw Adroddiad yr Ymchwiliad yn argymhell cymryd camau disgyblu yn erbyn y Swyddog Statudol, bydd Cadeirydd y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu yn galw cyfarfod o'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu fel Gwrandawriad Disgyblu ("Gwrandawriad Disgyblu").
- 8.2 Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu neu ei enwebai yn rhoi i'r Swyddog Statudol rybudd ysgrifenedig o ddim llai na deg diwrnod gwaith am ddyddiad y Gwrandawriad Disgyblu gyda'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu. Bydd y rhybudd yn cynnwys:-
- (i) amser a lleoliad y Gwrandawriad Disgyblu;
 - (ii) pwy fydd yn bresennol yn y Gwrandawriad Disgyblu gan gynnwys aelodau'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu;

- (iii) copi o Adroddiad yr Unigolyn Annibynnol Dynodedig ac unrhyw ddogfennau ategol (gan gynnwys unrhyw ddatganiadau tyst os ydynt yn berthnasol) a'r honiadau i'w hystyried yn y Gwrandawriad Disgyblu;
- (iv) cadarnhad y caiff y Gwrandawriad Disgyblu ei gynnal o dan y Weithdrefn hon ac y gallai arwain at gamau disgyblu;
- (v) cadarnhad y gall y Swyddog Statudol ddod â chynrychiolydd undeb llafur, swyddog a gyflogir gan undeb llafur neu gydweithiwr ("Cydymaith") i'r Gwrandawriad Disgyblu gydag ef;
- (vi) cadarnhad y caiff y Swyddog Statudol ofyn i unrhyw berson fod yn bresennol fel tyst neu ddangos unrhyw ddogfennau neu ddatganiadau ysgrifenedig i gefnogi ei ymateb, ar yr amod bod manylion llawn tystion o'r fath a chopïau o unrhyw ddogfennau neu ddatganiadau o'r fath yn cael eu darparu i Gadeirydd y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu, neu ei enwebai, o leiaf pum diwrnod gwaith cyn dyddiad y Gwrandawriad Disgyblu, i'w dosbarthu i'r holl bartïon.

8.3 Cyn pen dau ddiwrnod gwaith, bydd y Swyddog Statudol naill ai'n cytuno ar ddyddiad y Gwrandawriad neu'n cynnig i'r Cadeirydd neu ei enwebai y dylid gohirio dyddiad y Gwrandawriad am gyfnod heb fod yn fwy na deg diwrnod gwaith, gan nodi'r rhesymau am y cais. Er mwyn osgoi amheuaeth, mae gohirio'n cynnwys unrhyw ohiriad oherwydd argaeledd Cydymaith y Swyddog Statudol. Os yw'r Swyddog Statudol yn gofyn am ohirio'r Gwrandawriad, bydd Cadeirydd y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu neu ei enwebai a'r Swyddog Statudol (neu ei gynrychiolydd) yn cytuno ar ddyddiad y Gwrandawriad. Os na allant gytuno ar y dyddiad cyn pen un diwrnod gwaith, bydd Cadeirydd y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu, ar ôl cael cyngor priodol, yn penderfynu ar ddyddiad y Gwrandawriad Disgyblu.

8.4 Rhaid i'r Swyddog Statudol a'i Gydymaith wneud pob ymdrech i fod yn bresennol yn y Gwrandawriad Disgyblu (p'un ai y cafodd ei ail-ymgynnull neu beidio). Gall methu â bod yn bresennol heb reswm da gael ei drin fel achos o gamymddwyn ynddo ei hun. Os yw'r Swyddog Statudol yn methu â bod yn bresennol heb reswm da, neu'n gwneud hynny dro ar ôl tro, gellir cynnal y Gwrandawriad Disgyblu yn ei absenoldeb a gellir gwneud penderfyniad ar sail y dystiolaeth sydd ar gael.

8.5 O leiaf pum diwrnod gwaith cyn dyddiad y Gwrandawriad Disgyblu, bydd y Swyddog Statudol yn rhoi i Gadeirydd y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu, neu ei enwebai:-

- (i) Manylion llawn unrhyw dystion yr hoffai eu galw;
- (ii) Copïau o unrhyw ddogfennau yr hoffai gyfeirio atynt er mwyn cefnogi ei ymateb;
- (iii) Unrhyw ddatganiadau neu gyflwyniadau ysgrifenedig yr hoffai eu cyflwyno; a
- (iv) Manylion y Cydymaith yr hoffai ddod ag ef i'r Gwrandawriad Disgyblu.

8.6 Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu neu ei enwebai yn darparu copi o ddogfennau a gwybodaeth o'r fath i'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedyn a heb fod yn llai na thri diwrnod gwaith cyn y Gwrandawriad Disgyblu.

9. Gwrandawriad y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu

9.1 Bydd gweithdrefn y Gwrandawriad Disgyblu fel a ganlyn:-

- (i) bydd Cadeirydd y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu yn esbonio diben y Gwrandawriad a'r weithdrefn a gaiff ei dilyn;
- (ii) bydd yr Unigolyn Annibynnol Dynodedig, neu ei enwebai, yn cyflwyno'r gŵyn ac yn cyflwyno tystiolaeth i gefnogi'r gŵyn, gan gynnwys Adroddiad yr Unigolyn Annibynnol Dynodedig, dogfennau a thystiolaeth gan dystion naill ai'n bersonol neu'n ysgrifenedig fel yr hysbyswyd yn flaenorol;
- (iii) bydd y Swyddog Statudol neu ei Gydymaith, a'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu a'r Cyngorwr Annibynnol, yn cael cyfle i ofyn cwestiynau i'r Unigolyn Annibynnol Dynodedig a/neu ei enwebai, gan gynnwys cwestiynau uniongyrchol i'r dystion;
- (iv) bydd y Swyddog Statudol neu ei Gydymaith yn cyflwyno tystiolaeth i gefnogi ei ymateb i'r honiadau, gan gynnwys dogfennau a thystion fel yr hysbyswyd yn flaenorol;
- (v) bydd yr Unigolyn Annibynnol Dynodedig, neu ei enwebai, a'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu a'r Cyngorwr Annibynnol yn cael cyfle i ofyn cwestiynau i'r Swyddog Statudol a/neu ei Gydymaith, gan gynnwys cwestiynau uniongyrchol i'r dystion;
- (vi) bydd y ddwy ochr yn crynhoi eu cyflwyniadau, gyda'r Unigolyn Annibynnol Dynodedig neu ei enwebai yn mynd yn gyntaf.

9.2 Gall Cydymaith y Swyddog Statudol annerch y gwrandawriad, rhoi achos y Swyddog Statudol gerbron a'i grynhoi, cyflwyno sylwadau ar ran y Swyddog Statudol ynghylch unrhyw farn a fynegwyd yn y Gwrandawriad Disgyblu ac ymgynghori â'r Swyddog Statudol yn ystod y Gwrandawriad Disgyblu. Fodd bynnag, nid oes gan y Cydymaith yr hawl i ateb cwestiynau ar ran y Swyddog Statudol. Os yw dewis cydymaith y Swyddog Statudol yn afresymol, gall y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu ofyn iddo ddewis cydymaith arall e.e. lle gallai'r cydymaith fod â gwrthdrawiad buddiannau neu y gallai niweidio'r Gwrandawriad Disgyblu.

9.3 Gellir gohirio'r Gwrandawriad Disgyblu os bydd angen i'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu gynnal unrhyw ymchwiliadau pellach megis ail-gyfweld â thystion yng ngoleuni unrhyw bwyntiau newydd a godir yn y Gwrandawriad Disgyblu. Rhoddir cyfle rhesymol i'r Swyddog Statudol ystyried unrhyw wybodaeth newydd a gafwyd cyn y caiff y Gwrandawriad Disgyblu ei ail-ymgynnull.

9.4 Pan fydd y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu wedi clywed yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, bydd yn torri'r cyfarfod i ystyried pa gamau pellach y dylid eu cymryd, os o gwbl. Mae'r opsiynau gwahanol sydd ar gael iddo yn cynnwys:-

- (i) peidio â chymryd unrhyw gamau pellach;

- (ii) argymell datrysiad anffurfiol neu weithdrefnau priodol eraill i'w dilyn;
- (iii) cyfeirio'r achos yn ôl i'r Unigolyn Annibynnol Dynodedig i ymchwilio iddo ymhellach a llunio adroddiad arall;
- (iv) cymryd camau disgyblu yn erbyn y Swyddog Statudol.

9.5 Yn achos camau disgyblu, gall y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu osod y gosb angenrheidiol hyd at y gosb fwyaf a argymhellir gan yr Unigolyn Annibynnol Dynodedig. Gall hyn gynnwys y canlynol:-

- (i) rhybudd a gofnodwyd neu rybudd llafar;
- (ii) rhybudd ysgrifenedig;
- (iii) rhybudd ysgrifenedig terfynol;
- (iv) rhybudd ysgrifenedig terfynol ynghyd â:-
 - (A) atal dros dro ar hanner tâl neu'n ddi-dâl am gyfnod penodedig, a/neu
 - (B) israddiad (h.y. lleihau cyflog) am gyfnod penodedig a/neu ar delerau penodedig; a/neu
 - (C) diraddio swydd;
- (v) diswyddo (naill ai'n ddiannod neu ar rybudd)
- (vi) fel arall, gall y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu edrych ar ddewisiadau eraill megis, ond heb fod yn gyfyngedig i, ymddeoliad cynnar, seondiad neu adleoli i swydd is os ceir problemau ynghylch gallu neu golli ymddiriedaeth a hyder yn y Prif Swyddog yn ei swydd bresennol.

9.6 Er mwyn osgoi amheuaeth, bydd y camau a nodir ym mharagraff 9.5 (iv) uchod ond yn berthnasol o dan amgylchiadau lle mae'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu wedi penderfynu y byddai camau disgyblu priodol yn cynnwys diswyddo, ond y byddai camau o fewn ychydig i ddiswyddo yn fwy priodol oherwydd amgylchiadau lliniarol neu amgylchiadau eraill.

9.7 Bydd rhybudd ysgrifenedig yn nodi natur y camymddwyn, y newid ymddygiad sy'n ofynnol, y cyfnod y bydd y rhybudd yn weithredol, a chanlyniadau tebygol camymddwyn pellach yn ystod y cyfnod hwnnw.

9.8 Bydd pawb arall sy'n bresennol yn y Gwrandawriad Disgyblu (heblaw'r Cynghorwr Annibynnol) yn gadael y cyfarfod tra bo'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu yn ystyried ei benderfyniad.

9.9 Os yw'n ymarferol, caiff penderfyniad y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu ei gyflwyno ar lafar ar ôl torri'r cyfarfod. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau y caiff y Pwyllgor Ymchwilio

a Disgyblu amser digonol i ystyried ei benderfyniad yn llawn, gellir gohirio ei benderfyniad a'i roi i'r Swyddog Statudol yn ysgrifenedig cyn pen pum diwrnod gwaith ar ôl y Gwrandawriad Disgyblu, neu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi hynny.

- 9.10 Caiff llythyr ei anfon at y Swyddog Statudol yn rhoi braslun o'r penderfyniad a'r camau, os o gwbl, a fydd yn cael eu cymryd. Bydd hefyd yn nodi'r hawl i apelio ("Llythyr Penderfyniad").
- 9.11 Os yw'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu wedi penderfynu mai diswyddo neu gamau o fewn ychydig i ddiswyddo yw'r camau priodol i'w cymryd o dan yr amgylchiadau, rhaid i'r Cyngor gymeradwyo'r diswyddiad hwnnw cyn cyhoeddi'r rhybudd o ddiswyddo.

10. Y Broses Apelio

- 10.1 Mae'r weithdrefn hon yn darparu ar gyfer y gwahanol drefniadau am apeliadau yn erbyn diswyddiad ac apeliadau yn erbyn camau o fewn ychydig i ddiswyddiad.

Apeliadau yn erbyn diswyddiad

- 10.2 Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) (Diwygio) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw benderfyniad i ddiswyddo Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig y Cyngor gan y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu fod yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth gan y Cyngor llawn. Yng ngoleuni'r gofyniad hwn ac er mwyn darparu proses apelio, bydd y cyfarfod o'r Cyngor llawn yn cyflawni swyddogaeth cyfarfod apelio os gwneir apêl. O dan yr amgylchiadau hyn:
- (a) os gwneir apêl, caiff yr apêl ei hystyried gan y Cyngor llawn gan ddilyn y weithdrefn a nodir ym mharagraffau 10.8 i 10.16 isod; a
 - (b) os na wneir apêl, bydd y Cyngor llawn yn ystyried yr argymhelliad i ddiswyddo gan y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu ac yn cymeradwyo'r penderfyniad hwnnw, neu fel arall yn penderfynu ar gosb ddisgyblu wahanol.
- 10.3 Os yw'r achos yn ymwneud â Swyddog Statudol heblaw Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig y Cyngor, nid yw'n ofynnol i'r Cyngor llawn gymeradwyo'r diswyddiad. O ganlyniad, caiff y Swyddog Statudol apelio yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu i'r Cyngor llawn.

Apelio yn erbyn camau o fewn ychydig i ddiswyddiad

- 10.4 Bydd gan Swyddog Statudol (gan gynnwys Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig y Cyngor) yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu i Bwyllgor Apeliadau'r Cyngor. Bydd y Pwyllgor Apeliadau yn ystyried adroddiad yr Unigolyn Annibynnol Dynodedig ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall a ystyriwyd gan y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu.

- 10.5 Rhaid cyflwyno unrhyw apêl yn ysgrifenedig i Gadeirydd y Pwyllgor Apeliadau neu ei enwebai fel y nodir yn y Llythyr Penderfyniad cyn pen deg diwrnod gwaith ar ôl dyddiad y Llythyr Penderfyniad, gan gynnwys sail yr apêl ("Hysbysiad am Apêl").
- 10.6 Cyn pen pum diwrnod gwaith wedi hynny, rhaid i'r Swyddog Statudol gyflwyno'r manylion canlynol i Gadeirydd y Pwyllgor Apeliadau mewn perthynas â'r Hysbysiad am Apêl a darparu'r wybodaeth ganlynol:
- (i) a fydd y Swyddog Statudol yn dod â Chydymaith i'r gwrandawriad apêl gydag ef, ac os felly, pwy;
 - (ii) a yw'n dymuno galw tystion, ac os felly, eu henwau a natur y dystiolaeth y byddant yn ei rhoi;
 - (iii) copïau o unrhyw ddogfennau neu wybodaeth ychwanegol sy'n berthnasol i'r apêl nas darparwyd yn y Gwrandawriad Disgyblu.
- 10.7 Bydd y gwrandawriad apêl fel arfer ar ffurf adolygiad o'r penderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu.
- 10.8 Bydd y Pwyllgor Apeliadau yn ystyried yr apêl cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cael yr Hysbysiad am Apêl. Bydd yn gwahodd yr unigolion canlynol i fod yn bresennol mewn gwrandawriad apêl:
- (i) y Swyddog Statudol, y gall ddod â Chydymaith gydag ef; a
 - (ii) Cadeirydd y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu neu aelod arall o'r Pwyllgor os y'i henwebwyd gan y Cadeirydd, i esbonio'r rhesymau am ei benderfyniad ac i ateb unrhyw gwestiynau.
- 10.9 Bydd y Weithdrefn ar gyfer cynnull y Gwrandawriad Apêl yn dilyn yr hyn a nodir uchod mewn perthynas â'r Gwrandawriad Disgyblu.
- 10.10 Caiff y Pwyllgor Apeliadau ei gynghori gan gynghorwr annibynnol na fydd, fel arfer, yr un cynghorwr a gynghorodd y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu.
- 10.11 Caiff y Pwyllgor Apeliadau ystyried unrhyw wybodaeth ychwanegol a ddaeth i'r amlwg mewn perthynas â'r honiadau neu'r materion eraill yr ymchwilir iddynt yn dilyn y Gwrandawriad Disgyblu.
- 10.12 Caiff y Pwyllgor Apeliadau benderfynu cadarnhau neu wrthod penderfyniad gwreiddiol y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu neu bennu cosb wahanol, ar yr amod nad yw'n fwy llym na'r un a argymhellwyd yn wreiddiol gan yr Unigolyn Annibynnol Dynodedig ac o fewn ystod y cosbau fel y'u nodwyd ym mharagraffau 10.4 a 10.5.
- 10.13 Bydd y penderfyniad a wneir yn derfynol ac ni fydd hawl i apelio ymhellach.
- 10.14 Os nad yw'n ymarferol i'r Pwyllgor Apeliadau roi ei benderfyniad ar lafar ar ddiwedd y gwrandawriad apêl, caiff y Swyddog Statudol ei hysbysu amdano, yn ysgrifenedig, cyn pen pum diwrnod gwaith ar ôl dyddiad y gwrandawriad apêl, neu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi hynny.

ATODIAD B

Y Weithdrefn Ddisgyblu ar gyfer
Prif Swyddogion Eraill

Cymeradwywyd gan y Cyngor 21.3.13

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

Y WEITHDREFN DDISGYBLU AR GYFER PRIF SWYDDOGION

1. Cwmpas y Weithdrefn

- 1.1(a) Mae'r Weithdrefn hon yn berthnasol i'r holl Brif Swyddogion, Dirprwy Brif Swyddogion y Cyngor ac unrhyw swyddog arall y cyfeirir ato ym mharagraff 1.1(b) isod heblaw rheiny a ddynodwyd yn "Swyddogion Statudol", sef y Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig, y Swyddog Monitro, Prif Swyddog Cyllid (Swyddog Adran 151) a'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.
- 1.1(b) Swyddog y bwriedir cymryd camau disgyblu mewn perthynas ag ef a oedd ond ar adeg y weithred ddisgyblu arfaethedig nad yw mwyach yn swyddog y cyfeirir ato ym mharagraff 1.1(a) uchod a lle digwyddodd yr achos o gamymddwyn honedig, neu yn ôl y digwydd y rheswm am fwriadu diswyddo'r swyddog, yn ystod y cyfnod pan oedd yn swyddog y cyfeirir ato ym mharagraff 1.1(a) uchod.
- 1.1(c) Bydd cyfeiriadau at Brif Swyddog/Swyddogion yn y weithdrefn hon yn cynnwys yr unigolion a nodwyd ym mharagraffau 1.1(a) a (b) uchod.
- 1.2 Cafodd y weithdrefn hon ei mabwysiadu gan y Cyngor at ddibenion ymdrin â materion disgyblu, gallu a rhai eraill tebyg mewn perthynas â Phrif Swyddogion y Cyngor. Er mwyn osgoi amheuaeth, mae'r Weithdrefn hon hefyd yn berthnasol i achos lle mae ymddiriedaeth a hyder rhwng y Prif Swyddog a'r Awdurdod wedi methu.
- 1.3 Yn aml, gall materion ymddygiad llai difrifol gael eu datrys yn anffurfiol. Caiff camau ffurfiol eu cymryd o dan y weithdrefn hon os na ddatryswyd y mater, neu os nad yw trafodaeth anffurfiol yn briodol (er enghraifft, oherwydd difrifoldeb yr honiad).
- 1.4 Amcan y Weithdrefn hon yw:-
- (i) annog cyflogeion i gyflawni a chynnal safonau ymddygiad derbyniol;
 - (ii) cynnig dull teg a chyson o ymdrin â methiant honedig i gynnal safonau ymddygiad derbyniol;
 - (iii) lleihau'r nifer o anghydfodau ynghylch materion disgyblu; a
 - (iv) lleihau'r angen am gamau disgyblu a diswyddiadau.
- 1.5 Heblaw lle cytunwyd ar drefniadau gwahanol ymlaen llaw rhwng y Cyngor a'r Prif Weithredwr neu'r Prif Swyddog, dylid dilyn y camau a nodir yn y Weithdrefn hon. Mae'r partïon yn cydnabod y gall fod angen gwyro o'r Weithdrefn o dro i dro, yn ôl amgylchiadau penodol unrhyw achos. O dan amgylchiadau o'r fath, mae'r ddau barti'n cytuno i roi ystyriaeth deg i gynigion rhesymol i addasu'r Weithdrefn yn unol â hynny.

- 1.6 Nid yw'r Weithdrefn hon yn rhan o contract cyflogaeth Prif Swyddog a gellir ei diwygio ar unrhyw adeg, yn amodol ar ei chydymffurfiaeth gyffredinol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) (Diwygio) 2014.
- 1.7 Caiff unrhyw fater disgyblu ei drin yn sensitif ac â pharch dyledus at breifatrwydd unrhyw unigolion sydd dan sylw. Rhaid i'r holl unigolion dan sylw drin yn gyfrinachol unrhyw wybodaeth a gyflwynir iddynt mewn cysylltiad ag ymchwiliad neu fater disgyblu.

2. Rolau a Chyfrifoldebau

- 2.1 Lle yr ymddengys bod mater wedi codi a allai, o'i brofi, arwain at gymryd camau disgyblu yn erbyn Prif Swyddog, y Prif Weithredwr fydd yn gyfrifol am gynnal yr ymchwiliad rhagarweiniol. Cyfeirir at hyn ymhellach ym mharagraff 5 isod.
- 2.2 Bydd y Prif Weithredwr yn cynnal ymchwiliad rhagarweiniol i'r honiadau ynghylch ymddygiad neu allu, neu'r materion eraill yr ymchwilir iddynt, er mwyn penderfynu a yw'n ymddangos bod yna achos i'w ateb y mae angen ei ystyried ymhellach gan Bwyllgor Ymchwilio a Disgyblu ("Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu"). Efallai y bydd y Prif Weithredwr yn dewis penodi Prif Swyddog o'r Cyngor neu unigolyn annibynnol i gynnal yr ymchwiliad rhagarweiniol ar ei ran. Yn y weithdrefn hon, cyfeirir at y sawl sy'n ymgymryd â'r rôl honno fel yr "Ymchwilydd Annibynnol Rhagarweiniol".
- 2.3 Heblaw os yw'r Prif Weithredwr yn fodlon, yn dilyn ymchwiliad rhagarweiniol, nad oes angen cymryd camau pellach i ddatrys y mater neu y gellir ei ddatrys yn anffurfiol, rhaid cyfeirio'r mater at y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu, a fydd yn gyfrifol am benderfynu ar y mater yn unol a pharagraff 5 isod.

3. Amserlen

- 3.1 Nid yw'r weithdrefn yn cynnwys amserlenni rhagnodol fel arfer gan y cydnabyddir y gall fod yn anymarferol eu cyflawni o dan amgylchiadau achos penodol. Os yw terfynau amser yn berthnasol, maent wedi'u cynnwys yn yr adran briodol o'r Polisi hwn. Fodd bynnag, mae'n ymhlyg y caiff holl gamau'r Weithdrefn eu gweithredu'n fuan gan yr holl bartïon er mwyn osgoi oedi diangen a niwed i fuddiannau'r holl bartïon.

4. Atal dros dro

- 4.1 Ni ystyrir atal dros dro yn gam disgyblu o dan y Weithdrefn hon, ond yn weithred niwtral y gellir ei chyflawni lle, ym marn y Prif Weithredwr, y credir y gallai presenoldeb parhaus y Prif Swyddog yn y gwaith danseilio'r ymchwiliad neu amharu fel arall ar y broses o arfer swyddogaethau'r Cyngor yn effeithlon.
- 4.2 Gallai fod angen atal dros dro hefyd pe bai'r honiad, o'i brofi, yn gyfystyr â chamymddwyn difrifol.
- 4.3 Cyn atal unigolyn dros dro mewn unrhyw achos, bydd y Prif Weithredwr yn rhoi gwybod yn ysgrifenedig i'r Prif Swyddog am y rheswm am yr ataliad dros dro

arfaethedig a bydd y Prif Swyddog yn cael cyfle i gyflwyno sylwadau cyn y gwneir penderfyniad.

- 4.4 Dylai'r angen i barhau i atal y Prif Swyddog dros dro gael ei adolygu'n rheolaidd, ac os yw'n bosibl, dylid osgoi ei atal am gyfnodau hir. Dylid rhoi ystyriaeth benodol bellach i'r posibilrwydd o weithredu trefniadau gweithio amgen a allai osgoi'r angen i atal y Prif Swyddog dros dro, gan osgoi unrhyw berygl i'r ymchwiliad neu i'r broses o arfer swyddogaethau'r Cyngor yn effeithlon.
- 4.5 Telir tâl llawn am absenoldeb o ddyletswyddau yn ystod unrhyw gyfnod o atal dros dro.

5. Yr Ymchwiliad Rhagarweiniol

- 5.1 Y Prif Weithredwr fydd yn gyfrifol am roi gwybod i'r Prif Swyddog, yn ysgrifenedig, am yr honiadau neu'r materion eraill sy'n destun ymchwiliad. Dyddiad yr hysbysiad hwn fydd y "Dyddiad Cychwyn" at ddibenion y Weithdrefn hon.
- 5.2 Y Prif Weithredwr fydd yn gyfrifol am benderfynu ar y trefniadau ar gyfer cynnal ymchwiliad rhagarweiniol, fel y nodir ym mharagraff 2.2. uchod.
- 5.3 Bydd y Prif Weithredwr, lle penderfynwyd penodi rhywun arall i gynnal yr ymchwiliad rhagarweiniol ar ei ran, yn penderfynu ar y telerau ar gyfer penodi'r Ymchwilydd Annibynnol Rhagarweiniol, yn cytuno ar unrhyw gydnabyddiaeth ariannol sy'n daladwy i'r Ymchwilydd Annibynnol Rhagarweiniol (os yw'n briodol), ac yn darparu cyfleusterau a'r holl wybodaeth sydd ar gael ynghylch yr honiadau neu'r materion eraill sy'n destun ymchwiliad fel sy'n angenrheidiol i alluogi'r Ymchwilydd Annibynnol Rhagarweiniol i gyflawni ei rôl.
- 5.4 Bydd hawl gan y Prif Weithredwr neu'r Ymchwilydd Annibynnol Rhagarweiniol i gyfweld â thystion ac i gyflawni ymholiadau o'r fath a ystyriant yn angenrheidiol. Gall hyn gynnwys archwilio systemau e-bost, rhyngwrdd a systemau TG eraill y Cyngor, gan gynnwys cyfrifon y Prif Swyddog. Bydd y Prif Swyddog yn cydweithredu'n llawn â'r Prif Weithredwr neu'r Ymchwilydd Annibynnol Rhagarweiniol a bydd ar gael ar gyfer cyfweiliadau a chyfarfodydd o'r fath ac yn darparu unrhyw ddogfennau neu wybodaeth berthnasol ag y mae'r Prif Weithredwr neu'r Ymchwilydd Annibynnol Rhagarweiniol yn eu hystyried yn angenrheidiol.
- 5.5 Rhoddir i'r Prif Swyddog gyfleusterau rhesymol a mynediad i safleoedd a systemau'r Cyngor yn ogystal â ffeiliau/dyddiadur personol ac ati, i ganiatáu iddo baratoi ei ymatebion ar delerau o'r fath a gytunwyd gan y Prif Weithredwr neu'r Ymchwilydd Annibynnol Rhagarweiniol.
- 5.6 Bydd y Prif Weithredwr neu'r Ymchwilydd Annibynnol Rhagarweiniol yn paratoi adroddiad byr ar ôl ei ymchwiliad a gaiff ei gyflwyno, os yw'n ofynnol, i'r Prif Weithredwr i'w ystyried ("Adroddiad yr Ymchwiliad Rhagarweiniol"). Darperir copi o Adroddiad yr Ymchwiliad Rhagarweiniol i'r Prif Swyddog cyn pen saith diwrnod gwaith ar ôl i'r Prif Weithredwr ei gael, neu lle y'i cwblhawyd gan y Prif Weithredwr, cyn pen saith diwrnod gwaith ar ôl ei gwblhau.

- 5.7 Bydd y Prif Swyddog, os yw'n dymuno, yn cyflwyno sylwadau mewn perthynas ag Adroddiad yr Ymchwiliad Rhagarweiniol, cyn pen pum diwrnod gwaith ar ôl i'r Prif Swyddog gael Adroddiad yr Ymchwiliad Rhagarweiniol.
- 5.8 Cyn penderfynu a yw'r honiadau neu faterion eraill yn gwarantu cyfeirio'r achos i'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu i'w ystyried ymhellach, bydd y Prif Weithredwr yn hysbysu'r Prif Swyddog yn ysgrifenedig:-
- ei bod yn ofynnol iddo fod yn bresennol mewn cyfarfod gyda'r Prif Weithredwr;
 - y gall gyflwyno sylwadau ar lafar i'r Prif Weithredwr yn y cyfarfod hwnnw; a
 - gall gyflwyno sylwadau neu dystiolaeth ysgrifenedig, gan gynnwys tystiolaeth ysgrifenedig gan dystion, y mae'n dymuno i'r Prif Weithredwr eu hystyried yn ystod y cam hwn. Rhaid cyflwyno unrhyw sylwadau, datganiadau tyst neu dystiolaeth ategol ysgrifenedig o'r fath i'r Prif Weithredwr o leiaf tri diwrnod gwaith cyn y cyfarfod.
6. Bydd y Prif Weithredwr yn ystyried yn ofalus yr honiadau neu faterion eraill, Adroddiad yr Ymchwilydd Rhagarweiniol, tystiolaeth ategol ac unrhyw sylwadau a gyflwynwyd gan y Prif Swyddog cyn cymryd camau pellach.
- 6.1 Bydd y Prif Weithredwr yn penderfynu naill ai:-
- (i) nad oes angen unrhyw gamau ffurfiol pellach o dan y Weithdrefn hon (yn yr achos hwn bydd yn ystyried pa gamau eraill, os o gwbl, y dylid eu cymryd,) a byddai fel arfer yn dod ag unrhyw ataliad dros dro i ben yn syth; neu
 - (ii) y dylid cyfeirio'r mater at y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu. Yn yr achos hwn, bydd y paragraffau canlynol yn berthnasol.
- 6.2 Bydd y Prif Weithredwr yn rhoi gwybod i'r Prif Swyddog am y penderfyniad, yn ysgrifenedig, cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

7. Rôl y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu a phenodi Ymchwilydd

- 7.1 Os yw'r Prif Weithredwr yn penderfynu y dylid cyfeirio'r mater at y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu, bydd yn gyfrifoldeb i'r pwyllgor hwnnw benodi Prif Swyddog o'r Cyngor, neu unigolyn annibynnol, i gyflawni unrhyw ymchwiliad pellach sy'n ofynnol i'r honiadau neu'r materion eraill cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Caiff yr unigolyn a gynhaliodd yr ymchwiliad rhagarweiniol gyflawni rôl yr Ymchwilydd hwn.
- 7.2 Dylai'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu:-
- (a) gynnwys heb fod yn llai na thri aelod etholedig;
 - (b) peidio â chynnwys unrhyw aelod sydd â chysylltiad personol uniongyrchol â'r gŵyn;
 - (c) bod yn wleidyddol gytbwys; a

(d) dylai gynnwys aelod o'r Weithrediaeth;

- 7.3 Bydd y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu yn penodi cadeirydd i oruchwylio swyddogaeth y Pwyllgor ("Cadeirydd").
- 7.4 Caiff y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu ei gynghori gan gynghorwr addas drwy gydol y broses, a all fod wedi'i gyflogi gan y Cyngor neu'n annibynnol ohono ("y Cynghorwr Annibynnol"). Fel arfer, bydd aelod o dîm Adnoddau Dynol y Cyngor yn dod gydag ef, heblaw mewn achosion lle gallai achos o wrthdaro buddiannau godi. Yn yr achos hwn, bydd y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu yn penodi enwebai.
- 7.5 Bydd y Prif Weithredwr yn penderfynu ar delerau penodiad yr Ymchwilydd, yn cytuno ar gydnabyddiaeth ariannol yr Ymchwilydd (os yw'n briodol), yn caffael y cyfleusterau angenrheidiol ac yn darparu'r holl wybodaeth sydd ar gael ynghylch yr honiadau neu faterion eraill sy'n destun ymchwiliad ag y bo'n angenrheidiol i'w alluogi i gyflawni ei rôl.
- 7.6 Rhoddir gwybod i'r Prif Swyddog bod y mater wedi'i gyfeirio at y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu, aelodau'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu a bod Ymchwilydd wedi'i benodi a all fod, yn amodol ar argaeledd, yr un unigolyn a gyflawnodd yr ymchwiliad rhagarweiniol.

8. Cyfrifoldebau'r Ymchwilydd

- 8.1 Cyfrifoldeb yr Ymchwilydd fydd cyflawni ymchwiliad pellach i'r honiadau neu faterion eraill sy'n destun ymchwiliad ac i baratoi adroddiad ("Adroddiad yr Ymchwiliad"):-
- (i) yn nodi ei farn ynghylch a yw'r dystiolaeth a gafodd yn cefnogi (ac os yw, i ba raddau) unrhyw honiad o gamymddwyn, neu anallu neu'n cefnogi angen am weithredu o dan y Weithdrefn hon am ryw reswm sylweddol arall; a
 - (ii) yn argymhell pa gam neu gamau disgyblu, os o gwbl, sy'n ymddangos yn briodol i'r Cyngor, trwy ei Bwyllgor Ymchwilio a Disgyblu, eu cymryd yn erbyn y Prif Swyddog, o ystyried holl amgylchiadau'r achos.

9. Y Weithdrefn cyn Gwrandawriad Disgyblu

- 9.1 Cyn pen saith diwrnod gwaith ar ôl cael Adroddiad yr Ymchwiliad, bydd y Prif Weithredwr, neu ei enwebai, yn anfon copi at y Prif Swyddog. Os yw Adroddiad yr Ymchwiliad yn canfod honiadau o gamymddwyn a bod angen gweithredu pellach, anfonir Adroddiad yr Ymchwiliad at y Prif Swyddog ynghyd â rhybudd ysgrifenedig o'r honiadau penodol i'w hystyried gan y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu yn y Gwrandawriad Disgyblu ac unrhyw ddogfennau ategol.
- 9.2 Caiff y Prif Swyddog, os yw'n dymuno, ofyn am ragor o wybodaeth a dogfennau ynghylch yr honiadau cyn pen pum diwrnod gwaith ar ôl cael Adroddiad yr Ymchwiliad.

- 9.3 Byddai unrhyw wybodaeth a dogfennau ychwanegol y gofynnwyd amdanynt yn cael eu darparu gan yr Ymchwilydd os yw'n berthnasol, cyn pen saith diwrnod gwaith neu gyfnod arall o'r fath sy'n briodol o dan yr amgylchiadau.
- 9.4 Pan fydd y cyfnod ar gyfer gofyn am ragor o wybodaeth wedi dod i ben neu pan fydd yr Ymchwilydd wedi ymateb yn unol â pharagraff 9.3 uchod, bydd Pennaeth Rheoli a Datblygu Pobl neu ei enwebai yn rhoi i'r Prif Swyddog rybudd ysgrifenedig o ddim llai na deg diwrnod gwaith am ddyddiad y Gwrandawriad Disgyblu gyda'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu. Bydd y rhybudd yn cynnwys:
- (i) amser a lleoliad y Gwrandawriad Disgyblu;
 - (ii) pwy fydd yn bresennol yn y Gwrandawriad Disgyblu gan gynnwys aelodau'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu;
 - (iii) copi o Adroddiad yr Ymchwilydd ac unrhyw ddogfennau ategol (gan gynnwys unrhyw ddatganiadau tyst os ydynt yn berthnasol) a'r honiadau i'w hystyried yn y Gwrandawriad Disgyblu;
 - (iv) cadarnhad y caiff y Gwrandawriad Disgyblu ei gynnal o dan y Weithdrefn hon ac y gallai arwain at gamau disgyblu;
 - (v) cadarnhad y gall y Prif Swyddog ddod â chynrychiolydd undeb llafur, swyddog a gyflogir gan undeb llafur neu gydweithiwr ("Cydymaith") i'r Gwrandawriad Disgyblu gydag ef;
 - (vi) cadarnhad y caiff y Prif Swyddog ofyn i unrhyw berson fod yn bresennol fel tyst neu ddangos unrhyw ddogfennau neu ddatganiadau ysgrifenedig i gefnogi ei ymateb, ar yr amod bod manylion llawn tystion o'r fath a chopïau o unrhyw ddogfennau neu ddatganiadau o'r fath yn cael eu darparu i'r Prif Weithredwr, neu ei enwebai, o leiaf pum diwrnod gwaith cyn dyddiad y Gwrandawriad Disgyblu, i'w dosbarthu i'r holl bartïon.
- 9.5 Cyn pen dau ddiwrnod gwaith, bydd y Prif Swyddog naill ai'n cytuno ar ddyddiad y Gwrandawriad neu'n cynnig i'r Pennaeth Rheoli a Datblygu Pobl neu ei enwebai y dylid gohirio dyddiad y Gwrandawriad am gyfnod heb fod yn fwy na deg diwrnod gwaith, gan nodi'r rhesymau am y cais. Er mwyn osgoi amheuaeth, mae gohirio'n cynnwys unrhyw ohiriad oherwydd argaeledd Cydymaith y Prif Swyddog. Os yw'r Prif Swyddog yn gofyn am ohirio'r Gwrandawriad, bydd y Pennaeth Rheoli a Datblygu Pobl neu ei enwebai a'r Prif Swyddog (neu ei gynrychiolydd) yn cytuno ar ddyddiad y Gwrandawriad. Os na allant gytno ar y dyddiad cyn pen un diwrnod gwaith, bydd Cadeirydd y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu, ar ôl cael cyngor priodol, yn penderfynu ar ddyddiad y Gwrandawriad Disgyblu.
- 9.6 Bydd y Pennaeth Rheoli a Datblygu Pobl neu ei enwebai wedyn yn rhoi rhybudd ffurfiol i'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu (a'r Prif Swyddog, os gohiriwyd y Gwrandawriad) am ddyddiad y Gwrandawriad Disgyblu ac yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu, gan gynnwys Adroddiad yr Ymchwiliad, tystiolaeth ategol ac unrhyw sylwadau a ddarparwyd gan y Prif Swyddog.

- 9.7 Rhaid i'r Prif Swyddog a'i Gydymaith wneud pob ymdrech i fod yn bresennol yn y Gwrandawriad Disgyblu (p'un ai y cafodd ei ail-ymgynnull neu beidio). Gall methu â bod yn bresennol heb reswm da gael ei drin fel achos o gamymddwyn ynddo ei hun. Os yw'r Prif Swyddog yn methu â bod yn bresennol heb reswm da, neu'n gwneud hynny dro ar ôl tro, gellir cynnal y Gwrandawriad Disgyblu yn ei absenoldeb a gellir gwneud penderfyniad ar sail y dystiolaeth sydd ar gael.
- 9.8 O leiaf pum diwrnod gwaith cyn dyddiad y Gwrandawriad Disgyblu, bydd y Prif Swyddog yn rhoi i'r Pennaeth Rheoli a Datblygu Pobl, neu ei enwebai:-
- (i) Manylion llawn unrhyw dystion yr hoffai eu galw;
 - (ii) Copïau o unrhyw ddogfennau yr hoffai gyfeirio atynt er mwyn cefnogi ei ymateb;
 - (iii) Unrhyw ddatganiadau neu gyflwyniadau ysgrifenedig yr hoffai eu cyflwyno; a
 - (iv) Manylion y Cydymaith yr hoffai ddod ag ef i'r Gwrandawriad Disgyblu.
- 9.9 Bydd y Pennaeth Rheoli a Datblygu Pobl neu ei enwebai yn darparu copi o'r fath ddogfennau a gwybodaeth i'r Prif Weithredwr ac i'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedyn a heb fod yn llai na thri diwrnod gwaith cyn y Gwrandawriad Disgyblu.

10. Gwrandawriad y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu

10.1 Bydd gweithdrefn y Gwrandawriad Disgyblu fel a ganlyn:-

- (i) bydd Cadeirydd y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu yn esbonio diben y Gwrandawriad a'r weithdrefn a gaiff ei dilyn;
- (ii) bydd y Prif Weithredwr, neu ei enwebai (a all gynnwys y Swyddog Ymchwilio) yn cyflwyno'r gŵyn ac yn cyflwyno tystiolaeth i gefnogi'r gŵyn, gan gynnwys Adroddiad yr Ymchwiliad, dogfennau a thystiolaeth gan dystion naill ai'n bersonol neu'n ysgrifenedig fel yr hysbyswyd yn flaenorol;
- (iii) bydd y Prif Swyddog neu ei Gydymaith, a'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu a'r Cynghorwr Annibynnol, yn cael cyfle i ofyn cwestiynau i'r Prif Weithredwr a/neu ei enwebai, gan gynnwys cwestiynau uniongyrchol i'r tystion;
- (iv) bydd y Prif Swyddog neu ei Gydymaith yn cyflwyno tystiolaeth i gefnogi ei ymateb i'r honiadau, gan gynnwys dogfennau a thystion fel yr hysbyswyd yn flaenorol;
- (v) bydd y Prif Weithredwr, neu ei enwebai, a'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu a'r Cynghorwr Annibynnol yn cael cyfle i ofyn cwestiynau i'r Prif Swyddog a/neu ei Gydymaith, gan gynnwys cwestiynau uniongyrchol i'r tystion;
- (vi) bydd y ddwy ochr yn crynhoi eu cyflwyniadau, gyda'r Prif Weithredwr neu ei enwebai yn mynd yn gyntaf.

- 10.2 Gall Cydymaith y Prif Swyddog annerch y gwrandawriad, rhoi achos y Prif Swyddog gerbron a'i grynhoi, cyflwyno sylwadau ar ran y Prif Swyddog ynghylch unrhyw farn a fynegwyd yn y Gwrandawriad Disgyblu ac ymgynghori â'r Prif Swyddog yn ystod y Gwrandawriad Disgyblu. Fodd bynnag, nid oes gan y Cydymaith yr hawl i ateb cwestiynau ar ran y Prif Swyddog. Os yw dewis cydymaith y Prif Swyddog yn afresymol, gall y Prif Weithredwr neu ei enwebai ofyn iddo ddewis cydymaith arall e.e. lle gallai'r cydymaith fod â gwrthdrawiad buddiannau neu y gallai niweidio'r Gwrandawriad Disgyblu.
- 10.3 Gellir gohirio'r Gwrandawriad Disgyblu os bydd angen i'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu gynnal unrhyw ymchwiliadau pellach megis ail-gyfweld â thystion yng ngoleuni unrhyw bwyntiau newydd a godir yn y Gwrandawriad Disgyblu. Rhoddir cyfle rhesymol i'r Prif Swyddog ystyried unrhyw wybodaeth newydd a gafwyd cyn y caiff y Gwrandawriad Disgyblu ei ail-ymgynnull.
- 10.4 Pan fydd y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu wedi clywed yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, bydd yn torri'r cyfarfod i ystyried pa gamau pellach y dylid eu cymryd, os o gwbl. Mae'r opsiynau gwahanol sydd ar gael iddo yn cynnwys:-
- (i) peidio â chymryd unrhyw gamau pellach;
 - (ii) argymhell datrysiad anffurfiol neu weithdrefnau priodol eraill i'w dilyn;
 - (iii) cyfeirio'r achos yn ôl i'r Ymchwilydd i ymchwilio iddo ymhellach a llunio adroddiad arall;
 - (iv) cymryd camau disgyblu yn erbyn y Prif Swyddog.
- 10.5 Yn achos camau disgyblu, gall hyn gynnwys y canlynol:-
- (i) rhybudd a gofnodwyd neu rybudd llafar;
 - (ii) rhybudd ysgrifenedig;
 - (iii) rhybudd ysgrifenedig terfynol;
 - (iv) rhybudd ysgrifenedig terfynol ynghyd â:-
 - (A) atal dros dro ar hanner tâl neu'n ddi-dâl am gyfnod penodedig, a/neu
 - (B) israddiad (h.y. lleihau cyflog) am gyfnod penodedig a/neu ar delerau penodedig; a/neu
 - (C) diraddio swydd;
 - (v) diswyddo (naill ai'n ddiannod neu ar rybudd); a
 - (vi) fel arall, gall y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu edrych ar ddewisiadau eraill megis, ond heb fod yn gyfyngedig i, ymddeoliad cynnar, secondiad neu adleoli

i swydd is os ceir problemau ynghylch gallu neu golli ymddiriedaeth a hyder yn y Prif Swyddog yn ei swydd bresennol.

- 10.6 Er mwyn osgoi amheuaeth, bydd y camau a nodir ym mharagraff 10.5 (iv) uchod ond yn berthnasol o dan amgylchiadau lle mae'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu wedi penderfynu y byddai camau disgyblu priodol yn cynnwys diswyddo, ond y byddai camau o fewn ychydig i ddiswyddo yn fwy priodol oherwydd amgylchiadau lliniarol neu amgylchiadau eraill.
- 10.7 Bydd rhybuddion ysgrifenedig yn nodi natur y camymddwyn, y newid ymddygiad sy'n ofynnol, y cyfnod y bydd y rhybudd yn weithredol, a chanlyniadau tebygol camymddwyn pellach yn ystod y cyfnod hwnnw.
- 10.8 Bydd pawb arall sy'n bresennol yn y Gwrandawriad Disgyblu (heblaw'r Cynghorwr Annibynnol) yn gadael y cyfarfod tra bo'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu yn ystyried ei benderfyniad.
- 10.9 Os yw'n ymarferol, caiff penderfyniad y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu ei gyflwyno ar lafar ar ôl torri'r cyfarfod. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau y caiff y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu amser digonol i ystyried ei benderfyniad yn llawn, gellir gohirio ei benderfyniad a'i roi i'r Prif Swyddog yn ysgrifenedig cyn pen pum diwrnod gwaith ar ôl y Gwrandawriad Disgyblu, neu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi hynny.
- 10.10 Bydd y llythyr yn rhoi braslun o'r penderfyniad a'r camau, os o gwbl, a fydd yn cael eu cymryd. Bydd hefyd yn nodi'r hawl i apelio ("Llythyr Penderfyniad").

11. Y Broses Apelio

- 11.1 Bydd gan y Prif Swyddog yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu, i'r Pwyllgor Apeliadau. Rhaid cyflwyno unrhyw apêl yn ysgrifenedig i Gadeirydd y Pwyllgor Apeliadau neu ei enwebai fel y nodir yn y Llythyr Penderfyniad cyn pen deg diwrnod gwaith ar ôl dyddiad y Llythyr Penderfyniad, gan gynnwys sail yr apêl ("Hysbysiad am Apêl")
- 11.2 Cyn pen pum diwrnod gwaith wedi hynny, rhaid i'r Prif Swyddog gyflwyno'r manylion canlynol i Gadeirydd y Pwyllgor Apeliadau mewn perthynas â'r Hysbysiad am Apêl a darparu'r wybodaeth ganlynol:
 - (i) a fydd y Prif Swyddog yn dod â Chydymaith i'r gwrandawriad apêl gydag ef, ac os felly, pwy;
 - (ii) a yw'n dymuno galw tystion, ac os felly, eu henwau a natur y dystiolaeth y byddant yn ei rhoi;
 - (iii) copïau o unrhyw ddogfennau neu wybodaeth ychwanegol sy'n berthnasol i'r apêl nas darparwyd yn y Gwrandawriad Disgyblu.
- 11.3 Ar ôl ystyried yr Hysbysiad am Apêl, bydd y Pwyllgor Apeliadau yn penderfynu a fydd y gwrandawriad apêl ar ffurf ail-wrandawriad llawn neu adolygiad o'r penderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu.

- 11.4 Bydd y Pwyllgor Apeliadau yn ystyried yr apêl cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cael yr Hysbysiad am Apêl. Bydd yn gwahodd yr unigolion canlynol i fod yn bresennol mewn gwrandawriad apêl:
- (i) y Prif Swyddog, y gall Cydymaith fod gydag ef; a
 - (ii) Cadeirydd y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu neu aelodau eraill o'r Pwyllgor os y'u henwebwyd gan y Cadeirydd, i esbonio eu rhesymau am eu penderfyniad ac i ateb unrhyw gwestiynau.
- 11.5 Bydd y Weithdrefn ar gyfer cynnull y Gwrandawriad Apêl yn dilyn yr hyn a nodir uchod mewn perthynas â'r Gwrandawriad Disgyblu.
- 11.6 Caiff y Pwyllgor Apeliadau ei gynghori gan gynghorwr annibynnol na fydd, fel arfer, yr un cynghorwr a gynghorodd y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu.
- 11.7 Caiff y Pwyllgor Apeliadau ystyried unrhyw wybodaeth ychwanegol a ddaeth i'r amlwg mewn perthynas â'r honiadau neu'r materion eraill yr ymchwilir iddynt yn dilyn y Gwrandawriad Disgyblu.
- 11.8 Caiff y Pwyllgor Apeliadau benderfynu cadarnhau neu wrthod penderfyniad gwreiddiol y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu neu bennu cosb wahanol o fewn ystod y cosbau fel y'u nodir ym mharagraffau 10.4 a 10.5.
- 11.9 Bydd y penderfyniad a wneir yn derfynol ac ni fydd hawl i apelio ymhellach.
- 11.10 Os nad yw'n ymarferol i'r Pwyllgor Apeliadau roi ei benderfyniad ar lafar, ar ddiwedd y gwrandawriad apêl caiff y Prif Swyddog ei hysbysu amdano, yn ysgrifenedig, cyn pen pum diwrnod gwaith ar ôl dyddiad y gwrandawriad apêl, neu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi hynny.

ATODIAD C

Cylch Gorchwyl

Y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu

1. Prif Ddiben

- 1.1 Ymdrin â'r holl faterion disgyblu mewn perthynas â'r Swyddogion Statudol a'r Prif Swyddogion a gyflogir gan y Cyngor fel Swyddogion Statudol fel y'u diffinnir yng Ngweithdrefn A a Phrif Swyddogion fel y'u diffinnir yng Ngweithdrefn B. Caiff y swyddogion hyn eu cyflogi o dan delerau ac amodau'r Cydbwyllgor Negodi, yn unol â'r Gweithdrefnau Disgyblu ar gyfer Swyddogion Statudol (atodiad A) a'r Weithdrefn Ddisgyblu ar gyfer Prif Swyddogion eraill (atodiad B).

1.2 Arall

Adolygu a diwygio Gweithdrefnau Disgyblu A a B o dro i dro gan roi sylw i unrhyw newidiadau i'r gweithdrefnau enghreifftiol a nodir yn Amodau Gwasanaeth Prif Swyddogion y Cydbwyllgor Negodi y gellir eu gweithredu o dro i dro. Mae amodau'r Cydbwyllgor wedi'u seilio ar Reoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006 a'r diwygiadau cysylltiedig.

2. Aelodaeth

Mae aelodaeth y Pwyllgor wedi'i nodi yng Ngweithdrefnau Disgyblu A a B.

3. Cadeirydd

Caiff Cadeirydd y Pwyllgor ei ddethol o Aelodau'r Pwyllgor trwy bleidlais fwyafrifol.

4. Yn ei gyfarfod ar 8 Mai 2014, cytunodd y Cyngor y dylai'r cyfyngiad cyfredol yn y Rheolau Sefydlog sy'n gwahardd cyfarfod rhag eistedd am fwy na phedair awr gael ei ddileu o'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu, yn amodol ar ofyniad i'r Pwyllgor gymryd seibiannau priodol er mwyn sicrhau cysur y rhai sy'n cymryd rhan yn y cyfarfod.

**Cymeradwywyd gan y Cyngor
21.3.13**

**Ychwanegwyd R4 mis Mai 2014
Diwygiwyd 1.1 a 1.2 fel y cymeradwywyd gan y Cyngor 7.10.14**

RHEOLAU YMGYNGHORI

- 1.1 Mae Rheolau Gweithdrefnau'r Weithrediaeth yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad yn nodi'r hyn a ddisgwylir o ran ymgynghori ar unrhyw adroddiad ar benderfyniad gan y Weithrediaeth, ac yn darparu:-

“Bydd lefel yr ymgynghori sy'n ofynnol yn briodol i natur y mater sydd o dan ystyriaeth. Beth bynnag sy'n digwydd, rhaid i swyddogion ymgynghori â'r aelod Cabinet priodol, aelodau ward a swyddogion priodol a naill ai ymgorffori eu sylwadau yn yr adroddiad neu (os na chânt eu derbyn gan awdur yr adroddiad) rhaid cynnwys y sylwadau yn yr adroddiad.”

- 1.2 Dylai swyddogion fod yn ymwybodol o'r angen i ymgynghori (a) yn amserol a (b) yn briodol â phartïon â diddordeb, ac yna dylent sicrhau y caiff barn y partïon hynny naill ai ei ymgorffori yn eu hargymhellion hwy, neu fel arall, ei amlygu yn yr adroddiad fel bod yr aelodau sy'n gwneud penderfyniad o ganlyniad i'r adroddiad yn gwneud hynny yng ngoleuni'r holl ffeithiau a barnau.

- 1.3 Dyma'r grwpiau y dylid ymgynghori â hwy ac mae'r amgylchiadau lle dylid cynnal yr ymgynghoriadau hynny wedi'u nodi, sef:-

- (a) swyddogion;
- (b) aelod/aelodau'r Cabinet;
- (c) aelodau lleol;
- (d) pwyllgorau craffu;
- (e) cynghorau cymuned
- (f) partneriaethau cymunedol;
- (g) y sector gwirfoddol a chymunedol;
- (h) pobl iau a phobl hŷn.

- 1.4 (a) (b) a (c) Swyddogion, aelodau'r Cabinet ac aelodau lleol

Dylid cynnal ymgynghoriadau priodol gyda'r aelod/aelodau Cabinet, swyddogion ac aelod/aelodau lleol priodol. Rhaid i swyddogion gofio bod angen sicrhau y caiff yr ymgynghoriad ei gyflawni mewn digon o amser a bod unrhyw farn a fynegir yn cael ei hadlewyrchu'n llawn naill ai yn yr argymhellion i'r adroddiad neu mewn paragraff yn nodi'r barnau (gwahanol) hynny, ac yn esbonio pam na ellir eu bodloni.

- (d) Pwyllgorau craffu

Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn pennu rôl y pwyllgorau craffu o ran ymgynghori â hwy cyn i faterion fynd gerbron y Cabinet, ond nid yw'r amgylchiadau lle cyfeirir adroddiad i'r pwyllgor craffu am ei sylwadau wedi'u hysgrifennu'n glir. Ar 17 Mai 2005, cymeradwyodd y Cyngor:-

“Bod y Cabinet yn ymgynghori â phwyllgorau craffu ar yr holl faterion ‘allweddol’ a geir ym Mlaenraglen Waith y Cabinet. Gallai'r rhain gynnwys materion

- o natur strategol neu ddadleuol

- sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar y gwaith o gyflwyno gwasanaethau'r Cyngor ar draws y Fwrdeistref Sirol neu
- yn cynnwys elfen sylweddol o risg neu oblygiadau ariannol.

Er nad yw'n bosibl rhoi diffiniad hollgynhwysfawr o faterion 'allweddol', gofynnir i aelodau Cabinet a swyddogion ystyried rhinweddau ymgynghori â phwyllgorau craffu wrth i faterion godi."

1.5 Caiff Blaenraglen Waith y Cabinet ei defnyddio i helpu'r broses hon trwy nodi'r materion hynny y mae angen eu hystyried ymlaen llaw gan bwyllgor craffu. Mae'r rhaglen, a baratoir gan y Tîm Rheoli Corfforaethol ac a gymeradwyir wedyn gan y Cabinet yn chwarterol, yn dangos yr holl faterion sy'n benderfyniadau arwyddocaol y bydd y Cabinet yn eu gwneud yn ystod y chwarter nesaf. Nid oes angen i bob un o'r rhain gael ei ystyried ymlaen llaw gan bwyllgor craffu. Er hwylustod, mae'r flaenraglen waith yn dangos dyddiadau craffu posibl ar gyfer yr holl faterion a restrir, ond gallai'r rhaglen nodi ar wahân y materion hynny lle mae'n **rhaidd** cynnal proses graffu. Bydd yr eitemau hyn a 'farcwyd' yn adlewyrchu'r elfennau a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Mai 2005 (uchod).

1.6 Mae'n anochel y bydd materion brys annisgwyl yn codi lle, er eu bod yn 'allweddol', nad yw'n ymarferol i'w rhoi'n ffurfiol gerbron pwyllgor craffu cyn iddynt gael eu hystyried gan y Cabinet.

1.7 Mae canfod y materion "a farciwyd" ar y flaenraglen waith yn gyfrifoldeb i'r Tîm Rheoli Corfforaethol, ar sail barn aelodau'r Cabinet a chadeiryddion ac is-gadeiryddion pwyllgorau craffu sy'n gallu adnabod materion neu adroddiadau sydd i ddod fel rhai lle mae craffu ymlaen llaw yn hanfodol.

1.8 (e) Cyngorau cymuned

Mae'r Cyngor wedi cytuno ar siarter gyda'r cyngorau cymuned ynghylch cyfnewid gwybodaeth, cysylltu ac ymgynghori ar bynciau penodol, ac mae Atodiad 1 yn nodi'r pynciau "ymgynghori" o'r protocol hwnnw. Mae'r rhestr hon yn gynhwysfawr, ond mae'n bryd ei hadolygu, ar y cyd â'r cyngorau cymuned, yn y dyfodol agos.

1.9 (f) Partneriaethau cymunedol

Wrth sefydlu pob Partneriaeth Gymunedol a Phartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf, mae'r cytundeb partneriaeth, y mae'r Cyngor wedi ei lofnodi, yn nodi rôl y bartneriaeth ac egwyddorion y bartneriaeth sydd, o'u cymryd yn gyfan, yn cynnwys y Cyngor mewn prosesau ymgynghori â'r gymuned trwy'r bartneriaeth (fel ymarfer ar wahân i'r ymgynghori â chynghorau cymuned a nodir yn y paragraff blaenorol).

1.10 Nid yw hyn yn golygu bod angen ymgynghoriad ar gyfer popeth sydd i'w ystyried gan y Cyngor neu'r Cabinet (er enghraifft, ni fyddai materion gweithredol yn cael eu cynnwys) ond mae angen pennu'r rheolau ar gyfer yr achosion lle bydd ymgynghoriad.

1.11 Yn amlwg, lle mae'r rheolau hyn yn berthnasol, mae anhawster yn nhermau ymateb gan y bartneriaeth oherwydd yn aml mae angen i'r Cyngor gael ymateb i'r ymgynghoriad o fewn terfynau amser byr er mwyn iddo fwrw ymlaen yn effeithlon â'i

adroddiadau. Bydd hwn yn fater i bob partneriaeth ei ddatrys ar y cyd â'r cydgysylltydd partneriaeth priodol.

1.12 Ni fydd yr ymgynghoriad yn berthnasol i faterion gweithredol neu lle mae'r Cyngor yn arfer swyddogaeth o dan reolau Cynllunio, Trwyddedu neu Hawliau Tramwy. Mae'r rheolau hyn yn cydnabod ei bod yn anodd yn ymarferol ymgynghori os ceir cyfyngiad ar amser, yn enwedig os nad yw'r cyrff yr ymgynghorir â hwy yn cwrdd yn rheolaidd iawn. Dylid cynnal yr ymgynghoriad yn fras ar hyd llinellau'r rheiny a restrir ar gyfer cynghorau cymuned, ond gan ganolbwyntio ar faterion a fyddai'n cael effaith yn lleol yn hytrach na rhai strategol, bwrdeistref sirol-gyfan lle mae trefniadau digonol ar wahân ar gyfer ymgynghori. Mae rhestr o'r pynciau ar gyfer ymgynghori i'w gweld yn Atodiad 2. Bydd cydgysylltwyr partneriaeth y Cyngor yn rhoi gwybod i'r Tîm Rheoli Corfforaethol am unrhyw adroddiad ychwanegol (y tu allan i delerau Atodiad 2) a ddylai fod yn destun ymgynghoriad gyda'r partneriaethau cymunedol.

1.13 Yn amlwg bydd angen i'r partneriaethau fod â threfniadau ar waith i ymdrin ar frys ag ymgynghoriad (efallai trwy ddirprwyaethau i gadeirydd ac is-gadeirydd y partneriaethau). Byddai'n briodol i bartneriaethau, o dan amgylchiadau penodol lle mae'r cadeirydd neu is-gadeirydd yn aelod etholedig o'r Cyngor hwn, roi eu trefniadau eu hunain ar waith i unigolyn arall eilyddio dros y Cynghorydd, er mwyn sicrhau y gwelir ymateb y bartneriaeth yn un sy'n annibynnol ar y Cyngor hwn. Ystyrir cyfnod o bythefnos yn ddigonol ar gyfer cynnal ymgynghoriad.

1.14 (g) Y Sector Gwirfoddol a Chymunedol

Mae'r Cyngor wedi llofnodi compact gyda gwahanol sefydliadau statudol a sefydliadau yn y sector gwirfoddol a chymunedol, er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni Strategaeth Gymunedol Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae ymgynghori yn elfen o hynny, yn yr un ffordd ag y mae'n elfen o'r partneriaethau cymunedol (uchod).

1.15 Caiff cysylltiadau â'r sector gwirfoddol eu cydgysylltu trwy'r Uned Polisi, yn gweithio gyda Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent fel y corff "ymbarél" cydnabyddedig. Fel rhan o'r rôl honno, bydd staff yn yr Uned Polisi yn monitro adroddiadau drafft ac yn nodi'r rhai a fyddai o ddiddordeb i'r sector gwirfoddol (nid wedi'u cyfyngu i faterion lleol o angenrheidrwydd) a bydd yr aelodau hynny o'r staff yn sicrhau bod cyswllt â Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent er mwyn cyfrannu unrhyw sylwadau neu i dynnu sylw at broblemau posibl o safbwynt y sector gwirfoddol. Caiff y gwaith o weithredu'r broses hon ei adolygu'n rheolaidd.

1.16 (h) Pobl hŷn ac iau

Mae'r Cyngor yn cynnal Fforwm Ieuenctid a Fforwm 50+ i gynorthwyo pobl ifanc a phobl hŷn i gymryd rhan mewn trafodaethau am y Fwrdeistref Sirol. Mae gan y Cyngor swyddogion cyswllt sy'n cysylltu â'r grwpiau hyn ac yn eu cynorthwyo, a gallant weithredu yn y ffordd a ddisgrifir uchod ar gyfer y sector gwirfoddol. Gallant edrych ar adroddiadau sydd i ddod ac ymgynghori â chadeirydd ac is-gadeirydd y grwpiau lle gwelant fod angen ceisio barn gan bobl ifanc neu bobl hŷn. Caiff y gwaith o weithredu'r broses hon ei adolygu'n rheolaidd.

1.17 Ceisiadau Cynllunio

Mae proses ymgynghori statudol yn bodoli eisoes ar gyfer ceisiadau cynllunio. Ni fydd y rheolau uchod yn berthnasol i'r broses rheoli datblygu.

1.18 Penderfyniadau Pwerau Dirprwyedig

Mae'r rheolau ar ymgynghori yr un mor berthnasol i benderfyniadau a wneir o dan bwerau dirprwyedig, ac atgoffir awduron adroddiadau yn gryf fod angen ymgynghori priodol. Fodd bynnag, bydd mwyafrif llethol y penderfyniadau a wneir o dan bwerau dirprwyedig yn rhai mwy gweithredol neu'n fater o drefn, ac felly ni fydd yr ymgynghoriad "strategol" â'r pwyllgorau craffu ac â phartneriaethau, fel y'i disgrifir uchod, yn berthnasol.

1.19 Y Broses Ymgynghori

Rhaid i'r bartïon sy'n ymwneud â'r broses ymgynghori (awduron adroddiadau ac ymgynghoreion) gofio natur y broses ymgynghori, sef bod yr ymgynghorai'n cael gwybodaeth ddigonol am yr hyn a gynigir gan awdur yr adroddiad (trwy anfon copi o'r adroddiad drafft, o ddewis), ac wedyn bod sylwadau'r ymgynghorai yn cael eu hymgorffori'n briodol yn yr adroddiad neu eu nodi ym mharagraff "ymgynghoriadau" yr adroddiad, fel bod y sawl sy'n gwneud y penderfyniad yn ymwybodol o farnau'r holl bartïon â diddordeb. Mae'n bwysig nodi y gwneir hyn er mwyn sicrhau bod y penderfynwr yn ymwybodol o, ac yn ystyried barnau yr holl bartïon â diddordeb; nid yw'n dilyn y bydd y corff sy'n gwneud penderfyniad yn ei wneud yn awtomatig yn unol â'r atebion hynny i'r ymgynghoriad.

1.20 Yn olaf, mae'n bwysig nodi y dylai'r ymgynghoriad fod yn broses ddwyffordd. Gall gweithredoedd a gweithgareddau'r grwpiau y cyfeirir atynt yn (e) i (h) fod â goblygiadau i'r Cyngor hefyd. Yn yr un modd ag y mae'r Cyngor yn bwriadu ymgynghori â'r grwpiau hyn, mae hefyd angen iddynt ystyried pryd y mae'n briodol iddynt hwythau ymgynghori â'r Cyngor, yn enwedig os yw gweithredoedd a gweithgareddau arwyddocaol yn cael eu cynllunio. Dylid trafod y pwynt hyn gyda'r grwpiau fel rhan o'r ddeialog gyffredinol ynghylch trefniadau ymgynghori.

Atodiadau:

- Atodiad 1 Protocol ymgynghori â Chynghorau Cymuned
- Atodiad 2 Protocol ymgynghori â Phartneriaethau Cymunedol

PYNCIAU AR GYFER YMGYNGHORI – CYNGHORAU TREF A CHYMUNED

Y Prif Weithredwr	• Strategaeth Gymunedol • Cynllun Iaith Gymraeg Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili • Amcanion Gwella • Datblygu Economaidd/Twristiaeth
Cynllunio	• Y Cynllun Datblygu • Ceisiadau am ganiatâd cynllunio (ar restr wythnosol) • Ceisiadau am ganiatâd adeiladau rhestredig; cynigion am ychwanegiadau i'r rhestr adeiladau rhestredig • Sefydlu mannau cadwraeth; gorchmynion diogelu coed • Rheoli hysbysebion • Enwi strydoedd
Hamdden Lleol neu gyfleusterau eraill	• Newid defnydd mawr neu gau cyfleuster hamdden neu gau caeau chwaraeon • Newid defnydd mawr neu gau canolfannau cymunedol neu gyfleusterau cymunedol • Trefniadau newydd mawr neu newidiadau i fannau chwarae • Mentrau a datblygiadau newydd mawr i'r ddarpariaeth gelfyddydol leol • Agor, cau neu newid neu amserau agor llyfrgelloedd (gan gynnwys llyfrgelloedd symudol) • Prosiectau cymunedol sy'n gysylltiedig â lleoliad neu gymuned benodedig
Addysg	• Cynigion ar gyfer agor neu gau ysgolion o dan reolaeth, neu a gyllidir gan, yr awdurdod lleol
Rheoli Gwastraff, Casglu Gwastraff a Glanhau	• Newidiadau mawr a dulliau newydd o gyflwyno gwasanaethau casglu a gwaredu sbwriel domestig gan gynnwys datblygu cyfleusterau trin a gwaredu newydd • Newidiadau mawr a dulliau newydd o lanhau strydoedd neu glirio sbwriel • Newidiadau i ddarpariaeth a lleoliad cyfleusterau ailgylchu • Darparu toiledau cyhoeddus
Iechyd yr Amgylchedd, Safonau Masnach a Diogelwch Cymunedol	• Sefydlu neu diddymu parthau rheoli sbwriel • Sefydlu parthau "Dim galw diwahoddiad" • Sefydlu Ardal Rheoli Ansawdd Aer • Ceisiadau am gymeradwyaeth flaenorol i waith adeiladu
Priffyrdd, Mynediad a Thrafnidiaeth Gyhoeddus	• Cynlluniau mawr i gynnal a chadw priffyrdd; trefnau cynnal a chadw priffyrdd yn y gaeaf • Cynlluniau rheoli traffig mawr, cynlluniau diogelwch ar y ffyrdd

	• Cau neu wro priffyrdd yn barhaol (gan gynnwys llwybrau troed, llwybrau ceffylau, llwybrau beiciau a phriffyrdd bach eraill) • Newidiadau i drefniadau parcio (gan gynnwys parcio ar ac oddi ar y stryd) • Gwasanaethau bysiau a gefnogir gan yr awdurdod lleol, cysgodfannau bysiau yr awdurdod lleol • Newidiadau i wasanaethau trên lle cânt eu hysbysu i'r awdurdod a'u cefnogi ganddo
Cyffredinol	• Gwaredu tir (gwerthu neu lesio) • Meysydd eraill o fusnes y Cyngor nas nodir yn fanwl sy'n allweddol ac yn hanfodol i fwyafrif y wardiau sydd â chynghorau cymuned/tref.

PYNCIAU AR GYFER YMGYNGHORI – PARTNERIAETHAU CYMUNEDOL

Hamdden Lleol neu gyfleusterau eraill	• Newid defnydd mawr neu gau cyfleuster hamdden neu gau caeau chwaraeon • Newid defnydd mawr neu gau canolfannau cymunedol neu gyfleusterau cymunedol • Trefniadau newydd mawr neu newidiadau i fannau chwarae • Mentrau a datblygiadau newydd mawr i'r ddarpariaeth gelfyddydol leol • Agor, cau neu newid neu amserau agor llyfrgelloedd (gan gynnwys llyfrgelloedd symudol) • Prosiectau cymunedol sy'n gysylltiedig â lleoliad neu gymuned benodedig Noder: os yw cyfleusterau'n cau am resymau gweithredol neu gyllidebol, bydd y Cyngor yn rhoi gwybod i'r ymgynghoreion am y cynigion; bydd canlyniadau'r penderfyniadau hynny (e.e. ôl-ddefnyddio adeiladau) yn destun ymgynghoriad.
Addysg	• Cynigion ar gyfer agor, cau neu uno ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol a chyfleuster addysg i oedolion a reolir neu a gyllidir gan yr awdurdod lleol
Glanhau, lechyd a Llygredd	• Newidiadau mawr a dulliau newydd o lanhau strydoedd neu glirio sbwriel • Sefydlu neu ddiddymu parthau rheoli sbwriel • Darpariaeth a lleoliad cyfleusterau ailgylchu • Sefydlu parthau lleihau sŵn
Priffyrdd, Mynediad a Thrafnidiaeth Gyhoeddus	• Cau neu wyro priffyrdd yn barhaol (gan gynnwys llwybrau troed, llwybrau ceffylau, llwybrau beiciau a phriffyrdd bach eraill) • Newidiadau i drefniadau parcio (gan gynnwys parcio ar ac oddi ar y stryd) • Gwasanaethau bysiau a gefnogir gan yr awdurdod lleol, cysgodfannau bysiau yr awdurdod lleol • Newidiadau i wasanaethau trên lle cânt eu hysbysu i'r awdurdod a'u cefnogi ganddo • Cynlluniau diogelwch ar y ffordd lleol
Cyffredinol	• Gwaredu tir (gwerthu neu lesio) • Diogelwch cymunedol